Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

## GŴYS A RHAGLEN

ar gyfer

**CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

a gynhelir yn rhithiol

ar

**DYDD MAWRTH 27 HYDREF 2020**

**am 10.30 o'r gloch yb**

## SUMMONS AND AGENDA

for an

**EXTRAORDINARY MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

to be held virtually

on

**TUESDAY 27 OCTOBER 2020**

**at 10.30 am**

**Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei wê-ddarlledu'n fyw. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosib.**

# R H A G L E N

1. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

3. **DATGANIAD O'R CYFRIFON 2019/20 AC ADRODDIAD ISA 260**

• Cyflwyno Datganiad o'r Cyfrifon 2019/20, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 13 Hydref 2020.

• Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol ar y Datganiadau Ariannol (Adroddiad ISA 260), fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 13 Hydref 2020.

4. **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2019/20**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 28 Medi 2020.

5. **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2019/20**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD a Thrawsnewid), fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 26 Hydref 2020.

6. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR AR EFFEITHIOLRWYDD Y GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL 2019/20**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 28 Medi 2020.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR YNYS MON** |
| **DYDDIAD:** | **27 HYDREF 2020** |
| **PWNC:** | **DATGANIAD CYFRIFON 2019/20** |
| **DEILYDDION PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD ROBIN W. WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO (CYLLID)** |
| **SWYDDOGION SY'N ARWAIN:** | **R MARC JONES** |
| **SWYDDOGION CYSWLLT:** | **CLAIRE KLIMAZEWSKI** ClaireKlimazewski@ynysmon.gov.uk |

**Natur a rheswm dros adrodd**

Blaen adroddiad ar gyfer cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon, yn nodi'r prif faterion sy'n codi ers cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon Drafft 2019/2020.

## 1. Cefndir

**1.1** Cyflwynwyd Datganiad Cyfrifon Drafft 2019/20 Cyngor Sir Ynys Môn i archwilwyr allanol y Cyngor ar gyfer eu harchwilio ar 6 Gorffennaf 2020. Mae'r gwaith archwilio manwl bellach wedi ei gwblhau yn sylweddol a chyhoeddwyd adroddiad yr Archwiliwr, ac mae nifer fach o ddiwygiadau i'r drafft wedi'u hymgorffori yn y Cyfrifon.

**1.2** Ar yr amod y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn eu cadarnhau, bydd y Cyfrifon yn cael eu llofnodi gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a Chadeirydd y Cyngor a'u cyhoeddi ar ôl derbyn Barn yr Archwiliwr.

## 2. Ansawdd y Broses

**2.1** Mae'r dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau Datganiad Cyfrifon 2019/20 wedi ei gyrraedd unwaith eto. Roedd newid i'r dyddiad cwblhau'r archwiliad eleni o 15 Medi 2020 i 30 Tachwedd 2020 oherwydd y pandemig Covid-19.

**2.2** Mae gwelliannau wedi eu gwneud a gafodd eu hadnabod gan y broses archwilio'r llynedd ac mae'r gwelliannau hyn wedi parhau. Cafodd yr holl faterion a godwyd drwy gydol y broses archwilio eu delio â nhw yn brydlon ac mewn modd boddhaol. Cynhyrchwyd y papurau gwaith i safon uchel.

## 3. Diwygiadau i'r Cyfrifon ers y Drafft ar 15 Mehefin 2020

**3.1** Mae'r manylion am y prif diwygiadau i'r cyfrifon drafft i'w gweld yn Adroddiad yr Archwiliwr yn Atodiad 3. Proseswyd yr holl ddigwygiadau y cytunwyd oedd hangen eu hail-ddatgan gan Deloitte ac maent wedi eu cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

**3.2** Nid oedd angen gwneud unrhyw ddiwygiadau sylweddol i'r datganiad drafft. Ar y cam yma, ni wnaed unrhyw newidiadau i refeniw na chyfalaf, felly, mae'r prif ddatganiadau ariannol yn parhau'r un fath.

## 4. Argymhellion yr Archwiliwr

**4.1** Mae'r Archwilwyr, yn dilyn eu gwaith ar y Datganiad Cyfrifon, wedi gwneud :-

Un argymhelliad mewn perthynas â materion TGCh.

**4.2** Mae'r argymhelliad yma wedi ei gynnwys yn Adroddiad yr Archwiliwr yn Atodiad 3.

## 5. Argymhellion

**5.1** Derbyn y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2019/20 a rhoi'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) /Swyddog Adran 151 lofnodi'r cyfrifon.

**5.2** Nodi bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2019/20 a chyfeirio'r ddogfen at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w llofnodi.

**MARC JONES** **1 MEDI 2020**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**

# Ynys Môn

# THE ISLE OF Anglesey

## Datganiad o'r Cyfrifon

## 2019/20










CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.gov.uk www.anglesey.gov.uk

cyngormon
ioacc

@cyngormon
@angleseycouncil

# Cynnwys


| Cyfeirnod | Disgrifiad | Tudalen |
|---|---|---|
| | Adroddiad Naratif | 1 |
| | Datganiad O Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon | 18 |
| | Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol | 19 |
| | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 21 |
| | Dadansoddiad Gwariant a Chyllido | 22 |
| | Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn | 23 |
| | Y Fantolen | 24 |
| | Datganiad Llif Arian | 25 |
| | Nodiadau i'r Cyfrifon | 26 |
| Nodyn 1a | Nodyn ar y Dadansoddiad Gwariant a Chyllido | 28 |
| Nodyn 1b | Incwm Cylchrannol | 29 |
| Nodyn 2a | Safonau Cyfrifo sydd weedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu hyd yma | 29 |
| Nodyn 2b | Safonau Cyfrifo sydd wedi eu cyhoeddi a'u mabwysiadu | 30 |
| Nodyn 3 | Barnau Allweddol wrth weithredu'r Polisiiau Cyfrifo | 30 |
| Nodyn 4a | Rhagdybiaethau a wnaed ynghylch ansicrwydd yn y dyfodol ac amcangyfrifon a ffynonellau eraill o ansicrwydd | 31 |
| Nodyn 4b | Addasiadau ar gyfer y cyfnod blaenorol, newidiadau mewn polisïau cyfrifo ac amcangyfrifon a chamgymeriadau | 33 |
| Nodyn 5 | Eitemau Perthnasol o Incwm a Gwariant | 33 |
| Nodyn 6 | Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen | 33 |
| Nodyn 7 | Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo a Sail Cyllido dan Reoliadau | 36 |
| Nodyn 8 | Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | 38 |
| Nodyn 9 | Balansau Ysgolion | 38 |
| Nodyn 10 | Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | 38 |
| Nodyn 11 | Cronfeydd wrth Gefn Na Ellir Eu Defnyddio | 38 |
| Nodyn 12 | Gwariant Gweithredol Arall | 42 |
| Nodyn 13 | Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi | 43 |
| Nodyn 14 | Incwm Treth a Grantiau Amhenodol | 43 |
| Nodyn 15 | Asedau anghyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar | 44 |
| Nodyn 16 | Ymrwymiadau Cyfalaf Sylweddol | 46 |
| Nodyn 17 | Asedau Treftadaeth | 47 |
| Nodyn 18 | Eiddo Buddsoddiad | 48 |
| Nodyn 19 | Asedau Annirweddol | 50 |
| Nodyn 20 | Gwariant Cyfalaf a Chyllido | 52 |
| Nodyn 21 | Asedau a Ddelir i'w Gwerthu | 53 |
| Nodyn 22 | Prydlesau | 53 |
| Nodyn 23 | Rhestrau stoc | 53 |
| Nodyn 24 | Dyledwyr | 54 |
| Nodyn 25 | Arian Parod a Chywerthoedd Arian | 54 |
| Nodyn 26 | Credydwyr | 54 |
| Nodyn 27 | Darpariaethau | 55 |
| Nodyn 28 | Llif Arian o Weithgareddau Gweithredol | 56 |
| Nodyn 29 | Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi | 56 |
| Nodyn 30 | Llif Arian o Weithgareddau Cyllido | 56 |
| Nodyn 31 | Nodyn Ar Natur y Gwariant | 58 |
| Nodyn 32 | Gweithrediadau  Masnachol | 60 |
| Nodyn 33 | Lwfansau Aelodau | 60 |
| Nodyn 34 | Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion | 60 |

| Cyfeirnod | Disgrifiad | Tudalen |
|---|---|---|
| Nodyn 35 | Pecynnau Ymadael | 62 |
| Nodyn 36 | Ffioedd Archwilio Allanol | 63 |
| Nodyn 37 | Incwm Grantiau | 64 |
| Nodyn 38 | Partïon Cysylltiedig | 66 |
| Nodyn 39 | Cronfeydd Ymddiriedol | 68 |
| Nodyn 40 | Cynllun Pensiwn Athrawon | 70 |
| Nodyn 41 | Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig Llywodraeth Leol | 70 |
| Nodyn 42 | Rhwymedigaethau Wrth Gefn | 77 |
| Nodyn 43 | Asedau Wrth Gefn | 78 |
| Nodyn 44 | Offerynnau Ariannol | 78 |
| Nodyn 45 | Natur a maint y risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol | 84 |
| Nodyn 46 | Cyd-bwyllgorau | 89 |
| Nodyn 47 | Troi Tai'n Gartrefi | 90 |
| Nodyn 48 | Y Dreth Gyngor | 91 |
| Nodyn 49 | Trethi Annomestig (TA) | 92 |
| Nodyn 50 | Morwrol | 92 |
| Nodyn 51 | Polisïau Cyfrifo | 93 |
| Cyfrif CRT | Cyfrif Refeniw Tai (CRT)<br>- Datganiad Incwm a Gwariant<br>- Datganiad Symudiadau ar Falans y CRT<br>Nodiadau ar y CRT | 117 |
| Atodiad 1 | Datgeliad Parti Cysylltiedig – Cynrychiolaeth Cydranddeiliaid gyda Sefydliadau Trydydd Parti | 120 |
| Atodiad 2 | Geirfa | 123 |
| Atodiad 3 | Llyfryddiaeth | 131 |
| | Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20 | 132 |

# Adroddiad Naratif

Cyhoeddir y Datganiad Cyfrifon bob blwyddyn er mwyn rhoddi i etholwyr, trethdalwyr lleol, Aelodau'r Cyngor, gweithwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb, wybodaeth glir ynghylch sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei archwilio'n allanol cyn i'r fersiwn derfynol gael ei chymeradwyo a'i chyhoeddi er mwyn rhoi sicrwydd fod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o berfformiad ariannol y Cyngor. Nod yr adroddiad naratif hwn, sy'n rhan allweddol o'r cyfrifon, yw darparu canllawiau effeithiol i'r materion pwysicaf yr adroddir arnynt yn y cyfrifon. Gwneir hyn er mwyn darparu esboniad teg, cytbwys a hawdd i'w ddeall o sefyllfa ariannol y Cyngor ac i gynorthwyo i ddehongli'r datganiadau ariannol. Yn ogystal, mae'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am y Cyngor yn gyffredinol a'r prif ddylanwadau ar y datganiadau ariannol er mwyn darparu cyswllt rhwng gweithgareddau a heriau'r Cyngor a'r modd y mae'r rhain yn effeithio ar ei adnoddau ariannol.

Mae'r adroddiad naratif wedi'i strwythuro fel a ganlyn:-

**1.** Y Fframwaith Statudol;
**2.** Gwybodaeth am Gyngor Sir Ynys Môn;
**3.** Trosolwg a dadansoddiad o berfformiad;
**4.** Y Prif faterion sy'n effeithio ar Gyfrifon 2019/20;
**5.** Eglurhad o'r datganiadau ariannol;
**6.** Effaith y pandemig Covid-19

## 1. Y Fframwaith Statudol

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i gymeradwyo a chyhoeddi Datganiad Cyfrifon. Mae'r tudalennau a ganlyn yn ymwneud â'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.


Daeth Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 i rym ar 31 Mawrth 2015, fel y cawsant eu diwygio gan Reoliadau Gyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018 am y flwyddyn gyfrifo 2015/16 a chyfnodau yn y dyfodol. Yn unol â'r rheoliadau hyn, rhaid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru baratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â'r rheoliadau hyn ac arferion priodol.

Mae Rheoliad 25 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifo) (Cymru) 2003 (OS 2003/3239 (W.319), fel y cawsant eu diwygio) yn nodi arferion priodol ar gyfer paratoi Datganiad Cyfrifon. Mae'r arferion hyn yn cynnwys yn bennaf y Côd Ymarfer ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20 a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA), wedi eu cefnogi gan y Safonau Rhyngwladol ar gyfer Adrodd ar Faterion Ariannol (IFRS). Yn ogystal, mae'r naratif hwn yn cynnwys canllawiau o Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi (FReM), Adrannau 5.2.1 i 5.2.10 fel yr anogir gan gôd CIPFA.

## 2. Gwybodaeth am Gyngor Sir Ynys Môn


Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn awdurdod unedol sy'n gwasanaethu poblogaeth o tua 70,000, mae wedi'i leoli ar arfordir gogleddol Cymru ac mae'n ardal sy'n 276 milltir sgwâr. Ynys Môn yw'r ynys fwyaf yng Nghymru o bell ffordd ar seithfed ynys fwyaf ym Mhrydain. Ynys Môn hefyd yw'r ynys fwyaf ym Môr Iwerddon o ran maint a'r ail ynys fwyaf poblog ym Mhrydain.

Mae gan Ynys Môn boblogaeth ychydig yn hŷn na chyfartaledd Cymru (20.77%) gyda 25.72% o'r boblogaeth dros 65 oed. Mae'r ffigwr hwn yn adlewyrchiad o gynllun y Cyngor i gefnogi pobl i fyw'n dda ac am gyfnod hirach o amser.




Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod trigolion, busnesau ac ymwelwyr â'r Ynys yn cael amrywiaeth eang o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys addysg, diogelu plant ac oedolion bregus, gofal cymdeithasol, iechyd cyhoeddus, priffyrdd, hamdden, diwylliant, casglu gwastraff, cynllunio, gweinyddu tai, budd-daliadau, adfywio ac ymgysylltiad cymunedol. Yn ogystal â darparu gwasanaethau, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am gasglu trethi lleol ar ffurf y Dreth Gyngor a Threthi Annomestig ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor yn sefydliad a arweinir yn wleidyddol ac mae wedi mabwysiadu model Arweinydd a Chabinet. Mae ganddo 30 o Aelodau etholedig sy'n cynrychioli 11 o wardiau aml-Aelod ar draws y Sir. Yn dilyn yr etholiad ym Mai 2017, mae'r Cyngor wedi gweithredu o dan weinyddiaeth clymblaid Plaid Cymru a'r Grŵp Annibynnol. Mae dosbarthiad gwleidyddol y Cyngor fel ar 31 Mawrth 2020 i'w weld isod:-



## 3. Trosolwg a Dadansoddiad o Berfformiad

### 3.1 Datganiad gan Arweinydd y Cyngor

Fel Arweinydd y Cyngor, fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau bod y garreg filltir bwysig o gynhyrchu'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol yn cael ei chyflawni ar amser bob blwyddyn. Mae'r cyfrifon yn darparu llawer iawn o wybodaeth ariannol am y modd y cafodd y Cyngor ei gyllido a sut y gwariwyd yr arian hwnnw yn ystod 2019/20. Mae'n bwysig o ran atebolrwydd i'r Cyngor ddarparu'r wybodaeth hon ar gyfer preswylwyr, trethdalwyr lleol, busnesau sy'n talu trethi annomestig a chydranddeiliaid eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Caiff y Cyngor ei gyllido drwy gymysgedd o gyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw a chyfran y Cyngor o'r gronfa Trethi Anomestig, trethi lleol drwy'r Dreth Gyngor a ffioedd a thaliadau a delir gan gwsmeriaid y Cyngor. Yn 2019/20, cynyddwyd cyllideb net y Cyngor o £4.3m i roi cyfanswm o £135.2m, a daeth £39.4m o'r swm hwnnw o'r Dreth Gyngor. Roedd cynnydd o 9.5% ar y Dreth Gyngor.

Buddsoddwyd £1.4m o'r gyllideb ychwanegol yn Gwasanaethau Plant. Trwy wneud hyn, a hefyd trwy fesurau rheoli gwariant eraill a weithredwyd gan y Gwasanaeth, daeth gwariant y Gwasanaeth yn agos â'r gyllideb gymeradwy, sydd yn welliant sylweddol ar y blynyddoedd ariannol blaenorol. Fodd bynnag, parhaodd y galw am wasanaethau gynyddu yng Ngwasanaethau Oedolion, a gwelwyd gorwariant o £1.085m neu 4.3%. Cadwodd y mwyafrif o'r gwasanaethau eraill eu gwariant ar neu yn agos at eu cyllidebau cymeradwy neu roeddent wedi tanwario'n sylweddol. Yn gyffredinol, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd tanwariant o £0.308m ac roedd balans Cyffredinol y Cyngor o £7.06m. Gostyngodd balansau ysgolion hefyd i £197k ac roedd £8.760m o arian wrth gefn a glustnodwyd a rhai dynodedig.

Mae'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn yn arwydd o'r pwysau ariannol cynyddol y mae'r Cyngor yn ei wynebu ac, er bod cyllid ychwanegol wedi cael ei neilltuo i wasanaethau yn 2020/21, mae'n bosib na fydd yr arian ychwanegol hwn yn ddigon i gwrdd â chost y cynnydd yn y galw am wasanaethau y gallai'r Cyngor ei wynebu. Mae'r argyfwng Coronafirws wedi creu ansicrwydd pellach ynglŷn â'r sefyllfa ariannol, gan gynnwys yr effaith ar incwm yn ogystal â'r gwariant fydd ei angen yn ystod y cyfnod adfer. Gall hyn wanhau'r sefyllfa ariannol yn bellach.

Mae sefyllfa Cyfrif Refeniw Tai y Cyngor yn iach, gyda £8.597m yn y gronfa wrth gefn ar hyn o bryd. Mae'r ffigwr hwn yn uwch nag a gynlluniwyd oherwydd llithriad yn y rhaglen i adeiladu eiddo newydd. Bydd balans y gronfa wrth gefn hon yn lleihau yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth i'r rhaglen ddatblygu gyflymu. Mae cynlluniau i ddefnyddio'r Cyfrif Refeniw Tai wedi eu nodi yng nghynllun busnes 30 mlynedd y Cyngor sy'n cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn.

Mae'r dyfodol o ran cyllido'r sector cyhoeddus yn parhau'n ansicr, yn arbennig felly effaith yr argyfwng Coronafirws a'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd ar economi'r DU. Nid yw'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU wedi ei gyhoeddi eto ond disgwylir bydd hwn yn rhoi arwydd cliriach o'r cyllid fydd ar gael i Gymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer unrhyw gynnydd sylweddol yn y cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn ystod y 3 blynedd nesaf ac adlewyrchir y rhagdybiaeth honno yn Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor, sydd yn amlygu'r angen i leihau gwariant refeniw ymhellach. Oherwydd bod cronfeydd wrth gefn y Cyngor wedi edwino nid oes fawr o gyfle i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn fel ffynhonnell i gyllido yn y tymor byr. O ganlyniad, ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adolygu'r holl wasanaethau y mae'n eu darparu ac yn edrych ar ddulliau cyflenwi amgen fydd yn caniatáu i wasanaethau barhau ond am lai o gost. Bydd hyn yn cynnwys gweithio mwy mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned, Sefydliadau Cymunedol a Gwirfoddol a'r Trydydd Sector.

Er gwaetha'r anawsterau cyllido sy'n wynebu'r Cyngora'r pwysau ariannol ychwanegol trwy'r pandemig Coronafirws, fel Arweinydd y Cyngor, rwyf wedi ymrwymo i gyflawni prif amcanion Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac i weithio gyda'r 5 awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru a phartneriaid eraill er mwyn sicrhau cyllid ychwanegol gan y Llywodraeth i gyflawni'r prosiectau a nodir yn y Bid Twf Gogledd Cymru.

Ystyrir bod sefyllfa ariannol sefydliad yn ddangosydd allweddol o safon gyffredinol y llywodraethiant corfforaethol. Rwy'n hyderus y bydd y Cyngor, o ganlyniad i reolaeth ariannol gadarn, yn parhau i fod yn ariannol gryf a chynaliadwy yn y dyfodol.

**Llinos Medi Huws**
**Arweinydd y Cyngor** **Mai 2020**

## 3.2 Pwrpas a gweithgareddau allweddol y Cyngor

Cymeradwywyd y Cynllun Corfforaethol gan y Cyngor ar 27 Medi 2017. Mae'n gynllun sy'n gosod targed y dylid gweithio tuag ato. Mae'n uchelgeisiol ond yn realistig.

Mae'r cynllun yn siapio'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor, ac :-

- Mae'n gosod y fframwaith yr ydym yn ei ddefnyddio i gynllunio, gyrru a chyflawni ein gwasanaethau;
- Mae'n dylanwadu'r modd yr ydym yn siapio ein cyllideb yn flynyddol; ac
- Yn ein helpu i fonitro cynnydd ac asesu'r hyn yr ydym yn ei gyflawni'n flynyddol.

Y thema allweddol drwy'r cynllun yw'r uchelgais i gydweithio gyda'n cyd-ddinasyddion, cymunedau a phartneriaid er mwyn sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel a fydd yn gwella ansawdd bywyd pawb ar yr Ynys.

Dyma'r blaenoriaethau y mae'r Awdurdod wedi eu gosod iddo ei hun ar gyfer y cyfnod hwn:-

- Creu'r amodau er mwyn sicrhau y gall pawb gyflawni eu potensial yn y tymor hir;
- Cefnogi oedolion bregus a theuluoedd er mwyn eu cadw yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib;
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol gyda newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu a'i siapio gan farn pobl leol, ein partneriaid a chan flaenoriaethau gwleidyddol lleol a chenedlaethol, megis y Rhaglen Llesiant.

Mae gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru a'r DU yn parhau i gynllunio ar gyfer toriadau yn y cyllid yr ydym yn ei dderbyn, a bydd angen gwneud mwy o benderfyniadau anodd yn y dyfodol am y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a'r modd yr ydym yn eu darparu. Byddwn yn parhau i wneud y penderfyniadau hynny mewn ymgynghoriad â phobl leol ac er lles gorau Ynys Môn a'i phobl.

Bydd y Cyngor yn parhau i edrych ar ffyrdd o wella gwasanaethau, eu gwneud yn fwy effeithiol a sicrhau eu bod o'r ansawdd gorau. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys parhau i foderneiddio'r modd yr ydym yn gweithio.

Mae sawl her o'n blaenau ond yr her fwyaf i'r Cyngor, ei bartneriaid â chymunedau yw rheoli effaith eang y Coronafirws ar iechyd, lles a'r economi. Mae'r Cyngor yn cydweithio â phobl, cymunedau ac asiantaethau Ynys Môn, ac yn gwneud popeth o fewn ei allu i amddiffyn busnes, gweithwyr ac i gefnogi unigolion bregus rhag yr argyfwng unigryw a difrifol yma.

### 3.2.1 Y Senario Ariannol

Yr un modd â'r holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru, rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn reoli sefyllfa lle mae costau a'r galw am wasanaethau'n cynyddu ond y cyllid sydd ar gael flwyddyn ar ôl blwyddyn yn lleihau. Mae'r pandemig Coronafirws wedi cynyddu'r pwysau yn ariannol ag yn weithredol ar y Cyngor ag ar hyn o bryd, mae'n aneglur i ba raddau bydd y pwysau ariannol hyn yn cael eu lliniaru trwy gyllid ychwanegol. Yn erbyn y cefndir hwn, mae angen i'r Cyngor reoli'r galw cynyddol am wasanaethau, pwysau chwyddiant, angen i fuddsoddi yn yr economi leol i hyrwyddo twf ac awydd i wella gwasanaethau'n barhaus.

Mae'r Cyngor wedi ymateb i'r gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael drwy wneud arbedion sylweddol yn ystod y tair blynedd diwethaf ac mae'n parhau i sicrhau, ble bynnag y mae hynny'n bosibl, bod yr arbedion yn cael eu cyflenwi drwy wella effeithlonrwydd yn hytrach na thorri gwasanaethau. Caiff Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) y Cyngor ei adolygu a'i adrodd arno i Aelodau ym mis Medi a mis Chwefror bob blwyddyn er mwyn helpu i gynllunio y modd y gall y Cyngor reoli ei arian gyda'r pwysau cyllidebol parhaus a'r risgiau o ran cyllido.

Roedd CATC diweddaraf y Cyngor (Medi 2019), wedi ei ddarparu yn rhagdybio na fyddai cynnydd yn y Cyllid Allanol Cyfun (CAC) a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru ond cafwyd cynnydd o 3.8% yn y setliad terfynol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw arwydd o'r lefel cyllido ar gyfer y dyfodol ac, oherwydd nad yw'r wybodaeth hon ar gael, ni wneir unrhyw rhagdybiaeth ar hyn o bryd. Mae'n debygol bydd galw am wasanaethau'r Cyngor yn parhau i gynyddu a bydd chwyddiant tâl a phrisiau hefyd yn cynyddu. Gellir gwrthbwyso rhai o'r costau ychwanegol hyn trwy gynyddu'r Dreth Cyngor ond mae'n debygol bydd angen arbedion cyllideb refeniw pellach dros y tymor canolig. Bydd y Cyngor yn cyflawni'r arbedion hyn trwy:-

- Ceisio trosglwyddo darpariaeth rhai gwasanaethau o'r Cyngor, er enghraifft, i'r Cynghorau Tref a Chymuned neu'r Trydydd Sector;
- Creu cyrff eraill sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor i ddarparu rhai gwasanaethau anstatudol;
- Parhau i foderneiddio ac adolygu ysgolion;
- Rheoli'r galw am ofal cymdeithasol a pharhau i drawsnewid gofal ar gyfer yr henoed drwy gyfleusterau gofal ychwanegol a fydd yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn lleihau'r angen am leoliadau gofal preswyl;
- Codi mwy ar ddefnyddwyr gwasanaeth;
- Rhoi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau anstatudol;
- Parhau i foderneiddio'r modd y gweinyddir gwasanaethau a chynyddu nifer y trafodion sy'n cael eu gwneud gyda'r Cyngor ar-lein neu drwy AppMôn.

### 3.3 Llwyddiannau allweddol, materion a risgiau sy'n effeithio'r Cyngor

Yn ystod 2019/20, cychwynnwyd gwaith ar y blaenoriaethau hyn ac fe lwyddwyd i gyflawni'r pethau allweddol isod yn ystod y flwyddyn ariannol:-

#### 3.3.1 Prosiectau Arfaethedig a rhai a Gwblhawyd

**3.3.1.1** Cwblhawyd y gwaith o adnewyddu Neuadd Farchnad Caergybi ac mae Llyfrgell Caergybi wedi symud i'r adeilad. Mae hyn yn rhyddhau hen safle'r llyfrgell a safle Ysgol y Parc yng nghanol tref Caergybi ac mae'r Cyngor wedi cychwyn astudiaeth dichonoldeb ar sut i ailddatblygu'r safleoedd hyn.

**3.3.1.2** Mae'r datblygiadau yn parhau ar gynllun lliniaru llifogydd tref Beaumaris a gyllidwyd yn bennaf trwy grant o Lywodraeth Cymru. Y bwriad yw cwblhau'r gwaith yn ystod haf 2020.

**3.3.1.3** Yn ogystal â chwblhau a gosod unedau busnes newydd yn Llangefni yn 2019, mae gwaith wedi cychwyn ar adeiladu unedau ychwnegol ar Barc Busnes Penrhos yng Nghaergybi. Cyllidwyd y prosiect trwy gytundeb rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru yn ogystal â chyllid yr UE.

**3.3.1.4** Mae gwaith wedi cychwyn ar ddarparu safle dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r gwaith yn cynnwys creu safle yn Star i gartrefu hyd at 10 teulu Sipsiwn a Theithwyr ar yr un adeg. Nid yw'r prosiect wedi ei dendro eto ond bwriedir i'r gwaith gychwyn yn ddiweddararch yn 2020, gyda'r safle yn weithredol o 2021 ymlaen.

**3.3.1.5** Mae nifer o gynlluniau wedi cychwyn yn ystod 2019/20 ar draws yr Ynys i ddarparu tai cymdeithasol newydd. Yn ogystal â'r Cyngor yn datblygu ac adeiladu unedau ei hun, mae'n cyd-weithio gyda datblygwyr preifat ac yn prynu unedau gorffenedig am brisiau y cytunwyd arnynt.

**3.3.1.6** Mae gan y Gwasanaeth Plant fenter newydd lle mae lleoliadau oedd gynt yn All-Sirol nawr yn cael eu lleoli mewn Tai ar yr Ynys. Rhagwelir bydd hyn yn lleihau costau rhywle rhwng £150k a £200k yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

### 3.3.2 Gweithio hefo Partneriaethau

**3.3.2.1** Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda 4 awdurdod lleol arall i sefydlu gwaith ailgylchu gwastraff newydd, sef Parc Adfer. Daeth y safle ailgylchu newydd yn weithredol o 2019/20, ac mae hwn yn brosiect lle mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau eraill ers sawl blwyddyn i ddatblygu'r safle hwn. Bydd cyflwyno'r gwaith ailgylchu newydd hwn yn arwain at dargedau ailgylchu gwell i'r Awdurdod.

**3.3.2.2** Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â'r bump awdurdod arall Gogledd Cymru ar Gais Twf Gogledd Cymru. Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd yn denu dros £240m o gyllid gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ynghyd â buddsoddiad gan y sector preifat. Fel gydag unrhyw brosiectau cyllido ar raddfa fawr, mae risgiau yn gysylltiedig â chyflawni prosiectau a chyllido unrhyw fenthyciadau sy'n ofynnol.

### 3.3.3 Sefyllfa Ariannol y Cyngor a Risgiau Cysylltiedig

**3.3.3.1** Mae'r Cyngor yn profi galw cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol. Darparwyd cyllid ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Plant yn ystod 2019/20 ond gorwariodd y Gwasanaeth Oedolion yn sylweddol yn erbyn y gyllideb a ddyranwyd iddynt. Cynyddwyd y Dreth Gyngor o 4.5% yn 2020/21 a Cyllid Allanol Cyfun (CAC) y Cyngor o 3.8% ac mae hyn wedi caniatau i'r Cyngor ddyrannu £1.028m ychwanegol i'r Gwasanaeth yn ogystal â dyraniand tuag at chwyddiant prisiau a cyllido cynydd mewn cost cyflogau. Gweithredodd y Cyngor £2.56m o arbedion refeniw yn 2019/20 gydag £0.306m arall wedi eu clustnodi ar gyfer 2020/21.

**3.3.3.2** Cydbwysedd cyffredinol y Cyngor yw £7.060m, sef 4.9% o'i gyllideb refeniw net ar gyfer 2020/21, sef cynnydd o £1.148m o'r balans cyffredinol o £5.912m ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn welliant ar y tair blynedd diwethaf lle mae balans y gronfa wrth gefn wedi datblygu trend i leihau o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r galw parhaus am wasanaethau sy'n uwch na'r lefel y caniateir ar ei gyfer yng nghyllideb refeniw'r flwyddyn gyfredol yn cynyddu'r risg y bydd y balansau hyn yn parhau i ostwng, fel yn y blynyddoedd blaenorol i lefel sy'n rhoi'r Cyngor mewn perygl ariannol sylweddol.

**3.3.3.3** Gallai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) arwain at nifer o risgiau. Ni fydd y Cyngor yn derbyn cyllid grant Ewropeaidd mwyach ac nid oes sicrwydd ynghylch unrhyw gyllid yn ei le. Gallai'r effaith ar yr economi yn sgil gadael yr UE, ag effaith y pandemig Coronafirws hefyd effeithio ar y Cyngor, gan y bydd twf economaidd gwannach yn lleihau gallu Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol.

## 3.4 Crynodeb o Berfformiad

### 3.4.1 Gwariant Refeniw

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn nodi gwariant a chyllid y Cyngor yn unol â'r gofynion cyfrifo. Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol yn erbyn gweithgaredd a gynlluniwyd ar ffurf cyfrifon rheoli'r Cyngor. Yn 2019/20, adroddwyd bod gan y Cyngor danwariant o £0.308k yn erbyn gweithgaredd a gynlluniwyd o £135.210m (cyllideb net) a'i fod wedi llwyddo i sicrhau arbedion gwerth £2.205m. Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r gyllideb derfynol ar gyfer 2019/20 ac incwm a gwariant gwirioneddol yn ei herbyn.

| Gwasanaethau | Cyllideb Blynyddol £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant Gorwariant/ (Tanwariant) £'000 |
|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 50,916 | 50,673 | (243) |
| Gwasanaethau Oedolion | 25,205 | 26,290 | 1,085 |
| Gwasanaethau Plant | 10,274 | 10,430 | 156 |
| Tai | 1,220 | 1,143 | (77) |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 14,662 | 14,305 | (357) |
| Rheoleiddio | 3,926 | 3,809 | (117) |
| Trawsnewid | 4,516 | 4,205 | (311) |
| Adnoddau | 3,053 | 2,883 | (170) |
| Busnes y Cyngor a Cyllid Corfforaethol | 21,438 | 21,164 | (274) |
| **Cyfanswm Cronfa'r Cyngor** | **135,210** | **134,902** | **(308)** |

**Dadansoddiad Goddrychol**

| Gwasanaethau | Cyllideb Flynyddol £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant Gorwariant/ (Tanwariant) £'000 |
|---|---|---|---|
| Gweithiwr | 88,157 | 89,933 | 1,776 |
| Safle | 8,424 | 8,766 | 342 |
| Trafnidiaeth | 4,032 | 5,399 | 1,367 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 30,436 | 31,173 | 737 |
| Taliadau Trydydd Parti | 45,909 | 47,070 | 1,161 |
| Trosglwyddo Taliadau | 25,790 | 24,969 | (821) |
| Fioedd a Thaliadau | (10,062) | (11,984) | (1,922) |
| Incwm Rhent | (1,507) | (1,401) | 106 |
| Trosglwyddiadau a Grantiau | (55,195) | (58,170) | (2,975) |
| Addasiadau Eraill | (774) | (853) | (79) |
| **Cyfanswm Cronfa'r Cyngor** | **135,210** | **134,902** | **(308)** |

Effaith y tanwariant oedd bod y Cyngor wedi cynyddu ei gronfeydd wrth gefn cyffredinol o £308k.

Mae'r tabl uchod yn adlewyrchu'r modd y caiff costau eu categoreiddio, eu monitro a'u rheoli o fewn y Cyngor. Mae'r Cyfrifon isod yn adrodd ar yr un gwariant ac incwm ond mewn ffurf gwahanol er mwyn cydymffurfio gyda'r gofynion allanol statudol o ran adrodd. Mae hyn yn cynnwys costau ychwanegol megis dibrisiant neu newidiadau yng ngwerth eiddo na fedrir, yn unol â'r rheoliadau, eu codi ar gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn y flwyddyn.

### 3.4.2 Gwariant Cyfalaf

Mae'r rhaglen gyfalaf yn cefnogi amcan ehangach y Cyngor i ddarparu gwasanaethau ac i gefnogi twf economaidd. Yn 2019/20, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn rhai tai o £17.282m a chymeradwywyd Rhaglen Gyfalaf ar gyfer yr CRT o £13.110m. Yn ogystal, ym Mehefin 2019, cymeradwyodd y Cyngor lithriant cyfalaf o £3.065m i'w ddwyn ymlaen o 2018/19. Ers y broses o bennu'r gyllideb, mae cynlluniau ychwanegol wedi'u hychwanegu at y rhaglen, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido drwy grantiau, a ddaeth i gyfanswm o £10.450m. Mae hyn yn dôd â chyfanswm y Gyllideb cyfalaf ar gyfer 2019/20 i £43.907m.

Mae'r rhaglen wedi gwneud cynnydd cyson yn ystod y flwyddyn, gan gyflawni cyfradd gyflawni o 68.36%. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r cynlluniau sy'n weddill yn cael eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

O'r cyfanswm gwariant hwn o £30.015m, cyfalafwyd £19.345m ac ychwanegwyd at werth asedau ar Fantolen y Cyngor. Codwyd y gweddill i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan ei fod naill ai i gefnogi asedau nad ydynt yn eiddo uniongyrchol i'r Cyngor (£1.388m) neu nad oeddent yn cynyddu gwerth i'r asedau cyfalaf (£9.282m).


Mae'r tabl isod yn dadansoddi'r gwariant sydd wedu cael ei gyfalafu:-

| Cynllun | Swm (£'000) |
|---|---:|
| Band A Ysgol 21ain Ganrif – Ysgol Santes Dwynwen | 243 |
| Band A Ysgol 21ain Ganrif – Ysgol Llangefni: Corn Hir a Bodffordd | 14 |
| Adeilad Modiwlaidd (Morswyn) – Gofal i blant rhwng 2 a 11 oed | 464 |
| Adeilad Modiwlaidd (Pencarnisiog) – Gofal i blant rhwng 2 a 11 oed | 416 |
| Adeilad Modiwlaidd (Y Tywyn) – Gofal i blant rhwng 2 a 11 oed | 127 |
| Adeilad Modiwlaidd (Esceifiog) – Gofal i blant rhwng 2 a 11 oed | 30 |
| David Hughes Cae 3G | 76 |
| Ystafell Ffitrwydd Plas Arthur | 27 |
| Offer Pêl-fasged Caergybi | 16 |
| Unedau Diwydiannol Penrhos | 1,945 |
| Unedau Diwydiannol Llangefni | 75 |
| System Cynllunio | 42 |
| Ysgogiad Economaidd – Safle Porth Bryn Cefni | 532 |

| Cynllun | Swm (£'000) |
|---|---|
| Cerbydau | 103 |
| Ailwynebu Priffyrdd | 1,848 |
| Llwybr Beicio Llangefni | 151 |
| Mapio Teithio Gweithredol | 350 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 103 |
| Cronfa Drafnidiaeth Leol – Danfon disgyblion i'r ysgolion | 50 |
| A545 Astudiaeth Gwydnwch | 44 |
| Maes Awyr Môn | 312 |
| Gweithiau ar Raddfa Bach - Preswylfa | 111 |
| Maes Hafoty Llansadwrn – Amddiffyn rhag Llifogydd | 145 |
| Lliniaru Llifogydd Biwrmares | 2,346 |
| Lliniaru Llifogydd Pentraeth | 403 |
| Astudiaethau Traenio- Caergybi ac Amlwch | 40 |
| Cyfleuster Parcio a Theithio Gaerwen | 601 |
| Buddsoddi I Arbed - Cerbydau | 77 |
| Gweithiau ar Raddfa Bach – Mill Lane Grillage | 95 |
| Diogelwch Ffyrdd | 228 |
| Rhaw llwytho newydd | 180 |
| Mân-Ddaliadau | 88 |
| TG - Prosiectau | 1,297 |
| Neuadd y Farchnad | 689 |
| Safle Preswyl i Sipsiwn a Theithwyr | 255 |
| Prynu Gorfodol - Cynllun Peilot Tai | 223 |
| Prynu Eiddo Presennol a Datblygu Eiddo Newydd | 5,599 |
| **Cyfanswm** | **19,345** |

Nodyn ynghylch cyfleusterau benthyca cyfredol a benthyca cyfalaf yr Awdurdod:-

| **Cyllidir Gan:** | **Swm £'000** |
|---|---:|
| Benthyca Digefnogaeth | 243 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 364 |
| Grant Cyfalaf | 13,484 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 605 |
| Cyfraniad Refeniw | 4,468 |
| Arian Wrth Gefn Cyfalaf | 181 |
| **Cyfanswm** | **19,345** |




Ar 31 Mawrth 2020, roedd gan yr Awdurdod £139.232m o Fenthyciadau Allanol. Ar y pryd, roedd Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) yr Awdurdod, sydd, yn ei hanfod, yn fodd o fesur angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca, yn £136.904m. Ar gychwyn mis Mawrth 2020, benthycodd y Cyngor £10m ychwanegol i gyllido gwariant cyfalaf cynllunedig hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol ond, yn dilyn y pandemig byd-eang, roedd gwariant cyfalaf yn y mis olaf yn is na'r disgwyl ac, o ganlyniad, roedd benthyca allanol yn fwy na'r GCC. Roedd y benthyciad am gyfnod o flwyddyn a bydd yn cael ei ad-dalu yn 2020/21. Felly, bydd lefel y benthyca allanol yn disgyn yn is na'r GCC yn ystod 2020/21 wrth i fenthyca allanol gael ei ad-dalu a trwy wariant cyfalaf ail gychwyn. Yn y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2020/21, y Terfyn Benthyca awdurdodwyd gan y Cyngor oedd £178m, felly, mae'r Awdurdod yn gyfforddus o fewn ei drothwy benthyca.

**Crynodeb o ffynonellau cyllido mewnol ac allanol sydd ar gael i'r Awdurdod gyflawni ei gynlluniau gwariant cyfalaf ac ymrwymiadau ariannol eraill**

Ar 31 Mawrth 2020, roedd ffynonellau cyllido mewnol yr Awdurdod yn cynnwys arian yn y banc a buddsoddiadau eraill gwerth £23.045m. Roedd £139.232m wedi ei fenthyca'n allanol.

### 3.4.3 Y Fantolen

Mae mantolen y Cyngor yn dangos sefyllfa ariannol dda ar ddiwedd 2019/20 gyda gwerth net o £188.286m. Mae hyn yn gynnydd o £25.830m o gymharu â'r llynedd. Cynyddodd gwerth asedau tymor hir y Cyngor (eiddo, peiriannau ac ati) £18m. Mae hyn yn cynnwys Neuadd y Farchnad, Caergybi, a ddenodd gyllid grant sylweddol ac sydd yn weithredol erbyn hyn. Yn ogystal, mae'n cynnwys Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch, sydd newydd ei hadeiladu ac sydd yn brosiect Ysgol 21fed Ganrif a gyllidwyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Ailbrisiwyd asedau cyfredol hefyd. Cynyddodd asedau tymor byr, fel arian parod a gynyddodd oddeutu £9m.

Mae manylion asedau a rhwymedigaethau tymor hir a tymor byr y Cyngor yn cael eu dangos yn y Fantolen fel ar 31 Mawrth 2020.

**Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae'r cynnydd o £25.830m yng ngwerth net y Cyngor a nodi'r uchod yn ganlyniad o gynnydd o £24.730m mewn cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio yn gysylltiedig i'r cynyddiadau yn asedau tymor hir a drafodwyd uchod a chynnydd o £1.100m mewn balansau a ellir eu defnyddio (gan gynnwys y CRT).

## 4 Y Prif Faterion o Gyfrifon 2019/20

Gosododd y Cyngor gyllideb net o £135.210m ar gyfer 2019/20 i'w chyllido o gyfuniad o Incwm o'r Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Roedd y gyllideb yn cynnwys gofyniad i sicrhau arbedion o £2.561m, a ymgorfforwyd yng nghyllidebau'r gwasanaethau unigol. Y sefyllfa alldro oedd tanwariant o £0.308k. Mae'r tanwariant yn cynnwys tan neu orwariant yn yr adrannau, arian wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl na chafodd ei ddefnyddio ac unrhyw eitemau unwaith-ac-am-byth eraill a nodwyd yn ystod y flwyddyn ariannol.

**Coronafirws**

Roedd cyllid y Cyngor yn weddol sefydlog yn ystod y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, yr argyfwng coronafirws sy'n effeithio ar y Cyngor ym mis olaf blwyddyn ariannol 2019/20 yw'r mater unigol mwyaf sy'n wynebu'r Cyngor bellach.

**Pensiynau**

**Cynllun Pensiwn Athrawon -** Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoddi i athrawon fuddiannau penodol ar adeg eu hymddeoliad ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y costau drwy wneud cyfraniadau yn seiliedig ar ganran o gyflog pensiynadwy'r aelodau.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -** Fel rhan o delerau ac amodau cyflogi ei swyddogion a gweithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad drwy fod yn rhan o Gronfa Pensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, sy'n golygu bod y Cyngor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, wedi ei glandro ar lefel y bwriedir iddi falansio'r ymrwymiadau pensiwn gydag asedau buddsoddi. Ni fydd buddiannau yn daladwy mewn gwirionedd hyd oni fydd gweithwyr yn ymddeol ond mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud y taliadau i'r Gronfa Bensiwn y mae angen eu datgelu ar yr adeg y bydd y gweithwyr yn ennill eu buddiannau i'r dyfodol.

Mae’r hinsawdd economaidd gyfredol yn parhau i gael effaith ar yr Ymrwymiad Pensiwn net a bydd effaith bosibl argyfwng Covid-19 yn cael ei chynnwys yn fersiwn derfynol y cyfrifon hyn. Mae’n bwysig nodi bod y cynnydd yn yr ymrwymiad yn y sefyllfa bensiwn yn seiliedig ar brisiadau actiwaraidd. Caiff taliadau gwirioneddol y Cyngor i’r Gronfa Bensiwn eu hadolygu bob tair blynedd fel rhan o’r prisiad o’r Gronfa Bensiwn a gynhelir bob tair blynedd. Yna, penderfynir ar strategaeth fuddsoddi sy’n anelu at adennill unrhyw ddiffyg dros gyfnod y bydd Actiwari’r Gronfa Bensiwn (Hymans Robertson LLP) yn penderfynu arno.

Ailbrisiodd Ymgynghorwyr Actiwaraidd Proffesiynol Hymans Robertson LLP Gronfa Bensiwn Gwynedd, sef y gronfa mae’r Cyngor yn rhan ohoni, fel ar 31 Mawrth 2019. Adolygodd hyn y cynlluniau cyllido cyfredol a gosod cyfraddau cyfrannu newydd ar gyfer pob cyflogwr Cronfa Bensiwn Gwynedd am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2023.

Mae'r adroddiad prisio yn dangos sefyllfa well o'i chymharu â'r prisiad diwethaf yn 2016 pan ragwelwyd fod y Gronfa Bensiwn wedi'i thangyllido o £145m (91% wedi gyllido). Arweiniodd hyn at gynnydd mewn cyfraniadau cyflogwr. Mae prisiad 2019 yn amcangyfrif bod y gronfa bensiwn wedi’l gyllido 108%, felly, tua £156m. Golygai hyn lai o gyfraniadau yn y tair mlynedd ariannol nesaf.

Ers y prisiad hwn, mae Pandemig Coronafirws wedi achosi anwadalrwydd sylweddol yn y farchnad sydd, yn y tymor byr, wedi achosi gostyngiad o 12% ar enillion buddsoddi. Fodd bynnag, cymerir golwg hirdymor ar y gronfa bensiwn ac mae'r adroddiad prisio a'r cyfraddau cyfrannu yn dal i fod yn berthnasol. Os bydd dirywiad mwy sylweddol yn y tymor canolig, er enghraifft, ymhen 18 mis, yna bydd adolygiad pellach o sefyllfa’r Gronfa Bensiwn er mwyn penderfynu os oes angen newid y cyfraddau cyfraniadau yn y dyfodol.

Yn ychwanegol, mae strwythur budd-daliadau LGPS yn cael ei adolygu ers i ddyfarniad McCloud ddyfarnu bod diwygiadau Pensiwn y Sector Cyhoeddus 2015 wedi arwain at wahaniaethu oedran anghyfreithlon. Nid ydym yn gwybod eto beth yw effaith ariannol lawn y dyfarniad hwn ond bydd yn achosi costau uwch i bob Cyflogwr Cronfa Bensiwn. Mae'r adroddiad prisio yn defnyddio dull darbodus wrth amcangyfrif cyfraniadau ac, fel arfer, yn cynnwys costau uwch.

Mae’r Datganiad o’r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn a’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos y buddiannau pensiwn a gafwyd yn y flwyddyn wedi eu haddasu yn ôl yr angen i adlewyrchu’r rhan honno o’r costau pensiwn nad ydynt yn cael eu talu gan Drethdalwyr y Cyngor.

**Darpariaethau**

Cyfanswm y darpariaethau a ddelir gan y Cyngor oedd £5.234m ar 1 Ebrill 2019. Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd y balans £0.054m i £5.180m. Cynyddwyd y ddarpariaeth yswiriant i £0.337m yn unol â'r angen amcangyfrifedig. Roedd cyfanswm o £0.414m ar ddarpariaethau tymor byr, i ddarparu ar gyfer costau disgwyliedig yn y dyfodol a allai godi o rwymedigaeth yn y gorffennol. Defnyddiwyd £39k o ddarpariaeth Penhesgyn i gyllido’r costau’n ymwneud â’r safle tirlenwi yn 2019/20.

Gwelir manylion y symudiadau yn y darpariaethau yn Nodyn 27 y Cyfrifon.

**Busnes Hyfyw**

Paratoir y cyfrifon ar sail ‘busnes hyfyw’. Golyga hyn y cafodd y cyfrifon eu paratoi ar y sail bod y Cyngor yn parhau yn ei ffurf bresennol yn y dyfodol. Crëwyd Cyngor Sir Ynys Môn drwy statud/deddf yn 1996 a bydd yn parhau yn ei ffurf bresennol hyd nes y bydd yn cael ei newid drwy statud.

**Materoldeb**

Ystyrir eitemau o wariant ac incwm yn berthnasol petai'r swm yn newid darlun cywir a theg y cyfrifon. Petai eitem berthnasol yn cael ei heithrio o'r cyfrifon, byddai'n newid dealltwriaeth unigolyn yn sylweddol ynghyd â chywirdeb y cyfrifon. Mae'r Cyngor wedi gosod ei lefel perthnasedd ar £200k yr eitem. Ystyrir symiau llai na hyn yn anfaterol ac ni fyddant yn cael eu haddasu ar eu cyfer petai unrhyw gamgymeriad neu eithriad yn codi.

**5. Eglurhad o'r Datganiadau Ariannol**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn nodi manylion incwm a gwariant y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 a'i Fantolen ar 31 Mawrth 2020. Mar'r datganiadau hyn yn cynnwys y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Ynddynt, nodir cyfrifoldebau'r Cyngor a Chyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) y Cyngor, sef Swyddog Adran 151 dynodedig y Cyngor.

**Datganiadau Ariannol Craidd:-**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys y datganiadau ariannol craidd, sef:-

1. **Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) –** sy'n dangos y gost cyfrifo o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan ddefnyddio arferion cyfrifo a dderbynnir yn hytrach na'r swm fydd yn cael ei gyllido o'r trethi.
2. **Dadansoddiad Gwariant a Chyllido (EFA) –** sy'n dangos y wybodaeth yn y CIES ond, yn ogystal, mae'n darparu addasiadau cyfrifo sydd yn cael eu canslo allan yn Nodyn 7 er mwyn sicrhau nad yw'r addasiadau yma'n cael ei cyllido gan Drethdalwyr y Dreth Gyngor. Mae'r golofn gyntaf o'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllido yn darparu gwir effaith perfformiad ariannol y flwyddyn ar falansau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor a'r CRT.
3. **Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn (MIRS) –** sy'n dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor, wedi ei ddadansoddi yn ôl cronfeydd wrth gefn y gellir ei ddefnyddio a'r rhai na ellir eu defnyddio. Mae'r datganiad yn dangos cost wirioneddol darparu gwasanaethau'r Awdurdod a'r modd y caiff y costau hyn eu cyllido o'r gwahanol gronfeydd wrth gefn.
4. **Y Fantolen** – sy'n dangos gwerth yr asedau a'r rhwymediaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Caiff asedau net eu cyfatebu gan y cronfeydd wrth gefn sydd gan yr Awdurdod.
5. **Datganiad Llif Arian –** sy'n dangos y newidiadau o ran arian a chywerthoedd arian y Cyngor yn ystod cyfnod yr adroddir arno.
6. **Y Nodiadau i'r Cyfrifon** – y nodiadau i'r Datganiadau Ariannol craidd sy'n darparu mwy o fanylion am bolisiau cyfrifo'r Cyngor a'r eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiadau.

**Datganiadau Ariannol Atodol**

1. **Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon** – sy'n egluro cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Adran 151.
2. Mae'r **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** yn gofnod o wariant ac incwm refeniw sy'n ymwneud â stoc dai'r Cyngor. Ei brif bwrpas yw sicrhau bod y gwariant ar reoli tenantiaethau a chynnal a chadw anheddau'n cael ei gydbwyso gan y rhenti a godir ar denantiaid. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi cael ei glustondi'n benodol i'r pwrpas hwnnw o'r Gronfa Gyffredinol y Cyngor.

3. **Barn yr Archwiliwr –** fel Archwilydd Allanol y Cyngor, Archwiliwr Cyffredinol Cymru bydd yn cynnal yr archwiliad statudol ac arwyddo y Datganiad Cyfrifon wedi i'r Swyddog Adran 151 lofnodi a dyddio'r Datganiad Cyfrifon. Byddant wedyn yn cyhoeddi barn ynghylch a oes angen eu haddasu neu beidio. Y dyddiad cau ar gyfer y farn hon yw 15 Medi wedi i'r flwyddyn ddod i ben.

4. **Newidiadau mewn Polisi Cyfrifo**

   Nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau o bwys o'r driniaeth gyfrifo ar gyfer 2019/20.

Daw'r Datganiad Cyfrifon i ben gyda'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) 2019/20. Mae'r AGS yn rhoi trosolwg o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Mae hefyd yn darparu crynodeb o adroddiadau ac adolygiadau sy'n rhoi sylwadau ar faterion llywodraethu a pherfformad sy'n ymwneud â'r Cyngor.

## 6. Effaith y pandemig Covid-19

### Darparu Gwasanaethau

Mae'r pandemig Covid-19 wedi arwain ar gau nifer o wasanaethau'r Cyngor dros dro, gan gynnwys ysgolion, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, canolfannau dydd gofal cymdeithasol, canolfannau ailgylchu gwastraff, amgueddfeydd a phrif dderbynfa'r Cyngor. Mae cau'r cyfleusterau hyn wedi arwain at ostyngiad o thua £400k y mis yn incwm y Cyngor ond mae'r golled hon yn cael ei gwrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad mewn costau ynni, costau cludiant a rhai costau staffio.

Mae'r Cyngor wedi ymateb i'r pandemig drwy ddarparu mwy o gefnogaeth yn y gymuned, gan gynnwys banciau bwyd, cynorthwyo pobl sy'n cysgodi a darparu parseli bwyd neu daliadau uniongyrchol i rieni plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (tua 1,500 o ddisgyblion). Mae Llywodraeth Cymru yn ad-dalu'r holl gostau ychwanegol i'r Cyngor.

Mae rhan fwyaf o ysgolion y Cyngor wedi bod ar gau ers 20 Mawrth 2020 ac ni fyddant yn ailagor nes bydd Llywodraeth Cymru'n dweud wrth y Cyngor i wneud hynny. Mae nifer fach o ysgolion wedi aros ar agor i ddarparu gofal i blant gweithwyr allweddol a phlant bregus.

Mae'r Cyngor yn gweinyddu grant cymorth busnes ar ran Llywodraeth Cymru i ddarparu grantiau o £10,000 i fusnesau y mae gwerth ardrethol eu heiddo yn £12,000 neu lai ac sy'n derbyn Rhyddhad Trethi Busnesau Bach a grant o £25,000 i fusnesau y mae gwerth ardrethol eu heiddo rhwng £12,001 a £51,000 ac sy'n gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden neu letygarwch. Amcangyfrifir y bydd y Cyngor yn gwneud taliadau gwerth tua £27m ar ôl prosesu'r holl geisiadau.

Mae'r Cyngor yn cynllunio i ailgydio yn yr holl wasanaethau pan ddaw cyfnod clo i ben gan gymryd gofynion cadw pellter cymdeithasol i ystyriaeth. Gall hyn arwain at gynnydd mewn costau wrth ddarparu gwasanaethau, ond nid oes modd gwybod beth fydd y gost ychwanegol ar hyn o bryd.

### Gweithlu'r Cyngor

Roedd mwyafrif staff y Cyngor yn gweithio gartref yn ystod y cyfnod clo ac mae'r costau ychwanegol i ganiatáu i hyn ddigwydd o safbwynt costau TG ychwanegol wedi cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd tua 6% o weithlu'r Cyngor yn gallu gweithio yn ystod y cyfnod clo a ni chawsant eu trosglwyddo i wneud unrhyw ddyletswyddau eraill. Ni roddodd y Cyngor y staff hyn ar y cynllun ffyrlo gan ei fod yn parhau i dderbyn cyllid ar eu cyfer h.y. y Grant Cynnal Refeniw a'r Dreth Gyngor ac ni fyddai'r Cyngor wedi diswyddo'r staff hyn oherwydd y cyfnod clo. Roedd rhaid i'r Cyngor sicrhau hefyd bod y staff ar gael i ymgymryd â dyletswyddau eraill petai lefelau salwch yn cynyddu yn ystod y pandemig. Roedd achosion o staff yn cael eu heintio â Covid-19 yn isel ac ni arweiniodd at gynnydd sylweddol mewn lefelau salwch.

Mae'r Cyngor wedi allanoli nifer o'i brif gontractau, gan gynnwys Cynnal a Chadw Ffyrdd, Casglu Gwastraff ac arlwyo Prydau Ysgol. Parhaodd y Cyngor i dalu'r contractwyr hyn yn unol â'r gofynion a nodwyd yn Nodyn Polisi Caffael Swyddfa'r Cabinet PPN 02/20.

**Y Gadwyn Gyflenwi**

Gan fod mwyafrif gwasanaethau'r Cyngor wedi cael eu hallanoli, cyfrifoldeb y contractwyr ac nid y Cyngor yw sicrhau cadwyn gyflenwi ddigonol. Nid yw'r Cyngor wedi cael unrhyw anawsterau sylweddol o ran ei brif gadwyni cyflenwi ac mae gan bob gwasanaeth gynlluniau mewn lle pe bai cyflenwyr hanfodol yn methu â chyflenwi.

Y brif flaenoriaeth o ran y gadwyn gyflenwi yn ystod y pandemig oedd sicrhau Offer Diogelu Personol (PPE) ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr sy'n gweithio yn y gymuned. Bu'n rhaid i'r Cyngor archebu gan gyflenwyr newydd heb ddilyn prosesau caffael arferol y Cyngor. Oherwydd hynny, efallai bod y Cyngor wedi talu prisiau uwch na'r arfer am rai eitemau.

**Arian Wrth Gefn, perfformiad ariannol a sefyllfa ariannol**

Ar 31 Mawrth 2020 cyfanswm Cronfa Gyffredinol y Cyngor oedd £7.060m, sydd gyfystyr â 4.9% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2020/21. Nod strategaeth ariannol y Cyngor yw dal o leiaf 5% o'r gyllideb refeniw net fel Balansau Cyffredinol (£7.1m). O ganlyniad, mae Balansau Cyffredinol y Cyngor ychydig yn is na'r targed.

Roedd y perfformiad ariannol ar gyfer 2019/20 yn dangos tanwariant net o £0.308m ac ni chafodd cychwyn y pandemig effaith ormodol arno.

Wrth symud i mewn i 2020/21, gwelwyd nifer o wasanaethau'n cael eu hatal ac mae hynny wedi arwain at golli incwm i'r Awdurdod, yn bennaf o ganolfannau hamdden, ffioedd parcio, prydau ysgol a ffioedd tymhorol yn gysylltiedig â'r diwydiant twristiaeth. Yn ôl amcangyfrifon cychwynnol, mae £0.4m o incwm yn cael ei golli bob mis. Mae rhai arbedion mewn gwariant o ganlyniad i'r cyfnod clo, ond ni fyddant yn gorbwyso'r incwm a gollwyd yn llawn.

Bydd y pandemig yn cael effaith negyddol ar yr economi, a disgwylir y bydd nifer y trethdalwyr sy'n gymwys i gael cymorth gyda'u biliau Dreth Gyngor dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor yn cynyddu. Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun wedi'i ymgorffori yn y Grant Cynnal Refeniw a bydd rhaid i'r Cyngor ysgwyddo unrhyw gynnydd yng nghostau'r Cynllun. Y gyllideb bresennol ar gyfer y Cynllun yw £6m. Bydd y dirywiad economaidd yn cael effaith ar allu pobl i dalu eu Treth Gyngor hefyd. Mae'r Cyngor yn caniatáu ar gyfer colled o 1.5% wrth osod sail y dreth bob blwyddyn ac fel arfer mae cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor yn golygu bod tua 0.7% o'r ddyled yn cael ei dileu. Rhagwelir y bydd y dyledion a ddilëir yn uwch yn 2020/21.

Swm bychan yn unig o arbedion refeniw a gynlluniwyd gan y Cyngor yn 2020/21 (£0.31m) ac nid yw'r pandemig yn effeithio ar weithredu'r arbedion hyn.

Nid yw'n glir ar hyn o bryd a fydd Llywodraeth Cymru'n darparu unrhyw gyllid ychwanegol i gwrdd â'r gost o golli incwm neu i gwrdd ag unrhyw gynnydd yn y gost o ddarparu gwasanaethau wrth gydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol. Os nad yw Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth ariannol, mae'n debygol y bydd rhaid i'r Cyngor orwario ar ei gyllideb refeniw ar gyfer 2020/21, gyda'r gorwariant yn cael ei gyllido o'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol.

Roedd balans y Cyfrif Refeniw Tai yn £8.597m ar 31 Mawrth 2020. Mae'r arian wrth gefn wedi'i glustnodi i gyllido cost datblygu eiddo newydd fel y nodir yng Nghynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT. Bydd unrhyw ostyngiad sylweddol yn arian wrth gefn y CRT o ganlyniad i'r pandemig yn arwain at ostyngiad yn y rhaglen ddatblygu eiddo newydd a gynlluniwyd.

Cymeradwywyd strategaeth rheoli dyledion y Cyngor ar gyfer 2020/21 gan y Cyngor ar 11 Mawrth 2020. Roedd yn parhau â strategaeth y Cyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ddefnyddio balansau arian parod dros ben i gyllido gwariant cyfalaf lle bynnag y bo'n bosib (benthyciadau mewnol) ac i fuddsoddi arian dros ben mewn ffordd sy'n isel o ran risg ac yn caniatáu mynediad parod i'r arian. Ar gychwyn y pandemig, cafodd £10m o fenthyciadau mewnol eu hallanoli a rhoddwyd yr holl arian parod dros ben yng nghyfrifon banc y Cyngor. Derbyniwyd rhandaliadau o'r Grant Cynnal Refeniw yn gynnar gan Lywodraeth Cymru hefyd a oedd yn gwella llif arian y Cyngor yn ystod y cyfnod clo. Cafodd balansau arian parod eu monitro yn ddyddiol yn ystod y cyfnod clo ac roedd balans arian parod iach yn sicrhau nad oedd rhaid cymryd unrhyw gamau unioni i ddatrys unrhyw gwymp sylweddol yn y balansau arian parod.

Mae rhaglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020/21 yn cael ei gyllido'n bennaf o grantiau'r llywodraeth (moderneiddio ysgolion, adnewyddu priffyrdd a gwaith lliniaru llifogydd), cynlluniau a gyllidir gan Ewrop (adeiladu unedau busnes, gwella canol trefi), prosiectau a gyllidir gan y CRT (datblygiadau newydd, gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd ar eiddo presennol) a chynlluniau a gyllidir drwy fenthyca â chefnogaeth a grantiau cyfalaf cyffredinol (cynnal a chadw adeiladau presennol, offer TG a phrynu cerbydau newydd). Er bod gwaith ar yr holl gynlluniau wedi cael ei atal yn ystod y cyfnod clo, byddant yn ailgychwyn eto yn 2020/21. Ni fydd unrhyw lithriad yn arwain at golli unrhyw gyllid.

Mae effeithiau ariannol y Pandemig wedi cael eu hystyried yn ofalus wrth baratoi'r cyfrifon ar gyfer 2019/20 a, lle bo angen, gwnaed addasiadau yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael ar y pryd. Mae pedwar mater yn benodol wedi cael eu hadolygu, sef ei effaith ar brisiadau pensiwn, ei effaith ar incwm sy'n ddyledus i'r Cyngor, ei effaith ar brisio asedau a'i effaith ar fuddsoddiadau. Ar adeg paratoi'r Cyfrifon, ystyriwyd bod yr effaith ar fuddsoddiadau a phrisiad asedau yn fychan iawn, tra bo adolygiad o'r gronfa bensiwn yn parhau ac efallai na fydd yn dod i'r amlwg am sawl mis. Mae darpariaethau ar gyfer dyledion drwg wedi'u haddasu ar gyfer colli incwm posibl sy'n ddyledus i'r Awdurdod ar 31 Mawrth 2020.

**Casgliad**

Bydd y pandemig yn effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor o safbwynt colli incwm a gwariant ychwanegol yn ystod y cyfnod clo a bydd yn golygu bod darparu gwasanaethau yn fwy costus yn y dyfodol wrth i'r Cyngor orfod addasu i ofynion cadw pellter cymdeithasol. Hefyd, gall llai o gyllid cyfalaf fod ar gael, fydd yn cael effaith ar raglen gyfalaf y Cyngor ac, yn arbennig, ar y ddau brif flaenoriaeth, sef moderneiddio ysgolion ac adeiladu cartrefi newydd.

**DATGANIAG O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD CYFRIFON**

**Cyfrifoldebau Cyngor Sir Ynys Môn**

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn:-

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau fod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor hwn, y swyddog yw'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) sydd hefyd wedi'i ddynodi'n Swyddog Adran 151;
- reoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau;
- gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Adran 151**

Y Swyddog Adran 151 sydd yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarferion priodol fel y gosodir yn y Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("Y Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Swyddog Adran 151 wedi:-

- dewis polisïau cyfrifo priodol ac yna eu defnyddio'n gyson;
- ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus;
- cydymffurfio â Chôd Ymarfer Awdurdod Lleol CIPFA.

Hefyd, mae'r Swyddog Adran 151 wedi:-

- cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol;
- cymeryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

**Tystysgrif**

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yma yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar y dyddiad cyfrifo a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.

**Llofnodwyd: ………………………………**

**Richard Marc Jones FCPFA**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151**

**Llofnodwyd: ……………………………**

**Cynghorydd Margaret Murley Roberts**
**CADEIRYDD CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Dyddiedig: 27 Hydref 2020**

# Barn Archwilio Arfaethedig

Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn ddiamod ar gyfrifon** eleni unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**. Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.Mae'r Llythyr Sylwadau'n cynnwys rhai cadarnhadau y mae'n ofynnol inni eu cael gennych chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhad o wybodaeth benodol arall yr ydych chi wedi'i darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.

Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

# Materion Arwyddocaol sy'n codi o'r Archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

Rydym yn nodi isod y camddatganiadau a ganfuwyd gennym yn y cyfrifon, sydd wedi cael eu trafod gyda'r rheolwyr ond sy'n dal heb eu cywiro. Gofynnwn fod y rhain yn cael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn ichi ddarparu'r rhesymau dros beidio â'u cywiro ar ein cyfer yn ysgrifenedig.

- Er ein bod yn nodi ein bod yn aros i'r gwaith gael ei gwblhau mewn perthynas ag achos Goodwin lle gwnaed her gyfreithiol yn erbyn y Llywodraeth mewn perthynas â buddion pensiwn anghyfartal ar gyfer priod gwrywaidd aelodau benywaidd (mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1988). Cadarnhaodd Tribiwnlys Cyflogaeth yr hawliad yn ddiweddar, a wnaeth arwain at angen cydnabod atebolrwydd ychwanegol yn FY20, fel digwyddiad addasu ar ôl y fantolen, fel cost gwasanaeth yn y gorffennol. Nodwn fod hwn yn faes sydd wedi bod yn datblygu ers i'r cyfrifon gael eu drafftio yn gyntaf, ac mae ein harbenigwyr pensiwn wedi amcangyfrif y gallai effaith hyn fod tua 0.2% o'r rhwymedigaeth budd diffiniedig (h.y. tua £2m) sydd ddim yn cael ei ystyried yn berthnasol.

## Camddatganiadau a gywirwyd

Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Nid oedd y rhain yn berthnasol felly nid ydym yn credu bod angen tynnu eich sylw atynt**.**

## Materion Arwyddocaol eraill sy'n codi o'r Archwiliad

Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn y flwyddyn yma.

# Argymhellion

Caiff yr argymhellion sy'n codi o'n harchwiliad eu nodi yn **Atodiad 3**. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol i ganfod pa gynnydd a wnaed gyda hwy yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Lle mae unrhyw gamau gweithredu heb eu cymryd, byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd ac yn adrodd wrthych am hynny yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

## DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2020

Dengys y datganiad hwn gostau cyfrifo yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r symiau a gyllidir o'r trethi. Mae'r Gwasanaethau yr adroddir arnynt isod yn seiliedig ar strwythur sefydliadol y Cyngor. Mae'r Cyngor yn codi trethi i gwrdd â gwariant yn unol â rheoliadau, gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Ceir darlun o'r sefyllfa o ran trethi yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

| 2019/20 | | | Gwasanaethau | Nodyn | 2018/19 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 | | | Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 |
| 73,291 | (15,907) | 57,384 | Dysgu Gydol Oes | | 70,793 | (14,660) | 56,133 |
| 40,699 | (11,431) | 29,268 | Gwasanaethau Oedolion | | 37,503 | (8,952) | 28,551 |
| 11,753 | (1,072) | 10,681 | Gwasanaethau Plant | | 11,876 | (1,199) | 10,677 |
| 5,983 | (4,098) | 1,885 | Tai | | 4,949 | (3,966) | 983 |
| 26,793 | (6,390) | 20,403 | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | | 24,934 | (5,570) | 19,364 |
| 12,291 | (6,317) | 5,974 | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | | 12,694 | (7,272) | 5,422 |
| 5,666 | (261) | 5,405 | Trawsnewid | | 5,548 | (226) | 5,322 |
| 26,947 | (17,679) | 9,268 | Adnoddau | | 28,187 | (19,454) | 8,733 |
| 2,245 | (412) | 1,833 | Busnes y Cyngor | | 1,790 | (253) | 1,537 |
| 1,936 | (332) | 1,604 | Costau Corfforaethol a Democrataidd | | 2,148 | (1,144) | 1,004 |
| 482 | - | 482 | Rheolaeth Corfforaethol | | 579 | - | 579 |
| 418 | - | 418 | Costau heb eu ddosbarthu | | 134 | - | 134 |
| 12,591 | (18,717) | (6,126) | Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | | 12,079 | (17,843) | (5,764) |
| **221,095** | **(82,616)** | **138,479** | **Diffyg ar weithrediadau sy'n parhau** | | **213,214** | **(80,539)** | **132,675** |
| | | 23,105 | Gwariant gweithredu arall | 12 | | | 22,129 |
| | | 8,945 | Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi | 13a | | | 10,405 |
| | | (163,380) | Trethiant ac incwm grant amhenodol | 14 | | | (157,047) |
| | | **7,149** | **Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | | **8,162** |
| | | (13,487) | Gwarged ar ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol | 11c, 15 & 17 | | | (6,152) |
| | | (19,492) | Ailfesur y rhwymedigaeth Pensiwn Net | 11ch & 41 | | | 18,734 |
| | | **(32,979)** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **12,582** |
| | | **(25,830)** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **20,744** |

## DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO

| 2019/20 | | | | 2018/19 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Net a godir i'r Gronfa Cyffredinol a Balansau'r CRT - A =C - B £'000 | Addasiadau rhwng Sail Cyllido a Sail Cyfrifo - B £'000 | Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr -C £'000 | Gwasanaethau | Gwariant Net a godir i'r Gronfa Cyffredinol a Balansau'r CRT - A = C- B £'000 | Addasiadau rhwng Sail Cyllido a Sail Cyfrifo - B £'000 | Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - C £'000 |
| 50,198 | 7,186 | 57,384 | Dysgu Gydol Oes | 50,382 | 5,751 | 56,133 |
| 26,601 | 2,667 | 29,268 | Gwasanaethau Oedolion | 26,387 | 2,164 | 28,551 |
| 10,496 | 185 | 10,681 | Gwasanaethau Plant | 10,671 | 6 | 10,677 |
| 1,508 | 377 | 1,885 | Tai | 749 | 234 | 983 |
| 14,464 | 5,939 | 20,403 | Priffydd, Eiddo a Gwastraff | 14,473 | 4,891 | 19,364 |
| 3,895 | 2,079 | 5,974 | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 3,799 | 1,623 | 5,422 |
| 4,276 | 1,129 | 5,405 | Trawsnewid | 4,422 | 900 | 5,322 |
| 8,619 | 649 | 9,268 | Adnoddau | 8,219 | 514 | 8,733 |
| 1,524 | 309 | 1,833 | Busnes y Cyngor | 1,367 | 170 | 1,537 |
| 1,881 | (277) | 1,604 | Costau Corfforaethol a Democrataidd | 1,286 | (282) | 1,004 |
| 482 | - | 482 | Rheolaeth Corfforaethol | 579 | - | 579 |
| - | 418 | 418 | Costau heb eu dosbarthu | - | 134 | 134 |
| (4,075) | (2,051) | (6,126) | Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | (7,675) | 1,911 | (5,764) |
| **119,869** | **18,610** | **138,479** | **Cost Net Gwasanaethau** | **114,659** | **18,016** | **132,675** |
| (120,969) | (10,361) | (131,330) | Incwm a Gwariant Arall | (115,434) | (9,079) | (124,513) |
| **(1,100)** | **8,249** | **7,149** | **(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **(775)** | **8,937** | **8,162** |
| (24,844) | | | Balans agoriadol y Gronfa Cyffredinol a'r CRT ar 1 Ebrill | (24,069) | | |
| (1,100) | | | Llai Gwarged ar falans y Gronfa Cyffredinol a'r CRT yn y flwyddyn | (775) | | |
| **(25,944)** | | | **Balans cau y Gronfa Cyffredinol a'r CRT ar 31 Mawrth** | **(24,844)** | | |

## DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2020

Dengys y Datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi'n 'Gronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r llinell Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau'n dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hwn yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n rhaid eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor i bwrpas pennu'r Dreth Gyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai i bwrpas pennu rhenti. Mae'r llinell 'Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i gronfeydd clustnodedig wrth gefn' yn dangos y symudiad yn y flwyddyn o falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn i'r Cyngor wneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd clustnodedig wrth gefn.

| | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor (Nodyn 8) £'000 | Balans CRT (Datganiadau Ariannol Atodol) £'000 | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf (Nodyn 10) £'000 | Balansau Ysgolion (Nodyn 9) £'000 | Grantiau Cyfalaf Anghynwysiedig (Nodyn 14) £'000 | Cronfeydd wrth Gefn Clystnodedig CRT (Nodyn 8) £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio (Nodyn 11) £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn (y Cyngor) £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2018** | **6,899** | **7,601** | **7,380** | **320** | **1,869** | **-** | **-** | **24,069** | **159,131** | **183,200** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn** | | | | | | | | | | |
| Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau | (7,258) | - | (904) | - | - | - | - | **(8,162)** | **-** | **(8,162)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **(12,582)** | **(12,582)** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(7,258)** | **-** | **(904)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(8,162)** | **(12,582)** | **(20,744)** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 7) | 6,160 | - | 1,911 | 866 | - | - | - | **8,937** | **(8,937)** | **-** |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig** | **(1,098)** | **-** | **1,007** | **866** | **-** | **-** | **-** | **775** | **(21,519)** | **(20,744)** |
| Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig (Nodyn 8) | 111 | 1,127 | - | - | (1,238) | - | - | **-** | **-** | **-** |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) yn ystod y flwyddyn** | **(987)** | **1,127** | **1,007** | **866** | **(1,238)** | **-** | **-** | **775** | **(21,519)** | **(20,744)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **5,912** | **8,728** | **8,387** | **1,186** | **631** | **-** | **-** | **24,844** | **137,612** | **162,456** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn** | | | | | | | | | | |
| Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau | (9,410) | | 2,261 | - | - | - | - | **(7,149)** | **-** | **(7,149)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **32,979** | **32,979** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(9,410)** | **-** | **2,261** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(7,149)** | **32,979** | **25,830** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 7) | 10,156 | - | (2,051) | 144 | - | - | - | **8,249** | **(8,249)** | **-** |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig** | **746** | **-** | **210** | **144** | **-** | **-** | **-** | **1,100** | **24,730** | **25,830** |
| Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig (Nodyn 8) | 402 | 32 | - | - | (434) | - | - | **-** | **-** | **-** |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) yn ystod y flwyddyn** | **1,148** | **32** | **210** | **144** | **(434)** | **-** | **-** | **1,100** | **24,730** | **25,830** |
| **Balance 31 March 2020** | **7,060** | **8,760** | **8,597** | **1,330** | **197** | **-** | **-** | **25,944** | **162,342** | **188,286** |

## Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2020

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Cyngor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan y Cyngor. Adroddir ar gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ond ei defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf neu i dalu dyledion). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rheini na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu, lle byddai'r arian ond ar gael i ddarparu gwasanaethau petai'r asedau'n cael eu gwerthu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn) a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn 'Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo A Sail Gyllido Dan y Rheoliadau'.

| | Nodyn | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 15 | 414,585 | 396,452 |
| Asedau Treftadaeth | 17 | 3,640 | 3,676 |
| Eiddo Buddsoddi | 18 | 6,189 | 6,000 |
| Asedau Anniriaethol | 19 | 501 | 701 |
| Dyledwyr tymor hir | 24 | 166 | 266 |
| **Asedau tymor hir** | | **425,081** | **407,095** |
| | | | |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | 21 | 763 | 1,557 |
| Rhestrau stoc | 23 | 333 | 300 |
| Dyledwyr tymor byr | 24 | 32,606 | 29,653 |
| Arian a chywerthoedd arian | 25 | 23,045 | 15,825 |
| **Asedau Cyfredol** | | **56,747** | **47,335** |
| | | | |
| Benthyca tymor byr | 44 | (16,837) | (7,535) |
| Credydwyr tymor byr | 26 | (20,429) | (18,151) |
| Darpariaethau tymor byr | 27 | (413) | (429) |
| Derbyniadau grantiau cyfalaf ymlaen llaw | 37 | (1,993) | (2,815) |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | **(39,672)** | **(28,930)** |
| Credydwyr tymor hir | 26 | (159) | (157) |
| Darpariaethau tymor hir | 27 | (4,767) | (4,805) |
| Benthyca tymor hir | 44 | (124,424) | (127,352) |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 41 | (124,520) | (130,730) |
| **Rhwymedigaethau tymor hir** | | **(253,870)** | **(263,044)** |
| **Asedau net** | | **188,286** | **162,456** |
| Cronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio | MIRS | 25,944 | 24,844 |
| Cronfeydd wrth gefn nad na ellir eu defnyddio | 11 | 162,342 | 137,612 |
| | | | |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn** | | **188,286** | **162,456** |

## DATGANIAD LLIF ARIAN – AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2020

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian parod a chywerthoedd arian y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol. Dengys y datganiad sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu a defnyddio arian parod a chywerthoedd arian trwy ddosbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyngor a gyllidir trwy drethiant ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae'r gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r all-lif arian ar gyfer adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae'r llif arian sy'n codi o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol i ragweld yr hawl a fydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian y Cyngor yn y dyfodol.

| | Nodyn | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau** | | **(7,149)** | **(8,162)** |
| Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol | 28 | 36,503 | 29,452 |
| Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu cyllido | 28 | (19,351) | (18,221) |
| **Llif arian net o Weithgareddau Gweithredu** | | **10,003** | **3,069** |
| **Llif arian net o Weithgareddau Buddsoddi** | 29 | **(9,276)** | **(10,503)** |
| **Llif arian net o Weithgareddau Cyllido** | 30 | **6,493** | **15,470** |
| **(Gostyngiad)/Cynnydd Net mewn Arian Parod a Chywerthoedd Arian** | | **7,220** | **8,036** |
| Arian Parod a Chywerthoedd Arian ar gychwyn y flwyddyn ariannol | | 15,825 | 7,789 |
| **Arian Parod a Chywerthoedd Arian ar ddiwedd y flwyddyn ariannol** | 25 | **23,045** | **15,825** |

## NODIADAU I'R CYFRIFON

### Dadansoddiad o Wariant a Chyllido (EFA)

Bwriad y Dadansoddiad o Wariant a Chyllido (EFA) ar dudalen 22 yw dangos effaith wirioneddol perfformiad ariannol y flwyddyn ar falansau'r Cyngor. Mae'r Datganiad ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) yn cynnwys nifer o addasiadau cyfrifo megis dibrisiant ac addasiadau i bensiynau na chaniateir iddynt, yn unol â'r gyfraith, gael eu cyllido o'r Dreth Gyngor. Nid yw'r rhain yn gostau gwirioneddol sy'n effeithio ar falansau defnyddiadwy'r Cyngor. Dengys y CIES ddiffyg o £7.149m ar ddarparu gwasanaethau. Dangosir hyn hefyd yng ngholofn C, sef Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, sydd yn yr EFA ar dudalen 22. Er mwyn sicrhau nad yw'r costau cyfrifo hyn yn cael effaith ar drethdalwyr y Cyngor ac ar gronfeydd y Cyngor, caiff y costau hyn o £8.249m eu canslo allan yn yr EFA a chânt hefyd eu dangos yn y Datganiad ar y Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn (MIRS) ar dudalen 23. Dangosir y rhain yng ngholofn B yr EFA ar dudalen 22 a elwir yn Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a Chyfrifo. Mae colofn A yr EFA ar dudalen 22 yn dangos y costau yr aethpwyd iddynt yn briodol yn erbyn Cronfeydd y Cyngor. Mae'n dangos balans gwarged o £1.1m a chaiff ei gyfrifo drwy dynnu colofn B o golofn C. Mae hyn o gymorth i nodi balansau defnyddiadwy'r Cyngor heb yr addasiadau cyfrifo hyn. Caiff effaith yr addasiadau cyfrifo hyn ei dangos yn y golofn cronfeydd wrth gefn nad oes modd ei ddefnyddio yn y Datganiad ar Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Mae Nodyn 1a yn crynhoi'r math o addasiadau cyfrifo nad ydynt yn cael eu cyllido gan y Cyngor.

Mae'r CIES a chael gwared ar yr addasiadau cyfrifo, pan gânt eu ychwanegu at eu gilydd, yn dangos yr effaith am y flwyddyn ar gronfeydd y Cyngor.

| | **£'000** |
|---|---|
| **Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor ar 1 Ebrill 2019** | **(24,844)** |
| Diffyg/(gwarged) ar Ddarparu Gwasanaethau 2019/20 – CIES | 7,149 |
| Addasiadau i gael gwared ar effaith addasiadau cyfrifo nad ydynt yn effeithio Cronfa'r Cyngor – gweler Nodyn 7 | (8,249) |
| **Diffyg/(gwarged) diwygiedig sy'n cael effaith ar falansau'r Cyngor (yn cynnwys CRT)** | **(1,100)** |
| | |
| **Cronfeydd wrth gefn/balansau defnyddiadwy'r Cyngor ar 31 Mawrth 2020** | **(25,944)** |

Ar ôl canslo allan yr holl addasiadau cyfrifo (y manylir arnynt yn Nodyn 7), dengys y tabl uchod bod tanwariant (gwarged o incwm dros wariant) o £1.1m. Arweiniodd hyn, felly, at gynnydd ym malansau defnyddiadwy'r Cyngor i £25.944m. Mae hyn oherwydd tanwariant ar y CRT o £210k, tanwariant o £308k ar Gronfa'r Cyngor a rhyddhau arian wrth gefn clustnodedig. Roedd y tanwariant net y Cyngor o gyllid y cyllidebwyd ar ei gyfer yn 2019/20 yn £0.518m. Fodd bynnag, defnyddiwyd cyfanswm o £0.583m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig y Cyngor a'r CRT i gyllido rhai costau yn ystod 2019/20. Arweiniodd hyn at gynnydd i £1.1m, yn hytrach na £0.518m, yng nghyfanswm y cronfeydd wrth gefn. Dangosir hyn yn y crynodeb isod o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy.

### Crynodeb o'r Symudiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Cyngor yn 2019/20

| **Crynodeb o'r Symudiadau ym Malansau/Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor yn 2019/20** | **Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor** | **Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig y Cyngor** | **Cronfa Wrth Gefn Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | **Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion** | **Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf** | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn mae modd eu defnyddio** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eitemau sy'n effeithio ar Gronfa Wrth Gefn y Cyngor 2019/20** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Balans Agoriadol Cronfa Wrth Gefn y Cyngor ar 1 Ebrill 2019 | (5,912) | (8,728) | (8,387) | (631) | (1,186) | (24,844) |
| Gor /(tan)wariant Net 2019/20 | (308) | - | (210) | - | - | (518) |
| **Balans y Cyngor ar ôl y gor /(tan)wariant** | **(6,220)** | **(8,728)** | **(8,597)** | **(631)** | **(1,186)** | **(25,362)** |
| Trosglwyddiadau Net o/(i) Gronfeydd Wrth Gefn ar gyfer cyllid a gymeradwywyd | (840) | (32) | - | 434 | (144) | (582) |
| **Balans y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2020** | **(7,060)** | **(8,760)** | **(8,597)** | **(197)** | **(1,330)** | **(25,944)** |

## NODYN 1 – NODYN AR Y DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO

## NODYN 1a – NODYN AR Y DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO 2019/20

| Addasiadau o'r Gronfa Cyffredinol i gael Symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Addasiadau Ar Gyfer Dibenion Cyfalaf £'000 | Newid Net Ar Gyfer yr Addasiadau Pensiwn £'000 | Gwahaniaethau arall £'000 | Cyfanswm Addasiadau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 4,188 | 2,700 | 298 | 7,186 |
| Gwasanaethau Oedolion | 347 | 2,257 | 63 | 2,667 |
| Gwasanaethau Plant | - | 197 | (12) | 185 |
| Tai | 6 | 353 | 18 | 377 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | 4,750 | 1,115 | 74 | 5,939 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 828 | 1,182 | 69 | 2,079 |
| Trawsnewid | 491 | 588 | 50 | 1,129 |
| Adnoddau | 16 | 626 | 7 | 649 |
| Busnes y Cyngor | 1 | 273 | 35 | 309 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | - | (277) | - | (277) |
| Rheolaeth Corfforaethol | - | - | - | - |
| Costau Na Ddosbarthwyd | - | 418 | - | 418 |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | (2,711) | 589 | 71 | (2,051) |
| **Cost net Gwasanaethau** | 7,916 | 10,021 | 673 | 18,610 |
| Incwm a Gwariant arall o'r Dadansoddiad Cyllido | (13,621) | 3,260 | - | (10,361) |
| **Gwahaniaeth rhwng y Gronfa Cyffredinol a'r CRT (Gwarged) neu Ddiffyg a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Gwarged) neu Ddiffyg** | (5,705) | 13,281 | 673 | 8,249 |

## 2018/19

| Addasiadau o'r Gronfa Cyffredinol i gael Symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Addasiadau Ar Gyfer Dibenion Cyfalaf £'000 | Newid Net Ar Gyfer yr Addasiadau Pensiwn £'000 | Gwahaniaethau arall £'000 | Cyfanswm Addasiadau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 3,583 | 1,939 | 229 | 5,751 |
| Gwasanaethau Oedolion | 611 | 1,623 | (70) | 2,164 |
| Gwasanaethau Plant | - | 20 | (14) | 6 |
| Tai | 1 | 246 | (13) | 234 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | 4,090 | 826 | (25) | 4,891 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 759 | 948 | (84) | 1,623 |
| Trawsnewid | 465 | 421 | 14 | 900 |
| Adnoddau | 16 | 478 | 20 | 514 |
| Busnes y Cyngor | 1 | 198 | (29) | 170 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | - | (282) | - | (282) |
| Rheolaeth Corfforaethol | - | - | - | - |
| Costau Na Ddosbarthwyd | - | 134 | - | 134 |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 1,555 | 407 | (51) | 1,911 |
| **Cost net Gwasanaethau** | 11,081 | 6,958 | (23) | 18,016 |
| Incwm a Gwariant arall o'r Dadansoddiad Cyllido | (11,929) | 2,850 | - | (9,079) |
| **Gwahaniaeth rhwng y Gronfa Cyffredinol a'r CRT (Gwarged) neu Ddiffyg a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Gwarged) neu Ddiffyg** | (848) | 9,808 | (23) | 8,937 |

## NODYN 1b – INCWM CYLCHRANNOL

| Gwasanaethau | 2019/20 Incwm o Wasanaethau £'000 | 2018/19 Incwm o Wasanaethau £'000 |
|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | (1,390) | (1,528) |
| Gwasanaethau Oedolion | (5,301) | (4,538) |
| Gwasanaethau Plant | - | - |
| Tai | (70) | (65) |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | (2,788) | (2,795) |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | (2,778) | (2,825) |
| Trawsnewid | (45) | - |
| Adnoddau | (151) | (154) |
| Busnes y Cyngor | (402) | (242) |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | (111) | (1,047) |
| Rheolaeth Corfforaethol | - | - |
| Costau Na Dosbarthwyd | | - |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | (18,585) | (17,607) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(31,621)** | **(30,801)** |

## NODYN 2a – SAFONAU CYFRIFO SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND NAD YDYNT WEDI EU MABWYSIADU HYD YMA

Yn unol â'r Côd Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20 (y Côd), mae'n rhaid datgelu effaith ddisgwyliedig unrhyw safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt wedi eu mabwysiadu hyd yma.

Y safonau newydd neu ddiwygiedig sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt wedi eu mabwysiadu hyd yma yw:-

- *SGR 28 Buddsoddiadau mewn Cymdeithasau a Chyd-fentrau*: Mae SGR 28 yn nodi y dylai sefydliad ddefnyddio'r dull ecwiti wrth gyfrif am fuddsoddiad mewn cymdeithas neu gyd-fenter oni bai bod y buddsoddiad yn gymwys fel eithriad. Nid oes gan y Cyngor fuddsoddiadau o'r math hwn ac, felly, nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar gyfrifon yr Awdurdod.

- *Gwelliannau Blynyddol i Gylch Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol SAARh 2015-2017. Mae hyn yn cynnwys diwygiadau i SAARh 3 ac SAARh 11 yn ogystal â SGR 12 a SGR 23.* Mae SAARh 3 ac 11 yn nodi, pan fydd parti i gyd-fenter yn cael rheolaeth o'r gyd-fenter honno sy'n fusnes, yna mae'n rhaid iddo ailfesur y diddordeb hwnnw yn y gyd-fenter ar werth teg oherwydd bod natur ei ddiddordeb wedi newid. Fodd bynnag, pan fydd parti sy'n cymryd rhan mewn mewn cyd-fenter (ond nad oes ganddo gyd-reolaeth drosti) yn ennill cyd-reolaeth nawr dros gyd-fenter sy'n fusnes, ni chaiff ailfesur y diddordeb a oedd ganddo'n flaenorol yn y busnes hwnnw. Mae'r Cyngor yn adolygu ei driniaeth gyfrifyddu o'r gofyniad hwn. Mae SGR 12 yn nodi bod yn rhaid i endid gydnabod holl ganlyniadau treth incwm difidendau, mewn elw neu golled, incwm neu ecwiti cynhwysfawr arall, yn dibynnu ar ble y tarddodd y trafodiad i gynhyrchu'r elw sy'n rhoi'r difidend. Nid yw hyn yn effeithio ar y Cyngor gan nad oes ganddo fuddsoddiadau o'r fath.

- Mae SGR 23 yn nodi bod yn rhaid i endid gynnwys yr holl gostau benthyca sy'n ddyledus sy'n ymwneud ag ased cydnabyddedig hyd yn oed pan fo'n barod i'w ddefnyddio neu i'w werthu. Mae'r Cyngor yn adolygu ei driniaeth gyfrifyddu o'r gofyniad hwn.

- *SGR 19 Buddion Gweithwyr:* Os bydd newid, cwtogiad neu setliad yn digwydd i gynllun, yna bydd yn orfodol i'r costau gwasanaeth a'r llog cyfredol am y cyfnod ar ôl y

digwyddiad gael eu hail-fesur. Mae diwygiadau hefyd wedi'u cynnwys i egluro effaith y digwyddiadau hyn ar y gofynion o ran y trothwy asedau. Mae'r Cyngor yn adolygu ei driniaeth gyfrifyddu o'r gofyniad hwn.

- *SAARh 16 - Prydlesau*: Mae'r gofyniad i fabwysiadu SAARh 16 wedi'i ohirio tan 2021/2022 yn sgil Covid-19 ac, felly, ni fydd yn berthnasol tan Ddatganiad Cyfrifon 2021/2022. Bydd y SAARh hon yn cael effaith ar y Cyngor oherwydd efallai y bydd angen iddo ddiwygio'r ffordd y mae'n cyfrif am asedau sydd ar brydles fel llungopïwyr, adeiladau a pheiriannau. Mae'r Cyngor yn adolygu ei driniaeth gyfrifyddu o'r gofyniad hwn*.*

**NODYN 2b – SAFONAU CYFRIFO SYDD WEDI EU CYHOEDDI A'U MABWYSIADU**

Cyflwynodd y Côd Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018/19 y gofynion newydd isod i Gynghorau gydymffurfio â nhw oherwydd safonau adrodd diweddaredig sydd wedi'u mabwysiadu. Mae'r newidiadau perthnasol yn ymwneud â'r safonau canlynol, a bydd pob un ohonynt, lle maent yn berthnasol, yn diwygio cyfrifon a gynhyrchwyd ar gyfer cyfnodau ariannol yn dechrau ar ôl 1 Ebrill 2019.

- SAARh 16 – Prydlesau. Mae'r gofyn i fabwysiadu SAARh 16 wedi'i ohirio i 2021/22 yn sgil Covid-19 ac ni fydd yn berthnasol i'r Datganiad Cyfrifon tan 2021/22.

**NODYN 3 - BARNAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU'R POLISÏAU CYFRIFO**

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 51, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud barnau penodol ynglŷn â thrafodion cymhleth neu rheini sydd yn cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Y barnau allweddol sydd wedi eu gwneud yn y Datganiad Cyfrifon yw:-

- Mae'r Cyfrifon wedi cael eu paratoi mewn modd sy'n tybio y bydd y swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn parhau i fod yn weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Corff llywodraeth leol yw'r Cyngor a grëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Mae'r Cyngor yn gweithredu o fewn hinsawdd ariannol anodd, yr un modd â phob awdurdod lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, ni cheir unrhyw arwyddion naill ai o berfformiad ariannol yr Awdurdod na chynlluniau Llywodraeth Cymru sy'n tanseilio'r farn y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu fel sefydliad hyfyw yn y dyfodol.
- Mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw nifer o asedau a ddefnyddir i ddibenion cymdeithasol neu ddatblygu economaidd yn cael eu dal i bwrpas creu incwm neu gynyddu cyfalaf yn unig ac, o'r herwydd, nid ydynt yn cael eu hystyried fel eiddo buddsoddiad. O ganlyniad, caiff yr asedau hyn eu nodi fel Asedau Nad Ydynt yn Gyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen. Yn unol â'r canllawiau cyfredol ynghylch y modd yr ymdrinnir â rhai mathau o ysgolion, dim ond gwerth tir ysgolion a reolir yn wirfoddol sy'n cael ei gynnwys ar y Fantolen lle mae gan y corff gwirfoddol reolaeth sylweddol dros yr adeilad. Oherwydd nad yw'r Cyngor yn berchen ar ysgolion o'r fath, ac oherwydd nad oes ganddo fynediad iddynt i bwrpas eu prisio, nid yw gwerth yr adeiladau wedi ei gynnwys ar y Fantolen. Yn ychwanegol at hyn, nid yw gwerth y tir na'r adeiladau ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol ac ysgolion sefydledig wedi eu cynnwys ar y Fantolen.
- Caiff grantiau cyfalaf a refeniw eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn asesu a yw'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrth y grantiau perthnasol wedi eu bodloni. Os bydd y telerau a'r amodau wedi eu bodloni, byddant yn cael eu cydnabod o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Os na fyddant, byddant yn cael eu cario o fewn y Fantolen o fewn credydwyr hyd nes y bydd y telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r grant wedi eu bodloni neu fod y grant yn cael eu had-dalu i ddarparwr y grant pe na bai'r telerau a'r amodau yn cael eu bodloni. Gall y driniaeth hon olygu bod balansau o bwys yn cael eu cario yn y Fantolen fel incwm a ohiriwyd.
- Mae gofynion y grŵp wedi ei hadolygu gan ddefnyddio'r meini prawf a amlinellwyd yn y safonau cyfrifo perthnasol a'r Côd Ymarfer; nid yw'r Cyngor wedi nodi unrhyw gwmnïau na

sefydliadau y byddai angen iddo gwblhau cyfrifon grŵp.

- Mae cael ansicrwydd ynghylch dyfodol cyllid llywodraeth leol yn beth arferol ac, fel arfer, ni fyddai hyn yn ddigonol i roi arwydd y gallai asedau'r Cyngor gael eu amharu o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau darpariaeth gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r argyfwng Coronafirws wedi arwain at ansicrwydd byd-eang mor sylweddol nes bod y Cyngor wedi ystyried ei effaith ar bedwar prif faes, sef ar brisio peiriannau, eiddo ac offer; ar fuddsoddiadau; ar y gronfa bensiwn ac ar ddyledion sy'n ddyledus i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn parhau i asesu'r effaith ond ar adeg cyhoeddi'r cyfrifon drafft, roedd yr Awdurdod wedi penderfynu y byddai'r amhariad ar beiriannau, eiddo ac offer y Cyngor, yn ogystal ag ar fuddsoddiadau, yn fach iawn ond mae wedi cynyddu'r amhariad ar ddyledion sy'n ddyledus o £49k. Mae'r Actwari wedi diweddaru'r adroddiad Cronfa Bensiwn er mwyn ystyried effaith Covid-19 ar y gronfa ac mae hefyd yn cymryd i ystyriaeth y wybodaeth ddiweddar mewn perthynas â'r achos McCloud.

## NODYN 4

### NODYN 4a - RHAGDYBIAETHAU A WNAED YNGHYLCH ANSICRWYDD YN Y DYFODOL AC AMCANGYFRIFON A FFYNONELLAU ERAILL O ANSICRWYDD

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar ragdybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyngor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon trwy ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r rhagdybiaethau ac amcangyfrifon.

Gellir ystyried yr eitemau canlynol ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2020 fel rhai sydd fwyaf agored i risg o gamgymeriad amcangyfrif yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:-

**Brexit**

Gadawodd y Deyrnas Unedig yr Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr ac mae bellach mewn cyfnod pontio gyda'r U.E. tan 31 Rhagfyr 2020. Yn ystod y cyfnod pontio, bydd y mwyafrif o drefniadau yn aros yr un fath a bydd y cyfnod yn caniatáu i'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd drafod a chytuno ar eu perthynas yn y dyfodol. Mae Brexit yn parhau i fod yn faes o ansicrwydd sylweddol i Lywodraeth Leol ac yn benodol gall mater o ffin Iwerddon effeithio ar Ynys Môn trwy Borthladd Caergybi a fferïau Iwerddon. Mae effeithiau sydd bosibl ar Wasanaethau CSYM yn cael eu monitro'n barhaus gan ei Chydlynydd yr U.E. a materion yn cael eu hywchgyfeirio lle bo angen. Crëwyd cofrestr Risg Brexit yn ychwanegol at y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac mae'r ddau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae Cynlluniau Parhad Busnes Corfforaethol a Gwasanaeth wedi'u diwygio i ystyried unrhyw effeithiau o ganlyniad i Brexit. Mae archwiliad diweddar o barodrwydd y Cyngor wedi canfod Sicrwydd Rhesymol bod mesurau addas ar waith.

**Asedau Anghyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar** - Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifo. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 15.

Pan fo gan eitem o Eiddo, Offer a Chyfarpar (Ased Anghyfredol) cydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân.

I weithredu hyn yn ymarferol, mae'n ofynnol gwneud asesiad yn erbyn y meini prawf isod i sefydlu os:-

- Yw'r oes fuddiol economaidd yn sylweddol wahanol i'r cydrannau arall o'r ased h.y. 15 mlynedd neu fwy;

- Yw gwerth yr ased yn £2m neu fwy, ac mae'r cydran dros 25% o gyfanswm gwerth yr ased;
- Yw'r oes fuddiol economaidd yn sylweddol wahanol ond mae'r gwerth yn cynrychioli llai na 25% o gyfanswm gwerth yr ased, bydd y cydran yn cael ei nodi ar wahân os, ym marn y Prisiwr, bernir ei fod yn faterol e.e. lle mae gwerth y cydran yn, dywedwch, £3m (10%) o'r ased dibrisiedig sydd â chyfanswm gwerth o £30m.

Os yw'r ased dibrisiedig yn rhan o grŵp ehangach a ddelir ar gyfer yr un pwrpas, er engraifft, canolfannau hamdden, bydd y polisi yma a argymhellir ar cydrannu yn cael ei gymhwyso i'r cyfanswm o'r grŵp ehangach yma ac nid i bob ased dibrisiedig unigol o fewn y grŵp.

**Amnewid Asedau** - lle caiff ased a oedd yn rhan o ased llawer mwy ei amnewid ond nad yw'n ddigon arwyddocaol i gael ei gydranoli, bydd cost y rhan newydd / yr ased newydd yn cael ei ddefnyddio fel gwerth procsi pan gaiff yr hen ran / yr hen ased ei ddad-gydnabod.

**Tai Cyngor -** Mae stoc Dai'r Cyngor yn cael ei brisio drwy ddefnyddio methodoleg safonol, sydd yn rhannol angen defnyddio ffactor addasu i ganiatáu am y gwahaniaethau rhwng cynnyrch a rhent ar dai cymdeithasol a'r sector breifat. Ar hyn o bryd, nid oes ffactor addasu wedi ei chyhoeddi ar gyfer Cymru, felly, dewisodd y Cyngor ffactor addasu sydd wedi ei chyhoeddi ar gyfer yr ardaloedd mwyaf cymharol yn Lloegr, y ffactor a ddefnyddiwyd oedd 41%. Petai ffactor penodol yn cael ei gyhoeddi, un ai ar gyfer Cymru yn ei gyfanrwydd neu ar sail ranbarthol, yna byddid yn gweithredu ar hynny.

**Darpariaethau** – Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth am gyfres o faterion ansicr â all arwain at gostau sylweddol mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf a chostau ôl-ofal ar gyfer safle tirlenwi Penhesgyn a rhwymedigaethau posibl sy'n deillio o hawliadau yswiriant. Ceir manylion llawn yn Nodyn 27.

**Rhwymedigaeth Pensiynau** - Mae sefyllfa'r Rhwymedigaeth Bensiwn, a adlewyrchir yn y cyfrifon, yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth yn ymwneud â chyfraddau disgownt, codiadau cyflog rhagamcanedig, newidiadau i oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau a'r dychweliadau disgwyliedig ar asedau pensiwn. Mae'r Cyngor sy'n gweinyddu'r gronfa wedi cyflogi cwmni o actiwarïaid ymgynghorol i ddarparu cyngor arbenigol ar y rhagdybiaethau i'w defnyddio. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 41.

**Lwfans Colledion Amhariad** – Ar 31 Mawrth 2020, roedd gan y Cyngor falans o £32.772m o ran dyledion net. Awgrymodd adolygiad o'r balans dyledion fod swm amhariad o £5.618m yn briodol ar gyfer dyledion amheus. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng lefel yr amhariad a ddefnyddiwyd a'r gwir sefyllfa ôl-ddyledion ei adlewyrchu ym mhatrwm gwariant y dyfodol. Mae'r ffigwr lwfans colledion amhariad / darparu ar gyfer drwgddyledion wedi ei gynnwys yn y ffigyrau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 24.

**Mesur Gwerth Teg -** Bydd gwerth teg yn cael ei fesur yn unol ag SAARh13 Mesur Gwerth Teg fel yr adroddwyd arno yng Nghôd Ymarfer CIPFA am 2019/20. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae mesur gwerth teg yn fesur sy'n seiliedig ar y farchnad. Rhydd SAARh13 fwy o gyfeiriad ac eglurder mewn perthynas â phrisio asedau a rhwymedigaethau. Fodd bynnag, os nad oes marchnad ar gael i'w harsylwi er mwyn sefydlu gwerth, bydd angen defnyddio barn broffesiynol. Mewn achosion lle na fedrir mesur gwerth teg asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol yn seiliedig ar brisiau a ddyfynnwyd mewn marchnadoedd gweithredol (h.y. mewnbynnau Lefel 1), caiff eu gwerth teg eu mesur drwy ddefnyddio technegau prisio (e.e. prisiau a ddyfynnwyd ar gyfer asedau neu rwymedigaethau tebyg mewn marchnadoedd gweithredol). Lle mae'n bosibl, bydd y mewnbynnau i'r technegau prisio hyn yn seiliedig ar ddata sydd ar gael i'w arsylwi ond, os nad yw hynny'n bosibl, rhaid defnyddio barn i sefydlu gwerthoedd teg. Yn gyffredinol, wrth lunio barn rhaid cymryd ffactorau megis ansicrwydd a risg i ystyriaeth. Fodd bynnag, gallai newid yn y tybiaethau a ddefnyddir effeithio ar werth teg asedau a rhwymedigaethau'r Awdurdod. Defnyddir y model cost amnewid dibrisiedig (DRC) i fesur gwerth teg rhai o eiddo buddsoddiad yr Awdurdod.

Os nad oes mewnbynnau Lefel 1 ar gael, bydd yr Awdurdod yn cyflogi arbenigwyr perthnasol i nodi'r technegau prisio mwyaf priodol er mwyn penderfynu gwerth teg (er enghraifft, Uwch Swyddog Prisio'r Awdurdod ar gyfer eiddo buddsoddiad).

Mae'r mewbynnau sylweddol nad oes modd eu harsylwi a ddefnyddir yn yr asesiad o werth teg yn cynnwys tybiaethau rheolwyr ynghylch twf rhent, i ba lefel y mae eiddo'n wag (yn achos eiddo buddsoddiad) a chyfraddau disgownt – wedi eu haddasu ar gyfer ffactorau rhanbarthol (ar gyfer eiddo buddsoddiad a rhai asedau ariannol). Byddai newidiadau sylweddol mewn unrhyw un o'r mewnbynnau nad oes modd eu harsylwi yn arwain at fesuriadau gwerth teg a fyddai'n sylweddol is neu'n sylweddol uwch ar gyfer eiddo buddsoddiad ac asedau ariannol.

Mae sefyllfa'r Novel Coronavirus (Covid-19), a gafodd ei datgan fel "Pandemig Byd-eang" gan Sefydliad Iechyd y Byd ar 11 Mawrth wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol y byd. Mae cyfyngiadau teithio wedi eu gweithredu mewn nifer o wledydd. Mae gweithgaredd y farchnad yn cael ei effeithio arni mewn nifer o sectorau. Fel ar y dyddiad prisio, rydym yn ystyried y gallwn roi llai o bwys ar dystiolaeth flaenorol y farchnad at ddibenion cymharu, er mwyn ffurfio barn am werth. Yn wir, mae'r ymateb presennol i Covid-19 yn golygu ein bod yn wynebu cyfres gwbl ddigynsail o amgylchiadau y mae'n rhaid ffurfio barn arnynt.

Mae ein prisiau felly wedi eu seilio ar 'ansicrwydd gwerth materol' yn unol â VPS 3 a VPGA 10 o'r RICS Red Book Global. O ganlyniad, dylid cysylltu llai o sicrwydd – a graddfa uwch o ofal - i'n prisiad nac arfer. O ystyried yr effaith anhysbys y gallai Covid-19 ei gael ar y farchnad ystâd real, mae'r RICS (Sefydliad Prydeinig Syrfewyr Siartredig) yn argymell bod yr awdurdod yn cadw gwerth yr eiddo hyn o dan adolygiad rheolaidd.'

**NODYN 4b – ADDASIADAU AR GYFER Y CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISÏAU CYFRIFO AC AMCANGYFRIFON A CHAMGYMERIADAU**

Ni fu angen ailddatganiadau yn ystod 2019/20.

**NODYN 5 – EITEMAU PERTHNASOL O INCWM A GWARIANT**

Nid oes unrhyw eitemau perthnasol o incwm neu wariant nad ydynt wedi eu datgelu mewn rhan arall o'r cyfrifon hyn.

**NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**

Awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi gan Swyddog Adran 151 y Cyngor ar 21 Hydref 2020. Ni adlewyrchir digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn yn y datganiadau neu nodiadau ariannol.

Pan fo digwyddiadau cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2020, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a nodiadau ariannol wedi eu haddasu ym mhob ffordd berthnasol i adlewyrchu effaith y wybodaeth yma.

Mae'r digwyddiadau canlynol rhwng 31 Mawrth 2020 a 21 Hydref 2020 wedi cael effaith ar y Cyngor ac mae'n bwysig eu datgelu i ddarllenwyr Datganiad y Cyfrifon:

1. Yn ddiweddar, dyfarnodd y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff ei Gontract Casglu Gwastraff a Glanhau i'w ddarparwr presennol Biffa plc ar ôl proses dendro ddwys. Bydd y contract newydd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2021 am gyfnod cychwynnol o 8 mlynedd gyda'r opsiwn i ymestyn ar ddiwedd y cyfnod hwnnw a bydd werth £40m dros y cyfnod cychwynnol. Mae'r contract presennol rhwng y Cyngor Sir a Biffa wedi galluogi Ynys Môn i ddod yn un o'r prif Siroedd ailgylchu yn y Deyrnas Unedig a bydd y ddwy ochr yn anelu at wella cyfraddau ailgylchu a glanhau hyd yn oed ymhellach yn y dyfodol o dan y contract newydd.

2. Fel rhan o'i fenter i ddarparu portffolio addas o dai cymdeithasol i gwrdd a’r galw, mae'r Gwasanaeth Tai, yn ddiweddar wedi prynu tir yn ardal Llaingoch yng Nghaergybi, gan ddatblygwr gyda'r bwriad o adeiladu 26 annedd cymdeithasol yn y dyfodol agos. Talodd y Cyngor £430k am y tir. Cost codi adeilad newydd ar gyfartaledd yw £157k yr annedd. Byddai hyn yn costio £4.082m i'r stad gyfan. Byddai'r costau hyn yn rhan o'r rhaglen gyfalaf a byddent yn cael eu hariannu naill ai gan gronfa wrth gefn y CRT neu drwy fenthyca’n allanol. Amcangyfrifir y byddai incwm blynyddol yn £4,819.50 yr annedd a fyddai’n arwain , fe amcangyfrifir, at gyfanswm incwm rhent o £125k y flwyddyn. Mae yna fanteision llawer ehangach na chasglu rhent. Bydd gan y Cyngor fwy o gapasiti i ddarparu tai cymdeithasol i unigolion a theuluoedd a bydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion mewn perthynas â thai cymdeithasol a llai o ddigartrefedd.

3. Mae'r Awdurdod yn parhau i ddarparu cefnogaeth i'r Gymuned yn dilyn pandemig Covid 19 a bydd yr effaith ariannol trwy gostau uwch a cholli incwm yn cael ei fonitro yn ystod y misoedd nesaf. Mae enghreifftiau penodol o gefnogaeth yn cynnwys:
    - Annog preswylwyr a thwristiaid i siopa’n lleol trwy weithredu ei ‘Gynllun Adfer Canol y Dref’ gan gynnwys cynnig parcio am ddim yng nghanol trefi.
    - Cynorthwyo'r Sector Lletygarwch i ailagor trwy ddarparu arweiniad ac eglurhad i Fusnesau Lleol ar sut i gydymffurfio â chanllawiau Diweddaraf Llywodraeth Cymru.
    - Ehangu ei Wasanaeth llyfrgelloedd ‘Galw a Chasglu; a’i gwasanaeth dosbarthu i’r cartref.
    - Gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol, busnesau a thrigolion lleol i ddarparu banciau bwyd a dosbarthu bwyd i'r rhai sy'n fregus.
    - Dosbarthu Grantiau Busnes Covid-19 ar ran Llywodraeth Cymru.
    - Amddiffyn y gymuned rhag galwyr oer a thwyllwyr sy'n gwerthu pecyn profi firws Covid-19 PPE annibynadwy a ffug.
    - Cymryd rhan yn y fenter orhain o’r feirws ac atal ei ddychwelyd.
    - Darparu cysgod i'r Digartref trwy gyfres o gabanau ar hen safle Plas Penlan.
    - Cynorthwyo i baratoi Ysgolion ar gyfer ailagor ym mis Medi gyda'r bwriad o ailagor yn llawn o 10 Medi.

    Mae'r costau hyn yn effeithio ar flwyddyn ariannol 2020/21. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid grant ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â Covid a cholli incwm, felly ar gyfer Chwarter un rhagwelir gorwariant bach o £27k ar gyfer y flwyddyn 2020/21. Mae'r gwasanaethau a arweinir gan y galw h.y. ysgolion a gofal cymdeithasol i blant wedi tanwario'n sylweddol yn ystod y chwarter cyntaf oherwydd cau ysgolion, ac ati. Mae'r galw am y gwasanaethau hyn wedi cynyddu ers mis Medi. Mae'n ansicr pa mor hir y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu costau ychwanegol sy'n codi o Covid-19 neu'n digolledu'r Cyngor am golli incwm. Os daw'r cyllid hwn i ben, bydd y gorwariant a ragwelir yn cynyddu.

4. Pensiynau - Mae actiwari’r Gronfa Bensiwn wedi diwygio adroddiad Pensiynau 2019/20 i adlewyrchu’r ffaith na fydd dyfarniad McCloud (sydd yn atal gwahaniaethu ar sail oedran) yn costio cymaint â’r disgwyl i’r gronfa bensiwn. Mae'r dyfarniad yn golygu y bydd costau ychwanegol ar gyfer holl gronfeydd pensiwn gwasanaeth y sector cyhoeddus ond ni fydd rhain mor uchel ag y tybiwyd gyntaf. Gostyngodd hyn gost y pensiynau hanesyddol o £953k i £418k. Yn ogystal, cymerodd yr adroddiad diwygiedig i ystyriaeth effaith bosibl COVID-19 ar fuddsoddiadau’r Gronfa Bensiwn oherwydd y dirwasgiad a ddeilliodd o’r cyfyngiadau. Arweiniodd hyn at gynnydd yn atebolrwydd sylfaenol y gronfa bensiwn. Nid yw'r rhain yn effeithio ar alldro na chronfeydd cyffredinol y Cyngor na'r CRT gan fod y rhain yn addasiadau cyfrifo statudol sy'n ofynnol gan reolau cyfrifo. Mae cyfraith Llywodraeth Cymru yn rhagnodi na ddylai'r rhain effeithio ar dalwyr trethi cyngor felly mae'r costau'n cael eu addasu yn y datganiad symud mewn cronfeydd wrth gefn ond codir cyfraniadau gwirioneddol a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn ar Gronfa'r Cyngor a chronfeydd cyffredinol CRT. Achos posib arall sy'n effeithio ar gronfeydd Pensiwn yw

Achos Goodwin, sef achos gwahaniaethu ar sail rhyw. Mae yn ei gamau cychwynol felly ni wyddys beth yw effaith bosibl hyn. Bydd yr actiwari yn ystyried unrhyw gostau posibl yn adroddiad y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2020/21.

## NODYN 7 – ADDASIADAU RHWNG SAIL GYFRIFO A SAIL CYLLIDO DAN REOLIADAU

| 2019/20 | Cronfeydd wrth Gefn y mae modd eu ddefnyddio | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cyfrif Refeniw Tai £'000 | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd £'000 | Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn nad oes modd eu defnyddio £'000 |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:** | | | | | |
| ***Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:*** | | | | | |
| Taliadau am dibrisiant, amhariad ac amorteiddio asedau nad ydynt yn gyfredol | 9,872 | 3,776 | - | - | (13,648) |
| Colledion aibrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | 945 | (31) | - | - | (914) |
| Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad colled / (ennill) | (295) | - | - | - | 295 |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghynwysedig a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (13,954) | (4,202) | - | - | 18,156 |
| Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | 125 | - | - | - | (125) |
| Dadgydnabod - rhannau newidiol | 3,281 | 6,213 | - | - | (9,494) |
| Swm a gludir o asedau nad ydynt yn gyfredol a werthwyd | 1,062 | - | - | - | (1,062) |
| ***Cynnwys eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:*** | - | - | - | - | |
| Darpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer Cyllido Cyfalaf | (2,655) | (816) | - | - | 3,471 |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT | (224) | (7,609) | - | - | 7,833 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:** | - | - | - | - | |
| Elw o werthu asedau nad ydynt yn gyfredol | (1,194) | - | 1,194 | - | - |
| Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf | - | - | (1,050) | - | 1,050 |
| Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf | - | - | - | - | - |
| Derbyniadau cyfalaf eraill | - | - | - | - | - |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:** | - | - | - | - | |
| Swm ble mae'r costau cyllido yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllido priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | (101) | (42) | - | - | 143 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn:** | - | - | - | - | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â buddiannau ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 41) | 20,796 | 999 | - | - | (21,795) |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | (8,104) | (410) | - | - | 8,514 |
| **Addasiad yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol** | - | - | - | - | |
| Addasiadau mewn perthynas ag absenoldebau digolledol tymor byr | 602 | 71 | - | - | (673) |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **10,156** | **(2,051)** | **144** | **-** | **(8,249)** |

| 2018/19 | Cronfeydd wrth Gefn y mae modd eu ddefnyddio | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa'r Cyngor | Cyfrif Refeniw Tai | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd | Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn nad oes modd eu defnyddio |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:** | | | | | |
| ***Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:*** | | | | | |
| Taliadau am dibrisiant, amhariad ac amorteiddio asedau nad ydynt yn gyfredol | 9,327 | 3,868 | - | - | (13,195) |
| Colledion aibrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | 199 | 7 | - | - | (206) |
| Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad colled / (ennill) | 1,518 | - | - | - | (1,518) |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghynwysedig a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (13,958) | (2,671) | - | - | 16,629 |
| Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | 25 | - | - | - | (25) |
| Dadgydnabod - rhannau newidiol | 1,913 | 7,504 | - | - | (9,417) |
| Swm a gludir o asedau nad ydynt yn gyfredol a werthwyd | 1,675 | - | - | - | (1,675) |
| ***Cynnwys eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:*** | | | | | |
| Darpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer Cyllido Cyfalaf | (2,463) | (833) | - | - | 3,296 |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT | - | (6,357) | - | - | 6,357 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:** | | | | | |
| Elw o werthu asedau nad ydynt yn gyfredol | (1,592) | - | 1,592 | - | - |
| Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf | - | - | (726) | - | 726 |
| Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf | - | - | - | - | - |
| Derbyniadau cyfalaf eraill | - | - | - | - | - |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:** | | | | | |
| Swm ble mae'r costau cyllido yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllido priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | 87 | 37 | - | - | (124) |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn:** | | | | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â buddiannau ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 41) | 17,768 | 407 | - | - | (18,175) |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | (8,367) | - | - | - | 8,367 |
| **Addasiad mewn perthynas â'r Cyfrif Addasu Ôl-dâl Anghyfartal** | | | | | |
| Symiau a godir ar y CIES sydd yn wahanol i gostau'r setliadau yn ystod y flwyddyn a hynny'n unol â gofynion statudol | - | - | - | - | - |
| **Addasiad yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol** | | | | | |
| Addasiadau mewn perthynas ag absenoldebau digolledol tymor byr | 28 | (51) | - | - | 23 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **6,160** | **1,911** | **866** | **-** | **(8,937)** |

## NODYN 8 – CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD

| | Balans ar 01/04/2018 £'000 | Trosglwyddiadau Mewn 2018/19 £'000 | Trosglwyddiadau Allan 2018/19 £'000 | Balans ar 31/03/2019 £'000 | Trosglwyddiadau Mewn 2019/20 £'000 | Trosglwyddiadau Allan 2019/20 £'000 | Balans ar 30/03/2020 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf - Cyfraniadau Refeniw na chymhwyswyd | 1,137 | 192 | (218) | 1,111 | 180 | (448) | 843 |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyfyngedig | 3,625 | 3,241 | (1,533) | 5,333 | 1,981 | (1,260) | 6,054 |
| Buddsoddi i Arbed | 653 | - | (251) | 402 | - | (89) | 313 |
| Tâl Cyfartal | 814 | - | (450) | 364 | - | (314) | 50 |
| Ailgylchu | 122 | 250 | (104) | 268 | 250 | (268) | 250 |
| Cronfa Yswiriant | 1,250 | 161 | (161) | 1,250 | - | - | 1,250 |
| **Cyfanswm** | **7,601** | **3,844** | **(2,717)** | **8,728** | **2,411** | **(2,379)** | **8,760** |

### Pwrpas Cronfeydd Refeniw wrth Gefn a Glustnodwyd

**Cyfalaf – Cyfraniadau Refeniw na Chymhwyswyd –** i gyllido gwariant cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod. Crëwyd hwn i sicrhau bod gwariant cyfalaf ymrwymedig, yn cynnwys gwariant sydd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol, yn cael ei gyllido'n llawn.

**Cronfeydd wrth Gefn Cyfyngedig –** cronfeydd wrth gefn penodol a glustnodwyd o fewn meysydd gwasanaeth.

**Buddsoddi i Arbed –** crêwyd y gronfa wrth gefn hon i gyllido prosiectau buddsoddi-i-arbed lle mae'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu buddsoddi mewn prosiectau fydd yn arwain i arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol.

**Tâl Cyfartal** – mae'r gronfa wrth gefn yma i gyllido costau'n codi o hawliadau tâl cyfartal megis ffioedd cyfreithiol a hawliadau.

**Ailgylchu -** adnoddau wedi cael eu neilltuo'n benodol ar gyfer mentrau ailgylchu gwastraff.

**Cronfa Yswiriant -** mae'r Cyngor yn rhedeg cyfrif yswiriant mewnol i dalu am golledion a rhwymedigaethau heb yswiriant. Codir "premiwm ychwanegol" ar wasanaethau er mwyn cyllido'r cyfrif hwn. Darperir ar gyfer colledion a rhwymedigaethau y gwyddys eu bod yn golledion ar ddiwedd y flwyddyn. Mae unrhyw golledion neu rwymedigaethau sy'n codi o ddigwyddiadau a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn ond na chawsant eu cyflwyno tan ddyddiad diweddarach yn cael eu cynnwys dan y gronfa yswiriant wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys y gwarged ar y cyfrif yswiriant mewnol a'r balansau llog.

## NODYN 9 - BALANSAU YSGOLION

Cedwir y balansau hyn ar gyfer defnydd pob ysgol yn unol â'u hamcanion addysgiadol.

| | Balans 1 Ebrill 2018 £'000 | Ychwanegiad / (Lleihad) am 2018/19 £'000 | Balans 31 Mawrth 2019 £'000 | Ychwanegiad / (Lleihad) am 2019/20 £'000 | Balans 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd Cymunedol a Gwirfoddol | 1,241 | (453) | 788 | 54 | 842 |
| Ysgolion Uwchradd Cymunedol | 410 | (668) | (258) | (435) | (693) |
| Ysgol Arbennig Gymunedol | 79 | (139) | (60) | (24) | (84) |
| Ysgol Gynradd Sefydledig | 139 | 22 | 161 | (29) | 132 |
| **Cyfanswm** | **1,869** | **(1,238)** | **631** | **(434)** | **197** |

Ar 31 Mawrth 2020, roedd gan naw o'r deugain ysgol cynradd falansau sydd mewn diffyg (deuddeg ar 31 Mawrth 2019). Roedd tair o'r bump ysgol uwchradd mewn sefyllfa ddiffygol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (tair ar 31 Mawrth 2019), mae'r Ysgol Arbennig hefyd mewn sefyllfa ddiffygol ar 31 Mawrth 20. Mae'r gwerth cyfunol o'r ysgolion mewn diffyg yn £1.2m (£0.93m ar 31 Mawrth 2019). Gellir cael copïau o'r Datganiadau Adran 52, y mae'n ofynnol i bob Cyngor ei baratoi ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol o dan Adran 52(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, gan yr Adain Gyfrifeg, Swyddogaeth Adnoddau, Swyddfeydd y Sir, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW.

## NODYN 10 – CRONFA WRTH GEFN DERBYNIADAU CYFALAF

Dyma dderbyniadau arian parod o werthu asedau'r Cyngor. Defnyddir rhain i gyllido gwariant cyfalaf yn y flwyddyn neu i ddwyn ymlaen am flynyddoedd yn y dyfodol. Bydd balans o £1.330m yn cael ei ddwyn ymlaen i 2020/21 i helpu cyllido rhaglen gyfalaf flwyddyn nesaf.

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans 1 Ebrill** | 1,186 | 320 |
| Derbyniadau Cyfalaf yn y Flwyddyn (net o leihad ar gyfer costau gweinyddu) | 1,194 | 1,592 |
| | **2,380** | **1,912** |
| **Llai:** | | |
| Derbyniadau a roddwyd o'r neilltu i ad-dalu dyledion | - | - |
| Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddiwyd i gyllido | (1,050) | (726) |
| Eraill | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,330** | **1,186** |

## NODYN 11 - CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| | | 31/03/2020<br>£'000 | 31/03/2019<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| a) | Cyfrif Addasu Cyfalaf | 146,341 | 137,949 |
| b) | Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | (431) | (574) |
| c) | Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | 142,402 | 131,743 |
| ch) | Cronfa Wrth Gefn Pensiwn | (124,520) | (130,730) |
| d) | Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol | (1,450) | (776) |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu Defnyddio** | | **162,342** | **137,612** |

## NODYN 11a – CYFRIF ADDASU CYFALAF

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo defnydd asedau nad ydynt yn gyfredol a chyllido'r broses o gaffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda chostau megis dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddiad sy'n cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a gydag arian a symudwyd o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i drosi ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol.

Credydir y Cyfrif gyda symiau a osodwyd o'r neilltu gan y Cyngor fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronnus ar Eiddo Buddsoddiad. Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisiant cronnus ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crëwyd y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i ddal y fath enillion. Mae Nodyn 7 yn rhoi manylion ffynhonnell yr holl drafodion a symudwyd i'r Cyfrif, heblaw am y rheini a oedd yn ymwneud â'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn.

| Cyfrif Addasu Cyfalaf | 2019/20 | | 2018/19 | |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill** | | **137,949** | | **134,369** |
| **Gwyrdroad eitemau yn ymwneud â gwariant cyfalaf wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant ac amorteiddiad asedau anghyfredol | (13,648) | | (13,195) | |
| Asedau sydd wedi eu dad-gydnabod | (9,494) | | (9,417) | |
| Colledion Ailbrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | (914) | | (206) | |
| Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | (125) | | (25) | |
| Symiau o asedau angyfredol a ddilëwyd ar waredu neu werthiant (yn cynnwys amhariad) fel rhan o'r enilliad/(colled) ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (1,062) | | (1,675) | |
| | | **(25,243)** | | **(24,518)** |
| Symiau addasiad a ddilëwyd o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | | 2,831 | | 2,608 |
| **Swm net a ddilëwyd o gost asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn** | | **(22,412)** | | **(21,910)** |
| **Cyllido cyfalaf a gymhwyswyd yn y flwyddyn:** | | | | |
| Defnydd y Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd | 1,050 | | 726 | |
| Defnydd y Gronfa Wrth Gefn Cyfalaf | 224 | | - | |
| Grantiau Cyfalaf a chyfraniadau wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sydd wedi ei gymhwyso i gyllido cyfalaf | 18,156 | | 16,629 | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT | 3,470 | | 3,296 | |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT | 7,609 | | 6,357 | |
| | | **30,509** | | **27,008** |
| Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad a godwyd yn erbyn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | **295** | | **(1,518)** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | | **146,341** | | **137,949** |

## NODYN 11b – CYFRIF ADDASU OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol (FIAA) yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo'r incwm a threuliau sy'n ymwneud ag offerynnau ariannol penodol ac i gynnal colledion neu gael budd o enillion fesul darpariaeth statudol. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r Cyfrif i reoli'r premiymau a delir a'r cosbau a gafwyd oherwydd adbrynu benthyciadau yn gynnar. Mae'r premiymau a'r cosbau'n cael eu codi yn erbyn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan maent yn digwydd, ond maent yn cael eu symud allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r FIAA yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn. Dros amser, caiff y gost hon ei symud yn ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn unol â'r trefniadau statudol ar gyfer gwasgaru baich y Dreth Gyngor. Yn achos y Cyngor, y cyfnod hwn yw'r tymor a oedd yn weddill ar y benthyciadau pan gawsant eu hadbrynu.

| Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **(574)** | **(450)** |
| Swm y mae costau cyllido a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i gostau cyllido sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | 143 | (124) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **(431)** | **(574)** |

## NODYN 11c – CRONFA AILBRISIANT WRTH GEFN

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys yr enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Treftadaeth.

Mae'r balans yn gostwng pan fo asedau gydag enillion cronnus yn cael eu:-

- hailbrisio i lawr neu fod amhariad arnynt a'r enillion yn cael eu colli;
- defnyddio i ddarparu gwasanaethau a'r enillion yn cael eu colli trwy ddibrisiant; neu
- gwaredu a gwireddu'r enillion.

Dim ond enillion ailbrisiant a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007 sydd yn y Gronfa wrth Gefn, sef y dyddiad y crëwyd y Gronfa Wrth Gefn.

Mae enillion cronnus a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw'n cael eu cyfuno i'r balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **131,743** | **128,199** |
| Ailbrisio asedau a cholledion amhariad na chodwyd ar y Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 13,487 | 6,152 |
| Gwahaniaeth rhwng dibrisiant werth teg a dibrisiant gost hanesyddol | (2,053) | (1,914) |
| Balansau ailbrisio ar asedau wedi eu sgrapio neu eu gwaredu | (775) | (694) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **142,402** | **131,743** |

## NODYN 11ch – CRONFA WRTH GEFN PENSIYNAU

Mae'r Gronfa Wrth Gefn Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo am fuddiannau ôl-gyflogaeth a chyllido buddiannau yn unol â darpariaethau statudol.

| Cronfa Wrth Gefn Pensiynau | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **(130,730)** | **(102,188)** |
| Ail-fesur rhwymedigaeth net diffinedig | (21,795) | (18,734) |
| Gwyrdroad eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 19,491 | (18,175) |
| Cyfraniad pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn daladwy yn ystod y flwyddyn | 8,514 | 8,367 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **(124,520)** | **(130,730)** |

Mae'r Cyngor yn rhoi cyfrif am fuddiannau ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddiannau yn cael eu ennill gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir i adlewyrchu chwyddiant, rhagdybiaethau sy'n newid a dychweliadau buddsoddiad ar unrhyw adnoddau a osodir o'r neilltu i gwrdd â'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiannau a enillir gael eu cyllido fel y bo'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu, yn y diwedd, yn talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Felly, mae'r balans debyd ar y Gronfa Wrth Gefn Pensiynau yn dangos diffyg sylweddol yn y buddiannau a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi eu rhoi o'r neilltu i gwrdd â nhw.

Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi ei roi o'r neilltu erbyn yr amser y daw'n amser i ni dalu'r buddiannau.

## NODYN 11d – CYFRIF ADDASU ABSENOLDEBAU DIGOLLEDOL CRONNOL

Mae'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar Falans Cronfa'r Cyngor o gronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond na chymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e. hawliau gwyliau blynyddol a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Setliad neu ddiddymu'r croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | (776) | (799) |
| Y gwahaniaeth yn y swm a godir am daliadau swyddogion ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail groniadau o'r taliadau sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion stadudol | (674) | 23 |
| **Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol** | **(1,450)** | **(776)** |

## NODYN 12 – GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

| | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Praesept a delir i'r Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | 8,780 | 7,944 |
| Praesept a delir i'r Cynghorau Cymuned | 1,441 | 1,306 |
| (Gwarged)/Colledion ar warediad asedau nad ydynt yn gyfredol (Yn cynnwys dad-gydnabyddiaeth) | 9,356 | 9,518 |
| Ardollau | 3,528 | 3,361 |
| **Cyfanswm** | **23,105** | **22,129** |

## NODYN 13 – INCWM A GWARIANT CYLLIDO A BUDDSODDI

### 13a – Incwm Cyllido a Buddsoddi

| | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg | 6,007 | 5,871 |
| Llog net ar y rhwymedigaeth diffinedig | 3,260 | 2,850 |
| Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | (149) | (64) |
| Incwm a Gwariant mewn perthynas ag eiddo buddsoddiad a newidiadau yn eu gwerth teg | (499) | 1,282 |
| Dadgydnabod ac amhariad ar asedau ariannol | 326 | 466 |
| **Cyfanswm** | **8,945** | **10,405** |

### 13b - Incwm, Gwariant a Newidiadau yng Ngwerth Teg yr Eiddo Buddsoddiad

| | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| **(Incwm)/Gwariant o Eiddo Buddsoddiad:** | | |
| Incwm yn cynnwys incwm rhent | (349) | (347) |
| Gwariant | 140 | 129 |
| **Gwariant/(Incwm) net o Eiddo Buddsoddiad** | **(209)** | **(218)** |
| | | |
| **(Gwarged) / Diffyg ar werthu Eiddo Buddsoddiad :-** | | |
| Arian o Werthiannau | (100) | (160) |
| Swm cario o Eiddo Buddsoddiad a werthwyd | 105 | 142 |
| **(Gwarged) / Diffyg ar werthu Eiddo Buddsoddiad** | **5** | **(18)** |
| | | |
| **Newidiadau mewn Gwerth Teg Eiddo Buddsoddiad** | **(295)** | **1,518** |
| **Cyfanswm** | **(499)** | **1,282** |

## NODYN 14 - INCWM TRETH A GRANTIAU AMHENODOL

| | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm y Dreth Gyngor | 49,433 | 44,606 |
| Ailddyrannu Trethi Annomestig | 22,754 | 22,574 |
| Grant Cynnal Refeniw | 73,037 | 73,238 |
| Grantiau Llywodraeth Arall | - | - |
| Grantiau Cyfalaf ddefnyddir i gyllido Gwariant Cyfalaf | 18,156 | 16,629 |
| | | |
| **Cyfanswm** | **163,380** | **157,047** |

## NODYN 15a - ASED ANGHYFREDOL – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

| 2019/20 | Eiddo, Offer a Chyfarpar | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Anheddau Cyngor | Tir ac Adeiladau | Asedau isadeiledd | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | Asedau Cymunedol | Eiddo, Offer a Chyfarpar sy'n cael ei adeiladu | Asedau Dros Ben | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu Brisiant** | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019** | **147,974** | **179,745** | **96,249** | **13,575** | **9** | **11,222** | **3,446** | **452,220** |
| Addasiad balans agoriadol | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Ychwanegiadau (Nodyn 20) | 11,812 | 4,749 | 6,515 | 1,534 | - | 3,835 | - | **28,445** |
| Cynnydd /(gostyngiad) ailbrisiant i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | - | 8,483 | - | - | - | - | 412 | **8,895** |
| Cynnydd /(gostyngiad) ailbrisiant i (Gwarged) / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | - | (1,166) | - | - | - | - | 17 | **(1,149)** |
| Dadgydnabod - Gwarediadau | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Dadgydnabod - Eraill | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Dadgydnabod - rhannau newidiol | (6,213) | (3,069) | - | - | - | - | - | **(9,282)** |
| Ailddosbarthu | - | 10,732 | - | - | - | (11,268) | 535 | **(1)** |
| Ailddosbarthu a Throsglwyddiadau o'r Asedau a Ddelir i'w Gwerthu | - | - | - | - | - | - | 108 | **108** |
| Ailddosbarthu i Asedau a ddelir i'w gwerthu | - | (270) | - | - | - | - | - | **(270)** |
| Ailddosbarthu o Eiddo Buddsoddiad | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu i Eiddo Buddsoddiad | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **153,573** | **199,204** | **102,764** | **15,109** | **9** | **3,789** | **4,518** | **478,966** |
| **Dibrisiant ac Amhariad** | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019** | **7,149** | **9,092** | **30,071** | **9,401** | **-** | **-** | **55** | **55,768** |
| Cost Addasiad a Dibrisiant | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Tâl Dibrisiant | 3,521 | 5,316 | 3,569 | 1,011 | - | - | 8 | **13,425** |
| Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i'r Gronfa Ailbrisiant wrth Gefn | - | (4,567) | - | - | - | - | (8) | **(4,575)** |
| Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | - | (237) | - | - | - | - | - | **(237)** |
| Dadgydnabod - Gwarediadau | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu i Asedau a ddelir i'w gwerthu | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu i Eiddo Buddsoddiad | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **10,670** | **9,604** | **33,640** | **10,412** | **-** | **-** | **55** | **64,381** |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **142,903** | **189,600** | **69,124** | **4,697** | **9** | **3,789** | **4,463** | **414,585** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **140,825** | **170,653** | **66,178** | **4,174** | **9** | **11,222** | **3,391** | **396,452** |

| 2018/19 | Eiddo, Offer a Chyfarpar | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Anheddau Cyngor<br>£'000 | Tir ac Adeiladau<br>£'000 | Asedau isadeiledd<br>£'000 | Cerbydau, Offer a Chyfarpar<br>£'000 | Asedau Cymunedol<br>£'000 | Eiddo, Offer a Chyfarpar sy'n cael ei adeiladu<br>£'000 | Asedau Dros Ben<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
| **Cost neu Brisiant** | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **146,450** | **176,934** | **90,617** | **12,827** | **9** | **4,502** | **3,122** | **434,461** |
| Addasiad balans agoriadol | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Ychwanegiadau (Nodyn 20) | 9,028 | 4,769 | 2,845 | 748 | - | 11,199 | - | **28,589** |
| Cynnydd /(gostyngiad) ailbrisiant i Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | - | 1,396 | - | - | - | - | 153 | **1,549** |
| Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | - | (328) | - | - | - | - | (1) | **(329)** |
| Dadgydnabod - Gwarediadau | - | (765) | - | - | - | - | - | **(765)** |
| Dadgydnabod - Eraill | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Dadgydnabod - rhannau newidiol | (7,504) | (1,913) | - | - | - | - | - | **(9,417)** |
| Ailddosbarthu | - | (348) | 2,787 | - | - | (2,611) | 172 | **-** |
| Ailddosbarthu a Throsglwyddiadau o'r Asedau a Ddelir i'w Gwerthu | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu i Asedau a ddelir i'w gwerthu | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu o Eiddo Buddsoddi | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu i Eiddo Buddsoddi | - | - | - | - | - | (1,868) | - | **(1,868)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **147,974** | **179,745** | **96,249** | **13,575** | **9** | **11,222** | **3,446** | **452,220** |
| **Dibrisiant ac Amhariad** | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **3,577** | **8,801** | **26,693** | **8,436** | **-** | **-** | **68** | **47,575** |
| Cost Addasiad a Dibrisiant | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Tâl Dibrisiant | 3,572 | 4,981 | 3,378 | 965 | - | - | 9 | **12,905** |
| Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i'r Gronfa Ailbrisiant wrth Gefn | - | (4,391) | - | - | - | - | (22) | **(4,413)** |
| Gwasanaethau | - | (203) | - | - | - | - | - | **(203)** |
| Dadgydnabod - Gwarediadau | - | (96) | - | - | - | - | - | **(96)** |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu i Asedau a ddelir i'w gwerthu | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu i Eiddo Buddsoddi | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| **Balans art 31 Mawrth 2019** | **7,149** | **9,092** | **30,071** | **9,401** | **-** | **-** | **55** | **55,768** |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **140,825** | **170,653** | **66,178** | **4,174** | **9** | **11,222** | **3,391** | **396,452** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **142,873** | **168,133** | **63,924** | **4,391** | **9** | **4,502** | **3,054** | **386,886** |

Tudalen 50

## Ailbrisio

Mae gan y Cyngor £418.226m sydd wedi ei gydnabod fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Treftadaeth ar ei Fantolen ar 31 Mawrth 2020. Mae'r Cyngor bellach wedi mabwysiadu rhaglen dreigl 5 mlynedd ar gyfer prisio ei dir ac eiddo. Fodd bynnag, caiff asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar sydd â gwerth teg o £500k neu fwy eu hailbrisio bob blwyddyn. Mae'r rhaglen wedi cael ei llunio mewn modd sy'n golygu y bydd categorïau cyfan o asedau o fewn ei bortffolio tir ac eiddo sy'n werth mwy na £500k yn cael eu hailbrisio mewn un flwyddyn. Caiff yr asedau eu prisio gan dîm prisio mewnol y Cyngor sy'n aelodau o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Mae'r prisiadau wedi cael eu cwblhau'n unol ag IFRS 13. Nid yw asedau nad ydynt yn eiddo wedi cael eu hailbrisio oherwydd, ym marn y Cyngor, mae gwerth cario'r asedau yn adlewyrchiad o werth teg, oherwydd eu hoes economaidd gweddol fyr a'u gwerth cymharol. Mae gwybodaeth ychwanegol am bolisi'r Cyngor ar fesur a phrisio asedau anghyfredol wedi'i chynnwys yn adrannau 7 i 10 o nodyn 51 Polisïau Cyfrifo.

| Hanes Ailbrisio | Anheddau Cyngor £'000 | Tir ac Adeiladau £'000 | Asedau Dros Ben £'000 | Cerbydau, Offer a Chyfarpar £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cario cost hanesyddol | - | - | - | 4,699 |
| Prisiwyd yn ôl gwerth cyfredol am: | | | | |
| 31 Mawrth 2020 | 2,078 | 164,352 | 4,384 | - |
| 31 Mawrth 2019 | (2,047) | 19,770 | 20 | - |
| 31 Mawrth 2018 | 142,872 | 426 | - | - |
| 31 Mawrth 2017 | - | (74) | - | - |
| 31 Mawrth 2016 | - | 5,124 | 58 | - |
| **Cost neu Brisiant** | **142,903** | **189,598** | **4,462** | **4,699** |

## NODYN 16 – YMRWYMIADAU CYFALAF SYLWEDDOL

Ar 31 Mawrth 2020, roedd y Cyngor wedi sefydlu nifer o gontractau ar gyfer adeiladu neu wella Eiddo, Offer a Chyfarpar, gan olygu ymrwymiad cyfalaf sylweddol o £7.560m yn 2020/21 a blynyddoedd yn y dyfodol fel a welir yn yn y tabl isod. Roedd ymrwymiadau tebyg hyd at 31 Mawrth 2019 yn £0.681m.

| | Ymrwymiad yn 2020/21 a Blynyddoedd y Dyfodol ar 31 Mawrth 2020 £'000 | Ymrwymiad yn 2019/20 a Blynyddoedd y Dyfodol ar 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Ysgolion 21ain Ganrif Band A - Ysgol Santes Dwynwen | - | 152 |
| Neuadd Y Farchnad Caergybi - Rhan II | - | 422 |
| Contractau Cynnal a Chadw Cynlluniedig - CRT | 3,843 | 107 |
| Datblygu Eiddo Newydd - CRT | 2,210 | - |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1,396 | - |
| Lliniaru Llifogydd Biwmares | 111 | - |
| **Cyfanswm** | **7,560** | **681** |

## NODYN 17 – ASEDAU TREFTADAETH

### 2019/20

| | Casgliad Celf a Regalia Dinesig £'000 | Tir ac Adeiladau Treftadaeth £'000 | Cyfanswm Asedau Treftadaeth £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiant** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019** | **2,110** | **1,941** | **4,051** |
| **Addasiad i'r ffigwr agoriadol** | **-** | **(75)** | **(75)** |
| Ychwanegiadau | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ailbrisio | - | 17 | 17 |
| Dibrisiant Cronnol wedi ei ysgrifennu i ffwrdd | - | (17) | (17) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **2,110** | **1,866** | **3,976** |
| **Dibrisiant ac Amhariad Cronedig** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019** | - | **375** | **375** |
| **Addasiad i'r ffigwr agoriadol** | - | **(75)** | **(75)** |
| Cost Dibrisiant | - | 53 | 53 |
| Dibrisiant Cronnol wedi ei ysgrifennu i ffwrdd | - | (17) | (17) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **-** | **336** | **336** |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **2,110** | **1,530** | **3,640** |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **2,110** | **1,566** | **3,676** |

### 2018/19

| | Casgliad Celf a Regalia Dinesig £'000 | Tir ac Adeiladau Treftadaeth £'000 | Cyfanswm Asedau Treftadaeth £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiant** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **2,110** | **1,910** | **4,020** |
| Ychwanegiadau | **-** | **-** | **-** |
| Gwarediadau | **-** | **-** | **-** |
| Ailbrisio | - | 132 | 132 |
| Dibrisiant Cronnol wedi ei ysgrifennu i ffwrdd | - | (101) | (101) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **2,110** | **1,941** | **4,051** |
| **Dibrisiant ac Amhariad Cronedig** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **-** | **375** | **375** |
| Cost Dibrisiant | **-** | 101 | 101 |
| Dibrisiant Cronnol wedi ei ysgrifennu i ffwrdd | **-** | (101) | (101) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **-** | **375** | **375** |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **2,110** | **1,566** | **3,676** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **2,110** | **1,535** | **3,645** |

**Ailbrisio Asedau Treftadaeth**

Nodwyd nifer o asedau tir ac adeiladau fel rhai a oedd yn cwrdd â'r diffiniad o Asedau Treftadaeth. Ar 31 Mawrth 2020, roedd pedwar ased o'r fath (dim newid o 31 Mawrth 2019):-

Carchar Biwmares
Llys Biwmares
Melin Llynnon
Bythynnod y Peilotiaid, Ynys Llanddwyn

Mae Carchar Biwmares a'r Llys yn y broses o gael eu trosglwyddo yn rhydd-ddaliadol i Gyngor Tref Biwmares.

Caiff yr eiddo hyn eu hailbrisio gan ddefnyddio trefniadau ailbrisio safonol y Cyngor ar gyfer tir ac eiddo. Fe ailbriswyd yr Asedau Treftadaeth diwethaf yn 2018/19, ond fe ailbriswyd y rhai sydd werth dros £500k yn 2019/20 yn unol â trefn ailbrisio'r Cyngor.

Cafwyd prisiad o werth y Casgliadau Celf yn 2017/18 ac mae eu gwerth wedi cael ei adlewyrchu yn y Cyfrifon. Mae'r prisiad diweddaraf yn seiliedig ar asesiad o sampl gynrychioliadol o'r casgliadau. Bonhams o Lundain, sef cwmni rhyngwladol o arwerthwyr a phriswyr celf, fu'n prisio'r eiddo.

**NODYN 18 – EIDDO BUDDSODDIAD**

**a) Eiddo Buddsoddiad**

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar ddechrau'r flwyddyn** | 6,000 | 5,791 |
| Ychwanegiadau: | - | - |
| - Gwariant dilynol | - | - |
| Gwarediadau | (105) | (142) |
| Enillion / (Colledion) net o addasiadau gwerth teg | 294 | (1,518) |
| Trosglwyddiadau: | - | - |
| - (i)/o Asedau a ddelir i'w gwerthu | - | - |
| - (i)/o Eiddo, Offer a Chyfarpar | - | 1,869 |
| **Balans ar ddiwedd y flwyddyn** | **6,189** | **6,000** |

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar allu'r Cyngor i wireddu'r gwerth cynhenid yn ei eiddo buddsoddiad neu ar hawl y Cyngor i daliad o incwm ac elw gwarediad. Mae gan y Cyngor un rhwymedigaeth gontractyddol i adeiladu a datblygu uned ddiwydiannol ym Mhenrhos, Caergybi, fel rhan o cyd-fenter Llywodraeth Cymru.

## b) Mesur Gwerth Teg o Eiddo Buddsoddiad

### Hierarchaeth Gwerth Teg 2019/20

| Mesurau rheolaidd gwerth teg yn defnyddio: | Prisiau a ddyfynnir yn y marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau yr un fath (lefel 1) £'000 | Mewnbynnau sylweddol arall y gellir eu harsylwi (lefel 2) £'000 | Mewnbynnau sylweddol ni ellir eu harsylwi (lefel 3) £'000 | Gwerth teg ar 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Eiddo manwerthu | - | 810 | - | 810 |
| Unedau swyddfa | - | 848 | - | 848 |
| Unedau masnachol | - | 4,531 | - | 4,531 |
| **Cyfanswm** | **-** | **6,189** | **-** | **6,189** |

### Hierarchaeth Gwerth Teg 2018/19

| Mesurau rheolaidd gwerth teg yn defnyddio: | Prisiau a ddyfynnir yn y marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau yr un fath (lefel 1) £'000 | Mewnbynnau sylweddol arall y gellir eu harsylwi (lefel 2) £'000 | Mewnbynnau sylweddol ni ellir eu harsylwi (lefel 3) £'000 | Gwerth teg ar 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Eiddo manwerthu | - | 820 | - | 820 |
| Unedau swyddfa | - | 658 | - | 658 |
| Unedau masnachol | - | 4,522 | - | 4,522 |
| **Cyfanswm** | **-** | **6,000** | **-** | **6,000** |

## c) Dulliau Prisio a Ddefnyddiwyd i Brisio Eiddo Buddsoddiad

### Manwerthu

Mae'r gwerth teg ar gyfer yr eiddo manwerthu yn seiliedig ar ddull y farchnad gan ddefnyddio amodau'r farchnad gyfredol a phrisiau gwerthu diweddar a gwybodaeth berthnasol arall ar gyfer asedau tebyg yn ardal yr Awdurdod Lleol. Mae amodau'r farchnad yn golygu bod eiddo tebyg yn cael eu prynu a'u gwerthu'n frwd aa mae lefel mewnbynnu y gellir eu harsylw yn sylweddol, gan arwain at gategoreiddo'r eiddo ar Lefel 2 yn yr hierarchaeth gwerth teg.

### Eiddo Buddsoddiad

Mae'r swyddfeydd a'r unedau masnachol sydd wedi eu lleoli yn ardal yr Awdurdod Lleol yn cael eu mesur gan ddefnyddio'r dull incwm, drwy'r dull llif arian gostyngol, lle mae disgownt ar y llif arian y cytunwyd arno o'r eiddo (gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt yn seiliedig ar y farchnad) er mwyn sefydlu gwerth presennol y ffrwd incwm net. Mae'r llog wedi cael ei seilio ar brisiadau / gwerthiannau cymharol y mae modd eu harsylwi. Caiff eiddo buddsoddiad yr Awdurdod, felly, eu categoreiddio ar Lefel 2 yn yr hierarchaeth gwerth teg oherwydd bod y dechneg o fesur yn defnyddio mewnbynnau y gellir eu harsylwi er mwyn penderfynu ar y mesuriadau gwerth teg. Wrth amcangyfrif gwerth teg eiddo buddsoddiad yr Awdurdod, y defnydd mwyaf a gorau o'r eiddo yw eu defnydd cyfredol.

Caiff gwerth teg eiddo buddsoddiad yr Awdurdod ei fesur bob blwyddyn ar adeg pob cyfnod adrodd. Caiff yr holl waith prisio ei wneud yn fewnol yn unol â methodolegau a sail amcanbrisiau a nodir yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae arbenigwyr prisio'r Awdurdod yn gweithio'n agos â'r swyddogion cyfrifeg, gan adrodd yn uniongyrchol i'r Swyddog Adran 151 yn rheolaidd mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â phrisio.

**NODYN 18d - GWARIANT AC INCWM AR EIDDO BUDDSODDIAD**

| Gwariant ac Incwm ar Eiddo Buddsoddi | 2019/20 £000 | 2018/19 £000 |
|---|---|---|
| **Gwariant** | | |
| Cynnal a Chadw | 54 | 43 |
| Costau Ynni | 31 | 34 |
| Trethi | 10 | 11 |
| Offer Glanhau a Chyflenwadau Domestig | 6 | 4 |
| Costau Adeilad eraill | 13 | 13 |
| Gwasanaethau a Chyflenwadau | 26 | 24 |
| **Gwariant** | **140** | **129** |
| **Incwm** | | |
| Ffioedd a Thaliadau | (5) | (6) |
| Incwm Rhent | (344) | (341) |
| **Incwm** | **(349)** | **(347)** |
| | | |
| **Gwariant/(Incwm) Net** | **(209)** | **(218)** |

**NODYN 19 – ASEDAU ANNIRWEDDOL**

Mae'r Cyngor yn cyfrifo am ei feddalwedd fel asedau annirweddol, i'r graddau nad yw'r feddalwedd yn rhan anhepgor o system TG neilltuol ac yn cael ei chyfrifo amdani fel rhan o eitem caledwedd yn yr Eiddo, Offer a Chyfarpar.

Mae'r swm cario o asedau annirweddol yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth. Codwyd yr amorteiddiad o £169k ar refeniw yn 2019/20 a chafodd ei godi ar ganolfan gost Gweinyddu TG llinell Trawsnewid yng Ngwariant Net y Gwasanaethau.

Rhoddir oes ddefnyddiol gyfyngedig i feddalwedd, wedi ei seilio ar asesiadau o'r cyfnod y disgwylir i'r feddalwedd fod yn ddefnyddiol i'r Cyngor. Mae'r oes ddefnyddiol a briodolir i'r switiau meddalwedd mawr a ddefnyddir gan y Cyngor yn bum mlynedd.

**Mae’r Symudiad mewn Asedau Annirweddol am y Flwyddyn fel a ganlyn:-**

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar ddechrau'r flwyddyn:** | | |
| Symiau cario gros | 1,969 | 1,835 |
| Amorteiddiad cronnus | (1,268) | (1,079) |
| **Swm net cario ar ddechrau'r flwyddyn** | **701** | **756** |
| Ychwanegiadau | 181 | 134 |
| Dad-gydnabod | (310) | - |
| Amorteiddiad am y flwyddyn ariannol | (169) | (189) |
| Amorteiddiad - Dad-gydnabod | 98 | - |
| **Swm cario net ar ddiwedd flwyddyn** | **501** | **701** |
| **Yn cynnwys:** | | |
| Symiau gros a gludir | 1,840 | 1,969 |
| Amorteiddiad cronnus | (1,339) | (1,268) |
| **Swm cario net ar ddiwedd y flwyddyn** | **501** | **701** |

**NODYN 20 - GWARIANT A CHYLLIDO CYFALAF**

Gweler y cyfanswm o wariant cyfalaf yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn yn y tabl isod, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w gyllido. Pan mae angen cyllido gwariant cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod trwy daliadau i refeniw fel mae asedau'n cael eu defnyddio gan y Cyngor, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), mesur o'r gwariant cyfalaf yr eir iddo'n hanesyddol sydd eto i'w gyllido.

Mae'r symudiad net yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf yn dangos y newid yn yr angen gwaelodol i'r Cyngor fenthyca yn ystod y flwyddyn i gyllido buddsoddiad cyfalaf nad yw wedi ei gyllido'n syth o adnoddau fel grantiau, derbyniadau cyfalaf a cyllido uniongyrchol o refeniw.

| **Gwariant a Chyllido Cyfalaf** | **2019/20 £'000** | **2018/19 £'000** |
|---|---|---|
| **Gofyniad Cyllido Cyfalaf Agoriadol** | **138,662** | **136,866** |
| **Cyfalaf a fuddsoddwyd yn y Flwyddyn** | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | 28,446 | 28,589 |
| Asedau Annirweddol | 181 | 135 |
| Asedau Treftadaeth | - | - |
| Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud (REFCUS) | 1,388 | 1,954 |
| **Cyfanswm** | **30,015** | **30,678** |
| **Ffynhonnell Cyllid** | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | **(1,050)** | (726) |
| Cronfa Wrth Gefn | **(224)** | - |
| Grantiau a Chyfraniadau Llywodraeth | **(18,156)** | (16,629) |
| Darpariaethau refeniw | **(7,609)** | (6,357) |
| Benthyca | **-** | - |
| Yswyriant | **-** | - |
| Grantiau REFCUS | **(1,263)** | (1,928) |
| Darpariaeth Refeniw Isaf a Gosod o'r Neilltu | **(3,471)** | (3,242) |
| **Cyfanswm** | **(31,773)** | **(28,882)** |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) Net mewn Gofyniad Cyllido Cyfalaf** | **(1,758)** | **1,796** |
| **Gofyniad Cyllido Cyfalaf Cau** | **136,904** | **138,662** |
| **Esboniad o symudiad yn y Flwyddyn** | | |
| Cynnydd mewn angen gwaelodol i fenthyca a gefnogir gan gymorth Llywodraeth | 817 | 402 |
| Cynnydd mewn angen gwaelodol i fynthyca na chefnogir gan gymorth Llywodaeth | 300 | 4,267 |
| Benthyca | 596 | 369 |
| Darpariaeth Refeniw Isaf a Gosod o'r Neilltu Gwirfoddol | (3,471) | (3,242) |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) Net mewn Gofyniad Cyllido Cyfalaf** | **(1,758)** | **1,796** |

## NODYN 21 – ASEDAU A DDELIR I'W GWERTHU

| | Cyfredol | | Anghyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
| **Balans sy'n sefyll ar ddechrau'r flwyddyn** | **1,557** | **2,442** | - | **-** |
| **Asedau newydd eu dosbarthu fel rhai ar gael i'w gwerthu:** | | | | |
| Trosglwyddwyd o Eiddo, Offer a Chyfarpar yn ystod y flwyddyn | 270 | - | - | - |
| Trosglwyddo i Eiddo, Offer a Chyfarpar | (108) | - | - | - |
| Trosglwyddo i Eiddo Buddsoddiad | - | - | - | - |
| Costau asedau wedi eu gwerthu | (956) | (864) | - | - |
| Ailbrisio | - | (21) | - | - |
| **Balans sy'n sefyll ar ddiwedd y flwyddyn** | **763** | **1,557** | **-** | **-** |

## NODYN 22 – PRYDLESAU

### Prydlesau Gweithredol

Roedd y Cyngor wedi prydlesu un eiddo ar 31 Mawrth 2020 ar gyfer ei swyddogaeth digartrefedd (pump eiddo ar 31 Mawrth 2019) a chyfanswm y rhenti prydles ar gyfer y flwyddyn oedd £0.028m (£0.052m yn 2018/19).

Mae'r Cyngor hefyd yn dal rhai eitemau o offer a chyfarpar dan brydlesi gweithredu neu gytundebau rhentu mewn ysgolion ac adrannau eraill y Cyngor. Y tâl i refeniw ar gyfer yr eitemau hyn yw £0.175m yn 2019/20 (£0.097m yn 2018/19).

Yn ystod y flwyddyn, prydlesodd y Cyngor un eiddo ar brydles tymor hir, fodd bynnag cafodd ei dynnu oddi ar y Fantolen yn 2005, a creuwyd prydles newydd yn 2019/20 i ymgorffori newid enw. Hefyd, prydlesodd y Cyngor nifer o asedau eraill ar brydlesi tymor byr ac, felly, maent wedi aros ar fantolen y Cyngor.

.
Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor ddau gerbyd ar brydles tan Ebrill a Gorffennaf 2020 ac ar ddiwedd y cyfnod bydd y Cyngor yn penderfynu unai i'w prynu neu eu dychwelyd i'r cyflenwr. O ganlyniad, nid ydynt ar Fantolen y Cyngor ond codir tâl blynyddol o £10k am y cerbydau hyn.

Ar 31 Mawrth 2020, nid oedd prydlesu Carchar a Llys Biwmares a Melin Llynnon yn gyflawn eto ac felly roeddent yn dal ym mherchnogaeth y Cyngor. Mae'n debygol y bydd Melin Llynnon yn cael ei brydlesu fel prydles weithredu a bydd yn aros ar y Fantolen. Bydd y Carchar a'r Llys yn cael eu trosglwyddo i Gyngor Tref Biwmares ar sail rhydd-ddaliad a byddant yn cael eu tynnu oddi ar y Fantolen. Disgwylir i drosglwyddo'r asedau hyn ddigwydd yn gynnar yn 2020/21.

## NODYN 23 – RHESTRAU STOC

Wrth wneud ei waith, mae'r Cyngor yn dal cronfeydd stoc wrth gefn ynghyd â symiau o waith heb ei gwblhau (gwaith yn mynd yn ei flaen). Gellir isrannu'r ffigwr a ddangosir yn y Fantolen ymhellach fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Stôr Halen | 137 | 120 |
| Gofal Môn - Cyflenwadau Gwasanaethau Cymdeithasol | 62 | 62 |
| Arall – deunydd swyddfa a defnyddiau traul arall, tanwydd a nwyddau a ddelir i'w hailwerthu | 134 | 118 |
| **Cyfanswm** | **333** | **300** |

## NODYN 24 – DYLEDWYR

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau Masnach Derbyniadwy | 3,131 | 4,761 |
| Rhagdaliadau | 1,342 | 901 |
| Symiau Derbyniadwy Eraill | 28,299 | 24,257 |
| **Cyfanswm** | **32,772** | **29,919** |

Mae'r ffigwr dyledwyr uchod yn net o ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg o £5.767m yn 2019/20 (£5.639m yn 2018/19), y gellir eu dadansoddi fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 | Symudiad yn y Flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Y Dreth Gyngor | 1,839 | 1,699 | 140 |
| Trethi Annomestig | 513 | 561 | (48) |
| Rhenti | 544 | 472 | 72 |
| Dyledwyr Masnach | 1,368 | 1,347 | 21 |
| Arall | 1,503 | 1,560 | (57) |
| **Cyfanswm** | **5,767** | **5,639** | **128** |

## NODYN 25 - ARIAN PAROD A CHYWERTHOEDD ARIAN

Gellir cysoni arian parod a chywerthoedd arian ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel y dangosir yn y Datganiad Llif Arian i'r eitemau cysylltiedig yn y Fantolen fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau arian a banc | 23,045 | 15,825 |
| Gorddrafft banc | - | - |
| **Cyfanswm** | **23,045** | **15,825** |

## NODYN 26 – CREDYDWYR

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 March 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Credydwyr Masnach | 2,130 | 1,187 |
| Symiau Taladwy Eraill | 18,458 | 17,121 |
| **Cyfanswm** | 20,588 | 18,308 |

## NODYN 27 – DARPARIAETHAU

| | Balans ar 1 Ebrill 2018 £'000 | Cynnydd mewn Darpariaethau yn ystod y flwyddyn £'000 | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £'000 | Balans ar 31 Mawrth 2019 £'000 | Cynnydd mewn Darpariaethau yn ystod y flwyddyn £'000 | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £'000 | Balans ar 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Hawliadau Yswiriant | 265 | 354 | (349) | 270 | 345 | (278) | 337 |
| Safle Gwastraff Penhesgyn | 4,631 | 278 | (104) | 4,805 | - | (39) | 4,766 |
| Darpariaeth Pensiwn Caterlink | 75 | - | (75) | - | - | - | - |
| Darpariaeth Teithio Gofalwyr Cartref | 159 | - | - | 159 | - | (119) | 40 |
| Dyfarniad Goruchaf Lys - Gofal Nyrsio | 196 | - | (196) | - | - | - | - |
| Gwasanaeth Anghenion Dusgu Ychwanegol a Cynhwysiant YM | - | - | - | - | 37 | - | 37 |
| **Cyfanswm** | **5,326** | **632** | **(724)** | **5,234** | **382** | **(436)** | **5,180** |
| | | | | | | | |
| **Darpariaethau Tymor-byr** | 695 | 354 | (620) | 429 | 382 | (397) | 414 |
| **Darpariaethau Tymor-hir** | 4,631 | 278 | (104) | 4,805 | - | (39) | 4,766 |
| **Cyfanswm** | **5,326** | **632** | **(724)** | **5,234** | **382** | **(436)** | **5,180** |

### Pwrpas y Prif Ddarpariaethau

#### Darpariaeth Hawliadau Yswiriant

Mae gan bolisïau yswiriant allanol y Cyngor symiau tâl ychwanegol tynadwy, sy'n golygu bod rhan gyntaf unrhyw golled neu hawliad dan y polisïau hyn yn hunan-yswiriedig ac wedi eu gwarchod gan ddarpariaeth rhwystro colled. Nid yw eiddo cyffredinol ac eiddo addysg y Cyngor wedi eu hyswirio'n allanol yn erbyn y peryglon canlynol: dŵr yn dianc o unrhyw danc neu beipen, llifogydd, gwrthdrawiad, lladrad, difrod damweiniol, ymsuddiant, ymchwydd tir, tirlithriad. Ac eithrio lladrad a difrod damweiniol, mae colledion a geir yn sgil y peryglon hyn yn cael eu cyllido fel arfer o'r gronfa wrth gefn ar gyfer yswiriant. Y balans ar y ddarpariaeth yswiriant yw'r rhwymedigaeth ddisgwyliedig ar gyfer elfen hunan-yswiriedig yr hawliau y gwyddys amdanynt ac nad oeddynt wedi cael eu setlo ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei hadolygu bob blwyddyn ac mae'n tueddu i gael ei defnyddio'n rhannol bob blwyddyn.

#### Safle Gwastraff Penhesgyn

Mae'r ddarpariaeth hon ar gyfer ôl-ofalu am yr ardaloedd hynny o'r safle a oedd yn cael eu defnyddio'n flaenorol ar gyfer tirlenwi. Nid oes unrhyw amserlen benodol wedi cael ei phennu ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn er, i ddibenion rheoli, mae cyfnod o 30 blynedd wedi cael ei bennu ar sail barhaus hyd oni cheir tystiolaeth y byddai cyfnod byrrach yn ddigonol. Mae hwn yn ariannu gwaith dadlygru blynyddol ym Mhenhesgyn ac yn darparu ar gyfer y risg y bydd y geuffos ar y safle'n methu.

#### Darpariaethau Tymor Byr Eraill a Grëwyd yn 2019/20

Dygwyd ymlaen un ddarpariaeth tymor byr o 2018/19, a chrëwyd un ddarpariaeth tymor byr newydd yn ystod 2019/20, ar gyfer rhwymedigaethau y mae'r Cyngor yn debygol o'u hysgwyddo oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol.

Dygwyd ymlaen o 2018/19 darpariaeth o £159k mewn perthynas â costau teithio Gofalwr Cartref. Mae rhan gyntaf o daliadau wedi'u gwneud a'u setlo gan y Cyngor. Adolygwyd gwerth disgwyliedig

y setliadau ar gyfer yr ail ran o daliadau, a disgwylir iddo fod oddeutu £40k. Gohiriwyd y setliad ar gyfer yr atebolrwydd hwn yn wreiddiol ac mae wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl oherwydd i gynnig setliad gael ei wrthod. Disgwylir i setliad gael ei wneud cyn pen 12 mis o'r dyddiad adrodd.

Mae darpariaeth o £37k wedi'i chreu o fewn 2019/20 gan fo'r Cyngor yn atebol i gyfrannu tuag at gostau gwasanaethau canolog Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant Ychwanegol Gwynedd ac Ynys Môn, gwasanaeth a gynhelir gan Gyngor Gwynedd. Disgwylir i'r ddarpariaeth gael ei defnyddio yn y tymor byr.

## NODYN 28 – LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Addasiad I warged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau ar symudiadau nad ydynt yn arian parod** | | |
| Dibrisiant Amhariad ac amorteiddio | 13,648 | 13,195 |
| Ailbrisiadau at i lawr / (i fyny) a dad-gydnabyddiaethau nad ydynt yn ymwneud â gwerthiannau | 10,408 | 9,623 |
| (Cynnydd) / Gostyngiad mewn Stoc | (31) | 85 |
| (Cynnydd) / Gostyngiad mewn Dyledwyr | (2,951) | (5,280) |
| Cynnydd / (Gostyngiad) yn yr amhariadau ar gyfer Drwg Ddyledion | (21) | 96 |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Credydwyr | 2,278 | (94) |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw | (822) | (1,082) |
| Trafodion yn y CIES yn ymwneud â buddiannau ymddeol | 13,281 | 9,808 |
| Swm cario asedau nad ydynt yn gyfredol a rhai a delir i'w gwerthu, a werthwyd neu eu dadgydnabod | 1,062 | 1,675 |
| Cyfraniadau i / (o) Ddarpariaethau | (54) | (92) |
| Symudiad mewn gwerth o Eiddo Buddsoddiad Amhariad ac ailbrisiadau i lawr (a dadgydnabodaethau nad ydynt yn werthiant) | (295) | 1,518 |
| | **36,503** | **29,452** |
| **Addasiad ar gyfer eitemau a gynhwysir yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido** | | |
| Elw o werthu Eiddo, Offer a Chyfarpar, Eiddo Buddsoddiad ac Asedau y delir i'w gwerthu | (1,195) | (1,592) |
| Grantiau Cyfalaf a gynhwysir mewn "Trethi ac incwm grant amhenodol" | (18,156) | (16,629) |
| **Cyfanswm** | **(19,351)** | **(18,221)** |

## NODYN 29 – LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| Prynu Eiddo, Offer a Chyfarpar, Asedau Treftadaeth, Eiddo Buddsoddiad ac Asedau Annirweddol | (28,627) | (28,724) |
| Buddsoddiadau tymor byr (nad ystyrir yn Gywerthoedd Arian) | - | - |
| Enillion o werthu Eiddo,Offer a Chyfarpar, Eiddo Buddsoddiad ac Asedau y delir i'w gwerthu | 1,195 | 1,592 |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau a dderbyniwyd | 18,156 | 16,629 |
| **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | **(9,276)** | **(10,503)** |

## NODYN 30 – LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU CYLLIDO

## NODYN 30a - LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU CYLLIDO

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| Derbyniadau Arian Parod o Fenthyca Tymor Byr a Hir | 6,684 | 15,520 |
| Symudiadau arian ar gynlluniau Asiantaeth Troi Tai'n Gartrefi | 2 | 220 |
| Eraill | (193) | (270) |
| **Llif arian net o weithgareddau cyllido** | **6,493** | **15,470** |

## NODYN 30b - CYSONI RHWYMEDIGAETHAU SY'N CODI O WEITHGAREDDAU CYLLIDO

### 2019/20

| Cysoni Rhwymedigaethau sy'n Codi o Weithgareddau Ariannu | 2019/20<br>1 Ebrill<br>£'000 | Ariannu Llif Arian<br>£'000 | Newidiadau nad yw'n Arian parod<br>£000 | 2019/20<br>31 Mawrth<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca tymor hir | 127,352 | (2,928) | - | 124,424 |
| Benthyca tymor byr | 7,535 | 9,612 | (309) | 16,838 |
| **Llif Arian Net o Weithgareddau Cyllido** | **134,887** | **6,684** | **(309)** | **141,262** |

### 2018/19

| Cysoni Rhwymedigaethau sy'n Codi o Weithgareddau Ariannu | 2018/19<br>1 Ebrill<br>£'000 | Ariannu Llif Arian<br>£'000 | Newidiadau nad yw'n Arian parod<br>£000 | 2018/19<br>31 Mawrth<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca tymor hir | 106,913 | 20,439 | - | 127,352 |
| Benthyca tymor byr | 12,413 | (4,919) | 41 | 7,535 |
| **Llif Arian Net o Weithgareddau Cyllido** | **119,326** | **15,520** | **41** | **134,887** |

## NODYN 30c - LLOG A DDERBYNIWYD AC A DALWYD AR WEITHGAREDDAU CYLLIDO

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| Llog Derbyniwyd | (149) | (64) |
| Llog Dalwyd | 6,007 | 5,870 |

## NODYN 31– NODYN AR NATUR Y GWARIANT

### NODYN 31a

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn rhoi gwybodaeth ariannol mewn perthynas a gwariant ac incwm bob gwasanaeth. Mae nodyn ar natur y gwariant hwn yn rhoi gwybodaeth ariannol ar y math o wariant yn hytrach na fesul gwasanaeth.

| | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| **Gwariant** | | |
| Buddiannau Gweithwyr | 98,417 | 94,305 |
| Gwasanaethau Eraill | 109,000 | 105,715 |
| Dibrisiant, amorteiddio, amhariad ac ailbrisiant | 13,353 | 14,713 |
| Taliadau Llog | 9,266 | 8,720 |
| Dad-gydnabod ac Amhariad Asedau Ariannol | 321 | 465 |
| Praeseptau ac Ardollau | 13,749 | 12,610 |
| (Enillion)/colli ar waredu asedau | 9,356 | 9,518 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **253,462** | **246,046** |
| **Incwm** | | |
| Ffioedd, Taliadau ac incwm gwasanaeth eraill | (31,621) | (30,801) |
| Incwm Llog a Buddsoddi | (316) | (300) |
| Incwm o'r dreth gyngor, trethi annomestig | (72,187) | (67,180) |
| Grantiau a Chyfraniadau Llywodraeth | (142,189) | (139,603) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(246,313)** | **(237,884)** |
| | | |
| **(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gasanaethau** | **7,149** | **8,162** |

### NODYN 31b - REFENIW O GONTRACTAU GYDA DERBYNWYR GWASANAETHAU

**Incwm gan y sawl sy'n derbyn gwasanaeth**

Roedd gofyniad ar awdurdodau lleol i weithredu safon ariannol newydd, SAARh15 Refeniw mewn perthynas â Chontractau gyda Chwsmeriaid, o 1 Ebrill 2018. Mae'n berthnasol i incwm gan unigolion neu sefydliadau sydd wedi contractio i dderbyn gwasanaeth neu nwyddau gan y Cyngor fel rhan o weithgareddau gweithredu arferol yr Awdurdod. Mae'r gair 'Contractau' yn cael ei ddehongli'n eang i gynnwys y rhan fwyaf o ffioedd, taliadau a rhenti'r Cyngor ble mae gwasanaethau/nwyddau'n cael eu darparu'n gyfnewid am y ffioedd, taliadau a rhenti hynny. Gall contractau fod yn rhai ysgrifenedig, llafar neu'n rhai sydd ymhlyg yn arferion busnes arferol y Cyngor. Caiff taliadau statudol megis y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig (NDR) a dirwyon eu heithrio o SAARh15 ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y wybodaeth am incwm gan y sawl sy'n derbyn gwasanaethau. Caiff grantiau a chyfraniadau hefyd eu heithrio. Mae'r Cyngor yn derbyn grantiau a chyfraniadau sylweddol bob blwyddyn. Mae Nodyn 37 yn rhoi manylion am grantiau a chyfraniadau a dderbyniwyd gan y Cyngor ar gyfer 2019/20 a 2018/19.

Mae **Tabl 31b.1** isod yn crynhoi'r incwm a dderbyniwyd gan y derbynwyr gwasanaethau'n unol â SAARh15

| Refeniw o gontractau gyda derbynwyr gwasanaethau | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| Refeniw o gontractau gyda derbynwyr gwasanaethau | (31,621) | (30,597) |
| Amhariad ar symiau derbyniadwy neu asedau contract | (2) | 290 |
| **Cyfanswm wedi'i gynnwys yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr** | **(31,623)** | **(30,307)** |

**Tabl 31b.2** - Symiau sydd wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar gyfer Symiau sy'n ddyledus ar gyfer Contractau gyda Derbynwyr Gwasanaethau:-

| Symiau sydd wedi'u cynnwys yn y fantolen ar gyfer contractau gyda derbynwyr gwasanaethau | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy, sydd wedi'u cynnwys mewn dyledwyr (Nodyn 24) | 6,078 | 5,981 |
| Asedau'r contract | - | - |
| Rhwymedigaethau'r contract | - | - |
| **Cyfanswm wedi'i gynnwys yn asedau net** | **6,078** | **5,981** |

Mae'r rhan fwyaf o'r trafodion y mae'r Cyngor yn eu sefydlu gyda derbynwyr gwasanaethau yn syml. Mae prisiau'r holl drafodion yn seiliedig ar lyfryn Ffioedd a Thaliadau'r Cyngor a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ac sydd wedi eu hamlinellu ar wefan y Cyngor drwy'r linc/cyfeiriad https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cyllideb-y-Cyngor/Ffioedd-a-thaliadau-y-Cyngor.aspx gwefan canlynol Fel arfer, caiff derbynwyr gwasanaethau 14 diwrnod i dalu'r ffioedd a'r taliadau sy'n ddyledus i'r Cyngor. Nid yw hyn yn cynnwys ffioedd a thaliadau sy'n daladwy wrth bwynt darparu'r nwyddau/gwasanaethau.

Gall contractau ymwneud â'r flwyddyn ariannol rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Bydd unrhyw incwm nad yw wedi ei dderbyn erbyn diwedd mis Mawrth yn cael ei gronni er mwyn ei gyfatebu gyda'r gwasanaethau a ddarparwyd. Caiff rhywfaint o incwm ei dderbyn ar yr adeg y caiff y gwasanaeth/nwyddau eu darparu, er enghraifft, rhoddion a werthir yn siop yr Oriel, tâl mynediad i sesiwn nofio yn y Canolfannau Hamdden. Mae un o'r mathau mwyaf cymhleth o incwm yn ymwneud â ffioedd a thaliadau ar gyfer lleoliadau Gofal Cymdeithasol Oedolion cymhleth.cydnabod yr incwm hwn bob blwyddyn ariannol, er gwaethaf y ffaith ei fod yn cael ei ohirio er mwyn ei gyfatebu â'r cyfnod y darparwyd y gofal.

## NODYN 32 – GWEITHREDIADAU MASNACHOL

Mae rhan 3.4.6.2 o Gôd Cipfa 2019/20 gael gwared ar yr angen i ddatgelu gweithrediadau masnachu i Awdurdodau Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru o 2019/20 ymlaen.

## NODYN 33 - LWFANSAU AELODAU

Talwyd cyfanswm o £0.700m (£0.686m yn 2018/19) o ran lwfansau i Aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:-

| | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Lwfansau sylfaenol a chyfrifoldeb arbennig | 582 | 569 |
| Lwfansau'r Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd | 12 | 6 |
| Costau pensiwn | 48 | 45 |
| Costau Yswiriant Cenedlaethol | 46 | 45 |
| Costau teithio | 6 | 8 |
| Cynhaliaeth | 1 | 2 |
| Amrywiol | 5 | 11 |
| **Cyfanswm** | **700** | **686** |

Yn ychwanegol at hyn, gwariodd y Cyngor £24,025 ar dreuliau i aelodau lleyg (£21,853 yn 2018/19).

## NODYN 34 – CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I SWYDDOGION

Roedd y nifer o weithwyr yr oedd eu cydnabyddiaeth ariannol a dalwyd yn 2019/20, ac eithrio cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys tâl diswyddo, yn fwy na £60k ond dim yn fwy na £150k yn:-

| Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion | Heb fod yn Ysgolion 2019/20 Nifer o weithwyr | Heb fod yn Ysgolion 2018/19 Nifer o weithwyr | Ysgolion 2019/20 Nifer o weithwyr | Ysgolion 2018/19 Nifer o weithwyr |
|---|---|---|---|---|
| £60,000 i £64,999 | 1 | - | 3 | 5 |
| £65,000 i £69,999 | 1 | - | 3 | 3 |
| £70,000 i £74,999 | 1 | 2 | 1 | 3 |
| £75,000 i £79,999 | 4 | 4 | 1 | - |
| £80,000 i £84,999 | - | 1 | 1 | 2 |
| £85,000 i £89,999 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| £90,000 i £94,999 | - | - | - | - |
| £95,000 i £99,999 | - | - | - | - |
| £100,000 i £104,999 | - | - | - | - |
| £105,000 i £109,999 | 1 | - | - | - |
| £110,000 i £114,999 | - | - | - | - |
| £115,000 i £119,999 | - | 1 | - | - |
| £120,000 i £124,999 | - | - | 1 | - |
| **Cyfanswm** | **10** | **10** | **11** | **14** |

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i uwch swyddogion sy'n cael eu cyflogi ar sail barhaol ac y mae eu cyflogau blynyddol a buddion eraill yn uwch na £60k y flwyddyn. Mae uwch swyddogion sy'n ennill mwy na £150k y flwyddyn yn cael eu henwi'n unigol hefyd er mwyn cydymffurfio gyda gofynion statudol:-

| Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Swyddogion 2019/20 | Cyflog, Ffioedd a Lwfansau £'000 | Lwfansau Costau £'000 | Iawndal am golli Swydd £'000 | Cyfraniad Pensiwn £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr * | 59 | - | - | 11 | 70 |
| Prif Weithredwr ** | 59 | - | - | 11 | 70 |
| Dirprwy Brif Weithredwr *** | 40 | - | - | 7 | 47 |
| Prif Weithredwr Cynorthwyol *** | 47 | - | - | 9 | 56 |
| Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro | 78 | - | - | 15 | 93 |
| Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 | 87 | 1 | - | 16 | 104 |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | 87 | 1 | - | 16 | 104 |
| Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | 50 | - | - | 9 | 59 |
| Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol | 49 | 1 | - | 9 | 59 |
| Pennaeth Gwasanaeth: AD a Thrawsnewid | 76 | 1 | - | 14 | 91 |
| Pennaeth Gwasanaeth: Tai | 75 | 1 | - | 14 | 90 |
| Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 15 | 1 | - | 3 | 19 |
| Pennaeth Dysgu Gydol Oes | 32 | 1 | - | 6 | 39 |
| Pennaeth Gwasaneath: Plant a Theuluoedd | 78 | 1 | - | 15 | 94 |
| Pennaeth Gwasanaeth: Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 74 | 1 | - | 14 | 89 |
| **Cyfanswm** | **906** | **9** | **-** | **169** | **1,084** |

* Prif Weithredwr yn ei swydd ers 01/10/2019. Elfen Swyddog Canlyniadau o gyflog y Prif Weithredwr yw £2,224 ac nid yw wedi ei gynnwys yn y ffigyrau uchod.

**Prif Weithredwr wedi gadael ei swydd ar 30/09/2019. Elfen Swyddog Canlyniadau o gyflog y Prif Weithredwr yw £2,224 ac nid yw wedi ei gynnwys yn y ffigyrau uchod.

*** Prif Weithredwr Cynorthwyol wedi gadael ei swydd ar 30/09/2019 a'r Dirprwy Prif Weithredwr wedi cychwyn 04/11/2019.

Ceir ffigyrau cymharol ar gyfer 2018/19 yn y tabl isod:-

| Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Swyddogion 2018/19 | Cyflog, Ffioedd a Lwfansau<br><br>£'000 | Lwfansau Costau<br><br>£'000 | Iawndal am golli Swydd<br><br>£'000 | Cyfraniad Pensiwn<br><br>£'000 | Cyfanswm<br><br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr | 116 | 1 | - | 21 | 138 |
| Prif Weithredwr Cynorthwyol | 88 | 1 | - | 17 | 106 |
| Prif Weithredwr Cynorthwyol | 80 | 2 | - | 15 | 97 |
| Pennaeth Swyddogaeth Busnes y Cyngor | 77 | - | - | 14 | 91 |
| Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 | 84 | 1 | - | 16 | 101 |
| Pennaeth Proffesiwn (AD) | 71 | - | - | 13 | 84 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Tai) | 63 | 1 | - | 12 | 76 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) | 75 | - | - | 14 | 89 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Dysgu Gydol Oes) | 73 | - | - | 14 | 87 |
| Pennaeh Gwasanaeth (Plant) | 76 | 1 | - | 14 | 91 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Oedolion) | 77 | - | - | 14 | 91 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd,Eiddo a Gwastraff) | 64 | 1 | - | 12 | 77 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Trawsnewid Corfforaethol) | - | - | - | - | - |
| Prif Swyddog Cynllunio (Ynys Ynni) | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **944** | **8** | **-** | **176** | **1,128** |

* Nodyn: Mae taliad y Swyddog Canlyniadau wedi ei gynnwys yng nghyflog ffioedd a lwfansau'r Prif Weithredwr.

Mae cymhareb taliad cyflog y Prif Weithredwr fel canolrif o gyflogau'r holl weithwyr eraill yn 6.24:1 ar gyfer 2019/20 (6.35:1 yn 2018/19). Y canolrif cyflog ar gyfer yr holl weithwyr yw £18,809.66. Dyma'r cyflog ar y pwynt canol allan o hloll gyflogau gweithwyr, o'r isaf i'r uchaf.

## NODYN 35 – PECYNNAU YMADAEL

Mae'r nifer o becynnau ymadael gyda chyfanswm cost fesul band a chyfanswm cost diswyddiadau gorfodol a diswyddiadau eraill wedi eu nodi yn y tabl isod:-

| Band cost pecyn ymadael (gan gynnwys taliadau arbennig) | Nifer o ddiswyddiadau gorfodol | | Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd | | Cyfanswm y nifer o becynnau ymadael fesul band cost | | Cyfanswm cost pecynnau ymadael | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20<br>£000 | 2018/19<br>£000 |
| £0 - £20,000 | 38 | 36 | 29 | 19 | 67 | 55 | 315 | 342 |
| £20,001 - £40,000 | 1 | 5 | 5 | 8 | 6 | 13 | 175 | 343 |
| £40,001 - £60,000 | - | - | - | 3 | - | 3 | - | 141 |
| £60,001 - £80,000 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| £80,001 - £100,000 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| £100,001 - £250,000 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **39** | **41** | **34** | **30** | **73** | **71** | **490** | **826** |

## NODYN 36 – FFIOEDD ARCHWILIO ALLANOL

Codwyd y ffioedd canlynol ar y Cyngor mewn perthynas ag archwilio allanol ac arolygiaeth:-

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol gan yr archwilydd apwyntiedig am y flwyddyn | 192 | 192 |
| Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol gan yr archwilydd apwyntiedig am blynyddoedd cynt | - | - |
| Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag arolygon statudol | 100 | 100 |
| Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer ardystio hawliadau a dychweliadau grant am y flwyddyn | 135 | 135 |
| **Cyfanswm** | **427** | **427** |

## NODYN 37 – INCWM GRANTIAU

Mae'r Cyngor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2019/20 a 2018/19:-

| | Nodyn | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Credydwyd i Drethiant ac Incwm grant Amhenodol** | | | |
| Grant Cynnal Refeniw (Grantiau Llywodraeth sydd heb eu neilltuo) | 14 | 73,037 | 73,238 |
| Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf | 14 | 13,954 | 13,958 |
| Grant – CRT (Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf) | 14 | 4,202 | 2,671 |
| Arall (Grantiau Llywodraeth heb eu neilltuo) | 14 | | - |
| **Cyfanswm** | | **91,193** | **89,867** |
| **Credwydwyd i Wasanaethau** | | | |
| **Grantiau:** | | | |
| Grant Ôl 16 (Addysg) | | 2,320 | 2,356 |
| Dechrau'n Deg (Addysg) | | 1,410 | 1,419 |
| Grantiau Cyfnod Sylfaen (Addysg) | | | - |
| Grant Gwella Addysg (Addysg) | | 2,847 | 2,751 |
| Grant Datblygu Disgyblion (Addysg) | | 1,685 | 1,687 |
| Grant Tocynnau Teithio Rhatach | | 728 | 722 |
| Cymhorthdal Budd-dâliadau Tai | | 16,774 | 18,370 |
| Grant Cefnogi Pobl (SPG a SPRG) | | 2,644 | 2,708 |
| Grant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | | 691 | 479 |
| **Cyfanswm** | | **29,099** | **30,492** |
| **Grantiau Arall:** | | | |
| Dysgu Gydol Oes | | 4,760 | 3,256 |
| Gwasanaethau Oedolion | | 1,008 | 585 |
| Gwasanaethau Plant | | 897 | 900 |
| Tai | | 1,330 | 1,146 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | | 1,922 | 1,460 |
| Datblygu Economaidd a Rheoleiddio | | 2,609 | 1,094 |
| Trawsnewid Corfforaethol | | 222 | 220 |
| Adnoddau | | 600 | 578 |
| Busnes y Cyngor | | 10 | 11 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | | 10 | 100 |
| Cyllid Corfforaethol | | | - |
| Cyfrif Tai Refeniw | | 13 | 88 |
| **Cyfanswm** | | **13,381** | **9,438** |
| **Cyfraniadau:** | | **8,515** | **9,809** |
| **Cyfanswm** | | **142,188** | **139,606** |

## Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw

Derbyniwyd y grantiau cyfalaf canlynol o flaen llaw ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:-

| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a dderbyniwyd ymlaen llaw | 2019/20 £'000 |
|---|---|
| **Grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru a chyfraniadau a dderbyniwyd ymlaen llaw:** | |
| Grant TMF | 124 |
| Cyfraniad Llywodraeth Cymru at adeiladu unedau diwydiannol Penrhos, Caergybi | 713 |
| Ysgolion y 21ain Ganrif | 388 |
| Cynllun Tai Fforddiadwy | 155 |
| Cynllun Grant Bach Gofal Plant | 52 |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol | 87 |
| Tir wedi'i Halogi | 35 |
| Cynllun Grant Bychan | 100 |
| Grant Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | 100 |
| Grant Hwb Anabl Cymunedol | 10 |
| **Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau a Dderbyniwyd ymlaen llaw gan sefydliadau eraill:** | |
| Adfer Porth Caergybi | 139 |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | 5 |
| Neuadd y Farchnad | 54 |
| Adran 106 Gardd Perlysiau Swm Cymudedig | 12 |
| Pobl Ifanc - Buddsoddiad Adfywio Tai | 19 |
| **Cyfanswm** | **1,993** |

| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a dderbyniwyd ymlaen llaw | 2018/19 £'000 |
|---|---|
| **Grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru a chyfraniadau a dderbyniwyd ymlaen llaw:** | |
| Grant TMF | 124 |
| Grant MALD - Neuadd y Farchnad | 152 |
| Cyfraniad Llywodraeth Cymru at adeiladu unedau diwydiannol Penrhos, Caergybi | 1,511 |
| Ysgolion y 21ain Ganrif | 402 |
| Cynllun Tai Fforddiadwy | 155 |
| Cynllun Grant Bach Gofal Plant | 165 |
| **Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau a Dderbyniwyd ymlaen llaw gan sefydliadau eraill:** | |
| Adfer Porth Caergybi | 306 |
| **Cyfanswm** | **2,815** |

**NODYN 38 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Mae gofyn i'r Cyngor ddatgelu gwybodaeth mewn perthynas â thrafodion a balansau dyledus yr Awdurdod gyda'i bartïon cysylltiedig. Mae materoldeb y trafodion unigol sy'n codi trwy bartïon cysylltiedig a'r datgeliadau canlynol yn ymwneud â thrafodion rhwng y Cyngor a'i bartïon cysylltiedig.

**Aelodau**

Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i rai gyrff cyhoeddus, elusennol a gwirfoddol, sy'n annibynnol i'r Cyngor ond sy'n cael effaith ar ei feysydd gwasanaeth. Fel bod y Cyngor yn gallu cynnal perthnasau effeithiol gyda nifer o'r sefydliadau hyn, mae cynrychiolwyr o'r Cyngor, sef Cynghorwyr etholedig fel arfer, yn eistedd ar y gwahanol bwyllgorau a fforymau sy'n gyfrifol amdanynt. Mae rhestr o'r cyrff allanol a chynrychiolaeth y Cyngor yn Atodiad 1.

Yn ystod 2019/20, talwyd cyfanswm o £3.087m mewn grantiau i brynu gwasanaethau gan y cyrff hyn (£2.891m yn 2018/19). Dyma grynodeb o'r sefydliadau unigol (lle nad ydynt wedi'u datgelu'n unrhyw le arall) sydd gan drafodion gyda'r Cyngor o dros £0.02m:-

**2019/20**

| Parti Cysylltiedig | Cysylltiad | Taliadau £'000 | Swm sydd yn ddyledus gan y Cyngor £'000 | Swm sydd yn ddyledus i'r Cyngor £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Grwp Llandrillo Menai | Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd | 242 | 2 | 4 |
| Medrwn Môn | Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd | 221 | - | - |
| Prifysgol Cymru - Bangor | Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd | 70 | - | 2 |
| Ynys Môn C A B Ltd | Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd | 107 | - | - |
| | | **640** | **2** | **6** |

**2018/19**

| Parti Cysylltiedig | Cysylltiad | Taliadau £'000 | Swm sydd yn ddyledus gan y Cyngor £'000 | Swm sydd yn ddyledus i'r Cyngor £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Grwp Llandrillo Menai | Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd | 282 | - | 10 |
| Medrwn Môn | Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd | 123 | - | - |
| Prifysgol Cymru - Bangor | Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd | 32 | 36 | 19 |
| Ynys Môn C A B Ltd | Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd | 93 | - | - |
| | | **530** | **36** | **29** |

Mae'r Cyngor yn aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a thalwyd tanysgrifiadau o £0.096m i'r Gymdeithas yn 2019/20 (£0.097m yn 2018/19).

Mae Aelodau wedi datgan diddordebau mewn contractau neu mewn sefydliadau sy'n delio gyda'r Cyngor yn y Gofrestr Statudol o Ddiddordebau'r Aelodau. Talwyd cyfanswm o £0.838m gan y Cyngor yn 2019/20 mewn perthynas â'r diddordebau hyn (£0.686m yn 2018/19).

**Uwch Swyddogion**

Mae gofyn i Uwch Swyddogion gwblhau datganiad o ddiddordeb personol, gan ddatgan unrhyw ddiddordebau sydd ganddynt gydag unrhyw sefydliad a all fod yn derbyn taliadau gan y Cyngor. Ni fu unrhyw drafodion o bwys gyda pharti cysylltiedig mewn perthynas ag uwch swyddogion yn 2019/20.

**Llywodraeth**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, trwy reolaeth gyffredin gan Lywodraeth ganolog, yn barti cysylltiedig i'r Cyngor. Daeth y taliadau a wnaeth y Cyngor yn 2019/20 i BIPBC i gyfanswm o £1.162m (£1.160m yn 2018/19) ac roedd £0.348m yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd yr arian a dderbyniodd y Cyngor gan BIPBC yn dod i gyfanswm o £4.410m (£2.077m yn 2018/19), ac roedd £1.632m yn ddyledus gan ein parti cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn.

**DIDDORDEBAU MEWN CWMNÏAU**

Mae gan y Cyngor ddiddordeb yn y cwmni canlynol, a Chyngor Gwynedd yw'r aelod arall, ond nid oes ganddo ddylanwad sylweddol dros y cwmni:-

**Cwmni Cynnal Cyf**

Sefydlwyd y cwmni hwn ar y cyd gan Gynghorau Sir Ynys Môn a Gwynedd ar adeg ad-drefnu llywodraeth leol. Mae'n darparu gwasanaethau cefnogaeth addysg o dan gontract i ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr Awdurdod ac i'r awdurdodau addysg lleol, ac mae'n darparu gwasanaethau arolygu ysgolion i Estyn. Ni ellir ond defnyddio incwm y cwmni er mwyn hyrwyddo ei amcanion. Mae'r cwmni yn gyfyngedig trwy warant, nid oes ganddo gyfalaf cyfranddaliad, ac mae ymrwymiad y Cyngor wedi'i gyfyngu i £1.

Mae cyfrifon y cwmni ar gyfer 2018/19 yn dangos colled net o £0.175m (colled o £0.148m yn 2017/18). Roedd y trosiant ar gyfer 2018/19 yn £2.188m (£2.396m yn 2017/18). Mae cyfrifon cyhoeddedig y cwmni yn dangos ymrwymiadau net o £0.782m fel ar 31 Mawrth 2019 (roedd yr ymrwymiadau net yn £0.131m ar 31 Mawrth 2018).

Mae copïau o'r datganiadau ariannol ar gael gan Cwmni Cynnal Cyf, Plas Llanwnda, Caernarfon, Gwynedd. Mae adroddiad yr Archwilydd ar gyfrifon y flwyddyn ariannol sydd yn diweddu ar 31 Mawrth 2019 yn un heb amodau. Yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, cyfrifodd y Cyngor am gostau o £0.625m (£0.583m yn 2018/19) yn ymwneud â phrynu gwasanaethau gan y cwmni.

Fe wnaeth y cwmni yma benodi Ieuan Williams yn Brif Weithredwr iddynt yn 2017. Mae Ieuan Williams yn Gynghorydd gyda'r Awdurdod ac mae'n Ddirprwy Arweinydd ac yn Ddeilydd Portffolio ar gyfer Trawsnewid Gwasanaeth a'r Iaith Gymraeg.

Mae gan y Cyngor ddiddordebau yn y cwmnïau canlynol hefyd:-

**Cyd-bwyllgor Addysg Cymru - WJEC CBAC Cyf**

Mae'r Cyngor yn aelod o WJEC CBAC Cyf, cwmni elusennol lle mai'r aelodau yw'r 22 awdurdod unedol yng Nghymru, a'u hamcanion yw darparu gwasanaethau arholi a darparu a hyrwyddo gwasanaethau addysgol a diwylliannol eraill. Mae'r cwmni yn gyfyngedig trwy warant, nid oes ganddo gyfalaf cyfranddaliad, ac mae ymrwymiad y Cyngor wedi'i gyfyngu i £1.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, cyfrifodd y Cyngor am gostau o £0.402m (£0.377m yn 2018/19) a hynny am brynu gwasanaethau gan y cwmni.

Mae cyfrifon y cwmni ar gyfer 2017/18 (y flwyddyn sy'n diweddu 30 Medi) yn dangos symudiad positif net yn y cronfeydd o £7.774m (symudiad positif net yn y cronfeydd o £20.390m yn 2016/17). Roedd y trosiant ar gyfer 2017/18 yn £45.114m (£44.977m yn 2016/17) ac roedd yr asedau net yn dod i gyfanswm o £47.232m ar 30 Medi 2018 (£39.458m ar 30 Medi 2017).

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni gan WJEC CBAC Cyf, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Llandaf, Caerdydd, CF5 2YX. Mae adroddiad yr Archwilydd ar gyfrifon y flwyddyn ariannol sy'n diweddu 30 Medi 2018 yn un heb amodau.

**Menter Môn Cyfyngedig**

Mae'r Cyngor yn aelod o Menter Môn Cyf, ac roedd yn un o gyfanswm o dri aelod ar 31 Mawrth 2020. Amcanion y cwmni yw hyrwyddo twf economaidd yn Ynys Môn wledig. Mae'r cwmni yn gyfyngedig trwy warant, nid oes ganddo gyfalaf cyfranddaliad, ac mae ymrwymiad y Cyngor wedi'i gyfyngu i £1.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, fe wnaeth y Cyngor daliadau o £0.100m i'r cwmni i gefnogi'r gweithgareddau (£0.124m yn 2018/19).

Mae cyfrifon y cwmni am y flwyddyn ariannol yn gorffen 31 Rhagfyr 2018 yn dangos colled net o £0.146m (elw net cyn treth o £0.083m yn 2017). Roedd y trosiant ar gyfer 2018 yn £5.050m (£2.674m yn 2017) ac roedd yr asedau net yn dod i gyfanswm o £0.206m ar 31 Rhagfyr 2018 (asedau net o £0.176m yn 2017).

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni gan Menter Môn, Neuadd y Dref Llangefni, Sgwâr Buckley, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7LR. Mae adroddiad yr Archwilydd ar gyfrifon y flwyddyn ariannol sy'n diweddu 31 Rhagfyr 2018 yn un heb amodau.

**Ysgol Sefydledig Caergeiliog**

Mae'r balansau ar gyfer asedau ac ymrwymiadau cyfredol a reolir gan Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi eu cynnwys yn y cyfrifon hyn ac, felly, mae cronfeydd wrth gefn yr ysgol, fel y nodir yn y Fantolen yma, yn cynrychioli'r asedau cyfredol net yn unig. Mae gan yr ysgol hefyd asedau anghyfredol sydd wedi eu nodi ar Fantolen yr ysgol, sef £0.725m ar 31 Mawrth 2020 (£0.785m ar 31 Mawrth 2019), ar gyfuniad o brisiant a chost hanesyddol, llai dibrisiant. Mae'r asedau anghyfredol wedi eu breinio yng Nghorff Llywodraethu yr ysgol ac nid ydynt wedi'u cyfuno ym Mantolen y Cyngor hwn.

**NODYN 39 – CRONFEYDD YMDDIRIEDOL**

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel ymddiriedolwr i nifer o gronfeydd ymddiriedol. Mae eu cyfrifon ar gael gan yr Adain Gyfrifeg, Swyddogaeth Adnoddau, Swyddfeydd y Cyngor, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW. Yn ychwanegol at gymynroddion i bethau megis gwobrau mewn ysgolion a chysuron a gwelliannau yn sefydliadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am gronfeydd Ymddiriedol fel a ganlyn.

Yn ystod 2019/20, roedd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 cyfrifoldeb ariannol am nifer o elusennau. Er fod eu gweinyddiaeth ariannol wedi cael ei integreiddio gyda gwaith y Cyngor, mae'r elusennau yn gyfreithiol ar wahân ac fe gynhyrchir datganiadau ariannol ar wahân, sydd yn unol â safonau cyfrifo cymwys a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar Gyfrifo gan Elusennau, a gyhoeddwyd gan y Comisiynwyr Elusennau. Fe rheolir yr elusennau ac fe cymeradwyir y gwariant yn unol â'r meini prawf a nodir yn nogfennau llywodraethu pob un:-

**Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Rhif 1000818 a 1174536)**

Yn flaenorol, y Cyngor oedd unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, sef ymddiriedolaeth a sefydlwyd i weinyddu buddsoddiadau a brynwyd gydag arian a gafwyd gan Shell UK Limited pryd y daeth gwaith y cwmni i ben yn y lanfa olew oedd ganddo ym Môn. Yn ystod 2019/20, sefydlwyd yr Sefydliad Corfforedig Elusennol, a fydd yn cael ei adnabod fel "Cymdeithas Elusennol Ynys Môn". Mae'r Sefydliad newydd yn endid cyfreithiol ar wahân sydd â'r un dibenion elusennol ag Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Mae asedau a rhwymedigaethau presennol Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn wedi cael eu trosglwyddo i'r endid newydd o 1 Hydref 2019 yn dilyn penderfyniad ffurfiol gan yr Ymddiriedolwyr ar 24 Medi 2019. Dangosir gwybodaeth ariannol Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn a Chymdeithas Elusennol Ynys Môn ar wahân yn y tabl isod.

Amcanion yr Ymddiriedolaeth Elusennol yw darparu mwynderau a chyfleusterau er lles cyffredinol cyhoeddus pobl sy'n byw yn Ynys Môn. Mae'n gwneud hyn trwy gyfrannu tuag at wariant ar wasanaethau cyhoeddus a thrwy roi grantiau i gyrff elusennol a gwirfoddol.

Yn 2019/20, derbyniodd y Cyngor £0.215m (£0.215m yn 2018/19) gan yr Ymddiriedolaeth tuag at gostau rhedeg Oriel Ynys Môn.

## Cronfa'r Degwm

Yn flaenorol, gweinyddwyd buddsoddiadau'r gronfa gan Gyngor Gwynedd ar ran yr awdurdodau a olynodd yr hen Gyngor Sir Gwynedd ond, o 2019/20 ymlaen, mae cyfran Ynys Môn o Gronfa'r Degwm wedi'i throsglwyddo i Gyngor Sir Ynys Môn i'w gweinyddu.

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (Rhif 525254)**

Mae 75% o'r incwm net o Stad Elusennol David Hughes yn ffurfio rhan o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn - sef Cronfa y mae'r Cyngor yn Ymddiriedolwr iddi. Defnyddir yr incwm i ddibenion addysgol penodol. Telir y 25% arall i "Elusen David Hughes er Lles y Tlodion", elusen nad yw'n cael ei gweinyddu gan y Cyngor.

Ar 31 Mawrth 2020, roedd balansau amcangyfrifiedig y Cronfeydd Ymddiriedol hyn (yn ôl gwerth yr asedau ar y farchnad) yn:-

| Crynodebau datganiad cyn eu harchwilio | 2019/20 Incwm £'000 | 2019/20 Gwariant £'000 | 2019/20 Asedau £'000 | 2019/20 Rhwymedigaethau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | 420 | 503 | 22,381 | 1,036 |
| Cymdeithas Elusennol Ynys Môn | 269 | 292 | 19,350 | 822 |
| Cronfa'r Degwm | 514 | 9 | 573 | 21 |
| Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn | 136 | 186 | 3,203 | 15 |

| Crynodebau datganiad wedi eu harchwilio | 2018/19<br>Incwm<br>£'000 | 2018/19<br>Gwariant<br>£'000 | 2018/19<br>Asedau<br>£'000 | 2018/19<br>Rhwymedigaethau<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | 592 | 995 | 21,728 | 610 |
| Cronfa'r Degwm | 7 | 8 | 900 | 31 |
| Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn | 288 | 118 | 3,257 | 16 |

Cyfanswm gwerth y cronfeydd eraill ar 31 Mawrth 2020, gan gynnwys buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad, yw £0.106m (£0.102m ar 31 Mawrth 2019).

Nid yw balansau Cronfa'r Ymddiriedolaeth yn cael eu cynnwys yn y Fantolen gan fod rhain yn cynrychioli asedau a ddelir mewn ymddiriedolaeth ar gyfer trydydd partïon yn hytrach nag ym mherchnogaeth y Cyngor. Fe ddangosir crynodeb o berfformiad yr Ymddiriedolaethau Elusennol mwyaf yn y tabl uchod.

**NODYN 40 – CYNLLUN PENSIWN ATHRAWON**

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoi buddiannau penodol i athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar ganran o dâl pensiynadwy aelodau.

Yn dechnegol, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Fodd bynnag, mae'r cynllun heb ei gyllido ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w thalu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu adnabod ei gyfran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad Cyfrifon yma maent, felly, yn cael eu cyfrifo ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2019/20, talodd y Cyngor £4.612m i Bensiynau Athrawon yn ymwneud â buddiannau ymddeol athrawon, a oedd yn cynrychioli 20.05% o dâl pensiynadwy (£3.712m a 15.95% yn 2018/19). Mae cyfraniadau Pensiwn Athrawon Cyflogwyr wedi cynyddu i 23.6% o Fedi 2019.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfernir ar gyfer ymddeoliad cynnar y tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a manylir arnynt yn Nodyn 41 isod.

**NODYN 41 – CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG LLYWODRAETH LEOL**

**Buddiannau Ymddeoliad**

**Cyfranogiad yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith ei swyddogion a'i weithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er nad yw'r buddiannau yma yn cael eu talu hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyngor rwymedigaeth i wneud y taliadau sydd raid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau i'r dyfodol. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, gan olygu fod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwyso rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddiad.

Mae risg y gallai cyfraniad y Cyngor gynyddu yn dilyn prisiad diwygiedig os bydd gwerth buddsoddiadau'r gronfa yn gostwng fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn sgil effaith y coronafeirws. Cwblhawyd y prisiad pensiwn diweddaraf ar 31 Mawrth 2019. Arweiniodd hyn at ostyngiad net yng

nghyfraniadau'r cyflogwr am y cyfnod 2020 i 2023 oherwydd costau pensiynau hanesyddol is. Fodd bynnag, os yw buddsoddiadau'r gronfa'n parhau i berfformio'n wael yna mae'n debygol y bydd prisiad dros dro yn cael ei wneud o fewn y flwyddyn. Mae'r cyfuniad o effaith y coronafeirws a gweithredu Brexit yn llawn yn debygol o roi pwysau ar yr economi a marchnadoedd buddsoddi. Byddai hyn yn arwain at gyfraniadau pensiwn uwch i'r Cyngor a sefydliadau eraill yn y Gronfa Bensiwn oherwydd dros y cyfnod prisio dylai'r gronfa bensiwn gael ei hariannu'n llawn. Yn y tymor hwy dylai effaith yr ergydion tymor byr / tymor canol a ddisgwylir fod wedi eu datrys a dylai buddsoddiadau pensiwn adfer yn y tymor hir.

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel gwarantwr i'r sefydliad Caterlink sy'n darparu prydau ysgol yn ysgolion Ynys Môn. Os daw Caterlink yn fethdalwr, neu os bydd yn cael ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, bydd y Cyngor yn talu cyfraniadau pensiynau Caterlink. Mae hyn oherwydd bod staff arlwyo'r Cyngor wedi trosglwyddo i Caterlink o dan reolau TUPE pan gafodd y gwasanaeth ei allanoli. Yn ogystal, os yw cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr yn codi uwchlaw lefel benodol o dan delerau'r contract, mae'n ofynnol i'r Cyngor ad-dalu'r gost ychwanegol honno i Caterlink.

**a) Trafodion yn ymwneud â buddiannau ôl-gyflogaeth**

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddiannau ymddeol yn yr adroddiadau ar gostau'r gwasanaethau pan mae'r gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddiannau yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd raid ei dangos yn erbyn Cronfa'r Cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn ac, felly, mae gwir gost buddiannau ôl-gyflogaeth / ymddeoliad yn cael eu symud allan o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn:-

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Cost y gwasanaeth yn cynnwys:** | | |
| Costau cyfredol y gwasanaeth | 18,117 | 15,191 |
| Colledion ar setliadau neu gwtogiadau | 418 | 134 |
| **Cyfanswm cost y Gwasanaeth** | **18,535** | **15,325** |
| **Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi** | | |
| Cost llog ar yr ymrwymiad budd diffiniedig | 10,787 | 10,638 |
| Incwm llog ar Asedau'r Cynllun | (7,527) | (7,788) |
| **Cyfanswm y buddiannau Ôl-Gyflogaeth a godwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaeth** | **21,795** | **18,175** |
| Elw ar Asedau'r Cynllun (ac eithrio symiau sydd wedi eu cynnwys yn y gwariant llog net) | 46,482 | (15,916) |
| (Elw) a cholledion actiwarïaid yn codi oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | (15,239) | - |
| (Elw) a cholledion actiwarïaid yn codi oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | (37,219) | 34,236 |
| Arall | (13,515) | 414 |
| **Cyfanswm Ailfesur y rhwymedigaeth o ran buddiannau net diffiniedig** | **(19,491)** | **18,734** |
| | | |
| **Cyfanswm y buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **2,304** | **36,909** |
| Gwyrdroi'r taliadau net a wnaed ar gyfer buddiannau ymddeoliad yn unol â'r côd | 13,281 | 9,808 |
| **Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn:** | | |
| Cyfraniad y cyflogwyr sy'n daladwy i'r cynllun | 8,514 | 8,367 |
| **Cyfanswm y buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **21,795** | **18,175** |

## b) Asedau a Rhwymedigaethau Pensiwn a gydnabyddir yn y Fantolen

Mae rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagdybiedig, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, lefelau cyflogau ac ati. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r rhwymedigaethau o ran Buddiannau Dewisol wedi cael eu hasesu gan Hymans Robertson LLP, cwmni annibynnol o actiwarïaid, ac mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2019.

| Mae'r symiau sydd wedi eu cynnwys yn y Fantolen yn codi o ymrwymiad yr Awdurdod mewn perthynas â'i gynllun buddiannau diffiniedig fel a ganlyn: | 31 Mawrth 2020<br>£'000 | 31 Mawrth 2019<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gwerth Presennol Asedau'r Cynllun | 274,492 | 312,536 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau'r Cynllun | (399,012) | (443,266) |
| **Rhwymedigaeth net yn codi o'r Rhwymedigaethau diffiniedig** | **(124,520)** | **(130,730)** |

### Cysoni Gwerth Presennol Rhwymedigaethau'r Cynllun

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **443,266** | **390,612** |
| Cost gwasanaeth cyfedrol | 18,117 | 15,191 |
| Cost llog | 10,787 | 10,638 |
| Cyfraniadau gan cyfranogwyr y cynllun | 2,511 | 2,418 |
| (Elw) a cholledion Ailfesur | (65,973) | 34,650 |
| Costau gwasanaeth blaenorol | 418 | 134 |
| Amcangyfrif o'r buddiannau a dalwyd nad oeddynt yn cael eu cyllido | (1,009) | (996) |
| Amcangyfrif o'r buddiannau a dalwyd | (9,105) | (9,381) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **399,012** | **443,266** |

### Cysoni Gwerth Presennol Asedau'r Cynllun

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gwerth Teg Agoriadol Asedau'r Cynllun ar 1 Ebrill** | **312,536** | **288,424** |
| Incwm Llog | 7,527 | 7,788 |
| Elw ar asedau cynllun (heb gynnwys gwariant llog net) | (46,482) | 15,916 |
| Cyfraniadau gan aelodau | 2,511 | 2,418 |
| **Cyfraniadau gan y cyflogwr** | 7,505 | 7,371 |
| Cyfraniadau mewn perthynas â buddiannau nad oeddynt yn cael eu cyllido | 1,009 | 996 |
| Buddiannau a dalwyd nad oeddynt yn cael eu cyllido | (1,009) | (996) |
| Buddiannau a dalwyd | (9,105) | (9,381) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **274,492** | **312,536** |

**c) Gwerth Teg Asedau'r Cynllun**

Mae'r pandemig Coronafeirws (Covid-19) wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol ac eiddo ar draws y byd. O ganlyniad i anweddolrwydd y farchnad mae adroddiadau gwerth diwedd blwyddyn a ddarparwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys datganiad bod gwerth ansicrwydd materol sy'n berthnasol i gronfeydd eiddo y DU a reolir ar ran y Gronfa. Cyfanswm gwerth cronfa eiddo y DU ar 31 Mawrth 2020 oedd £191m, y mae £27.055 miliwn ohono wedi'i briodoli i Gyngor Sir Ynys Môn.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwahaniaeth rhwng 2018/19 a 2019/20 yn y categori ecwiti a buddsoddiadau eraill rhwng y Prisiau a Ddyfynnir mewn Marchnadoed Actif a Phrisiau nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn Marchnadoedd Actif. Ers 2018/19 mae rheolwyr y cronfeydd Pensiwn wedi dechrau symud buddsoddiadau o'r rhai a ddyfynnir yn y marchnadoedd actif i ddwy gronfa ar y cyd ym Mhartneriaeth Pensiynau Cymru. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cael eu dangos o fewn Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Uned nad ydynt yn cael eu dyfynu mewn marchnadoedd agored.

Mae rhagor o wybodaeth am Gronfa Bensiwn Gwynedd yn ei chyfanrwydd ar gael drwy ddilyn y linc a ganlyn: https://www.cronfabensiwngwynedd.cymru/cy/Cartref.aspx

Asedau Cynllun Pensiwn y Cyngor yw:-

| | 2019/20 Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000 | 2019/20 Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000 | 2018/19 Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd £'000 | 2018/19 Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Arian a chywerthoedd arian** | 1,360 | - | 8,039 | - |
| **Buddsoddiad ecwiti (yn ôl y math o ddiwydiant)** | | | | |
| Defnyddwyr | - | - | 7,778 | - |
| Cynhyrchu | - | - | 9,356 | - |
| Sefydliadau Ariannol | - | - | 3,648 | - |
| Ynni a Chyfleustodau | - | - | - | - |
| Iechyd a Gofal | - | - | 19,983 | - |
| Technoleg Gwybodaeth | - | - | 5,467 | - |
| Arall | - | - | 10,612 | - |
| **Gwarantau dyled arall** | - | - | - | 45,414 |
| **Ecwiti preifat** | - | 15,956 | - | 16,966 |
| **Cronfeydd Buddsoddi ac Unedau Buddsoddi** | | | | |
| Ecwiti | - | 184,082 | 60,808 | 89,570 |
| Isadeiledd | - | 6,312 | - | 6,153 |
| Arall | - | 39,695 | - | - |
| **Eiddo Tiriog** | | | | |
| Eiddo yn y DU | - | 27,055 | 9,938 | 18,638 |
| Eiddo Tramor | - | 32 | - | 166 |
| **Cyfanswm Gwerth yr holl Asedau** | **1,360** | **273,132** | **135,629** | **176,907** |
| **Cyfanswm Gwerth yr Asedau Gweithredol ac Anweithredol** | | **274,492** | | **312,536** |

**Prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o asedau'r cynllun cyfan**

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys y categorïau canlynol, yn ôl y gyfran o'r asedau cyfan a ddelir:-

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| **Arian a chywerthoedd arian** | 0% | 3% |
| | | |
| **Buddsoddiadau ecwiti (yn ôl y math o ddiwydiant)** | | |
| Defnyddwyr | 0% | 3% |
| Cynhyrchu | 0% | 3% |
| Sefydliadau Ariannol | 0% | 1% |
| Ynni a chyfleustodau | 0% | 0% |
| Iechyd a Gofal | 0% | 6% |
| Technoleg Gwybodaeth | 0% | 2% |
| Arall | 0% | 3% |
| | | |
| **Gwarantau dyled arall** | 0% | 15% |
| | | |
| **Ecwiti preifat** | 6% | 5% |
| | | |
| **Cronfeydd Buddsoddi ac Unedau Buddsoddi** | | |
| Ecwiti | 67% | 48% |
| Isadeiledd | 2% | 2% |
| Arall | 15% | 0% |
| | | |
| **Eiddo Tiriog** | | |
| Eiddo yn y DU | 10% | 9% |
| Eiddo Tramor | 0% | 0% |
| | | |
| **Cyfanswm** | **100%** | **100%** |

## ch) Hanes y Cynllun

Dadansoddiad o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun:-

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 | 31 Mawrth 2016 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth Teg Asedau'r Cynllun Pensiwn | 274,492 | 312,536 | 288,424 | 275,083 | 231,770 |
| Gwerth Presennol Rhwymedigaeth Budd Diffinedig y Cynllun | (399,012) | (443,266) | (390,612) | (380,591) | (326,792) |
| **(Diffyg)/Asedau yn y Cynllun** | **(124,520)** | **(130,730)** | **(102,188)** | **(105,508)** | **(95,022)** |

Mae'r rhwymedigaethau yn dangos maint y rhwymedigaethau gwaelodol sydd gan y Cyngor yn yr hirdymor i dalu buddiannau ymddeoliad. Mae'r cyfanswm rhwymedigaeth budd diffinedig presennol o £399.012m yn cael effaith sylweddol ar werth net y Cyngor fel y'i cofnodwyd yn y Fantolen, yn arwain at rwymedigaeth net o £124.520m.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol ar gyfer cyllido'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn iach. Bydd y diffyg yng Nghynllun Pensiwn Gwynedd yn cael ei adennill drwy gynyddu'r cyfraniadau, fel yr asesir gan actwari'r cynllun, dros weddill oes waith y gweithwyr.

## d) Prif Ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr Actiwari oedd:-

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| **Rhagdybiaethau Marwolaeth:** | | |
| *Hirhoedledd yn 65 bensiynwyr presennol:* | | |
| Dynion | 21.3 years | 22.0 years |
| Merched | 23.4 years | 24.2 years |
| *Hirhoedledd yn 65 bensiynwyr dyfodol:* | | |
| Dynion | 22.2 years | 24.0 years |
| Merched | 25.1 years | 26.4 years |
| | | |
| Graddfa Cynnydd Chwyddiant / Pensiwn | 1.90% | 2.50% |
| Gradda cynnydd mewn cyflogau | 2.20% | 2.50% |
| Dychweliad disgwyliedig ar yr asedau | -7.30% | 8.20% |
| Graddfa ddisgownt ar rwymedigaethau'r cynllun | 2.30% | 2.40% |
| | | |
| **Defnyddio'r opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeoliad:** | | |
| Gwasanaeth i Ebrill 2008 | 50.00% | 50.00% |
| Gwasaneath ôl Ebrill 2008 | 75.00% | 75.00% |

## dd) Dadansoddiad Sensitifrwydd

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn seiliedig ar newidiadau posibl i'r rhagdybiaethau a all, yn rhesymol, ddigwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Ar gyfer pob newid mewn rhagdybiaeth, mae'n cymryd yn ganiataol bod yr holl ragdybiaethau eraill yn parhau'n gyson. Mae'r dadansoddiad o sensifitrwydd yn dangos y gallai gostyngiad 0.5% yn y gyfradd ddisgownt real oherwydd newidiadau posibl yn y farchnad, gynyddu rhwymedigaethau'r gronfa o £40.275m oherwydd rhoddir gwerth uwch ar fuddiannau a delir yn y dyfodol. Gallai cynnydd 0.5% yn y gyfradd cynnydd cyflogau, olygu cynnydd o £4.845m yng nghostau'r gronfa. Gallai cynnydd 0.5% yn y gyfradd bensiynau, olygu cynnydd o £35.031m mewn rhwymedigaethau. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi cael eu cyfrifo yn unol â thybiaethau actiwaraidd proffesiynol, SAR19 a SAARh102. Mae hyn yn golygu bod y defnydd o'r rhagdybiaethau 0.5% isod wedi cael eu dewis gan yr actiwari arbenigol yn unol â'i farn/barn broffesiynol ef/hi. Byddai'r Actiwari wedi cymryd i ystyriaeth wybodaeth gyfredol a blaenorol. Byddai gwybodaeth ynghylch hyd oes pobl a gwybodaeth ddemograffig hefyd wedi dylanwadu ar hyn.

| Newid Mewn Tybiaethau fel ar 31 Mawrth 2019 | % y Cynnydd yn fras i'r Cyflogwr | Swn Ariannol Bras<br>£'000 |
|---|---|---|
| lleihad o 0.5% yn y gyfradd ddisgownt real | 10% | 40,275 |
| cynnydd o 0.5 % yn y gyfradd cynnydd cyflog | 1% | 4,845 |
| cynnydd o 0.5 % yn y gyfradd cynnydd pensiwn | 9% | 35,031 |

**e) Yr Effaith ar Lif Arian yr Awdurdod**

Amcan y cynllun yw cadw cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfradd sydd mor gyson ag y gall fod. Mae gan y Cyngor strategaeth gydag actiwari'r cynllun i sicrhau lefel gyllido o 100% yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol. Caiff y prisiad tairblwyddol nesaf ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2022.

Bydd angen i'r cynllun gymryd i ystyriaeth y newidiadau cenedlaethol i'r cynllun dan Ddeddf Gwasanaethau Pensiynau Cyhoeddus 2013.

Yn unol â'r Ddeddf, efallai na fydd y CPLlL yn Lloegr a Chymru, a'r prif gynlluniau cyfredol eraill ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, yn darparu buddiannau ar gyfer gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 (neu Wasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2015 yn achos y prif gynlluniau pensiwn eraill ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus yn Lloegr a Chymru). Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rheoleiddio'r cynlluniau mewn fframwaith cyffredinol er mwyn sefydlu cynlluniau yn seiliedig ar yr enillion cyfartalog yn ystod gyrfa wedi eu hailbrisio er mwyn talu pensiynau a buddiannau eraill.

Mae'r rhwymedigaethau'n dangos yr ymrwymiad gwaelodol sydd ar y Cyngor yn y tymor hir i dalu buddiannau ôl-gyflogaeth (ymddeoliad). Mae'r rhwymedigaeth net o £124.520m yn cael effaith sylweddol ar werth net y Cyngor fel y cafodd ei gofnodi yn y Fantolen. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol ar gyfer cyllido'r diffyg yn golygu fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn iach.

Gwneir iawn am y diffyg yn y cynllun llywodraeth leol drwy gynyddu'r cyfraniadau dros weddill oes gweithio'r gweithwyr (h.y. cyn y bydd y taliadau'n ddyledus) yn unol ag asesiad actiwari'r cynllun; nid oes angen cyllid ond i gwrdd â chostau buddiannau dewisol pan fydd y pensiynau'n cael eu talu.

**f) Amcangyfrif o'r cyfraniadau i'w talu i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2019/20**

Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn talu cyfraniad o £8.498m i'r cynllun yn 2020/21.

Y swm sy'n ddyledus i Gyngor Gwynedd mewn perthynas â chyfraniadau CPLlL am 2019/20 ar 31 Mawrth 2020 yw £0.829m ac mae wedi ei gynnwys yn y nodyn datgelu o ran credydwyr tymor byr.

## NODYN 42 – RHWYMEDIGAETHAU WRTH GEFN

### Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983

Yn dillyn y dyfarniadau cyfreithiol a gadarnhawyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ac adroddiad gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol ar achosion prawf mewn mannau eraill, nid oedd unrhyw bŵer i godi tâl am wasanaethau a ddarparwyd o dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ac mae'r Cyngor yn atebol i ad-dalu unrhyw daliadau o'r fath. Er bod nifer o achosion wedi'u setlo yn y gorffennol, mae'n anodd mesur cyfanswm y rhwymedigaeth bosibl.

### Risg o gostau cyfreithiol yn codi o'r Rhaglen Rhesymoli Ysgolion

Yn dilyn cau rhai o ysgolion yr Ynys a rhesymoli staff, efallai bydd yr Awdurdod yn atebol i dalu unrhyw gostau tribiwnlys a allai ddeillio o apeliadau yn y dyfodol. Ni all yr Awdurdod ragweld amseriad, canlyniad na chostau unrhyw dribiwnlys ar hyn o bryd.

**NODYN 43 – ASEDAU WRTH GEFN**

**Pridiannau Cyfreithiol**

Mae’r Cyngor yn cadw nifer o bridiannau cyfreithiol dros eiddo preswyl â pherchenogion preifat, lle darparwyd cefnogaeth i’r prynwyr dan gynlluniau ar gyfer prynu tai â chefnogaeth, gyda’r Cyngor hefo’r hawl am ran o’r enillon ar werthiant yr eiddo. Bydd amrywiaeth yn y gwir swm a dderbynnir, yn seiliedig ar brisiau gwerthu'r eiddo unigol a natur unrhyw alwadau cyfreithiol arall yn eu herbyn byddai, efallai, yn cymryd blaenoriaeth dros bridiant y Cyngor. Mae amseru unrhyw dderbyniadau yn ddibynnol ar unrhyw werthiannau.

**NODYN 44 – OFFERYNNAU ARIANNOL**

2018/19 oedd y flwyddyn gyntaf i awdurdodau lleol orfod gweithredu Safon Ariannol newydd a elwir yn SAARh9 Offerynnau Ariannol. Roedd hyn yn cyflwyno gofynion dosbarthu a chyfrifyddu newydd ar gyfer yr offerynnau hyn. Cytundebau contractiol rhwng dau neu fwy o bartïon yw offerynnau ariannol yn ymwneud â hawl i dderbyn tâl o arian. Byddai gan un parti ased ariannol lle mae arian neu ased ariannol arall yn cael ei roi i’r parti arall, yn gyfnewid am ddychwelyd yr arian neu’r offeryn ariannol, yn aml gyda llog neu enillion ffafriol ar y buddsoddiad. Byddai’r trafodiad yn rhwymedigaeth ariannol i’r parti neu’r partïon eraill. Y cytundeb i ad-dalu’r arian ar yr amser y cytunwyd arno ac i ddychwelyd yr arian yn unol â’r cytundeb fyddai hynny. Er enghraifft, prif asedau ariannol y Cyngor yw ei fuddsoddiadau mewn adneuon banc. Dengys Tabl 44b fod gan y Cyngor asedau ariannol o £14.208m mewn cyfrifon adneuon banc. Yn gyfnewid am hyn, bydd arian y Cyngor yn cael ei ddychwelyd ar gais a bydd yr arian yn ennill llog ar gyfradd sefydlog drwy gydol cyfnod y buddsoddiadau. Mae’r trafodion hyn yn rhwymedigaethau ariannol i fanciau’r DU lle mae gan y Cyngor adneuon, gan y bydd yr arian yn cael ei ad-dalu i’r Cyngor a chost y rhwymedigaeth hon i’r banciau yw’r llog y byddant yn ei dalu i’r Cyngor. Mae enghreifftiau o asedau ariannol yn cynnwys arian parod, adneuon banc, symiau sy’n ddyledus drwy fasnach (dyledwyr), ecwitiau, bondiau a deilliadau. Mae enghreifftiau o rwymedigaethau ariannol yn cynnwys benthyciadau, symiau sy’n daladwy drwy fasnach (credydwyr) ac unrhyw rwymedigaeth gontractiol i ddarparu arian parod neu ased ariannol i endid arall.

**Asedau Ariannol**

Dengys Nodyn 44a y gwahanol gategorïau o asedau ariannol sy’n ofynnol o dan SAARh9 a gwerth asedau ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2020. Mae’n rhoi gwerth asedau anariannol hefyd, sydd yn cynnwys gwerth Tir ac Eiddo ac asedau eraill. Ni all y Cyngor ond ymrwymo i asedau a rhwymedigaethau ariannol yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae’r Strategaeth yn gosod meini prawf caeth, felly, ni all y Cyngor ond buddsoddi mewn asedau ariannol sydd yn hynod o ddiogel ac y gellir cael mynediad atynt pan fydd y Cyngor angen yr arian. Adneuon banciau yn y DU sy’n bodloni meini prawf statws credyd y Cyngor yw’r rhan fwyaf o fuddsoddiadau, neu fenthyciadau i awdurdodau lleol eraill. Daw’r cyfan ohonynt o dan ddosbarthiad Asedau Ariannol a fesurir yn ôl cost wedi’i Amorteiddio y SAARh9, fel yr amlygir yn Nodyn 44a. Mae mesur costau wedi’u Hamorteiddio yn cychwyn gyda’r swm caffael gwreiddiol ac mae’n cael ei leihau (amhariad) er mwyn caniatáu ar gyfer unrhyw golledion credyd a ddisgwylir. Petai’r Cyngor yn dal asedau ariannol mwy cymhleth, megis ecwitiau neu offerynnau marchnad arian, byddent yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg ac yn cael eu dosbarthu o dan un o’r gwahanol gategorïau gwerth teg perthnasol.

**NODYN 44a – CRYNODEB O'R CATEGORÏAU O ASEDAU ARIANNOL A DDELIR GAN Y CYNGOR**

| Asedau Ariannol | Anghyfredol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Buddsoddiadau | | Dyledwyr | |
| | 31 Mawrth 2020 £000 | 31 Mawrth 2019 £000 | 31 Mawrth 2020 £000 | 31 Mawrth 2019 £000 |
| Gwerth teg trwy elw neu golled | - | - | - | - |
| Cost wedi ei amorteiddio | 23,045 | 15,825 | 6,078 | 5,981 |
| Gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall - offerynnau ecwiti dynodedig | - | - | - | - |
| Gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall - arall | - | - | - | - |
| **Cyfanswm Asedau Ariannol** | 23,045 | 15,825 | 6,078 | 5,981 |
| Asedau Anariannol | 426,011 | 408,687 | 26,694 | 24,004 |
| **Cyfanswm** | 449,056 | 424,512 | 32,772 | 29,985 |

Mae Nodyn 44b yn darparu dadansoddiad mwy manwl o asedau ariannol y Cyngor. Dengys y tabl swm cario yr asedau ariannol. Dyma yw gwerth yr asedau ariannol yn y Fantolen yn seiliedig ar gost wedi'i amorteiddio. Darperir y gwerth teg hefyd, mae hwn yn werth mwy cyfredol a dyma fyddai'r pris i werthu'r asedau ariannol ar 31 Mawrth 2020. Cyfrifwyd hyn gan Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys annibynnol y Cyngor, Link Asset Services. Roedd y prisiad yn seiliedig ar gymhariaeth o'r adneuon â buddsoddiadau tebyg gyda'r un benthyciwr / benthycwyr neu rai tebyg.Rhennir yr asedau ariannol rhwng buddsoddiadau a dyledwyr. Dim ond £11k o wahaniaeth sydd rhwng gwerth teg buddsoddiadau'r Cyngor a'r gwerth ar y Fantolen. Y buddsoddiadau yw'r adneuon arian mewn banciau'r DU a swm bychan iawn mewn arian parod. Mae'r arian parod a chywerthoedd arian arall yn ymwneud â symiau a gedwir ar gyfer bancio gweithredol a thalu costau dydd i ddydd. Hefyd, rhoddodd y Cyngor fenthyg £6m mewn benthyciadau tymor byr i awdurdodau lleol eraill. Mae'r symiau a gedwir fel arian parod a chywerthoedd arian mewn cyfrifon adneuon gyda banciau'r DU yn arian nad oes ei angen ar gyfer anghenion dydd i ddydd ond mae'n arian y bydd ei angen yn y dyfodol. Mae'r symiau hyn yn ennill llog yn ystod cyfnod y buddsoddiad. Y categori arall o asedau ariannol yw dyledwyr. Maent yn ymwneud â sefydliadau neu unigolion y mae arnynt arian i'r Cyngor. Y rhai mwyaf arwyddocaol yw dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill sy'n ymwneud â symiau sydd yn ddyledus am wasanaethau a dderbyniwyd. Dangosir benthyciadau i weithwyr hefyd, benthyciadau meddal ydynt ac maent yn ymwneud yn bennaf â benthyciadau ceir i aelodau o staff sy'n gorfod gwneud llawer o deithio ar fusnes y Cyngor. Rhoddwyd y benthyciadau ar gyfradd is na chyfradd y farchnad oherwydd yr angen i deithio at ddibenion gwaith. Nid yw dyledwyr yn cynnwys trafodion gydag adrannau'r llywodraeth, nac incwm a thaliadau yn codi o drethiant, yn cynnwys y Dreth Gyngor a threthi busnes.

## NODYN 44b – MANYLION AM Y MATHAU O ASEDAU ARIANNOL A DDELIR GAN Y CYNGOR

| Asedau Ariannol | Tymor Byr | | | | Tymor Hir | | | | Cyfanswm | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 31/03/2020 | | 31/03/2019 | | 31/03/2020 | | 31/03/2019 | | 31/03/2020 | | 31/03/2019 | |
| | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio** | | | | | | | | | | | | |
| **Arian a chywerthoedd arian** | | | | | | | | | | | | |
| Arian parod a chywerthoedd arain - adneuon | 14,208 | 14,212 | 14,333 | 14,336 | - | - | - | - | 14,208 | 14,212 | 14,333 | 14,336 |
| Arian parod a chywerthoedd arain eraill | 2,837 | 2,837 | 1,492 | 1,492 | - | - | - | - | 2,837 | 2,837 | 1,492 | 1,492 |
| Benthyciadau I Awdurdodau Lleol arall | 6,000 | 6,007 | - | - | | | | | 6,000 | 6,007 | - | - |
| **Cyfanswm** | **23,045** | **23,056** | **15,825** | **15,828** | **-** | **-** | **-** | **-** | **23,045** | **23,056** | **15,825** | **15,828** |
| **Dyledwyr** | | | | | | | | | | | | |
| Rhenti | 460 | 460 | 394 | 394 | - | - | - | - | 460 | 460 | 394 | 394 |
| Benthyciadau i weithwyr | 197 | 197 | 181 | 181 | 152 | 152 | 187 | 187 | 349 | 349 | 368 | 368 |
| Dyledwyr Masnach | 3,131 | 3,131 | 2,062 | 2,062 | - | - | - | - | 3,131 | 3,131 | 2,062 | 2,062 |
| Dyledwyr Eraill | 2,138 | 2,138 | 3,078 | 3,078 | - | - | 79 | 79 | 2,138 | 2,138 | 3,157 | 3,157 |
| **Cyfanswm** | **5,926** | **5,926** | **5,715** | **5,715** | **152** | **152** | **266** | **266** | **6,078** | **6,078** | **5,981** | **5,981** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Asedau Ariannol** | **28,971** | **28,982** | **21,540** | **21,543** | **152** | **152** | **266** | **266** | **29,123** | **29,134** | **21,806** | **21,809** |

### Rhwymedigaethau Ariannol

Mae holl Rwymedigaethau Ariannol y Cyngor yn cael eu dosbarthu fel Asedau Ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio. Dangosir hyn yn Nodyn 44c. Dengys y nodyn werth rhwymedigaethau anariannol. Mae'r rhwymedigaethau anariannol ar 31 Mawrth 2020 yn cynnwys Rhwymedigaeth y Gronfa Bensiwn o £124.520m.

## NODYN 44c – CRYNODEB O'R CATEGORÏAU O RWYMEDIGAETHAU ARIANNOL A DDELIR GAN Y CYNGOR

| Ymrwymiadau Ariannol | Anghyfredol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Benthyciadau | | Credydwyr | |
| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
| Gwerth teg trwy elw neu golled | - | - | - | - |
| Cost wedi ei Amorteiddio | 141,261 | 134,887 | 13,926 | 12,286 |
| **Cyfanswm Ymrwymiadau Ariannol** | **141,261** | **134,887** | **13,926** | **12,286** |
| Ymrwymiadau Anariannol | - | - | 138,355 | 144,868 |
| **Cyfanswm** | **141,261** | **134,887** | **152,281** | **157,154** |

Mae Nodyn 44ch isod yn rhoi manylion am y math o rwymedigaethau ariannol sydd gan y Cyngor. Roedd rhwymedigaethau benthyca'r Cyngor yn dod i gyfanswm o £141.262m ar 31 Mawrth 2020. Dyma'r benthyciadau a gymerwyd gan y Cyngor dros y blynyddoedd i gyllido gwariant cyfalaf ar adeiladu neu adnewyddu asedau'r Cyngor. Y benthyciadau tymor byr yw'r symiau sy'n ddyledus i'w talu cyn 31 Mawrth 2021. Bydd y benthyciadau tymor hir yn dod yn ddyledus ymhen dros flwyddyn. Mae crynodeb o bortffolio benthyciadau'r Cyngor a'r proffil aeddfedu yn cael ei ddarparu yn Nodyn 45c. Y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), sydd yn rhan o Adran Drysorlys y Llywodraeth Ganolog, yw'r prif ddarparwr benthyciadau i'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd wedi cael benthyciadau gan Lywodraeth Cymru a Salix, ar gyfradd llog o 0%, a ddefnyddiwyd i dalu am oleuadau arbed ynni LED. Mae gweddill y rhwymedigaethau ariannol yn ymwneud â chredydwyr, sef unigolion a/neu sefydliadau y mae arian yn ddyledus iddynt gan y Cyngor am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd yn 2019/20 neu cyn hynny. Dyma'r anfonebau sy'n cael eu hanfon i'r Cyngor ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol neu lle mae'r dyddiad y daw'r swm yn ddyledus ar ôl 31 Mawrth 2020.

Cyfrifwyd gwerth teg benthyciadau'r Cyngor gan ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, Link Asset Services. Y cyfanswm gwerth teg ar holl fenthyciadau'r Cyngor oedd £187.518m, swm sylweddol uwch na'r gwerth cario ar y Fantolen o £141.262m ar 31 Mawrth 2020. Mae gwerth teg yr asedau yn uwch na'r gwerth cario oherwydd bod portffolio buddsoddiadau'r Cyngor yn cynnwys nifer o fenthyciadau cyfradd sefydlog lle mae'r gyfradd llog derbyniadwy yn uwch na'r cyfraddau sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r ymrwymiad hwn i dalu llog uwch na chyfraddau presennol y farchnad yn cynyddu'r swm y byddai'n rhaid i'r Cyngor ei dalu, petai'r benthyciwr yn gofyn, neu'n cytuno, i'r benthyciad gael ei ad-dalu'n gynnar.

Cafodd y gwerth teg ei asesu drwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian fydd yn digwydd yn ystod y tymor sy'n weddill ar yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:-

- Amcangyfrif o ystod cyfraddau llog ar gyfraddau sicrwydd (gyda gostyngiad o 0.2%) ar 31 Mawrth 2020 ar gyfer benthyciadau gan y PWLB, yn seiliedig ar gyfraddau benthyca newydd ar gyfer benthyciadau cyfwerth ar y dyddiad hwnnw;
- Ni chydnabyddir ad-dalu'r benthyciad yn gynnar nac amhariad;
- Os bydd offeryn yn aeddfedu yn ystod y deuddeng mis nesaf, tybir bod y swm cario yn agos i'r gwerth teg; a
- Bernir bod gwerth teg dyledwyr a chredydwyr tymor byr cyfwerth â'u swm cario ar ddyddiad y Fantolen.

## NODYN 44ch - MANYLION AM Y MATHAU O RWYMEDIGAETHAU ARIANNOL SYDD GAN Y CYNGOR

| Rhwymedigaethau Ariannol | Tymor Byr | | | | Tymor Hir | | | | Cyfanswm | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 31/03/2020 | | 31/03/2019 | | 31/03/2020 | | 31/03/2019 | | 31/03/2020 | | 31/03/2019 | |
| | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Rhwymedigaethau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio** | | | | | | | | | | | | |
| **Benthyciadau** | | | | | | | | | - | - | - | - |
| PWLB | 16,542 | 16,759 | 7,350 | 7,428 | 121,891 | 168,335 | 126,403 | 182,090 | 138,433 | 185,094 | 133,753 | 189,518 |
| Llywodraeth Cymru | 44 | 43 | 44 | 43 | - | - | 44 | 43 | 44 | 43 | 88 | 86 |
| Salix | 252 | 223 | 142 | 127 | 2,533 | 2,158 | 904 | 808 | 2,785 | 2,381 | 1,046 | 935 |
| Benthyciadau Eraill | - | - | - | - | - | - | - | - | | | | |
| **Cyfanswm** | **16,838** | **17,025** | **7,536** | **7,598** | **124,424** | **170,493** | **127,351** | **182,941** | **141,262** | **187,518** | **134,887** | **190,539** |
| **Credydwyr** | | | | | | | | | | | | |
| Absenoldebau Cronedig | 1,450 | 1,450 | 776 | 776 | - | - | - | - | 1,450 | 1,450 | 776 | 776 |
| Rhenti | - | - | 31 | 31 | - | - | - | - | - | - | 31 | 31 |
| Credydwyr Masnach | 2,130 | 2,130 | 2,737 | 2,737 | - | - | - | - | 2,130 | 2,130 | 2,737 | 2,737 |
| Credydwyr Eraill | 8,991 | 8,991 | 8,585 | 8,585 | 159 | 159 | 157 | 157 | 9,150 | 9,150 | 8,742 | 8,742 |
| **Cyfanswm** | **12,571** | **12,571** | **12,129** | **12,129** | **159** | **159** | **157** | **157** | **12,730** | **12,730** | **12,286** | **12,286** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Rhwymedigaethau Ariannol** | **29,409** | **29,596** | **19,665** | **19,727** | **124,583** | **170,652** | **127,508** | **183,098** | **153,992** | **200,248** | **147,173** | **202,825** |

## NODYN 44d - INCWM, GWARIANT, ENILLION A CHOLLEDION

Dengys y tabl isod effaith offerynnau ariannol y Cyngor ar gyfrif refeniw blynyddol y Cyngor ar gyfer 2019/20.

Dengys y tabl fod swm o £322k (£466k yn 2018/19) wedi cael ei godi ar y Cyngor am yr amhariad a dadgydnabod ar yr asedau ariannol a nodwyd yn Nodiadau 44a a 44b uchod. Roedd hyn yn gostwng gwerth yr asedau yn ôl y swm hwn ac yn gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, derbyniodd y Cyngor £149k (£64k yn 2018/19) mewn llog ar ei adneuon mewn banciau’r DU a benthyciadau i awdurdodau lleol eraill.

Y llog taladwy ar fenthyciadau yn ymwneud â 2019/20 oedd £6,007k (£5,871k yn 2018/19).

| | 2019/20 | | 2018/19 | |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm, Gwariant, Enillion a Cholledion** | **Gwarged neu Ddiffyg ar ddarparu Gasanaethau £'000** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall £'000** | **Gwarged neu Ddiffyg ar ddarparu Gasanaethau £'000** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall £'000** |
| **Enillion/colledion net ar:** | | | | |
| Asedau ariannol wedi eu mesur ar eu gwerth teg drwy elw neu golled | - | - | - | - |
| Asedau ariannol wedi eu mesur ar gostau wedi'i hamorteiddio (amhariad a dadgydnabod) | 322 | - | 466 | - |
| Buddsoddiadau mewn offerynnau ecwiti a ddynodwyd ar eu gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall | - | - | - | - |
| Asedau ariannol a fesurwyd ar eu gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall | - | - | - | - |
| Ymrwymiadau ariannol wedi eu mesur ar eu gwerth teg drwy elw neu golled | - | - | - | - |
| Ymrwymiadau ariannol wedi eu mesur ar gostau wedi'i amorteiddio | - | - | - | - |
| **Cyfanswm Enillion/Colledion Net** | 322 | - | 466 | - |
| **Refeniw Llog:** | | | | |
| Asedau ariannol wedi eu mesur ar gostau wedi'i hamorteiddio | 149 | - | 64 | - |
| Asedau ariannol eraill a fesurwyd ar eu gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall | - | - | - | - |
| **Cyfanswm refeniw llog** | **149** | **-** | **64** | **-** |
| **Costau Llog:** | | | | |
| Ymrwymiadau ariannol wedi eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio | 6,007 | - | 5,871 | - |
| **Cyfanswm costau llog** | **6,007** | **-** | **5,871** | **-** |

Os cafodd offerynnau ariannol eu trefnu drwy frocer, mae'r brocer yn codi ffioedd. Hefyd, mae ffioedd yn ddyledus ar fenthyciadau newydd gan y PWLB. Fodd bynnag, nid yw'r ffioedd hyn yn faterol ac maent wedi eu cynnwys fel cost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Petai'r ffioedd yn rhai materol, byddent wedi cael eu hychwanegu at werth cario yr offeryn ariannol perthnasol.

**NODYN 45 – NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL**

Mae gwaith y Cyngor yn golygu ei fod yn agored i sawl risg ariannol:-

**Risg Credyd** - y posibilrwydd bod partïon eraill yn methu â thalu'r symiau dyledus i'r Cyngor.

**Risg Hylifedd** - y posibilrwydd na fydd cyllid gan y Cyngor i gwrdd â'i ymrwymiadau yng nghyswllt taliadau.
**Risg y Farchnad** - y posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu colled ariannol oherwydd newidiadau mewn mesurau megis cyfraddau llog.

Mae'r rheolaeth gyffredinol dros risgiau sylweddol sy'n codi o'r Offerynnau Ariannol yn cael cefnogaeth Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a hefyd y Strategaeth Buddsoddi Blynyddol sydd wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn. Mae'r safon ariannol newydd SAARh9 Offerynnau Ariannol sy'n weithredol ers 1 Ebrill 2018, yn ceisio gwneud sefydliadau ystyried risgiau yn gynharach. Effaith cyfyngedig sydd gan y safon hwn ar y Cyngor gan nad oes ganddo fuddsoddiadau cymhleth neu risg uwch. Mae'r Cyngor ond wedi buddsoddi mewn banciau DU ac awdurdodau lleol eraill yn ystod y flwyddyn.

**Risg Credyd**

Mae Risg Credyd yn codi oherwydd yr adneuon mewn banciau a sefydliadau ariannol, ond hefyd oherwydd credyd i gwsmeriaid y Cyngor (dyledwyr ar y Fantolen). Mae'r safon yn nodi'r angen i'r Cyngor ddarparu ar gyfer colledion credyd posibl o ganlyniad i fethiannau posibl i dalu incwm sy'n ddyledus i'r Cyngor yn gynt. Lwfans Amharu Colledion (ILA) yw'r enw am hyn. Yn hytrach na seilio colledion posibl ar wybodaeth hanesyddol yn unig, bydd y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth y colledion credyd posibl yn y dyfodol yn gynharach a maent wedi adolygu'r polisi amhariad er mwyn ystyried colledion credyd posibl ar ddyledwyr fwy cyfredol. Gellir dod o hyd i'r polisi diwygiedig yn Nodyn 51 Polisïau Cyfrifo.

Mae'r Cyngor wedi asesu'r risg credyd o adneuon banc ar y tebygolrwydd o'r banc yn diffygio wrth ad-dalu'r buddsoddiad. Mae risg uwch i'r sector bancio gan Brexit, fodd bynnag, ystyrir y risg o ddiffyg yn isel yn dal i fod. Mae hyn yn ganlyniad i wytnwch ariannol uwch gan y banciau yn dilyn deddfwriaeth newydd a gyflwynwyd yn dilyn argyfwng bancio 2008. Nid yw'r adneuon bancio, felly, wedi eu hamharu arnynt. Nid ydym yn trefnu adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod, ar ôl cael eu graddio'n annibynnol, wedi cael graddfa credyd digonol neu lefel o warant llywodraeth, a phenderfynir ar uchafsymiau credyd i bob gwrthbarti. Gosododd y Cyngor nifer o uchafsymiau yn seiliedig ar raddfeydd credyd ar gyfer gwahanol math o selfydlidau, gwahanol gyfnodau a symiau, ac mae ganddo bolisi o beidio â benthyca rhagor na £10m i unrhyw un sefydliad heblaw am lywodraeth y DU. Mae'r Cyngor yn monitro cyfraddau credyd yn gyson a chaiff rybudd o unrhyw newidiadau gan ei ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys. Cymerir camau priodol yn sgil unrhyw newid gan ddilyn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Paratoir Adroddiad Trysorlys Blynyddol sy'n manylu ar y gwaith buddsoddi. Roedd yr holl adneuon a oedd yn sefyll ar ddiwedd y flwyddyn wedi eu gwneud yn wreiddiol am lai na blwyddyn.

Ni aethpwyd tu draw i unrhyw uchafswm credyd yn ystod y flwyddyn ariannol ac ni thorrwyd unrhyw feini prawf gwrthbartïon. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl y bydd unrhyw golledion oherwydd bod unrhyw un o'i wrthbartïon yn methu â pherfformio yng nghyswllt adneuon. Mae'r argyfwng credyd presennol wedi cynyddu'r posibilrwydd o fethu talu ac mae'r Cyngor wedi mabwysiadu meini prawf credyd llymach ar gyfer gwrthbartïon buddsoddi o fewn ei bolisi cyffredinol.

Nid yw'r Cyngor fel rheol yn caniatáu credyd i gwsmeriaid; mae gan y Cyngor weithdrefnau casglu rhagnodedig ar gyfer symiau dyledus gan gwsmeriaid a gwneir darpariaethau priodol ar gyfer dyledion a allai fod yn rhai drwg. Mewn rhai amgylchiadau, mae'r Cyngor yn cael pridiant cyfreithiol ar eiddo ar gyfer rhai dyledion gohiriedig fel hunan gyllidwyr mewn cartrefi gofal.Yn ogystal, mae gan y Cyngor nifer o ddyledwyr tymor hirach, gan gynnwys benthyciadau sy'n bennaf yn fenthyciadau ceir i staff a morgeisi gweddilliol o gynllun caeëdig yn cynnig benthyciadau cartrefi i denantiaid ac i aelodau'r cyhoedd. Mae'r morgeis gweddilliol yn rhai risg isel oherwydd bod y Cyngor yn diogelu'r hawl gyntaf ar yr eiddo morgeisiedig. Ystyrir bod y benthyciadau ceir yn rhai risg isel oherwydd bod modd tynnu ad-daliadau am y benthyciadau geir o gyflogau'r gweithwyr, a hefyd mae trefniadau cilyddol gydag awdurdodau lleol eraill ar gyfer staff sy'n trosglwyddo ac yn symud gyda dyledion ar eu benthyciadau ceir, yswiriant ar gyfer benthyciadau heb eu had-dalu oherwydd marwolaeth mewn gwasanaeth a hefyd trefniadau arferol i ad-ennill dyledion yng nghyswllt gweithwyr sy'n gadael eu swyddi mewn llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae'r risg o ddiffyg ar fenthyciadau gweithwyr yn cynyddu'n gyflym er gwaethaf y mesurau hyn os yw'r gweithiwr yn gadael cyflogaeth y Cyngor. Felly, mae lwfans amharu colledion o 10% wedi ei weithredu i'r balans presennol ar fenthyciadau ceir gweithwyr.

Mae Nodyn 45a yn dangos y cynnydd mewn lwfansau amharu colledion amhariad ar gyfer 2019/20.

**NODYN 45a - AMHARIAD A DAD-GYDNABOD ASEDAU ARIANNOL**

| Dosbarth yr Asedau (cost wedi ei hamorteiddio) | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | Colledion credyd disgwyliedig dros oes yr ased - heb amhariad credyd<br>£'000 | Colledion credyd disgwyliedig dros oes yr ased - heb amhariad credyd<br>£'000 |
| Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2019 | 3,417 | 3,127 |
| Adneuon mewn banciau'r DU | - | - |
| Dyledwyr Masnachol (ac eithrio'r sector cyhoeddus a threthi) | (32) | 238 |
| Benthyciadau Meddal | (6) | 33 |
| Rhenti | 36 | 19 |
| **Cyfanswm y lwfans amhariad 31 Mawrth 2020** | **3,415** | **3,417** |
| Asedau Ariannol sydd wedi cael eu dad-adnabod | 324 | 176 |
| **Cyfanswm Amhariad a Dad-gydnabod** | **322** | **466** |

**NODYN 45b - GWERTH Y SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY AR 31 MAWRTH 2020 A CHANRAN A GYMHWYSIR FESUL BAND FEL LWFANS COLLEDION AMHARIAD**

Mae'r tabl isod yn dangos bod gwerth yr holl asedau ariannol a gafodd eu hamorteiddio wedi eu Amharu gan ddefnyddio ymagwedd wedi ei symleiddio oherwydd roedd yr holl asedau ariannol yr oedd angen amhariad yn ymwneud â derbyniadau masnachol. Dyma'r ymagwedd a argymhellir o ran delio gyda symiau gweddilliol sy'n ddyledus i'r Cyngor. Mae'r tabl yn dangos gwerth gweddilliol y symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor am y cyfnod amser y mae'r symiau wedi bod yn ddyledus. Mae'r raddfa o ran risg credyd yn ymwneud â chanran gwerth yr arian sy'n ddyledus yn ôl 'oed' y ddyled y mae'r Cyngor yn defnyddio'r lwfans colledion amhariad yn ei chylch. Er enghraifft, yn achos arian sydd wedi bod yn ddyledus am 366 i 730 o ddiwrnodau, caiff 75% o'r £331k ei roi yn erbyn refeniw er mwyn cymryd i ystyriaeth y risg na fyddai'r dyledion yn cael eu talu. Byddai hynny'n £248k ar gyfer dyled yn y band hwn. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn parhau i fynd ati yn egnïol i adennill y ddyled.

| | Cyfradd Risg Credyd | Gwerth Cario Gros £'000 | Lwfans Amhariad sydd ei angen 2019/20 £0 |
|---|---|---|---|
| **Colledion credyd disgwyliedig dros 12 mis** | - | - | |
| | - | - | |
| **Cynnydd sylweddol yn y risg credyd ers y gydnabyddiaeth gychwynnol** | - | - | |
| | - | - | |
| **Amhariad Credyd ar 31 Mawrth** | - | - | |
| | - | - | |
| **Ymagwedd wedi ei Symleiddio** | | - | - |
| Diwrnod 1 i 14 | 2.00% | 89 | 2 |
| 15-45 diwrnod yn hwyr | 2.50% | 385 | 10 |
| 46-75 diwrnod yn hwyr | 4.50% | 268 | 12 |
| 76-105 diwrnod yn hwyr | 7.50% | 170 | 13 |
| 106 - 182 diwrnod yn hwyr | 15.00% | 252 | 38 |
| 183 - 365 diwrnod yn hwyr | 50.00% | 318 | 159 |
| 366 - 730 diwrnod yn hwyr | 75.00% | 331 | 248 |
| 731 diwrnod neu mwy yn hwyr | 100.00% | 787 | 787 |
| | | | - |
| **Gordaliadau Budd-daliadau Tai** | 90.00% | 1,639 | 1,475 |
| | | - | - |
| **Incwm Gohuriedig - Gwasanaethau Cymdeithasol** | 10.00% | 456 | 46 |
| | | - | - |
| **Risg ychwanegol Credyd oherwydd Covid-19** | | - | - |
| Diwrnod 1 i 14 | 2.00% | 89 | 2 |
| 15-45 diwrnod yn hwyr | 2.50% | 385 | 10 |
| 46-75 diwrnod yn hwyr | 4.50% | 268 | 12 |
| 76-105 diwrnod yn hwyr | 7.50% | 170 | 13 |
| 106 - 182 diwrnod yn hwyr | 5.00% | 252 | 13 |
| | | - | - |
| Rhenti | NA | NA | 544 |
| | | - | - |
| Benthyciadau Meddal ac eraill | 15.07% | 219 | 33 |
| | 0% | 6,078 | 3,415 |
| | | | |
| **Cyfanswm** | | **6,078** | **3,415** |

## Risg Hylifedd

Mae Risg Hylifedd yn isel am nad yw’r Cyngor yn y gorffennol wedi cael unrhyw broblem cael cyllid ac mae'n rhydd i fynd at y Bwrdd Benthyca ar gyfer Gwaith Cyhoeddus (PWLB) fel corff i fenthyca oddi arno ar ôl methu fel arall. Prif nodau’r Strategaeth Rheoli Trysorlys yw i sicrhau bod yr Awdurdod yn agored i risg isel ac i sicrhau hylifedd. Mae’r rhan fwyaf o fuddsoddiadau’r Awdurdod mewn cyfrifon adneuon mynediad yn syth. Felly, mae llai o risg y bydd yn methu â chodi'r cyllid i gwrdd â'i ymrwymiadau dan yr offerynnau ariannol. Fodd bynnag, yn aml mae risg y bydd y Cyngor yn gorfod adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fo'r cyfraddau llog yn uchel. Yr arfer yw ceisio sicrhau na fydd rhagor na 20% o'i fenthyciadau i'w had-dalu mewn unrhyw gyfnod o 2 flynedd, ac asesu’n gyson gyfraddau'r farchnad a'r rhagolygon er mwyn trefnu benthyciadau newydd yn lle’r rhai sy'n aeddfedu neu ar gyfer ad-drefnu'r benthyciadau presennol ar yr adeg fwyaf manteisiol. Byddai’r cyfraddau llog isel cyfredol yn gostwng cyfraddau llog ar fenthyciadau newydd a gymerir i ad-dalu’r ddyled sy’n aeddfedu. I gyflawni'r nod hwn, mae'r Cyngor yn defnyddio cynghorwyr rheoli'r trysorlys allanol. Dangosir dadansoddiad aeddfedu benthyciadau sy'n sefyll yn Nodyn 44b. Mae holl daliadau masnachol a thaliadau eraill yn daladwy mewn llai na blwyddyn.

**NODYN 45c - PROFFIL O BA BRYD Y MAE'R CYNGOR I FOD I AD-DALU BENTHYCIADAU**

| | Prifswm Gweddillol 2019/20 £'000 | Llog wedi Cronni 2019/20 £'000 | Cost llai Amorteiddio Cronedig 2019/20 £'000 | Prifswm Gweddillol 2018/19 £'000 | Llog wedi Cronni 2018/19 £'000 | Cost llai Amorteiddio Cronedig 2018/19 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| >50 blwyddyn | - | - | - | - | - | - |
| 34-50 blwyddyn | 49,964 | - | 49,964 | 52,976 | - | 52,976 |
| 23-33 blwyddyn | 44,703 | - | 44,703 | 42,713 | - | 42,713 |
| 15-22 blwyddyn | 13,553 | - | 13,553 | 13,167 | - | 13,167 |
| 11-14 blwyddyn | 4,105 | - | 4,105 | 4,934 | - | 4,934 |
| 7-10 blwyddyn | 6,227 | - | 6,227 | 4,256 | - | 4,256 |
| 4-6 blwyddyn | 3,236 | - | 3,236 | 4,608 | - | 4,608 |
| 1-3 blwyddyn | 2,636 | - | 2,636 | 4,698 | - | 4,698 |
| **Cyfanswm y Benthyciadau Tymor Hir** | **124,424** | **-** | **124,424** | **127,352** | **-** | **127,352** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Benthyciadau Tymor Byr (< 1 blwyddyn)** | **14,808** | **2,030** | **16,838** | **5,197** | **2,338** | **7,535** |
| | | | | | | |
| Cyfanswm | **139,232** | **2,030** | **141,262** | **132,549** | **2,338** | **134,887** |

## Risg y Farchnad

**Risg Cyfraddau Llog** - Mae'r Cyngor yn wynebu risg posibl pan fo symudiadau ymhlith cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae unrhyw symudiad yn y cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar y Cyngor. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn cael yr effaith a ganlyn:-

- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol - byddai cynnydd yn y treuliau llog a godir ar y Gwarged neu Ddiffyg ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog - ceid gostyngiad yn rhwymedigaethau gwerth teg y benthyciadau;

- Buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – byddai cynnydd yn yr incwm llog wedi'u gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr; a

- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog - gwelid gostyngiad yng ngwerth teg yr asedau.

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario ar werth teg, gan eu bod yn cael eu cario ar gost amorteiddio yn unol â cod CIPFA. Felly, ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau graddfa sefydlog yn effeithio ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau graddfa amrywiol yn cael eu postio i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau i reoli risg cyfraddau llog. Polisi'r Cyngor yw benthyca'n bennaf yn ôl cyfraddau sefydlog, er mwyn cael sicrwydd beth fydd y llog taladwy dros gyfnod y benthyciadau. Mae'r Cyngor, gyda chefnogaeth ei gynghorwyr trysorlys, yn monitro'n barhaus y cyfraddau llog ar y pryd a rhagolygon y farchnad. Pe ceid risg sylweddol o godiad sydyn yn y cyfraddau llog tymhorau hir a byr, yna ailasesid y sefyllfa portffolio ac mae'n debygol y byddai hynny'n arwain, fel arfer, at godi cyllid cyfraddau sefydlog tra bo cyfraddau llog yn dal i fod yn gymharol rhad. Pe ceid risg sylweddol o ostyngiad sydyn yn y cyfraddau llog tymor hir a byr, yna câi benthyciadau tymor hir eu gohirio a symud ymlaen i ad-drefnu a symud o gyllid cyfraddau sefydlog i gyllid cyfraddau tymor byr.
Mae'r cyfan o fenthyciadau'r Cyngor cyfredol a thymor hir ar gyfraddau sefydlog. Mae hyn o gymorth i leihau effaith y newidiadau mewn cyfraddau banc ar y Cyngor. Mae Nodyn 45ch yn dangos effaith cynnydd o 1% yn y gyfradd log ar werth teg Offerynnau Ariannol y Cyngor. Byddai gwerth y benthyciadau yn y Fantolen yn aros yr un fath oherwydd bod y cyfraddau llog yn rhai sefydlog. Fodd bynnag, byddai gostyngiad o £27.628m yn y gwerth teg. Byddai'r cynnydd yn y gyfradd yn cael effaith bositif ar adneuon y Cyngor oherwydd byddai'n derbyn £142k o log ychwanegol petai cynnydd o 1% yn y cyfraddau llog.

**NODYN 45ch - AMCANGYFRIF O EFFAITH CYNNYDD O UN Y CANT YN Y CYFRADDAU LLOG AR ASEDAU ARIANNOL**

| **Effaith cynnydd o 1% mewn cyfraddau llog** | **£000** |
|---|---|
| Gostyngiad yng ngwerth yr asedau buddsoddi cyfradd sefydlog | 142 |
| **Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall** | 142 |
| | |
| Gostyngiad yng ngwerth teg ymrwymiadau benthyciadau cyfradd sefydlog (dim effaith ar y Gwarged neu'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau neu Incwm Cynhwysfawr arall) | 27,628 |

Mae cyfraddau llog wedi parhau yn isel ac yn sefydlog ers 2009. Mae hyn yn ganlyniad i'r argyfwng ariannol byd-eang a ddechreuodd o ganlyniad i'r argyfwng bancio ym Medi 2008. Disgynnodd y gyfradd sylfaenol o 5% yn 2008 cyn yr argyfwng i 0.50% ym Mawrth 2009 a parhaodd ar 0.50% tan 2016. Gostyngodd i 0.25% yn Awst 2016 mewn ymateb i'r sioc economaidd o ganlyniad i benderfyniad y refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd. Dychwelodd y gyfradd yn ôl i 0.50% ym mis Tachwedd 2017. Gwelodd y gyfradd sylfaenol ei wir gynnydd cyntaf ers 2009 ar 2 Awst 2018, lle cynyddodd ychydig i 0.75%. Mae pandemig Covid-19, a drafodir yn fanwl yn adroddiad cychwynol y ddogfen hon, wedi cael effaith mwy arwyddocaol na hyd yn oed Brexit. Er nad yw effaith economaidd Covid-19 yn glir ar hyn o bryd, cafodd ei gymharu i gychwyn â'r argyfwng ariannol yn 2008. Bellach mae'n cael ei gymharu â'r Dirwasgiad Mawr yn y 1930au. Er mwyn helpu'r economi, torrodd Banc Lloegr y gyfradd sylfaenol i'w lefel isaf erioed sef 0.1% ym mis Mawrth 2020.

Ffynhonnell: https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy/the-interest-rate-bank-rate, codwyd 2 Mehefin 2020

**Brexit**

Gadawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn ffurfiol ar 31 Ionawr 2020 a dechreuodd blwyddyn drosiannol tra bod cytundeb masnachu ffurfiol a thelerau ymadael yn cael eu negodi. Ychydig iawn o effaith economaidd a gafwyd yn ystod y flwyddyn drosiannol. Bydd yr effaith ar yr economi yn dibynnu ar y cytundeb terfynol a hefyd cytundebau masnach â gwledydd y tu allan i'r UE. Bydd effaith Pandemig Covid-19 yn effeithio'n fwy sylweddol ar yr economi, fel y soniwyd uchod. Mae'r graddfeydd rhagolygon tymor hir ar gyfer banciau'r DU gyfan wedi'u hisraddio i ragolwg negyddol. Byddai cwymp yn y sector bancio yn tanseilio'r adneuon a ddelir ym manciau'r DU (tua £17m ar 31 Mawrth 2020). Mae hyn yn cael ei fonitro'n ofalus ac, yn galonogol, mae statws credyd y banciau mae'r Awdurdod yn dal adneuon ynddynt yn parhau i fod ar lefel dderbyniol yn unol â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Os yw'r statws credyd yn disgyn yn is na'r lefel dderbyniol, byddai'r Awdurdod yn ceisio gosod y balansau mewn buddsoddiadau amgen, yn unol â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Mae'r Cyngor yn derbyn gwybodaeth a chyngor rheolaidd am y farchnad, Brexit a Covid-19 gan ei ymgynghorwyr rheoli trysorlys.

Mae'r Cyngor wedi elwa o gyfraddau llog isel iawn ar y cyllid y mae'r Cyngor wedi ei fenthyca yn ystod rhan olaf y flwyddyn.

**NODYN 46 – CYD-BWYLLGORAU**

**Pwyllgor Cynllunio ar y Cyd**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn rhan o'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cyd.

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am redeg y pwyllgor hwn, ac mae'r balansau diwedd blwyddyn wedi eu cynnwys yn eu Mantolen. Gellir edrych ar gyfrifon y pwyllgor am 2019/20 drwy'r ddolen ganlynol:-

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Cyllidebau-a-gwariant/Datganiad-or-Cyfrifon/Pwyllgor-Polisi-Cynllunio-Ar-y-Cyd.aspx

**GwE**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chynghorau Gwynedd, Conwy, Sir Y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych yn ran o gyd-bwyllgor GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol).

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am redeg y pwyllgor hwn, ac mae'r balansau diwedd blwyddyn wedi eu cynnwys yn eu Mantolen. Gellir edrych ar gyfrifon y pwyllgor am 2019/20 drwy'r ddolen ganlynol:-

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Cylllidebau-a-gwariant/Datganiad-or-Cyfrifon/Cyd-bwyllgor-GwE.aspx

**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

Mae'r Cyngor yn rhan o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru. Un o rolau allweddol y pwyllgor hwn yw cydgysylltu'r gwaith o gynllunio a chyflawni'r weledigaeth ar gyfer twf yng Ngogledd Cymru, gan roi pwyslais cychwynnol ar y Fargen Dwf. Mae'r Fargen Dwf yn becyn cyllid gan y Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru gyda chyllideb o £240m i gyflawni prosiectau ledled Cymru i sicrhau twf cynaliadwy ac economaidd.

Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol am y Cydbwyllgor ar wefan Cyngor Sir Gwynedd yn y cyfeiriad/linc canlynol ar y we:-

https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistmeetings.aspx?cid=418&year=0

**Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru**

Mabwysiadwyd trefniadau newydd ym Mhrosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (NWRWTP) yn ystod 2019/20 wrth i'r cyfleuster trin gwastraff Parc Adfer ddod yn weithredol. Mae gwastraff gweddilliol y pump Awdurdod bartneriaeth yn cael ei brosesu yno ers 27 Awst 2019 pan fu i'r cam comisiynu ddechrau, a daeth y gwaith yn gwbl weithredol ar 20 Rhagfyr 2019. Mae costau'r trefniant yn cael eu hysgwyddo bellach ac fe'u hadlewyrchir o dan Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cyngor Sir y Fflint sydd yn parhau i weithredu fel awdurdod arweiniol ar y prosiect hwn a bydd trefniadau'r Cyd-bwyllgor yn aros fel ag y maent yn y dyfodol. Cyfran Cyngor Sir Ynys Môn o gostau'r cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20 oedd £448.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn rhan o amryfal drefniadau ar y cyd gyda Chynghorau cyfagos yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd fel a ganlyn:-

- Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (Arweinydd: Wrecsam. Partïon: Sir Y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd);
- Gwasanaeth Mwynau a Gwastraff (Arweinydd: Sir Y Fflint. Partïon: Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd);
- Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol (Arweinydd: Sir y Fflint. Partïon: Wrecsam, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd);
- Galw Gofal (Arweinydd: Conwy. Partïon: Gwynedd, Sir Y Fflint).
- O dan reoliad 19 (1) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, cytunwyd ar drefniant cyllideb cyfun rhwng awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â darparu gofal preswyl i bobl hŷn. Daeth y trefniant i rym ar 1 Ebrill 2019. Cyngor Sir Ddinbych sydd yn arwain ar y trefniant yn ystod tymor cychwynnol y cytundeb (2019/20 i 2021/22). Mae'r Trafodion ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn wedi'u cynnwys o dan Wasanaethau Oedolion yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**NODYN 47 – TROI TAI'N GARTREFI**

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant i Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu benthyciadau i unigolion i atgyweirio cartrefi gwag er mwyn lleihau y nifer o gartrefi gweigion ar Ynys Môn a chynyddu'r cyfleoedd tai. Yn 2019/20, £0.106m (£0.087m yn 2018/19) oedd wedi ei wario ar atgyweirio cartrefi gwag.

## NODYN 48 – Y DRETH GYNGOR

Mae incwm y Dreth Gyngor yn deillio o godi ar werth eiddo preswyl, ac mae'r gwerth hwnnw wedi ei rannu'n naw band yr amcangyfrifwyd eu gwerth ar 1 Ebrill 2003 i'r pwrpas penodol hwn. Penderfynir ar y taliadau trwy amcangyfrif faint o incwm y bydd raid i'r Cyngor ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ei gael dros y flwyddyn nesaf ac wedyn rhennir y swm gyda'r sylfaen y Dreth Gyngor. Sylfaen y Dreth Gyngor yw cyfanswm nifer yr eiddo ym mhob band prisio gan addasu trwy gyfran a throsi'r nifer i'r hyn sy'n cyfateb i fand D ac addasu ar gyfer disgownt. Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 oedd 31,571.46 (30,773.31 yn 2018/19).

Wedyn, mae'r swm i eiddo band D yn 2019/20, £1,572.32 (£1,440.78 yn 2018/19), yn cael ei luosi gan y gyfran a benodir i'r band penodol er mwyn rhoi'r swm dyledus fesul band. Cyfrifir am symiau unigol sy'n ddyledus gan ganiatáu disgownt a budd-dal i'r swm dyledus fesul band.

Roedd biliau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar y lluosyddion isod i fandiau A i I:-

| Band | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lluosydd | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 9/9 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 |

Caiff Sylfaen y Dreth Gyngor ei weithio allan fel a ganlyn:-

| Band | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Anheddau | 14 | 4,194 | 6,098 | 6,195 | 6,793 | 5,158 | 2,533 | 1,018 | 157 | 46 | |
| Lluosydd | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 9/9 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 | |
| Band "D" Cyfatebol | 7.92 | 2,796.23 | 4,742.97 | 5,506.22 | 6,793.00 | 6,304.71 | 3,658.42 | 1,696.75 | 313.50 | 108.38 | **31,928.10** |

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Band D cyfatebol fel yr uchod | 31,928.10 | 31,118.10 |
| Cyfradd Gasglu | 98.50% | 98.50% |
| Band D cyfatebol diwygiedig | 31,449.18 | 30,651.33 |
| Eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn – Band D cyfatebol | 122.28 | 121.98 |
| **Sylfaen y Dreth Gyngor** | **31,571.46** | **30,773.31** |

Yn 2013/14, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i gymryd lle'r cynllun budd-daliadau'r Dreth Gyngor. Dyfarnwyd £5.778m o ostyngiadau'r dreth gyngor yn 2019/20 (£5.381m yn 2018/19).

| Dadansoddiad o'r enillion net o'r Dreth Gyngor: | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| **Y Dreth Gyngor Gros** | **49,618** | **44,797** |
| Ychwanegu / Llai: darpariaeth ar gyfer diffyg-dalu nid oedd ei angen neu cyfrifwyd amdano o'r blaen | (185) | (191) |
| **Y Dreth Gyngor sy'n Gasgladwy** | **49,433** | **44,606** |
| Llai Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a roddwyd i breswylwyr | (5,778) | (5,381) |
| **Enillion Net o'r Dreth Gyngor** | **43,655** | **39,225** |

## NODYN 49 – TRETHI ANNOMESTIG (TA)

Mae'r TA yn cael eu trefnu ar sail genedlaethol.

Caiff eiddo annomestig ei asesu bob pump mlynedd fel arfer at ddibenion cyfrifo atebolrwydd am TA. Daeth rhestr newydd i rym ar 1 Ebrill 2017. Nid yw ailbrisio yn codi refeniw ychwanegol yn gyffredinol ond yn adlewyrchu newidiadau yng ngwerthoedd y farchnad eiddo ar draws y wlad, gan ailddosbarthu'r un cyfanswm rhwymedigaeth treth ar gyfer Trethi Annomestig. Bydd rhai biliau trethi'n codi a rhai'n gostwng ond bydd y bil cenedlaethol cyfartalog ond yn newid gyda chwyddiant.

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu cyfradd – 54.5c yn 2019/20 (51.4c yn 2018/19), ac mae busnesau lleol yn talu trethi a gyfrifir trwy luosi gwerth ardrethol eu heiddo gyda'r swm uchod. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gasglu trethi oddi ar drethdalwyr ei ardal ond wedyn mae'n trosglwyddo'r elw i'r gronfa TA dan weinyddiaeth Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedyn yn ailddosbarthu'r symiau a delir yn ôl i awdurdodau lleol yn seiliedig ar swm penodol fesul pen o'r boblogaeth.

Roedd incwm TA, ar ôl ystyried rhyddhad a darpariaethau (yn cynnwys Rhyddhad Trethi Busnesau Bach Llywodraeth Cymru), yn £14.239m yn 2019/20 (£14.404m yn 2018/19) yn seiliedig ar werth trethadwy ar ddiwedd y flwyddyn o £39.915m (£39.107m yn 2018/19).

| **Dadansoddiad o'r enillion net o drethi annomestig:** | **2019/20 £'000** | **2018/19 £'000** |
|---|---|---|
| Trethi annomestig casgladwy | 14,239 | 14,404 |
| Cost lwfans casglu | (159) | (154) |
| Llog dalwyd ar ordaliadau | - | - |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg | 15 | (173) |
| Cyfraniad i gost rhyddhad trethi elusennol/gwledig | 63 | 60 |
| Rhyddhad Manwerthu a'r Stryd Fawr trwy grant | 440 | 48 |
| **Taliadau i mewn i'r gronfa genedlaethol** | **14,598** | **14,137** |
| | | |
| **Ailddosbarthu o'r gronfa genedlaethol** | **22,754** | **22,574** |

## NODYN 50 – MORWROL

Mae'r Cyngor, fel Awdurdod Harbwr, yn gyfrifol am y gwasanaethau morwrol canlynol: Biwmares, Bae Ffreiars, Glyn Garth, Porthaethwy, Traeth Coch ac Harbwr Amlwch. Mae'r Rheoliadau Ymgymeriadau Statudol ar gyfer Harbyrau (Cyfrifon ac ati) 1983, rhif 931, yn eithrio awdurdodau harbwr gyda throsiant sy'n llai na £250,000 rhag gorfod paratoi cyfrifon ar wahân dan Ddeddf Harbyrau 1964. Mae'r incwm a'r gwariant ar gyfer y Gwasanaethau Morworol hyn, felly'n cael eu cynnwys yn y cyfrifon hyn dan incwm a gwariant y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd. Yn 2019/20, roedd y trosiant ar wasanaethau arforol yn £48,361 (£50,732 yn 2018/19). Roedd y costau a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn £83,439.77 (sy'n cynnwys £18,809 o log ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf).

## NODYN 51 - POLISÏAU CYFRIFO

Yn yr adran hon, ceir manylion am y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer cwblhau'r cyfrifon.

| Cyfeirnod Polisi | Teitl Polisi |
|---|---|
| 1 | Egwyddorion Cyffredinol |
| 2 | Cronni Incwm a Gwariant |
| 3 | Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen |
| 4 | Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd |
| 5 | Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisïau Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau |
| 6 | Treth ar Werth (TAW) |
| 7 | Mesur Gwerth Teg |
| 8 | Asedau Anghyfredol (Eiddo, Offer a Chyfarpar) |
| 9 | Eiddo Buddsoddiad |
| 10 | Asedau Anniriaethol |
| 11 | Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir |
| 12 | Arian Parod a Chywerthoedd Arian |
| 13 | Offerynnau Ariannol |
| 14 | Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn |
| 15 | Cronfeydd Wrth Gefn |
| 16 | Cydnabyddiaeth Refeniw |
| 17 | Llog Mewnol |
| 18 | Prydlesau |
| 19 | Taliadau i Refeniw ar gyfer Asedau Anghyfredol - Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) |
| 20 | Grantiau a Chyfraniadau gan y Llywodraeth |
| 21 | Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS) |
| 22 | Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol |
| 23 | Arian Tramor |
| 24 | Buddiannau'r Gweithwyr |
| 25 | Eitemau Eithriadol |
| 26 | Cyfrifo am TA (Trethi Annomestig) |
| 27 | Incwm a Gwariant Asiantaeth |

## 1. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor am flwyddyn ariannol 2019/20 a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2020. Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018, a than y Rheoliadau rhaid eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifo priodol. Yr arferion hyn, yn bennaf, yw Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2019/20 a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Adroddiadau Gwasanaeth 2019/20, ac a ategir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh). Mae'r holl brif bolisïau cyfrifo wedi cael eu defnyddio'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Paratowyd y Datganiad Cyfrifon ar sail "busnes hyfyw".

## 2. Cronni Incwm a Gwariant

Rhoddir cyfrif am drafodion yn y flwyddyn pryd y digwyddodd, nid pan fydd yr arian yn cael ei dalu neu ei dderbyn. Mae'r dull hwn o gyfrifo croniadau yn darparu sylfaen fwy cyflawn ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol y Cyngor oherwydd mae'n cynnwys ymrwymiadau'r Cyngor yn y dyfodol i dalu/derbyn arian am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd erbyn 31 Mawrth 2020 ond nas talwyd amdanynt. Caiff incwm a gwariant eu cyfrifo amdanynt yn y flwyddyn y digwyddodd y gweithgaredd y mae'n berthnasol iddynt, nid pan fo arian yn cael ei dalu neu ei dderbyn, h.y. ar sail gronnol. Mae hyn yn golygu fod incwm yn cael ei gofnodi pan gaiff ei ennill ac nid ar adeg ei dderbyn a gwariant pan mae'n digwydd yn hytrach nag ar adeg ei dalu. Fe gynhwysir incwm am werthu nwyddau yn y cyfrifon pan gwblheir y gwerthiant, nid pan dderbynnir yr arian. Caiff incwm o ddarparu gwasanaethau ei gydnabod pan fedr y Cyngor fesur yn ddibynadwy y ganran o'r trafodyn a gwblhawyd ac, o ganlyniad i hyn, bydd y Cyngor yn cael incwm yn gyfnewid am y gwasanaethau a ddarparwyd. Yn ychwanegol at hyn:-

- Mae cyflenwadau'n cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwlch rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'u defnyddio, cânt eu cario fel rhestrau stoc ar y Fantolen;

- Mae treuliau yng nghyswllt gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fo'r gwasanaethau'n cael eu derbyn yn hytrach na phan fo taliadau'n cael eu gwneud;

- Mae'r llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau ac adneuon banc ac sy'n daladwy ar fenthyciadau (gan gynnwys gorddrafftiau banc) yn cael ei gyfrifo fel incwm a gwariant yn seiliedig ar y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach nag fel llif arian parod sy'n cael ei bennu neu ei sefydlu dan y contract; a

- Pan fo refeniw a gwariant wedi'i gydnabod ond dim arian parod wedi'i dalu na'i dderbyn, mae dyledwr neu gredydwr i'r swm perthnasol yn cael ei gofnodi ar y Fantolen. Pan na fydd dyledion o bosib yn cael eu setlo, mae balans y ddyled yn cael ei nodi a chodir ar refeniw am yr incwm na chaiff, o bosib, ei gasglu.

## 3. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Gall pethau ddigwydd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol a all gael effaith sylweddol ar ganlyniadau ariannol y flwyddyn honno. Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y flwyddyn ariannol a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Caiff y Datganiad Cyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi pan fydd y Swyddog Adran 151 wedi llofnodi'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio, ar ôl i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn. Yn unol â'r gyfraith, rhaid cwblhau'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio a'u hawdurdodi erbyn 30 Medi ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiad:-

- y rheini sy'n rhoi tystiolaeth o'r amgylchiadau oedd yn bodoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau; a
- y rheini sy'n arwydd o amgylchiadau a gododd ar ôl y flwyddyn ariannol – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau ond, lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith sylweddol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'r effaith y disgwylir iddynt eu cael o safbwynt ariannol.

Nid yw digwyddiadau ar ôl dyddiad awdurdodi'r datganiad ar gyfer ei gyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

## 4. Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd

Y gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gwaith hwnnw a wna'r Cyngor ar y cyd â mentrau eraill pan fo defnydd yn cael ei wneud o asedau ac o adnoddau'r mentrau yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cydnabod ar ei Fantolen ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau y mae'n eu hwynebu. Caiff y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ei ddebydu gyda'r gwariant hwnnw a'i gredydu gyda'r gyfran o'r incwm y mae'n ei ennill o ganlyniad i weithrediad y fenter.

Asedau a reolir ar y cyd yw eitemau o eiddo, offer neu gyfarpar sydd yn cael eu cydreoli gan y Cyngor a mentrau eraill a phan fo'r asedau'n cael eu defnyddio i sicrhau buddiannau i'r mentrwyr. Nid yw'r fenter ar y cyd yn golygu sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cadw cyfrif am ei gyfran ei hun yn unig o'r asedau a reolir ar y cyd, am y rhwymedigaethau a'r treuliau a gaiff ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill yng nghyswllt ei fuddiannau yn y fenter ar y cyd a'r incwm a ddaw iddo o'r fenter.

## 5. Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisïau Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau

Gall addasiadau ar gyfer cyfnod blaenorol ddeillio o newid mewn polisïau cyfrifo neu o gywiro camgymeriad materol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol ac yn ystod y blynyddoedd i ddod a fydd yn cael eu heffeithio gan y newid ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Ni fydd newidiadau i bolisïau cyfrifo ond yn cael eu gwneud pan mae hynny'n ofynnol dan arferion cyfrifo cywir neu pan fo'r newid yn rhoi gwybodaeth sy'n fwy dibynadwy neu berthnasol o safbwynt effeithiau trafodion, digwyddiadau eraill a'r amodau mewn perthynas â sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol y Cyngor. Pan wneir newid, caiff ei ddefnyddio'n ôl-weithredol (oni ddywedir fel arall) trwy addasu'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi ei ddefnyddio erioed.

Mae camgymeriadau materol a ganfyddir yn ffigyrau'r cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

## 6. Treth ar Werth (TAW)

Mae TAW sy'n daladwy ond yn cael ei gynnwys fel traul i'r graddau nad oes modd ei hawlio oddi ar Gyllid a Thollau EM yn unig. Mae'r TAW derbyniadwy yn cael ei eithrio o incwm.

## 7. Mesur Gwerth Teg

Mae Mesur Gwerth Teg SAARh13 yn golygu bod rhaid i'r rhan fwyaf o'r asedau, rhwymedigaethau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyfredol gael eu prisio ar werth teg, yn amal yn ôl cyfraddau marchnad actif lle mae un ar gael. O safbwynt asedau gweithredol, mae'r safon yn cyflwyno'r cysyniad o werth teg yn seiliedig ar werth cyfredol (yn aml, gwerth mewn defnydd) ar gyfer ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar. Mae hyn yn golygu y dylai'r mesur adlewyrchu amodau'r farchnad ar gyfer y gwasanaeth neu'r swyddogaeth ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad. Mae'r safon yn darparu gwahanol ddulliau prisio teg ar gyfer mathau o asedau gwahanol. Yn achos asedau nad ydynt yn rhai gweithredol, h.y. asedau buddsoddi, asedau a ddelir i'w gwerthu ac asedau nad oes mwyach eu hangen, caiff y rhain eu prisio ar eu huchaf ac yn ôl y defnydd gorau y gellir ei wneud ohonynt. Mewn achos lle gellid gwneud defnydd arall ohonynt a fyddai o werth teg uwch, dyna'r gwerth teg a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer prisio asedau nad ydynt yn rhai gweithredol. Dan y côd hwn, nid oes angen ailbrisio asedau isadeiledd yn ôl eu gwerth cyfredol. Yn lle hynny, caiff asedau isadeiledd eu prisio yn ôl y gost hanesyddol dibrisiedig.

Mae'r Awdurdod yn mesur gwerth teg ased neu rwymedigaeth drwy ddefnyddio'r rhagdybiaethau y byddai'r sawl sy'n weithredol yn y farchnad yn eu defnyddio wrth brisio ased neu rwymedigaeth, gan dybio y byddai'r rheini yn gweithredu er eu budd economaidd gorau.

## 8. Asedau nad ydynt yn Gyfredol (Eiddo, Offer a Chyfarpar)

### 8.1 Cydnabyddiaeth

Mae asedau anghyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar - yn asedau ffisegol sy'n para am flwyddyn neu ragor ac sy'n cael eu defnyddio gan y Cyngor i gefnogi'r ddarpariaeth o nwyddau a gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi pennu isafswm ar gyfer gwariant ar asedau a fydd yn cael ei gategoreiddio fel gwariant cyfalaf. Y swm de-minimus hwn yw £10k. Caiff gwariant ar brynu, creu neu wella asedau anghyfredol ac sy'n costio £10k neu fwy ei gyfalafu ar sail croniadau ar yr amod ei fod yn cwrdd â'r diffiniad uchod o ased anghyfredol. Byddai Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cynnwys asedau megis peiriannau, ni fyddai fel arfer yn cynnwys asedau a ddelir i'w gwerthu oherwydd, fel arfer, byddid yn disgwyl cael gwared ar y rhain o fewn 12 mis.

Gall costau'r asedau hyn gynnwys costau cychwynnol eu prynu a'u hadeiladu a chostau dilynol i wella neu i adnewyddu rhan o'r ased. Caiff unrhyw wariant arall a gyfyd yn sgil gynnal a chadw asedau o ddydd i ddydd, yn cynnwys atgyweiriadau a cynnal a chadw, ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth i'r costau hynny godi.

### 8.2 Mesur

Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:-

- y pris prynu;
- unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol i bwrpas ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr; ac
- amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae'r eitem arno mewn achosion lle mae'n rhaid, er mwyn defnyddio'r ased, ei hail-leoli.

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a geir tra bo asedau'n cael eu hadeiladu.

Tybir bod cost asedau a gaffaelir mewn modd ac eithrio drwy eu prynu yn gost gwerth teg, ac eithrio pan nad oes sylwedd masnachol i'r pryniant (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan gaffaelir ased drwy gyfnewid, cost y pryniant yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan y Cyngor.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:-

- Isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost dibrisiant hanesyddol;
- Tai Cyngor – gwerth teg, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol (EUV-SH);
- Swyddfeydd y Cyngor – gwerth cyfredol, a bennir gan y swm a delir am yr ased yn ei ddefnydd presennol;
- Adeiladau ysgolion – byddent yn cael eu prisio yn ôl eu gwerth cyfredol wrth gael eu defnyddio ond, oherwydd eu natur arbenigol, fe'u mesurir yn ôl cost amnewid dibrisiant;
- Asedau dros ben – y mesur gwerth cyfredol yw gwerth teg, amcangyfrifir ar y defnydd uchaf a gorau o bersbectif rhai sy'n weithgar ar y farchnad;
- Mae'r holl asedau gweithredol eraill wedi cael eu mesur yn unol â'u gwerth presennol yn seiliedig ar eu gwerth defnydd presennol (EUV). Mae hyn yn golygu mai gwerth cyfredol tir ac adeiladau fyddai'r swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol. Os nad oes marchnad amlwg ar gyfer ased oherwydd ei natur arbenigol neu os nad yw'r math hwnnw o ased yn cael ei werthu'n aml, bydd yr Awdurdod yn amcangyfrif ei werth cyfredol gan ddefnyddio'r dull cost amnewidiol dibrisiedig. Er enghraifft, yn achos eiddo sy'n cynnwys tir ac adeiladau, y gost ddibrisiedig o'i amnewid fyddai gwerth marchnad y tir y mae'r adeilad arno ar gyfer ei ddefnydd cyfredol ynghyd â chost gros amnewid yr adeilad llai lwfansau ar gyfer dirywiad ffisegol, darfodedigrwydd ac optimeiddio;
- Caiff asedau a dderbynnir fel rhoddion eu mesur yn y lle cyntaf yn ôl eu gwerth teg. Caiff y gwahaniaeth rhwng gwerth teg ac unrhyw bris a dalwyd ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Trethiant a Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Lle mae amodau ynghlwm wrth unrhyw asedau a gafwyd yn rhodd, caiff yr enillion eu credydu i'r Cyfrif Asedau a gafwyd yn rhodd. Lle mae enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu symud allan o falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn;
- Lle mae rhan neu gydran o ased yn cael ei amnewid, caiff gwerth cario'r hen ran neu gydran ei ddad-gydnabod er mwyn osgoi cyfrif dwbl. Caiff gwerth y gydran newydd ei hychwanegu at y swm sy'n cario. Os nad yw'n ymarferol gwneud penderfyniad ynghylch gwerth cario'r rhan sydd wedi ei amnewid, defnyddir cost y rhan newydd fel arwydd o gost y rhan sydd wedi cael ei amnewid; a
- Os nad yw ased yn cael ei ddal i bwrpas cynhyrchu llif arian, tybir bod gwerth mewn defnydd o leiaf yn gyfartal i gost amnewid gwasanaeth potensial o'r ased.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg. Fel arfer, mae 'oes defnyddiol byr' yn golygu 7 mlynedd neu lai, er gall fod yn hirach am eitemau arbenigol o offer a chyfarpar.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbrisio yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n faterol wahanol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ond ailbrisio o leiaf bob pum mlynedd. Yn ymarferol, mae'r Cyngor yn prisio ei asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar ar sail rhaglen dreigl pum mlynedd. Fodd bynnag, caiff asedau sydd â gwerth cario o dros £500k eu hailbrisio bob blwyddyn. Mae cynnydd mewn gwerthoedd asedau'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Mewn achosion eithriadol, gellir credydu enillion ailbrisiant i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fônt yn codi o wyrdroi colled a godwyd yn flaenorol ar wasanaeth.

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdano trwy:-

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion sydd wedi cronni); a

- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad ei weithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu hymgorffori yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

**8.3 Amhariad**

Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth.

Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a newidiadau mewn amgylchiadau sy'n rhoi arwydd y gallai amhariad fod wedi digwydd yn cynnwys:-

- dirywiad sylweddol (h.y. mwy na'r disgwyl o ganlyniad i dreigl amser neu ddefnydd cyffredin) yn swm cario'r ased yn ystod y cyfnod, sy'n benodol i'r ased;
- tystiolaeth o ddarfodiad neu niwed ffisegol i ased;
- ymrwymiad gan y Cyngor i ymgymryd ag ad-drefnu sylweddol; a
- newid andwyol sylweddol yn yr amgylchedd statudol neu reoleiddiol arall y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo.

Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn faterol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased ac, mewn achos lle mae'r swm hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad ar asedau a gawsant eu hailbrisio, cyfrifir amdanynt trwy:-

- pan mae balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm yr amhariad yn erbyn yr ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus);

- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm yr amhariad yn erbyn yr ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Pan fo colled amhariad yn cael ei wrthdroi wedyn, credydir y gwyrdroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydnabod. Nodir unrhyw beth dros ben yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn.

Pan mae'r amhariad yn ymwneud ag ased na chafodd ei hailbrisio (h.y. ased â gwerth cario yn seiliedig ar gost hanesyddol), caiff yr amhariad ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 8.4 Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar er mwyn dyrannu eu symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodol (h.y. tir rhydd-ddaliadol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:-

- anheddau ac adeiladau eraill – dyraniad llinell syth dros gyfnodau hyd at 75 mlynedd, fel yr amcangyfrifir gan y Prisiwr;
- cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar – dyraniad llinell syth dros 5 i 15 mlynedd;
- isadeiledd – dyraniad llinell syth dros gyfnodau hyd at 30 mlynedd.

Mewn achos lle mae gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân.

Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi yn seiliedig ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Ni chodir dibrisiant yn y flwyddyn y prynir yr ased.

## 8.5 Asedau y ceir gwared arnynt ac Asedau Anghyfredol a delir i'w Gwerthu

Mae'r asedau hyn yn cael eu marchnata'n rhagweithiol ar gyfer eu gwerthu ac mewn achosion ble y mae'r Cyngor yn disgwyl iddynt gael eu gwerthu yn y 12 mis nesaf. Fe nodir yr asedau yma ar wahân oherwydd bydd y gwerth ar y Fantolen yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Mae'r ased (neu grŵp gwaredu) yn cael ei ailbrisio yn union cyn ei ail-gategoreiddio ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Caiff gwerth teg asedau anghyfredol a delir i'w gwerthu, eu mesur yn unol â'u lefel uchaf a gorau o ddefnydd. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar Asedau a delir i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau (neu grŵp gwaredu) bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau a delir i'w Gwerthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau anghyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel rhai y delir i'w gwerthu, addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai a Delir i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

'Grŵp gwaredu' yw grŵp o asedau, o bosib gyda rhai rhwymedigaethau cysylltiedig, y bwriada'r Cyngor gael gwared â nhw mewn un trafodyn unigol. Defnyddir y sail sy'n ofynnol ar gyfer mesur Asedau nad ydynt yn Gyfredol a ddosberthir fel rhai a delir i'w gwerthu i'r grŵp cyfan, ac mae unrhyw golled ddilynol yn lleihau swm cario'r Asedau nad ydynt yn Gyfredol yn y grŵp gwaredu yn y drefn ddosbarthu sy'n ofynnol gan SGR36.

Nid yw asedau fydd yn cael eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau a delir i'w Gwerthu.

## 8.6 Cael Gwared ar Asedau Anghyfredol

Pan ceir gwared ag ased neu pan gaiff ei ddigomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau a delir i'w Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r budd neu'r golled ar adeg gwaredu. Caiff y gost hon ei throsglwyddo wedyn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r budd neu golled ar waredu (h.y. wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased adeg cael gwared arno). Mae unrhyw enillion ailbrisiant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10k a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf ac ni fedrir ond eu defnyddio wedyn ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol y Cyngor i fenthyca (y gofyniad Cyllido Cyfalaf). Mae derbyniadau yn cael eu neilltuo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth dileu gwarediadau'n cael ei godi yn erbyn y Dreth Gyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer asedau anghyfredol dan drefniadau ar wahân ar gyfer Cyllido Cyfalaf. Mae symiau'n cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

## 8.7 Asedau nad oes eu hangen mwyach

Gwerth teg asedau nad oes eu hangen mwyach yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad trefnus rhwng rhai sy'n weithgar yn y farchnad ar adeg mesur. Bydd hyn yn seiliedig ar y lefel uchaf a gorau o ddefnydd. Bydd hyn yn seiliedig ar y defnydd uchaf a gorau a amcangyfrifir gan ddefnyddio mewnbynnau Lefel 1 yn seiliedig ar ddull marchnad / dull prisio tebyg.

## 8.8 Asedau Treftadaeth

Asedau Treftadaeth yw'r rheini y bwriedir eu cadw mewn ymddiriedolaeth i genedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwydiannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Maent yn cael eu dal gan y Cyngor yn unol â'i amcanion cyffredinol i warchod treftadaeth Ynys Môn.

Mae'r Cyngor yn berchen ar nifer o asedau treftadaeth diriaethol megis adeiladau hanesyddol a gwaith celf.
Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth weithredol (h.y. rheini sydd, ynghyd â chael eu dal am eu nodweddion treftadaeth, hefyd yn cael eu defnyddio gan y Cyngor am weithgareddau arall neu i ddarparu gwasanaethau arall) a chyfrif amdanynt fel asedau gweithredol, yn yr un modd ag asedau arall o'r math cyffredinol yna (e.e. adeiladau gweithredol).

Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth ar y sail fwyaf priodol a pherthnasol i'r ased unigol neu ddosbarth yr asedau. Lle nad yw'n ymarferol i gael prisiad ar gost sy'n gymesur â'r buddiannau i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol, mesurir yr Asedau Treftadaeth ar gost hanesyddol (llai unrhyw dibrisiant cronedig, amorteiddio a cholledion amhariad fel sy'n briodol). Lle mesurir Asedau Treftadaeth ar brisiad, fe fesurir y swm cario yn ddigon aml i sicrhau fod y prisiadau yn parhau i fod yn gyfredol, ac ar gyfnodau dim mwy na phum mlynedd. Mewn achos lle na fedrir penderfynu ar gost neu werth Ased Treftadaeth heb fynd i gost anghymesur, ni fydd yr asedau'n cael eu cydnabod yn y Fantolen. Yn lle hynny, bydd yr ased yn cael ei datgelu yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Pan fo Ased Treftadaeth ag oes benodol, darperir dibrisiant ar yr un sail â chategorïau eraill o asedau (am fanylion, gweler y Polisi Cyfrifo am Ddibrisiant, 8.4 uchod).

Ni ddarperir dibrisiant ar Asedau Treftadaeth sydd ag oes amhenodol a gwerth gweddilliol uchel. Dylid adolygu swm cario Ased Treftadaeth pan fo tystiolaeth o amhariad, er enghraifft, pan mae wedi dioddef dirywiad ffisegol neu wedi cael ei dorri neu pan fo amheuon newydd yn codi ynglŷn â'i ddilysrwydd. Adnabyddir unrhyw amhariad ar yr un sail â dosbarthiadau arall o ased (am fanylion gweler Polisi Cyfrifo 8.3, Amhariad). Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n weithredol i gaffael mwy o Asedau Treftadaeth, ond mae'n ymateb i gyfleoedd i wella ei bortffolio fel maent yn codi. Cedwir y casgliadau celf yn Oriel Ynys Môn, gyda gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud pan fo'r angen. Rhannau o'r casgliad sy'n cael ei arddangos ar unrhyw adeg, tra gellir trefnu i gael mynediad i'r gweddill. Mae'r Eiddo Treftadaeth yn cael eu rheoli a'u cynnal a'u cadw, tra'n ystyried eu nodweddion treftadaeth, fel rhan o bortffolio cyffredinol y Cyngor o dir ac adeiladau.

### 8.9 Trin Asedau Ysgol

Cymerir yn ganiataol mai awdurdodau lleol sy'n rheoli'r ysgolion y maent yn eu cynnal. O'r herwydd, caiff asedau, rhwymedigaethau, cronfeydd wrth gefn a llif arian yr ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod eu cynnwys yn natganiadau ariannol y Cyngor.

Ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff sefydledig sy'n berchen ar, ac yn rheoli, tir ac adeiladau ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol ac ysgolion sefydledig ac, o'r herwydd, ni chânt eu cynnwys ar Fantolen y Cyngor.

Caiff gwariant cyfalaf ar ysgolion cymunedol ei ychwanegu at falansau'r ysgolion hynny. Caiff balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2020 eu cynnwys ym Mantolen y Cyngor oherwydd eiddo'r Cyngor fydd unrhyw gyllidebau datganoledig i'r ysgolion sydd heb eu gwario.

I bwrpas cyfrifo, mae asedau ysgolion dan reolaeth wirfoddol ac ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol fel a ganlyn:-

- Ysgolion Dan Reolaeth Wirfoddol: mae'r tir wedi ei gynnwys ar y Fantolen ond nid yr adeiladau;
- Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol: nid yw'r tir na'r adeiladau wedi eu cynnwys ar y Fantolen; ac
- Yn ychwanegol, nid yw'r tir na'r adeiladau yn Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi eu

cynnwys ar y Fantolen oherwydd mae'r asedau hyn wedi eu breinio gydag ymddiriedolwyr yr ysgol.

**9. Eiddo Buddsoddiad**

Eiddo buddsoddiad yw'r tir a'r adeiladau hynny a ddefnyddir i bwrpas cynhyrchu rhent a/neu ar gyfer cynnydd cyfalaf yn unig. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os ydyw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i hwyluso darparu gwasanaethau neu i gynhyrchu nwyddau neu pan fo'n cael ei ddal i'w werthu.

Mae eiddo buddsoddiad yn cael eu cydnabod pan mae'n debygol y bydd buddion economaidd cynlluniedig ar gyfer y dyfodol yn llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur mewn modd dibynadwy gost neu werth teg yr eiddo buddsoddiad hwnnw. Caiff eiddo buddsoddiad eu mesur yn ôl cost yn y lle cyntaf ac, wedyn, yn ôl gwerth teg, gan ddibynnu ar faint y gellid ffeirio'r ased rhwng partïon gwybodus hyd braich. Yn unol a'r Côd, rhaid prisio Eiddo Buddsoddiad yn ôl y defnydd mwyaf a gorau y gellir ei wneud ohonynt, waeth beth fo bwriadau'r Cyngor ar eu cyfer. Mae hyn yn golygu bod defnydd amgen wedi cael ei ystyried ar gyfer pob eiddo buddsoddiad ac, os byddai modd defnyddio'r eiddo i bwrpas arall a hynny'n codi ei werth teg, yna dylid defnyddio'r gwerth teg hwnnw. Nid yw'r eiddo'n cael ei ddibrisio, yn hytrach caiff eu hailbrisio'n flynyddol yn unol â SAARh13 yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddyddiad y Fantolen. Mae enillion a cholledion adeg ailbrisio'n cael eu symud i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yr un driniaeth yn union a roddir i enillion a cholledion wrth gael gwared ohonynt.

Mae rhent a dderbynnir am eiddo buddsoddiad yn cael ei gredydu i'r llinell Incwm Cyllido a Buddsoddiad ac yn arwain at gynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, dan drefniadau statudol, ni chaniateir i enillion a cholledion a geir yn sgil ailbrisio a gwerthu gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly, mae'r enillion a'r colledion yn cael eu symud allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i mewn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10k) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

**10. Asedau Anniriaethol**

Mae asedau anniriaethol yn asedau nad ydynt yn gyfredol, nac yn ariannol, y gellir eu hadnabod ar wahân ond nid oes ganddynt sylwedd ffisegol (er enghraifft, meddalwedd cyfrifiadurol). Caiff y rhain eu rheoli gan y Cyngor oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol. Nid yw gwariant ar ddatblygu gwefannau'n cael ei gyfalafu pan fo'r wefan yn cael ei defnyddio'n llwyr neu'n bennaf i hyrwyddo neu i hysbysebu nwyddau'r Cyngor neu ei wasanaethau. Caiff gwariant ar asedau anniriaethol eu cyfalafu pan dybir y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth posib yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Cyngor. Mae oes economaidd defnyddiol asedau anniriaethol yn cael ei benderfynu gan y gweithiwr proffesiynol perthnasol sy'n arwain ar brynu/datblygu'r ased anniriaethol. Mae oes economaidd ddefnyddiol ased anniriaethol yn fyrrach nag asedau dirweddol, er enghraifft, rhwng pump a saith mlynedd. Mae asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros fywyd economaidd defnyddiol yr ased.

Yn y lle cyntaf, mesurir asedau anniriaethol yn ôl y gost. Nid yw'r symiau'n cael eu hailbrisio hyd oni fydd modd pennu gwerth yr asedau y mae'r Cyngor yn eu dal trwy droi at y farchnad weithredol. Yn ymarferol, nid oes yr un o'r asedau anniriaethol y mae'r Cyngor yn eu dal yn bodloni'r maen prawf hwn ac, felly, cânt eu cario yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig. Mae swm dibrisiannol ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros ei oes ddefnyddiol i linell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Rhoddir prawf amhariad ar asedau anniriaethol yn flynyddol a phryd bynnag y ceir arwydd bod amhariad ar yr ased. Mae unrhyw golledion a ganfyddir yn cael eu nodi yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion wrth gael gwared ag ased n anniriaethol eu wrth roi'r gorau iddo yn cael ei nodi yn erbyn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo gwariant ar asedau anniriaethol yn gymwys i'w ystyried fel gwariant cyfalaf i ddibenion statudol, ni chaniateir i amorteiddio, colledion amhariad nag enillion a cholledion cael gwared â'r asedau gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly, mae'r enillion a'r colledion yn cael eu symud allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i mewn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10k) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

## 11. Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir

Cynhwysir rhestrau stoc yn y Fantolen yn ôl y gost neu'n ôl y gwerth gwerthu net - pa un bynnag o'r ddau sydd isaf. Mae cost rhestrau stoc yn cael ei aseinio trwy ddefnyddio fformiwla gostio 'Cyntaf i Mewn, Cyntaf Allan' (FIFO).

Rhoddir cyfrif am gontractau tymor hir trwy godi ar y Gwarged neu ar y Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn seiliedig ar werth y gwaith neu'r gwasanaeth a dderbynnir dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae gwaith sydd yn y broses o gael ei wneud yn cael ei gynnwys yn y Fantolen yn ôl y gost.

## 12. Arian Parod a Chywerthoedd Arian

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cywerthoedd arian yn fuddsoddiadau hynod o hylifol sy'n aeddfedu ymhen tri mis neu lai o'r dyddiad prynu ac yn rhai y gellir eu trosi'n hawdd i symiau hysbys o arian parod heb beri unrhyw risg o bwys yn sgil newid mewn gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a chywerthoedd arian net o'r gorddrafftiau banc sy'n daladwy ar alw ac maent yn rhan hanfodol o reolaeth arian parod y Cyngor.

## 13. Offerynnau Ariannol

### 13.1 Ymrwymiadau Ariannol

Mae ymrwymiadau ariannol yn cael eu hadnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i'r darpariaethau cytundebol mewn offeryn ariannol, cânt eu mesur i gychwyn ar werth teg, a'u cario ar eu cost wedi'i amorteiddio. Mae costau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario y rhwymedigaeth, wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n disgowntio'n union y taliadau arian parod a amcangyfrifir yn y dyfodol dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod arno'n wreiddiol.

Ar gyfer y mwyafrif o'r benthyciadau sydd gan yr Awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm yn weddill sy'n daladwy (a llog wedi cronni); a'r llog a godir i'r CIES yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyca.

Pan fo premiymau a disgowntiau wedi eu codi i'r CIES, mae'r rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei thaenu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan yr Awdurdod bolisi o daenu'r enillion neu'r colledion dros y tymor oedd yn weddill ar y benthyciad yr oedd y premiwm yn daladwy yn ei erbyn, neu yr oedd y disgownt i'w dderbyn pan gafodd ei ad-dalu. Mae cysoniad y symiau a godir i'r CIES i'r taliad net sydd ei angen yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli trwy drosglwyddo i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn.

## 13.2 Asedau Ariannol

Caiff asedau ariannol eu dosbarthu yn seiliedig ar ddull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae tri prif ddosbarth o asedau ariannol sef:-

- cost wedi'i amorteiddio;
- gwerth teg trwy elw neu golled (FVPL); a
- gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr arall (FVOCI).

Model busnes yr Awdurdod yw dal buddsoddiadau er mwyn casglu llifoedd arian cytundebol. Felly, mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu fel cost wedi'i amorteiddio, heblaw am y rheini nad yw eu taliadau cytundebol ar ffurf talu'r prifswm a llog yn unig (h.y. lle nad yw'r llifoedd arian ar ffurf offeryn dyled sylfaenol).

### Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Gost wedi'i Amorteiddio

Mae asedau ariannol wedi eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio yn cael eu hadnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i'r darpariaethau cytundebol mewn offeryn ariannol, a chânt eu mesur i gychwyn ar werth teg. Wedyn cânt eu mesur ar eu cost wedi'i amorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer llog sy'n dderbyniadwy yn seiliedig ar swm cario yr ased wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y mwyafrif o'r asedau ariannol y mae'r Awdurdod yn eu dal, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm yn weddill y gellir ei dderbyn (ynghyd â llog wedi cronni) a'r llog a gaiff ei gredydu i'r CIES yw'r swm sydd i'w dderbyn am y flwyddyn yn y cytundeb benthyca.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi gwneud nifer o fenthyciadau i weithwyr ar lai na chyfraddau'r farchnad (benthyciadau meddal). Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfradd CThEM ar gyfer benthyciadau buddiol i weithwyr fel procsi ar gyfer gwerth y farchnad/cyfradd llog effeithiol. Os yw'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd ostyngedig a'r gyfradd llog effeithiol yn fwy na £100k, caiff colled ei gofnodi ar y CIES am werth presennol y llog a fydd yn cael ei ildio dros oes yr offeryn, gan arwain at gost wedi'i amorteiddio is na'r prifswm sy'n weddill.

Caiff llog ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y CIES ar gyfradd llog effeithiol fymryn yn uwch na'r gyfradd a dderbynnir gan y gweithwyr, ac effaith y gwahaniaeth yw cynyddu cost wedi'i amorteiddio y benthyciad yn y Fantolen. Mae'n ofynnol yn y darpariaethau statudol mai effaith benthyciadau meddal ar Falans y Gronfa Gyffredinol yw'r llog sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn ariannol – mae cysoniad y symiau a gaiff eu debydu neu eu credydu i'r CIES i'r enillion net sydd ei angen yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli trwy drosglwyddo i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn.

Mae unrhyw enillion a cholledion sy'n codi pan fo ased yn cael ei ddad-gydnabod, yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y CIES.

## 13.3 Model Colled Credyd Disgwyliedig

Mae'r Awdurdod yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar bob un o'i asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio [neu FVOCI pan fo'n berthnasol], naill ai ar sail 12 mis neu sail oes. Mae'r model colled credyd disgwyliedig ar sail oes (model symledig) hefyd yn gymwys i symiau les sy'n dderbyniadwy ac asedau contract. Dim ond colledion oes sy'n cael eu cydnabod ar gyfer symiau masnach derbyniadwy (dyledwyr) a ddelir gan yr Awdurdod.

Bydd y Cyngor hefyd yn ymestyn y drefn symledig i symiau derbyniadwy ar les a masnach ac asedau contract os oes cydran gyllido sylweddol.

Mae colledion amhariad yn cael eu cyfrifo i adlewyrchu'r disgwyliad efallai na fydd y llifoedd arian yn y dyfodol yn digwydd oherwydd gallai'r benthyciwr fethu talu ei rwymedigaethau. Mae risg credyd yn chwarae rhan hollbwysig wrth asesu colledion. Os yw risg wedi cynyddu'n sylweddol ers i offeryn gael ei gydnabod i gychwyn, caiff colledion eu hasesu ar sail oes. Os yw'r risg heb gynyddu'n sylweddol, neu os yw dal yn isel, caiff colledion eu hasesu ar y sail colledion disgwyliedig dros 12 mis.

Ar gyfer 2019/20, yng nghyswllt Mân Ddyledwyr roedd y canrannau dyledion drwg canlynol yn berthnasol:-

6 mis i 1 flwyddyn: 50%;
1 flwyddyn i 2 flynedd: 75%;
Dros 2 flynedd: 100%.

Byddai canrannau uwch yn berthnasol ar gyfer rhai dyledwyr penodol, gan ddwyn i gof amgylchiadau personol e.e. cwmni wedi diddymu, methdaliad personol.

Ar gyfer dyledwyr oedd wedi eu gohirio h.y. ffioedd preswyl Gwasanaethau Cymdeithasol oedd wedi eu gohirio tra'n aros i eiddo werthu (lle roedd pridiant ar yr eiddo), roedd darpariaeth o 10% yn berthnasol waeth beth yw'r oedran – er y byddai darpariaeth uwch yn berthnasol mewn rhai amgylchiadau e.e. cyflwr presennol yr eiddo neu werth yr eiddo neu anghydfod.

Mae SAARh yn ei gwneud yn ofynnol i adnabod dyledion yn gynt (nid yw'r arfer cyfredol yn darparu ar gyfer dyledion yn gynt na chwech mis oed, er y byddai darpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer amgylchiadau dyledwyr unigol sy'n hysbys e.e. methdalwr, oedran llai na hyn) ac mae'n rhaid eithrio dyledion sector cyhoeddus (ar hyn o bryd mae dyledion ar gyfer y bwrdd iechyd lleol, preseptwyr mawr a lleol (cynghorau)/cyrff sy'n codi trethi ac ati, a gweinyddiaethau canolog/datganoledig ac ati wedi eu cynnwys). Gan roi ystyriaeth i SAARh9, mae angen lwfansau amharu colledion diwygiedig ac fe wneir yr ystyriaethau canlynol i gyrraedd y lwfansau diwygiedig.

Nid yw SAARh9 yn diffinio diffyg ar ddyled, ond mae'n ofynnol i sefydliad ddarparu diffiniad o'r fath sy'n gyson â'i ddibenion rheoli credyd. Defnyddir y diffiniad canlynol at ddibenion y gofyniad lwfans amharu colledion ar gyfer Mân Ddyledion, sy'n ddigon syml ac sy'n gyson â rheolaeth credyd yr Awdurdod –

Mae dyledwyr wedi diffygio ar ddyled (at ddibenion lwfans amharu colledion yng nghyswllt Mân Ddyledwyr) os nad oes taliad wedi'i dderbyn yn erbyn dyled yn y system Dyledwyr Civica (erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn) pan fo oedran y ddyled yn fwy nag 14 diwrnod calendr o'r dyddiad pwynt treth.

Cynigir y lwfansau canlynol ar gyfer cyfnodau o hyd at chwech mis:-

- Diwrnod 1 i 14 niwrnod ar ôl codi'r anfoneb – 2%;
- 1 - 30 diwrnod ar ôl y diwrnod dyledus h.y. 15 diwrnod i 45 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth - 2.5%;
- 31 - 60 diwrnod ar ôl y diwrnod dyledus h.y. 46 diwrnod i 75 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth - 4.5%;
- 61 - 90 diwrnod ar ôl y diwrnod dyledus h.y. 76 diwrnod i 105 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth – 7.5%;
- 91 – 168 diwrnod ar ôl y diwrnod dyledus h.y. 106 diwrnod i 182 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth – 15%.

Byddai'r Cyngor wedyn yn parhau i ddefnyddio'r canrannau cyfredol ar gyfer dyledion hŷn na chwech mis o'r dyddiad pwynt treth h.y.

- 183 – 365 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth – 50%;
- 366 – 730 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth – 75%;
- 731 diwrnod neu fwy o'r dyddiad pwynt treth – 100%.

**Taliadau wedi eu gohirio**

O 183 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth mae'r rhain i gael eu cymhwyso ar 10% YN UNIG ac nid ar y cyfraddau uwch a ddangosir. Dim darpariaeth ar gyfer dyledion gohiriedig sy'n llai na chwech mis oed. Mae gan y Cyngor bridiannau cyfreithiol wedi'u sicrhau yn erbyn cartrefi unigolion, felly, mae'r swm ar gyfer amhariad yn is.

Yr enillion neu'r golled amhariad flynyddol fydd y newid mewn colledion credyd disgwyliedig cydol oes dros y flwyddyn.

### 13.4 Asedau Ariannol yn cael eu Mesur ar Werth Teg trwy Elw neu Golled (FVPL)

Mae asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar werth FVPL yn cael eu hadnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i'r darpariaethau cytundebol mewn offeryn ariannol, a chânt eu mesur i gychwyn a'u cario ar werth teg. Mae enillion neu golledion gwerth teg yn cael eu hadnabod wrth iddynt gyrraedd yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau.

Mae mesuriadau gwerth teg yr asedau ariannol yn seiliedig ar y technegau canlynol:-

Offerynnau gyda phrisiau'r farchnad wedi'u dyfynnu – pris y farchnad offerynnau eraill gyda thaliadau sefydlog a chanfyddadwy – dadansoddiad llif arian gostyngedig.

Mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur wedi eu categoreiddio yn unol â'r tair lefel ganlynol:-

**Mewnbynnau Lefel 1** – prisiau wedi'i dyfynnu (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd actif ar gyfer asedau yr un fath y gall yr Awdurdod gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur.

**Mewnbynnau Lefel 2** – mewnbynnau ar wahân i'r prisiau wedi'u dyfynnu sydd wedi'u cynnwys yn Lefel 1 sy'n ganfyddadwy ar gyfer yr ased, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

**Mewnbynnau Lefel 3** – mewnbynnau anghanfyddadwy ar gyfer yr ased.

### 13.5 Y Datganiadau Ariannol

Mae unrhyw enillion a cholledion sy'n codi pan fo ased yn cael ei ddad-gydnabod yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### 13.6 Asedau Ariannol ar Gael i'w Gwerthu

Nid oes gan y Cyngor asedau ariannol ar gael i'w gwerthu ac yn annhebygol o gael rhai yn y tymor byr gan ni chynhwysir yr asedau ariannol yma yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20.

## 14. Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn

### 14.1 Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo rhywbeth wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddehongliadol i'r Cyngor sy'n debygol o fod angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu wasanaeth posibl, a phan fo modd darparu amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod y Cyngor yn rhan o achos llys fyddai'n debygol o arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan fo taliadau'n cael eu cyflwyno, yn y diwedd, rhoddir nhw yn erbyn y ddarpariaeth a gludir yn y Fantolen. Mae setliadau amcangyfrifiedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol – pryd y bydd hi'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu gwneir setliad llai na'r disgwyl), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i rhoddi mewn credyd yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl hawlio cyfran neu'r cyfan o'r taliad i setlo'r ddarpariaeth oddi ar barti arall (e.e. oddi ar hawliad yswiriant), caiff ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol ond os oes sicrwydd go bendant y bydd ad-daliad ar gael os ydyw'r Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth.

Mae'r Awdurdod wedi gwneud darpariaeth ar gyfer costau setlo hawliadau ar gyfer ôl-dâl yn codi o daliadau gwahaniaethol a wnaed cyn i'r Awdurdod weithredu ei Strategaeth Tâl Cyfartal. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn caniatáu i setliadau gael eu cyllido o'r Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn y gwnaed y taliadau mewn gwirionedd yn hytrach na'r flwyddyn pan gafodd y ddarpariaeth ei sefydlu. Mae'r ddarpariaeth, felly'n cael ei chydbwyso gan Gyfrif Ôl-dâl Tâl Anghyfartal sydd, yn effeithiol, yn canslo'r darpariaeth i sero. Petai unrhyw hawliadau tâl cyfartal yn cael eu cyllido o'r gronfa gyffredinol yn y flwyddyn, caiff y taliadau yma eu tynnu o'r Ddarpariaeth Tâl Cyfartal a'r gronfa wrth gefn Ôl-dâl Tâl Anghyfartal na ellir ei ddefnyddio. Yn debyg, petai cyfarwyddyd cyfalafu yn cael ei gymhywso yn ystod y flwyddyn, yn unol â hynny bydd rhaid lleihau y Ddarpariaeth Tâl Cyfartal a'r gronfa wrth gefn Ôl-dâl Tâl Anghyfartal na ellir ei ddefnyddio. Byddent yn cael eu lleihau ar gyfer y swm a gyllidir gan y cyfarwyddyd cyfalafu. Dylai'r balans ar y ddarpariaeth a'r gronfa wrth gefn berthnasol adlewyrchu yr hawliadau sydd heb eu setlo ac unrhyw hawliadau newydd y dyfodol yn unig.

### 14.2 Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth bosib ar y Cyngor, ond na fydd cadarnhad hyd oni fydd digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld wedi digwydd yn y dyfodol, neu heb ddigwydd, a rheini heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth y Cyngor. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydnabyddir rhwymedigaethau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon (Nodyn 42).

### 14.3 Asedau wrth gefn

Mae ased wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r Cyngor, ond na fydd cadarnhad hyd oni fydd digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld wedi digwydd yn y dyfodol, neu heb ddigwydd, a rheini heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth y Cyngor.

Ni chydnabyddir asedau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddiannau economaidd neu wasanaeth posib (Nodyn 43).

## 15. Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Cyngor yn cadw amryw o gronfeydd wrth gefn sy'n adlewyrchu i ba raddau y mae ei asedau'n fwy na'i ymrwymiadau ac unrhyw gyfyngiadau, statudol neu wirfoddol, a roddir ar y defnydd o'r balansau hyn. Mae gan y Cyngor y disgresiwn i osod o'r neilltu symiau penodol fel Cronfeydd wrth Gefn y mae'n dymuno eu clustnodi i ddibenion polisi i'r dyfodol, i ymdrin â materion wrth gefn neu i reoli llif arian. Ceir crynodeb o'r rhan yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Caiff Cronfeydd wrth Gefn eu creu trwy drosglwyddo symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w sgorio yn erbyn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna trosglwyddir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn fel nad oes taliad net yn erbyn y Dreth Gyngor ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai Cronfeydd wrth Gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeoliad a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio i'r Cyngor - eglurir y Cronfeydd wrth Gefn hyn yn y polisïau a'r nodiadau perthnasol.

## 16. Cydnabyddiaeth Refeniw

Caiff refeniw ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y cafodd ei ennill yn hytrach na phan gafodd yr arian ei dderbyn. Mae hyn yn ymwneud ag incwm a geir o werthu nwyddau (a gynhyrchir gan y Cyngor i ddibenion eu gwerthu neu eu prynu i bwrpas ailwerthu), darparu gwasanaethau (ac eithrio gwasanaethau a wnelont yn uniongyrchol â chontractau adeiladu), llog, breindaliadau a difidendau, trafodion nad oes modd eu cyfnewid (h.y. y Dreth Gyngor) a lle cynt yr oedd rhwymedigaeth wedi'i hadnabod (h.y. credydwr) ar ôl bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth refeniw. Caiff refeniw ei gydnabod hefyd ar enillion a all godi neu beidio o weithgareddau cyffredin megis enillion ar ail-brisio asedau anghyfredol, enillion ar werthu asedau anghyfredol ac enillion ar asedau ariannol ar-gael-i'w-gwerthu. Lle mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant, dim ond yr incwm a delir i'r Cyngor ar gyfer ei rôl fel asiant fydd yn cael ei gydnabod yn y cyfrifon. Ni fydd y swm sy'n gysylltiedig â'r trydydd parti (sef y prif swm) yn cael ei gynnwys yn y cyfrifon.

Mae refeniw'n cael ei gydnabod a'i fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth a dderbynnir. Dyma'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad busnes trefnus rhwng y rhai sy'n weithgar yn y farchnad ar y dyddiad mesur. Bydd ad-daliadau a setliadau ariannol, lle'n berthnasol, yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth fesur gwerth teg y gydnabyddiaeth a gafwyd.

Os yw'r taliadau'n cael eu cyflwyno yn ôl telerau gohiriedig, mae'r gydnabyddiaeth a dderbynnir yn cael ei lleihau i'w gwerth presennol er mwyn sicrhau gwerth teg. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm hwn a chyfanswm y taliadau a dderbynnir yn cael ei gydnabod fel refeniw llog yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Mae derbyniadau tymor byr heb raddfa llog dynodedig yn cael eu mesur yn ôl y swm ar yr anfoneb wreiddiol pan fo effaith disgownt yn amherthnasol. Nid oes gwahaniaeth rhwng dyddiad cyflenwi a dyddiad talu yn achos trafodion digontract a rhai lle nad oes cyfnewid yn digwydd h.y. refeniw yng nghyswllt y Dreth Gyngor a threthi cyffredinol ac, felly, mesurir y trafodion hyn yn ôl y symiau llawn a dderbynnir yn eu cylch.

## 17. Llog Mewnol

Buddsoddir balansau arian gan y Cyngor yn unol â'i Bolisïau Rheoli Trysorlys a Buddsoddi ac fe gronnir a chredydir y llog i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Credydir llog i'r cronfeydd ymddiriedol a chronfeydd trydydd parti eraill ar sail y raddfa llog cyfartaledig a enillwyd gan y Cyngor. Mae rhai cronfeydd wrth gefn yn derbyn llog trwy drosglwyddiad sydd wedi ei glandro ar yr un sail.

## 18. Prydlesau

Lle mae hynny'n berthnasol ac yn hanfodol, caiff prydlesau eu categoreiddio fel prydlesau ariannol lle mae telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a'r enillion sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth yr eiddo, offer neu gyfarpar o'r prydleswr i'r prydlesai. Nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw brydlesau o'r math yma ac, o'r herwydd, mae'r prydlesau y mae'r Cyngor yn eu dal yn cael eu categoreiddio fel prydlesau gweithredu. Lle mae prydles yn ymwneud â thir ac adeiladau, caiff y tir a'r adeiladau eu categoreiddio ar wahân. Caiff trefniadau nad ydynt â statws gyfreithiol prydles ond sy'n trosglwyddo hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am daliad eu cyfrif amdanynt dan y polisi hwn lle mae cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol. Mae asedau wedi cael eu hadolygu gan gymryd i ystyriaeth lefel bwysigrwydd y rhenti blynyddol a gwerthoedd cyfalaf ac mae eu cynnwys yn y cyfrifon yn seiliedig ar y lefelau hyn.

### 18.1 Y Cyngor fel Prydlesai

#### 18.1.1 Prydlesau Ariannol

Os yn berthnasol ac o werth sylweddol, byddai eitemau o Eiddo, Offer a Chyfarpar a ddelir dan brydlesau ariannol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ar gychwyn y brydles yn ôl eu gwerth teg wedi ei fesur ar adeg sefydlu'r brydles (neu yn ôl gwerth cyfredol y taliadau isaf ar y brydles os ydynt yn is na'r gwerth teg). Wrth gydnabod yr ased, gwneir ymrwymiad cyfatebol i dalu i'r prydleswr. Caiff y costau uniongyrchol cychwynnol i'r Cyngor eu hychwanegu at swm cario'r ased. Caiff premiymau a delir ar adeg sefydlu prydles eu defnyddio i ddibrisio ymrwymiad y brydles. Caiff rhenti wrth gefn eu codi fel treuliau yn ystod y cyfnodau y bu iddynt godi.

Caiff taliadau prydles eu rhannu rhwng:-

- taliadau ar gyfer prynu'r budd yn yr eiddo, offer neu gyfarpar – a ddefnyddir i ddibrisio ymrwymiad y brydles; a
- tâl ariannol - sy'n cael ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Os yw eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu cydnabod dan brydlesau ariannol, yna byddid yn cyfrifo amdanynt drwy ddefnyddio'r polisïau sy'n gyffredinol berthnasol i asedau o'r fath ar yr amod y codir am ddibrisiant dros gyfnod y brydles os yw'r cyfnod hwnnw'n llai na oes ddefnyddiol dybiedig yr ased (lle nad yw perchenogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid oes rhaid i'r Cyngor godi'r Dreth Gyngor i dalu costau dibrisiant neu ailbrisio a cholledion amhariad sy'n codi mewn perthynas ag asedau a brydlesir. Yn lle hynny, gwneir cyfraniad blynyddol call o gyllid refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Yn lle dibrisiant ac ailbrisio a cholledion amhariad, felly, ceir cyfraniad refeniw ym Malans y Gronfa Gyffredinol a hynny drwy addasiad yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn i gyfrif am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

#### 18.1.2 Prydlesau Gweithredol

Caiff rhent a delir mewn perthynas â phrydlesau gweithredol ei godi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost i'r gwasanaethau sy'n elwa o ddefnyddio'r eiddo, offer neu gyfarpar a brydlesir. Codir tâl ar sail linell syth dros gyfnod oes y brydles, hyd yn oed oes nad yw hyn yn cyfateb i batrymau taliadau (e.e. cyfnod o rent am ddim ar gychwyn y brydles).

### 18.2 Y Cyngor fel Prydleswr

#### 18.2.1 Prydlesau Ariannol

Os bydd y Cyngor yn caniatáu prydles ariannol ar gyfer eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, yna caiff yr ased berthnasol ei ddibrisio ar y Fantolen fel un y cafwyd gwared arni. Os yn berthnasol, ar gychwyn y brydles bydd swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu) yn cael ei ddibrisio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar adeg cael gwared arni. Caiff enillion, sy'n cynrychioli buddsoddiad net yr Awdurdod yn y brydles, ei gredydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar adeg cael gwared arni (h.y. yn cael ei ddebydu yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg cael gwared arni), gyda chofnod o ased prydles (dyledwr tymor hir) yn y Fantolen. Caiff rhent a geir ar gyfer prydles ei rannu rhwng:-

- Taliadau ar gyfer prynu'r budd yn yr eiddo a ddefnyddir i ddibrisio ymrwymiad y corff a brydlesodd yr ased (ynghyd ag unrhyw bremiymau a dderbyniwyd); ac
- Incwm Cyllido, sy'n cael ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Yn unol â statud, ni chaniateir defnyddio'r enillion a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar adeg cael gwared â'r ased i ychwanegu at Falans y Gronfa Gyffredinol a rhaid trin hyn fel derbyniad cyfalaf. Lle derbyniwyd premiwm, rhaid symud hwn allan o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Lle bydd y swm sy'n daladwy mewn perthynas â'r ased a brydlesir yn cael ei setlo drwy dalu rhent yn y blynyddoedd ariannol sydd i ddod, caiff hyn ei symud allan o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf sydd wedi eu Gohirio yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fydd rhenti'n cael eu derbyn yn y dyfodol, bydd yr elfen ar gyfer y derbyniadau cyfalaf ar ôl cael gwared o'r eiddo yn cael eu defnyddio i ddileu'r swm sy'n ddyledus gan y corff a brydlesodd yr ased. Bryd hynny, bydd y derbyniadau cyfalaf sydd wedi eu gohirio yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf.

Nid yw gwerth dileu asedau y ceir gwared arnynt yn cael ei godi yn erbyn y dreth gyngor oherwydd gwneir darpariaeth lawn ar gyfer costau asedau anghyfredol mewn trefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Caiff y symiau, felly, eu trosglwyddo o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

**18.2.2 Prydlesau Gweithredol**

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles weithredol dros eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, cedwir yr ased yn y Fantolen. Mae incwm rhent yn cael ei gredydu i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail llinell-syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm taliadau (e.e. telir premiwm ar gychwyn y brydles). Mae costau uniongyrchol cychwynnol yr eir iddynt wrth negodi a threfnu prydles yn cael eu hychwanegu at swm cario'r ased perthnasol a'u codi fel traul dros oes y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

## 19. Taliadau i Refeniw ar gyfer Asedau Anghyfredol

Mae gwasanaethau a gwasanaethau cymorth yn gyfrifol am y symiau canlynol er mwyn cofnodi gwir gost dal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn:-

- Dibrisiant asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth;
- Ailbrisio a cholledion amhariad ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn y gellir dileu'r colledion yn ei herbyn; a
- Amorteiddio asedau anniriaethol sydd i'w priodoli i'r gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Cyngor godi'r dreth gyngor i dalu am y costau hyn. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo neilltuo cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at ei ofyniad benthyca cyffredinol. Felly, disodlir y costau hyn gan y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP) ar ffurf trafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru reoliadau newydd yn 2008/09 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer MRP, gan gynnwys opsiwn i ddarparu MRP dros oes ased. Mae'r polisi hefyd yn caniatáu gohirio'r MRP tan y comisiynir yr ased.

Cyfrifir darpariaeth y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) fel 2% o Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) CRT cychwynnol. Adolygodd y Cyngor ei bolisi MRP a newidiodd y dull o gyfrifo MRP ar gyfer elfen Cronfa'r Cyngor o 1 Ebrill 2018. Yn flaenorol, roedd y Cyngor wedi cyfrifo MRP ar sail balans lleihau o 4% ar gyfer benthyca â chefnogaeth a sail oes asedau ar gyfer eitemau cyfalaf a ariennir gan fenthyca heb gymorth. Mae'r dull newydd yn darparu dull cyson a bydd gwariant a gyllidir gan fenthyca â chefnogaeth hefyd yn cael ei godi ar sail oes asedau. Ar gyfer asedau a gyllidir gan fenthyca â chefnogaeth ar 1 Ebrill 2018, tybiwyd bod bywyd y rhain yn 50 o flynyddoedd gan y byddai'r benthyciad wedi cyllido nifer o asedau. Bydd unrhyw asedau newydd ar ôl 1 Ebrill 2018 a gyllidir drwy fenthyca â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth yn cael eu seilio ar oes asedau a ddisgwylir mewn gwirionedd ar gyfer yr ased hwnnw. Newidiwyd methodoleg MRP i sicrhau dull gweithredu cyson a mwy darbodus sy'n cyfateb yn fwy cywir y MRP â bywyd yr ased sy'n cael ei gyllido.

Mae eithriad i'r polisi hwn yn codi mewn perthynas â gwariant sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd cyfalafu a gyhoeddwyd o dan Adran 40 (6) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Caiff unrhyw wariant o'r fath ei amorteiddio naill ai yn unol â'r polisi uchod neu dros nifer y blynyddoedd a bennir yn y cyfarwyddyd.

Cofnodir trafodion mewn perthynas ag eiddo buddsoddi yn erbyn llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsodd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 20. Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth

P'un a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor pan fo sicrwydd rhesymol:-

- y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau; ac
- y derbynnir y grantiau neu gyfraniadau.

Ni chaiff symiau a gydnabyddir fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes bydd yr amodau sydd ynghlwm i'r grant neu'r cyfraniad yn cael eu bodloni. Amodau grant yw'r gofynion y mae'n rhaid eu diwallu er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y grant, er enghraifft, adeiladu ysgol neu allbynnau allweddol a benodir o fewn yr amdodau. Mae unrhyw arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau, a'r amodau perthnasol heb eu bodloni, yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni, mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi fel credyd yn y llinell gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw priodoladwy) neu fel Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu hamgáu a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrdroi o Balans Cronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei symud i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Chawsant Eu Defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio, mae'n cael ei symud i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Chawsant Eu Defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

Mae rhai cyrff sy'n rhoddi grantiau yn gosod cyfyngiadau neu'n pennu i ba bwrpas y gellir defnyddio'r grant ond nid ydynt yn dweud a fydd angen ad-dalu'r grant ai peidio.

## 21. Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS)

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond yn wariant nad yw'n creu ased anghyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthyca, mae trosglwyddiad yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yna'n gwyrdroi'r symiau a godwyd fel nad oes effaith ar lefel y Dreth Gyngor.

## 22. Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol

Mae costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu codi ar y gwasanaethau hynny sy'n cael y buddiant o'r cyflenwad neu o'r gwasanaeth yn unol â threfniadau'r Awdurdod ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol ar gyfer y pwrpas o gyfrifyddu cost-llawn ar gyfer dychweliadau ystadegol statudol, er enghraifft, dychweliadau blynyddol RA a RO Llywodraeth. Fodd bynnag, ar gyfer monitro'r gyllideb a'r cyfrifon blynyddol statudol, fe eithrir ad-daliadau ac fe adroddir ar wasanaethau corfforaethol a chefnogol fel cylchrannau gwasanaeth ac fe'i ddelir yn gyfrifol am reolaeth cyllideb.

## 23. Arian Tramor

Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau a gaiff gymorth grant o Ewrop lle mae'r grantiau efallai'n cael eu dyrannu mewn Ewros (mai nifer y cynlluniau hyn yn lleihau). Agorwyd cyfrif banc Ewro i gefnogi'r cynlluniau hyn. Caiff y balans ar y cyfrif hwn ar ddiwedd y flwyddyn ei drosi yn ôl y cyfraddau cyfnewid fel yr oeddynt ar 31 Mawrth, gyda'r enillion neu'r colledion canlyniadol yn cael eu cydnabod yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 24. Buddiannau'r Gweithwyr

### 24.1 Buddiannau sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Y buddiannau tymor byr i'r gweithwyr yw'r rheini sy'n cael eu talu cyn pen 12 mis i ddiwedd y flwyddyn – buddiannau megis cyflogau wythnosol a misol, gwyliau blynyddol gyda thâl, absenoldeb gwaeledd gyda thâl, taliadau bonws a buddiannau heblaw arian i'r gweithwyr presennol a'r rheini'n cael eu cydnabod fel treuliau i'r gwasanaethau yn ystod y flwyddyn pryd y rhydd y gweithwyr wasanaeth i'r Cyngor. Darperir ffigwr gronnus ar gyfer costau hawliadau gwyliau (neu unrhyw fath o absenoldeb, e.e. amser i ffwrdd *in lieu*) a enillwyd gan weithwyr a'r rheini heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn a hawl ganddynt i'w cario drosodd i'r flwyddyn ariannol ddilynol.

Mae'r ffigwr cronnol yn seiliedig ar y cyfraddau perthnasol i gyflogau wythnosol a misol yn y flwyddyn gyfrifo ddilynol, sef pryd y bydd y gweithiwr yn cymryd y budd. I atal amrywiadau gael effaith ar y Dreth Gyngor, mae'r newidiadau blwyddyn ar flwyddyn yn y gost a gynhyrchir gan y cronni yma'n cael ei godi yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, ond wedyn caiff ei wyrdroi trwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Cronnol, fel bod buddiannau gwyliau yn cael eu codi yn erbyn refeniw yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd ynddi.

Nid yw'r Cyngor yn rhoddi buddiannau tymor hir i weithwyr h.y. y rheini nad oes disgwyl y byddant yn cael eu talu neu eu setlo cyn pen 12 mis i ddyddiad y Fantolen.

### 24.2 Buddiannau Terfynu

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol. Codir y buddiannau hyn ar sail gronnol i'r llinell gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan na fedr y Cyngor mwyach dynnu'n ôl y cynnig o'r buddiannau hynny neu mewn achosion lle mae'r Awdurdod yn cydnabod costau ailstrwythuro.

Pan fo buddiannau terfynu'n golygu ychwanegu at bensiynau (fel arfer ar ffurf blynyddoedd ychwanegol), mae darpariaethau statudol yn mynnu bod y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu bensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifiwyd yn unol â'r safonau cyfrifo perthnasol, yn cael ei godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen symud arian i mewn ac allan o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau er mwyn cael gwared â'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer ychwanegiadau pensiwn a dalwyd fel buddiannau ar adeg terfynu cyflogaeth a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

## 24.3 Buddiannau Ôl-Gyflogaeth

Mae gan weithwyr y Cyngor hawl i fod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn sydd ar wahân i'w gilydd:-

- Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran yr Adran Addysg; a

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddiannau diffiniedig i aelodau (lwmp swm ymddeol a phensiwn), a enillwyd tra oedd gweithwyr yn gweithio i'r Cyngor.

## 24.4 Cynllun Pensiwn Athrawon

Oherwydd trefniadau cynllun yr athrawon, nid yw'n bosib fel arfer priodoli'r atebolrwydd am y buddiannau hyn i'r Cyngor. Felly, mae cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid oes yn y Fantolen gydnabyddiaeth yng nghyswllt unrhyw atebolrwydd i dalu buddiannau yn y dyfodol. Codir yn erbyn y llinell Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yng nghyswllt cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Asiantaeth Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

## 24.5 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Gall unrhyw weithwyr (ac eithrio athrawon) a Chynghorwyr, yn amodol ar feini prawf cymhwyso penodol, ymuno gyda'r Cynllun Pensiwn ar gyfer Llywodraeth Leol. Enw'r Cynllun yw Cronfa Bensiwn Gwynedd a chaiff ei gweinyddu gan Gyngor Gwynedd yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ar ran y cyflogwyr sy'n rhan ohono. Yn unol â Safon Gyfrifo Ryngwladol (SGR19), mae'r Cynllun ar gyfer Llywodraeth Leol yn cael ei gyfrif fel cynllun buddiannau diffiniedig.

Mae'r rhwymedigaethau i Gynllun Pensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl dull actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig - h.y. asesiad o'r taliadau a wneir yn y dyfodol yng nghyswllt buddiannau ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan y gweithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau yng nghyswllt cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant y gweithwyr, ayyb., a hefyd ar ragamcanion yng nghyswllt enillion rhagamcanedig y gweithwyr presennol.

Rhoddir disgownt yn erbyn y rhwymedigaethau i lawr i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt real, yn seiliedig ar raddfa dychweliad arwyddol ar fondiau Llywodraeth y DU wedi ei addasu ar gyfer ychwanegiad at y cynnyrch sy'n adlewyrchu'r risg ychwanegol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio cynnyrch Bondiau Corfforaethol AA - a adwaenir fel taeniad credyd.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:-

- Stociau a ddyfynnir - pris bid presennol;
- Stociau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol;
- Stociau fesul uned - pris bid bresennol; ac
- Eiddo – eu gwerth ar y farchnad.

Mae'r newid yn y rhwymedigaethau pensiwn net yn cael ei ddadansoddi fesul pedwar rhan:-

**a)** Costau gwasanaeth cyfredol - cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - wedi ei ddyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y mae'r gweithwyr yn gweithio iddynt.

**b)** Costau gwasanaeth y gorffennol - y cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd penderfyniadau a wnaed eleni ac effaith y rheini yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd ym mlynyddoedd y gorffennol - debyd i Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau na Ddosberthir. Llog net ar yr ymrwymiad net o ran buddiannau diffiniedig, h.y. y costau llog net i'r Cyngor - mae'r newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad net o ran buddiannau diffiniedig sy'n codi o dreigl amser yn cael ei godi i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hyn yn cael ei glandro drwy ddefnyddio'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddiwyd i fesur yr ymrwymiad o ran buddiannau diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod, i'r ymrwymiad net diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod (gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad o ran buddiannau diffiniedig net (yr ased) yn ystod y cyfnod fel canlyniad cyfraniadau a thaliadau buddiannau).

**c)** Ail-fesuriad yn cynnwys:-

- Yr enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio unrhyw symiau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y llog net ar fuddiannau net diffiniedig) sy'n cael ei godi i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall;
- Enillion a Cholledion Actiwaraidd - newidiadau yn yr ymrwymiadau pensiwn net sy'n codi am nad yw'r digwyddiadau yn cyfateb i'r rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïaid wedi diweddaru eu rhagdybiaethau. Mae hyn yn cael ei godi i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

**ch)** Cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian parod a dalwyd i mewn fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn fel setliad o rwymedigaethau; heb ei gyfrif fel traul.

Mewn perthynas â buddiannau ymddeol, mae darpariaethau statudol yn mynnu bod y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifiwyd yn unol â'r safonau cyfrifo perthnasol, yn cael ei godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen symud arian i mewn ac allan o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau er mwyn cael gwared â'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau ymddeol a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau felly'n fesur o'r manteision i'r Gronfa Gyffredinol yn sgil yr arfer o gyfrif am fuddiannau ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na phan enillir buddiannau gan weithwyr.

### 24.6 Buddiannau Dewisol

Yn ogystal, mae gan y Cyngor rai pwerau cyfyngedig i dalu buddiannau ymddeoliad dewisol pan fo gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau y tybir eu bod am godi yn sgil rhoi dyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) yn cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a gwneir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau â'r rheini a ddefnyddir yng nghyswllt Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 25. Eitemau Eithriadol

Lle mae hynny'n berthnasol a lle mae eitemau o incwm a gwariant yn sylweddol yng nghyswllt y cyfrifon yma, caiff natur a swm yr eitemau eu datgelu ar wahân naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau ar y cyfrifon, gan ddibynnu ar arwyddocâd yr eitemau o ran cael dealltwriaeth o berfformiad ariannol y Cyngor.

**26. Cyfrifo am TA (Trethi Annomestig)**

Gan fod y Cyngor yn gweithredu fel asiant ar gyfer casglu incwm TA, nid yw'n cynnwys y sefyllfa ariannol o ran y trethdalwyr ac nid yw ond yn adrodd ar y sefyllfa ariannol net gyda'r Llywodraeth Ganolog yn ei Fantolen. Felly, os ydi'r swm a gesglir gan yr Awdurdod oddi ar drethdalwyr TA (net y gost o lwfans casglu) yn fwy na delir i Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth, mae'r swm sydd heb ei dalu eto i Lywodraeth Cymru in cael ei gynnwys yn y Fantolen fel credydwr. Yn yr un modd, os yw'r arian a dalwyd i Llywodraeth Cymru yn fwy na'r arian a gasglwyd gan drethdalwyr TA (net y gost o lwfans casglu), mae'r swm dros ben yn cael ei gynnwys yn y Fantolen fel dyledwr. Mae'r Cyngor yn cadw cofnod o ddyledion TA, lwfansau amhariad, rhagdaliadau a gordaliadau yn ei gofnodion cyfrifon sylfaenol; fodd bynnag, i ddiben y cyfrifon terfynol, caiff y balansau hyn eu cyfuno'n un cyfrif asiantaeth, gyda'r ffigyrau ar gyfer dyledwyr/credydwyr yn ymddangos fel ffigwr net ar gyfer y gronfa genedlaethol. Cost y lwfans casglu a dderbynnir gan Gyngor Sir Ynys Môn yw incwm y Cyngor sy'n bilio a chaiff ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Nid yw'r arian a gasglwyd gan drethdalwyr TA yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Llif Arian heblaw am yr arian a ddelir yn ôl mewn perthynas â'r lwfans casglu. Mae unrhyw wahaniaeth rhwng yr arian a gasglwyd oddi wrth drethdalwyr TA â'r arian sydd yn cael ei dalu i'r Gronfa Drethi Annomestig yn cael ei gynnwys o fewn y gweithgareddau ariannol yn Natganiad y Llif Arian.

**27. Incwm a Gwariant Asiantaeth**

Yn unol ag amryfal bwerau statudol, gall Cynghorau gytuno gydag awdurdodau lleol eraill, cwmnïau dŵr ac adrannau'r llywodraeth i wneud gwaith ar eu rhan. Caiff y corff sy'n gwneud y gwasanaethau asiantaeth ei ad-dalu gan y corff cyfrifol hyd at swm a gymeradwywyd ynghyd ag unrhyw gyfraniad y cytunwyd arno tuag at gostau gweinyddol. Dim ond y symiau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor, er enghraifft y ffioedd a gafwyd am ddarparu gwasanaethau'r asiantaeth, fydd yn cael eu cynnwys yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gweithredu yn ysod y flwyddyn fel asiant ar ran:-

Llywodraeth Cymru - casglu Trethi Annomestig (TA) a thalu'r symiau a gasglwyd i Lywodraeth Cymru, llai'r swm a gadwyd yn ôl ar gyfer y lwfans costau casglu;

Llywodraeth Cymru – Benthyciadau Cartrefi Gwag, lle mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant rhwng Llywodraeth Cymru a derbynyddion y Benthyciadau Cartrefi Gwag.

# DATGANIAD ARIANNOL ATODOL
# CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

## Datganiad Incwm a Gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2020

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gwariant** | | |
| Rheoli a Chynnal a Chadw - Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 3,512 | 3,684 |
| Rheoli a Chynnal a Chadw - Goruchwylio a Rheoli | 5,134 | 4,572 |
| Rhenti, Ardrethi, Trethi a Thaliadau Eraill | 61 | 39 |
| Dibrisiant, Amhariad a Cholledion Ailbrisio Asedau Nad Ydynt yn Gyfredol | 9,989 | 11,372 |
| Costau Rheoli Dyled | 12 | 12 |
| Symudiad yn y Ddarpariaeth Amhariad ar gyfer Dyledion Drwg | 118 | 89 |
| Symudiad yng Nghroniad Absenoldebau Cronedig | 71 | (51) |
| **Cyfanswm Gwariant** | **18,897** | **19,717** |
| **Incwm** | | |
| Rhenti Preswyl | (18,025) | (17,089) |
| Rhenti Dibreswyl | (219) | (215) |
| Taliadau am Wasanaethau a Chyfleusterau | (209) | (174) |
| Cyfraniadau tuag at Wariant | (92) | (168) |
| Arall | (172) | (308) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(18,717)** | **(17,954)** |
| **Gwariant Net Gwasanaethau CRT fel yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yr Awdurdod Cyfan** | **180** | **1,763** |
| Cyfran Gwasanaethau CRT o'r Costau Craidd Corfforaethol a Democrataidd | **56** | 56 |
| **Gwariant Net Gwasanaethau CRT** | **236** | **1,819** |
| **Cyfran Gwasanaethau CRT o'r Incwm a Gwariant Gweithredol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yr Awdurdod Cyfan** | | |
| (Ennill) ar werthu Asedau Nad Ydynt yn Gyfredol CRT | - | - |
| Ailbrisio Asedau | (31) | 7 |
| Llog Taladwy a Thaliadau Cyffelyb | 1,773 | 1,765 |
| Llog ac Incwm o Fuddsoddiad | (38) | (16) |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Derbyniadwy: | - | - |
| - Lwfans Atgyweiriadau Mawr | (2,660) | (2,664) |
| - Arall | (1,541) | (7) |
| **Diffyg am y Flwyddyn ar Wasanaethau CRT** | **(2,261)** | **904** |

## Datganiad Symudiadau ar Falans y CRT

### Eitemau a gynhwysir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant CRT ond a eithriwyd o'r symudiad ar Falans CRT am y flwyddyn

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans y CRT ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd Blaenorol** | **(8,387)** | **(7,380)** |
| | - | - |
| Diffyg/(Gwarged) am y Flwyddyn ar Wasanaethau CRT | (2,261) | 904 |
| Addasiadau rhwng Seiliau Cyfrifo ac Ariannu yn ôl Statud | 2,051 | (1,911) |
| **Gostyngiad/(Cynnydd) Net cyn Trosglwyddiadau i / o Gronfeydd Wrth Gefn** | **(210)** | **(1,007)** |
| Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | - | 202 |
| **Gostyngiad/ (Cynnydd) Net yn y Flwyddyn ar y CRT** | **(210)** | **(805)** |
| **Addasiad i arian wrth gefn** | **-** | **(202)** |
| **Balans y CRT ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd Cyfredol** | **(8,597)** | **(8,387)** |

## NODIADAU AR Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

### NODYN 1 – CYFRIF REFENIW TAI

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn gofnod o wariant ar, ac incwm o, ddarparu tai Cyngor lleol, ac mae ffurf a chynnwys y Cyfrif yn cael ei ragnodi gan statud. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei "amgáu" a rhaid iddo fod yn hunangynhaliol. Mae cyfraniadau i ac o'r Cyfrif Refeniw Tai (e.e. o Gronfa'r Cyngor) yn cael eu cyfyngu i amgylchiadau arbennig.

### NODYN 2 – STOC DAI

Yn dilyn prynu allan o'r cynllun Cymhorthdal Tai, mae gan y Cyngor bolisi o brynu anheddau addas a oedd gynt ym mherchenogaeth y Cyngor a'u dychwelyd i stoc dai'r Cyngor. Yn ystod 2019/20, prynwyd 20 eiddo o'r fath (12 yn 2018/19). Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi ailgychwyn adeiladu anheddau CRT newydd, gan ychwanegu 20 uned o'r fath yn 2019/20. Ar 31 Mawrth 2020, cyfanswm yr anheddau yn y stoc dai oedd 3,858, wedi eu rhannu fesul math o annedd fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| **Stoc y Cyngor** | | |
| Tai | 2,045 | 2,028 |
| Tai Unllawr | 1,055 | 1,045 |
| Fflatiau | 751 | 738 |
| Fflatiau un ystafell | 7 | 7 |
| **Cyfanswm Stoc y Cyngor** | **3,858** | **3,818** |

## NODYN 3 – GWARIANT CYFALAF CYFRIF REFENIW TAI

| | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| **Buddsoddiad cyfalaf** | | |
| Tai | **11,811** | **9,028** |
| **Ffynonellau Cyllido** | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | - | - |
| Grantiau llywodraeth a chyfraniadau eraill | (4,202) | (2,671) |
| Cyllido Refeniw Uniongyrchol | (7,609) | (6,357) |
| **Cyfanswm** | **(11,811)** | **(9,028)** |

Defnyddiwyd y Lwfans Atgyweiriadau Mawr o £2.660m ar gyfer 2019/20 yn llawn yn ystod y flwyddyn (£2.659m yn 2018/19).

## NODYN 4 – DIBRISIANT AC AMHARIAD MEWN PERTHYNAS AG EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

| | 2019/20 Dadgydnabod £'000 | 2019/20 Dibrisiant £'000 | 2019/20 Cyfanswm £'000 | 2018/19 Dadgydnabod £'000 | 2018/19 Dibrisiant £'000 | 2018/19 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tir | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Anheddau | 6,213 | 3,533 | **9,746** | 7,504 | 3,572 | **11,076** |
| Eiddo Arall – Asedau Gweithredol | - | 243 | **243** | - | 297 | **297** |
| | **6,213** | **3,776** | **9,989** | **7,504** | **3,869** | **11,373** |

## NODYN 5 – DERBYNIADAU CYFALAF O WAREDU TIR, TAI AC EIDDO ARALL YN Y CYFRIF REFENIW TAI

| | 2019/20 Nifer gwerthiannau | 2019/20 £'000 | 2018/19 Nifer gwerthiannau | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Anheddau Cyngor** | | | | |
| Hawl i Brynu | - | - | - | - |
| Ad-dalu disgownt | 1 | (4) | - | - |
| **Derbyniadau Arall** | | | | |
| Gwerthiant tir | - | - | - | - |
| Gwerthiant eiddo arall | - | - | - | - |
| Eiddo Morgais | - | - | - | - |
| | | **(4)** | | |
| Llai Gosod o'r Neilltu | - | - | - | - |
| **CYFANSWM** | | **(4)** | | **-** |

## NODYN 6 – ÔL-DDYLEDION RHENT A DRWG DDYLEDION A DYLEDION AMHEUS

Yn ystod 2019/20, gwelwyd cynnydd o £0.133m yn y dyledion rhenti. Gweler yn y tabl isod grynodeb o ôl-ddyledion rhenti a rhagdaliadau:-

| Ôl-ddyledion Rent | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Ôl-ddyledion Tenantiaid Cyfredol | 550 | 429 |
| Ôl-ddyledion Gyn-denantiaid | 275 | 250 |
| **Cyfanswm Ôl-ddyledion Rent** | **825** | **679** |
| | | |
| Blaendaliadau | (229) | (216) |
| **Cyfanswm Dyled** | **596** | **463** |

Mae darpariaeth yn y Fantolen ar gyfer drwg ddyledion a dyledion amheus. Roedd y rhain yn cynnwys £0.544m yn erbyn rhenti (£0.462m yn 2018/19).

## NODYN 7 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae’r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy hyd nes bo’r gweithwyr yn ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg mae gweithwyr yn ennill eu hawl ar gyfer y dyfodol. Mae’r Cyngor yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn gynllun a gyllidir, sy’n golygu fod y Cyngor a’r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, sydd wedi ei chyfrifo ar lefel a fwriedir i gydbwyso rhwymedigaethau’r pensiwn gydag asedau buddsoddiad.

Cydnabyddir cost buddiannau ymddeoliad yng Nghost Net y Gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fo’r fath fuddiannau yn cael eu talu yn y pen draw fel pensiynau. Fodd bynnag, mae’r tâl y mae gofyn ei godi yn erbyn y Cyfrif Refeniw Tai wedi ei seilio ar yr arian sy’n daladwy yn y flwyddyn, felly, mae cost wirioneddol buddiannau ymddeoliad yn cael ei wyrdroi allan o’r Cyfrif Refeniw Tai ar ôl Gwariant Gweithredu Net. Mae’r trafodion canlynol wedi’u gwneud yn y Cyfrif Refeniw Tai yn ystod y flwyddyn:-

| Cyfrif Incwm a Gwariant CRT | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Cost Gwasanaeth Gyfredol | (589) | (407) |
| Cyfraniadau Cyflogwr a dalwyd yn wirioneddol | 589 | 407 |
| **Cyfraniad i’r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn** | - | - |

Ni fu’n bosib pennu faint o gost llogau pensiwn a dychweliad disgwyliedig ar yr asedau yn yr adroddiad actiwarïaid sy’n gysylltiedig â’r Cyfrif Refeniw Tai, felly, mae’r rhain wedi eu dyrannu’n llawn i Gronfa’r Cyngor.

**ATODIAD 1**

| DATGELIAD PARTI CYSYLLTIEDIG – CYNRYCHIOLAETH CYDRANDDEILIAID GYDA SEFYDLIADAU TRYDYDD PARTI | |
|---|---|
| Grŵp Mynediad Ynys Môn | Robert G Parry OBE FRAgS |
| Sioe Amaethyddol Môn | Kenneth P Hughes |
| Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Gwynedd a Môn | Llinos Medi Huws |
| Canolfan Gynghori at Bopeth Ynys Môn | Nicola Roberts |
| Fforwm Iaith Môn | Lewis Davies, Gwilyn O Jones, R Meirion Jones, Ieuan Williams, Bryan Owen |
| Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (Ynys Môn) | Richard Dew, Eric Wyn Jones Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams |
| Grŵp Cyfeirio Cydranddeiliaid Betsi Cadwaladr | Llinos Medi Huws |
| Pencampwr Gofalwyr | Robert G Parry OBE FRAgS |
| Pencampwr Diogelu Oedolion | Llinos Medi Huws |
| Pencampwr Plant Mewn Gofal | Richard Griffiths |
| Pencampwr Amrywiaeth | Margaret Murley Roberts |
| Pencampwr Cydraddoldeb | Nicola Roberts |
| Pencampwr Aelodau | Robert Llewelyn Jones |
| Pencampwr Pobol Hyn | Robert Llewelyn Jones |
| Pencampwr Sgriwtini | Aled M Jones |
| Pencampwr Lluoedd Arfog | Richard Dew |
| Pencampwr Plant a Phobl Ifnac | Llinos Medi Huws |
| Llys Llywodraethwyr Prifysgol Cymru Bangor | R Meirion Jones |
| Cwmni CYNNAL CBC | Margaret Murley Roberts |
| Cwmni Frân Wen | Vaughan Hughes |
| Pwyllgor Rheoli CYNNAL | R Meirion Jones, Dafydd Roberts |
| Partneriaeth Cyrchfan Môn (DAP) | Richard Dew |
| Panel Maethu | Richard Griffiths |
| Grŵp Llandrillo/Menai | R Meirion Jones |
| Cyd-Bwyllgor GwE | R Meirion Jones |
| Panel Mabwysiadu Gwynedd a Môn | Dylan Rees |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn | Llinos Medi Huws |
| Pwyllgor Cronfa Bensiynau Gwynedd (Cyngor Gwynedd) | Robin Wyn Williams |
| Cyd-bwyllgor Cymru | John Griffith, Dafydd Rhys Thomas |
| Medrwn Môn | Llinos Medi Huws |
| Bwrdd Aelodau Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (CLAW) | Robert G Parry OBE FRAgS |
| Menter Môn | Ieuan Williams |
| Cyd-Bwyllgor Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | Robert G Parry OBE FRAgS |
| Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Môn) | Trefor Lloyd Hughes MBE, Glyn Haynes, Dylan Rees |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Llinos Medi Huws |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | Richard Griffiths, Dylan Rees, Eric Wyn Jones |
| Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | Dylan Rees |

| **DATGELIAD PARTI CYSYLLTIEDIG – CYNRYCHIOLAETH CYDRANDDEILIAID GYDA SEFYDLIADAU TRYDYDD PARTI** | |
|---|---|
| Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | Richard Griffiths, Eric Wyn Jones |
| Cymdeithas Tai Gogledd Cymru | Alun Wyn Mummery |
| Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru | Llinos Medi Huws |
| Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | Dylan Rees |
| Grŵp Llywio Adolygiad Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru | Robert G Parry OBE FRAgS |
| Cydbwyllgor Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru | Richard Dew, Robert G Parry OBE FRAgS |
| Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru | Llinos Medi Huws |
| Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru | Carwyn Jones |
| Ymddiriedolaeth Addysgol Owen Lloyd Penrhoslligwy | Vaughan Hughes |
| Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Môn a Gwynedd | Llinos Medi Huws |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Llinos Medi Huws |
| Partneriaeth Cronfa Datblygu Cynaliadwy | Richard Dew |
| Ymddiriedolaeth yr Harbwr, Caernarfon | Robert G Parry OBE FRAgS |
| Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol | Llinos Medi Huws, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, R Meirion Jones, Alun Mummery |
| Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru | Llinos Medi Huws, Ieuan Williams |
| Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd | John Griffith, Richard Griffiths, Kenneth P Hughes, Llinos Medi Huws, Aled Morris Jones, Richard Owain Jones, Dafydd Rhys Thomas |
| Grŵp Cydranddeiliad y Safle Wylfa | John Griffith, Richard Griffiths, Kenneth P Hughes, Llinos Medi Huws, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, Richard Owain Jones |

**ATODIAD 2**

# GEIRFA

**ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL**
Mae Addasiad Blwyddyn Flaenorol yn addasiad perthnasol sy'n ymwneud â'r blynyddoedd blaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisïau cyfrifo neu gywiriad i gamgymeriadau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau cylchol arferol neu addasiadau o amcangyfrifon cyfrifo a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

**ADNODDAU HYLIFOL**
Buddsoddiadau ased cyfredol sy'n rhwydd i'w gwaredu gan y Cyngor heb aflonyddu ar ei fusnes ac sydd naill ai:-

- Yn drosglwyddadwy'n hawdd i symiau hysbys o arian parod ar, neu'n agos at, y swm a gludir; neu
- Yn cael eu masnachu mewn marchnad weithredol.

**AMHARIAD**
Lleihad mewn gwerth ased anghyfredol dan ei swm a gludir yn y Fantolen. Fel arfer, mae hyn oherwydd digwyddiad sydd wedi gostwng gwerth ased yn sylweddol, er enghraifft tân neu os mae ased wedi darfod.

**ARIAN A NEILLTUIR (APPROPRIATION)**
Y symiau a drosglwyddir rhwng y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r cronfeydd refeniw neu gyfalaf wrth gefn.

**ARCHWILIO CYFRIFON**
Archwiliad annibynnol o faterion ariannol y Cyngor.

**ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN**
Dyma'r arian mewn llaw, arian a ordynnwyd, arian a ddelir mewn cyfrifon banc a buddsoddiadau tymor byr (e.e. 3 mis) ac y gellir eu trosi'n rhwydd i symiau ariannol sy'n hysbys.

**ASED**
Eitem sydd â gwerth i'r Cyngor mewn termau ariannol. Mae asedau'n cael eu categoreiddio fel rhai cyfredol neu rhai nad ydynt yn gyfredol:-

- Bydd ased cyfredol yn cael ei ddefnyddio neu â gwerth isel iawn yn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);
- Mae asedau anghyfredol yn rhoi buddiannau i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n darparu ar eu cyfer am gyfnod o fwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol (e.e. canolfan gymuned), neu annirweddol (e.e. trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol).

**ASED WRTH GEFN**
Mae ased wrth gefn yn ased posib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor.

**ASEDAU ANNIRIAETHOL**
Gellir diffinio eitem anniriaethol (nid un ffisegol) fel ased pan fo'r mynediad at fuddiannau economaidd i'r dyfodol y mae'n ei gynrychioli'n cael ei reoli gan yr endid adrodd. Mae Asedau Anniriaethol y Cyngor hwn yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol.

**ASEDAU CYMUNEDOL**
Asedau mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal am byth, nad oes iddynt oes ddefnyddiol benodadwy ac a all fod â chyfyngiadau ar eu gwaredu. Enghreifftiau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.

**ASEDAU ISADEILEDD**
Asedau anghyfredol sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, y mae gwariant yn adferadwy yn unig drwy ddefnydd parhaus o'r ased a grëwyd. Enghreifftiau yw priffyrdd, llwybrau a phontydd.

**ASEDAU GWEITHREDOL**
Asedau anghyfredol sy'n cael eu dal a'u meddiannu, defnyddio neu eu treulio gan y Cyngor wrth iddo ddilyn ei strategaeth ac wrth gyflenwi'n uniongyrchol y gwasanaethau hynny y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt naill ai'n statudol neu'n ddewisol.

**ASEDAU NAD YDYNT YN WEITHREDOL**
Asedau anghyfredol a ddelir gan y Cyngor ond nad ydynt yn cael eu meddiannu, defnyddio neu eu treulio'n uniongyrchol wrth gyflenwi gwasanaethau. Enghreifftiau yw eiddo buddsoddiad, asedau yn cael eu hadeiladu neu asedau gwarged i anghenion tra'n disgwyl eu gwerthu neu ailddatblygu.

**ASEDAU TREFTADAETH**
Ased sydd hefo rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sydd yn cael ei ddal a'i gynnal yn bennaf am ei gyfraniad at wybodaeth a diwylliant.

**BENTHYCA DI-GEFNOGAETH**
Gall y Cyngor fenthyca arian ychwanegol i'r benthyca â chefnogaeth y Llywodraeth i gyllido ei wariant cyfalaf cyn belled a'i fod yn fforddiadwy a chynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer yma gan Gôd Pwyllog CIPFA, a mae'r Cyngor yn lwyr gydymffurfio â hwn.

**BENTHYCA DROS DRO**
Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

**BENTHYCA GYDA CHEFNOGAETH**
Mae'r Cyngor yn benthyca arian i gyllido rhan o'i raglen cyfalaf. Fe adnabyddir y benthycaid gan Lywodraeth Ganolog yn ei glandriad cyllido ar gyfer y Cyngor.

**BUDD-DALIADAU TAI**
System o gymorth ariannol i unigolion tuag at gostau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau, gyda chymhorthdal gan lywodraeth ganolog.

**BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU)**
Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gytundebol neu adeiladol i'w dyfarnu, ac sy'n cael eu dyfarnu'n ôl pwerau dewisol y Cyngor fel y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Dewisol) 1996.

**BUDDIANNAU YMDDEOLIAD**
Bob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan gyflogwr yn lle gwasanaethau a gyflenwyd gan weithwyr sy'n daladwy ar ôl terfyn y gyflogaeth.

**BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN)**
Bydd buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn cael eu cyfrifo yn natganiadau'r gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar awdurdodau i ddatgelu, fel rhan o ofynion datgelu sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad, cyfran o asedau'r cynllun pensiwn sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

**BUSNES HYFYW**
Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi ar y dybiaeth y bydd y Cyngor yn parhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy.

**BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (PWLB)**
Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthyca ei hun.

**CIPFA**
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

**COLLEDION CREDYD**
Hwn yw'r gwahaniaeth rhwng y symiau arian sy'n ddyledus i'r Awdurdod yn unol â'r gontract a'r holl lif arian ddisgwylir i'r Awdurdod ei dderbyn, wedi ei ddisgowntio ar y raddfa llog effeithiol gwreiddiol.

**COLLEDION CREDYD DISGWYLIEDIG 12 MIS**
Hwn yw'r cyfran o golledion credyd disgwyliedig oes gyfan sy'n cynrychioli'r colledion credyd disgwyliedig sy'n deillio o ddiffyg offeryn ariannol sy'n bosib o fewn deuddeng mis ar ôl y dyddiad adrodd.

**CONTRACT TYMOR HIR**
Contract a ffurfir ar gyfer dylunio, cynhyrchu neu adeiladu ased sylweddol unigol neu ddarpariaeth gwasanaeth (neu gyfuniad o asedau neu wasanaethau sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio prosiect unigol), ble bo'r amser a gymerir i gwblhau'n sylweddol y contract o'r fath fel ei fod yn disgyn i mewn i fwy nag un flwyddyn ariannol.

**COST GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU)**
Y cynnydd mewn gwerth cyfredol o rwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y disgwylir iddo ddeillio o wasanaeth gweithiwr yn y flwyddyn bresennol.

**COST GWASANAETH YN Y GORFFENNOL (PENSIYNAU)**
Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun sy'n gysylltiedig â gwasanaeth gweithiwr mewn blynyddoedd ariannol blaenorol sy'n deillio yn y flwyddyn ariannol bresennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeoliad.

**COSTAU HEB EU DOSBARTHU**
Dyma orbenion nad yw unrhyw ddefnyddiwr yn cael budd ohonynt yn awr ac, fel y cyfryw, nid ydynt yn cael eu dosrannu i wasanaethau.

**COST LLOG (PENSIYNAU)**
Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd disgwyliedig yn ystod y flwyddyn ariannol o werth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun oherwydd bod y buddiannau yn un flwyddyn ariannol yn agosach at setliad.

**CORFFORAETHOL A DEMOCRATAIDD CRAIDD**
Mae'r Corfforaethol a Democrataidd Craidd yn cynnwys yr holl weithgareddau penodol y mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â nhw oherwydd eu bod yn awdurdodau etholedig, amlbwrpas. Felly, mae cost y gweithgareddau hyn yn uwch na phe byddai cyfres o gyrff annibynnol, un pwrpas, enwebedig yn rheoli'r un gwasanaethau. Felly, nid oes sail resymol dros ddyrannu'r costau hyn i wasanaethau.

**COSTAU CYLLIDO CYFALAF**
Costau cyllido cyfalaf yw unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o fenthyca i gyllido prosiectau cyfalaf. Tuedda rhain i fod y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a gymerir a'r gost Darparieth Refeniw Isaf (MRP) a godir ar gyllid prosiectau drwy fenthyciadau.  Y MRP yw'r isafswm mae'n rhaid codi i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn daparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau arall fenthycwyd gan y Cyngor.

**CREDYDWR**
Swm sy'n ddyledus i unigolion neu sefydliadau eraill gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol honno.

**CRONFEYDD WRTH GEFN**
Croniad gwarged, diffygion a meddiannau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cronfeydd wrth gefn o natur refeniw ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio peth cronfeydd wrth gefn cyfalaf, fel y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, i gwrdd â gwariant cyfredol.

**CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY**
Symiau penodol a osodir o'r neilltu ar gyfer pwrpasau polisi'r dyfodol neu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl. Gall eu defnyddio i gyllido gwariant neu i leihau trethi.

**CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO**
Y cronfeydd wrth gefn a ddefnyddir i amsugno'r gwahaniaeth rhwng y canlyniad o ddefnyddio ymarferion cyfrifo cywir â gofyniad trefniadau statudol ar gyfer cyllido gwariant. Mae cronfeydd wrth gefn o'r fath yn cynnwys enillion a cholledion heb eu gwireddu mewn perthynas ag ail-brisio eiddo, offer a chyfarpar ble mae rhaid gwerthu'r ased cyn i'r gwerth fod ar gael.

**CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH**
Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor i bwrpasau fel gwobrwyon, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

**CRONIADAU**
Symiau a gynhwysir yn y cyfrifon terfynol i gydnabod nwyddau/gwasanaethau a dderbyniwyd yn y flwyddyn neu incwm a gwariant a enillwyd neu yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn ariannol, ond nad oedd taliad gwirioneddol wedi ei dderbyn neu ei wneud ar ei gyfer ar 31 Mawrth.

**CYDNABYDDIAETH ARIANNOL**
Yr holl symiau a delir i, neu sy'n dderbyniadwy gan, weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (cyn belled ag y mae'r symiau hynny'n daladwy yn nhreth incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau eraill a dderbyniwyd heblaw mewn arian parod. Mae cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan y cyflogwr yn cael eu heithrio.

**CYFNOD CYFRIFO**
Y cyfnod o amser a gynhwysir yn y cyfrifon, fel arfer cyfnod o ddeuddeng mis yn cychwyn ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y Fantolen, fel arfer 31 Mawrth y flwyddyn ddilynol.

**CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**
Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n deillio o'r ddarpariaeth llety tai gan y Cyngor.

**CYLLIDEB**
Datganiad o faint o gyllid y mae'r Cyngor wedi ei neilltuo i bob gwasanaeth a swyddogaeth i'w wario neu ei godi mewn incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol.

**CYLLIDO CYFALAF**
Cyllid sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn refeniw a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

**CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG**

Cynlluniau pensiwn ble bo buddiannau a dderbynnir gan y cyfranogwyr yn annibynnol ar y cyfraniadau a dalwyd, ac nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

**CYSONDEB**

Y cysyniad fod triniaeth gyfrifo o eitemau tebyg o fewn blwyddyn ariannol ac o un flwyddyn i'r nesaf yr un fath.

**DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO**

Mae'r datganiad yn anelu i ddangos sut defnyddir gwariant blynyddol a sut y'i gyllidiri o adnoddau. Dangosa'r golofn gynta, y gwariant net a godir i'r Gronfa Gyffredinol a balansau'r CRT, y gwir effaith o'r gost o ddarparu gwasanaethau am y flwyddyn, ac eithrio addasiadau cyfrifo.

**DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN**

Dangosir y datganiad y symudiad o gychyn y flwyddyn i'w diwedd ar gyfer yr holl gronfeydd wrth gefn ddefnyddiadwy a ddelir gan y Cyngor ac y gellir eu defnyddio i gyllido costau'r Cyngor neu i leihau trethiant lleol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn nad oes modd eu defnyddio.

**DARPARIAETH**

Swm a osodir o'r neilltu yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n sicr neu'n debygol iawn, o ddigwydd ond bod y symiau neu'r dyddiadau pryd y byddant yn digwydd yn ansicr.

**DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR**

Un o brif ddatganiadau ariannol y Cyngor sy'n cofnodi'r holl incwm a gwariant ar gyfer y Cyngor wedi ei gategoreiddio'n unol â gofynion safonol CIPFA fel y gellir cymharu awdurdodau.

**DATGANIAD LLIF ARIAN**

Mae'r datganiad llif arian yn dangos y newidiadau yn yr arian a'r cywerthoedd ariann sydd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol.

**DERBYNIADAU CYFALAF**

Yr elw o waredu tir neu asedau anghyfredol. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir i lawr gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

**DIBRISIANT**

Mesur o'r gost o wisgo allan, defnyddio neu fel arall leihau oes economaidd ddefnyddiol asedau anghyfredol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol, p'un a yw hynny o ddefnydd, treuliad amser neu ddarfodiad trwy newidiadau technegol neu rai eraill.

**DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon Terfynol.

**DYCHWELIAD DISGWYLIEDIG AR ASEDAU PENSIWN**

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig a gyllidir, hwn yw'r raddfa dychweliad ar gyfartaledd, yn cynnwys incwm a newidiadau mewn gwerth teg ond yn net o dreuliau cynllun, a ddisgwylir dros weddill oes y rhwymedigaeth gysylltiedig ar yr asedau gwirioneddol a ddelir gan y cynllun.

**DYLED NET**

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

**DYLEDWR**

Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor gan unigolion neu sefydliadau eraill am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARÏAID**
I gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y newidiadau mewn gwarged neu ddiffyg actiwaraidd sy'n codi oherwydd:-

- Nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r tybiaethau actiwarïaid a wnaethpwyd i'r prisiant diwethaf (enillion a cholledion profiad); neu

- Fod y tybiaethau actiwaraidd wedi newid.

**GRANT CYNNAL REFENIW**
Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

**GRANTIAU LLYWODRAETH**
Grantiau a wneir gan y llywodraeth tuag at naill ai wariant refeniw neu gyfalaf gan ddisgwyl cydymffurfiad yn y gorffennol neu i'r dyfodol gyda rhai amodau penodol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau hyn fod yn benodol i gynllun neilltuol neu gall gefnogi gwariant refeniw'r Cyngor yn gyffredinol.

**GWAITH YN MYND YN EI FLAEN (WIP)**
Cost gwaith a berfformir ar brosiect heb ei orffen ar ddyddiad y Fantolen.

**GWARIANT CYFALAF**
Gwariant ar brynu ased anghyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu draw i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at, ac nid cynnal yn unig, werth ased presennol anghyfredol. Mae enghreifftiau'n cynnwys : adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, adnewyddu sylweddol cartref gofal.

**GWARIANT REFENIW**
Treuliau dydd i ddydd o ddarparu gwasanaethau.

**GWARIANT REFENIW A GYLLIDIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**
Gwariant y gellir ei ohirio'n gywir (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran natur) ond nad yw'n arwain at, neu'n parhau i gydweddu ag, ased diriaethol. Enghreifftiau o daliadau gohiriedig yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

**GWASANAETHAU ASIANTAETH**
Y Gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i drydydd parti neu ar ran sefydliad arall.

**GWERTH GWEDDILLIOL**
Gwerth net ased y gellir ei wireddu ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol.

**GWERTH LLYFR NET**
Y swm y mae asedau anghyfredol yn cael eu cynnwys yn y Fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu werth cyfredol llai'r symiau cronnus ar gyfer dibrisiant.

**GWERTH NET**
Gwerth y Cyngor o gyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau.

**GWERTH TEG**
Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodion hyd braich, llai, ble bo'n berthnasol, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu neu ddefnyddio'r ased.

**GWERTH TRETHADWY**
Rhent tybiedig blynyddol hereditament, a ddefnyddir i bwrpasau Trethi Annomestig.

**ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)**
Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-daliad benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

**LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR**
Defnyddir y dull gyfradd log sydd mewn grym gweithredol i fesur beth yw gwerth cludadwy ased ariannol neu rwymedigaethau a fesurir yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig, ac i ddyrannu incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd log sydd mewn grym yw hwnnw sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau amcangyfrifiedig yn y dyfodol dros oes ddisgwyledig yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd log sydd mewn grym yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor.

Yn achos asedau a rhywymedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost gan fod y llog sydd mewn grym yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronnus.

**MATEROLIAETH**
Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau y gellid disgwyl iddynt, pe gadewid hwy allan neu eu cam-ddatgan, arwain at lurguniad o'r datganiadau ariannol ac, yn y pen draw, gamarwain defnyddiwr y cyfrifon.

**OES ECONOMAIDD DDEFNYDDIOL (UEL)**
Y cyfnod dros yr hwn y bydd y Cyngor yn cael buddiannau o ddefnydd ased anghyfredol.

**PARTÏON CYSYLLTIEDIG**
Ceir diffiniad manwl o Bartïon Cysylltiedig yn SGR 24. I bwrpasau'r Cyngor, ystyrir fod partïon cysylltiedig yn cynnwys Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol a chyrff arall, sy'n codi un ai praeseptau neu ardollau ar y Cyngor. Gall partïon cysylltiedig hefyd gynnwys is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig, a cydfenter a phartïon cydfenter ac yn enwedig Aelodau a phrif swyddogion y Cyngor.

Pan yn ystyried pwy sy'n barti cysylltiedig, rhoddir sylw hefyd i drafodion yn gysylltiedig ag aelodau teulu agos neu gartref unrhyw unigolyn a restrir.

**PRAESEPT**
Yr ardoll a wneir gan awdurdodau praesept ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm y Dreth Gyngor ar eu rhan.

**PRYDLES ARIANNOL**
Prydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased anghyfredol i'r prydleswr.

**PRYDLES WEITHREDOL**
Prydles ble mae'r berchnogaeth o'r ased anghyfredol yn aros gyda'r prydleswr.

**RHAGLEN GYFALAF**
Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.

**RHESTRAU STOC**

Eitemau o ddeunyddiau crai a deunyddiau mae'r Cyngor wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal gan ddisgwyl defnydd i'r dyfodol. Enghreifftiau yw deunyddiau traul, deunyddiau crai a gwaith sy'n mynd yn ei flaen.

**RHWYMEDIGAETH**
Rhwymedigaeth yw pan fo gan y Cyngor ddyled i'w thalu i unigolyn neu sefydliad arall.

- Mae rhwymedigaeth gyfredol yn swm a fydd yn dod yn daladwy neu y gellid ei galw i mewn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, e.e. credydwyr neu arian parod wedi'u gordynnu.

- Mae rhwymedigaeth ohiriedig yn swm sydd, drwy drefniant, yn daladwy tu draw i'r flwyddyn nesaf ar ryw bwynt yn y dyfodol neu i'w dalu i ffwrdd trwy swm blynyddol dros gyfnod o amser.

**RHWYMEDIGAETH WRTH GEFN**
Mae rhwymedigaeth wrth gefn naill ai'n:-

- Rhwymedigaeth bosib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor; neu'n

- Rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ble nad yw'n debygol y bydd angen trosglwyddiad o fuddiannau economaidd, neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth gyda dibynadwyedd digonol.

**RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN**
Rhwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl y dyddiad prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun a fesurir yn ystod y dull uned a ragamcenir yn adlewyrchu'r buddiannau mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu am wasanaeth hyd at y dyddiad prisiant.

**TRETHI ANNOMESTIG (TA)**
Mae'r Trethi Annomestig yn ardoll ar fusnesau wedi'i seilio ar raddfa genedlaethol yn y bunt a osodir gan y llywodraeth a'i luosi gan werth trethadwy asesedig yr eiddo dan sylw. Caiff ei gasglu gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna ei ailddosbarthu'n ôl i gefnogi cost gwasanaethau.

**TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG**
Mae'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir yn gwneud datgeliad o unrhyw drafodion perthnasol rhwng y Cyngor a Phartïon Cysylltiedig yn ofynnol er mwyn sicrhau fod cydranddeiliaid yn ymwybodol pryd mae'r trafodion hyn yn digwydd a'r swm a goblygiadau hynny.

**Y FANTOLEN**
Datganiad o werth cywir a theg o'r asedau, rhwymedigaethau a balansau eraill cofnodedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**ATODIAD 3**

# Llyfryddiaeth


CIPFA 2019. Côd Ymarfer ar gyfer Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20. CIPFA, Llundain.

CIPFA 2019. Rhestr Wirio Datgeliadau 2019/20. CIPFA, Llundain.

CIPFA 2019. Côd Ymarfer ar gyfer Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20 - Canllawiau ar gyfer Ymarferwyr. CIPFA, Llundain.

CIPFA 2019. Côd Ymarfer ar gyfer Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20 – Diweddariad o Argraffiad 2019/20.

CIPFA 2020. Bwletin 4: Cau'r Datganiadau Ariannol 2019/20. CIPFA. Llundain.

CIPFA 2019. Gweithdai Cau Cyfrifon 2019/20 - Diweddariad yn dilyn y Gyfres a Chwestiynau Cyffredin. CIPFA. Llundain

CIPFA 2014. Bwletin LAAP 99: Arian Wrth Gefn a Balansau Awdurdodau Lleol. CIPFA. Llundain.

CIPFA 2016. Rôl y Prif Swyddog Ariannol yn Llywodraeth Leol. CIPFA. Llundain.

Trysorlys EM 2015. Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2015/16.

Llywodraeth Cymru, Ystadegau ar gyfer Cymru, Ystadegau Cryno ar gyfer Rhanbarthau Economaidd Cymru, Gogledd Cymru, 30 Mai 2019.

Llywodraeth Cymru 2014. Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 Rhif 3362 (W337), Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru 2018. Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) Rheoliadau 2018 Rhif 91 (W22).

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

# 2019/2020

| Egwyddor | Sicrwydd |
|---|---|
| **Egwyddor A - Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol** | **Sicr**<br>Tud. 139 |
| **Egwyddor B - Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid** | **Sicr**<br>Tud. 141 |
| **Egwyddor C - Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol** | **Sicr**<br>Tud. 143 |
| **Egwyddor D - Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu** | **Sicr**<br>Tud. 145 |
| **Egwyddor E - Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo** | **Sicr**<br>Tud. 149 |
| **Egwyddor F - Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref** | **Sicr**<br>Tud. 152 |
| **Egwyddor G - Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio** | **Sicr**<br>Tud. 155 |

# Cynnwys

Rhagarweiniad ..........134
Sgôp y Cyfrifoldeb ..........137
Y Fframwaith Llywodraethu ..........137
Dadansoddiad o Fframwaith Llywodraethu 2019/20 ..........138
Egwyddor A ..........139
Egwyddor B ..........141
Egwyddor C ..........143
Egwyddor D ..........145
Egwyddor E ..........149
Egwyddor F ..........152
Egwyddor G ..........155
Adolygu Effeithiolrwydd ..........157
Materion Llywodraethu Sylweddol ..........158
Materion Llywodraethiant a nodwyd ..........159
Cynnydd mewn perthynas â'r Materion Llywodraethiant a Nodwyd 2018/19 ..........159
Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ..........161

## Rhagarweiniad

Er mwyn dangos Llywodraethu da, rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government' (CIPFA / Solace, 2016). Mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion hynny.


Mae agweddau ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi cael eu cryfhau a'u moderneiddio yn ystod y blynyddoedd diweddar ar draws nifer o themâu llywodraethu. Mae cynllun cyfredol y Cyngor wedi bod yn ei lle ers 2017 ac mae'n rhoddi pwyslais ar ein trefniadau llywodraethu fel modd o gyflawni allbynnau'r cynllun.

https://www.anglesey.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Democratiaeth/Cynllun-y-Cyngor/Cynllun-Cyngor-2017-2022.pdf

At hyn, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, datblygwyd chwech o themâu allweddol gan staff a rheolwyr i gefnogi ein nodau a'n hamcanion -


1. **Proffesiynol a Threfnus**
   *Rydym yn ymrwymo i ddatblygu partneriaeth ddemocrataidd a phroffesiynol a fydd yn darparu arweiniad effeithiol a chryf ac yn sefydlu'r ymddygiadau proffesiynol a sefydliadol sy'n angenrheidiol i sicrhau gwelliant.*
2. **Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig**
   *Byddwn yn sefydlu amgylchedd a diwylliant sy'n annog ac yn meithrin syniadau a datrysiadau arloesol a chreadigol sy'n edrych y tu draw i'r sefydliad er mwyn ceisio datrysiadau uchelgeisiol a fydd yn fanteisiol i'n cwsmeriaid, ein dinasyddion a'n cymunedau.*
3. **Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned**
   *Byddwn yn ymgysylltu'n egnïol gyda chymunedau, dinasyddion a chwsmeriaid, yn mofyn eu barn, yn deall eu hanghenion ac yn ymateb iddynt gan egluro'n llawn a chyfathrebu ein gweithredoedd.*
4. **Gwerthfawrogi a Datblygu'n Pobl**
   *Byddwn yn gwerthfawrogi ac yn datblygu ein pobl er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r cymhelliant a'u bod bob amser yn broffesiynol yn y modd y maent yn gweithio. Byddwn yn cydnabod llwyddiant, arloesedd ac ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwsmer rhagorol.*
5. **Wedi Ymrwymo i Bartneriaeth**
   *Rydym yn deall na fedrwn gyflawni'r trawsnewidiad angenrheidiol ar ein pennau ein hunain ac rydym yn ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda'n partneriaid yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat er mwyn sicrhau twf a datblygiad cynaliadwy.*
6. **Cyflawni**
   *Rydym yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac allbynnau ac yn ymdrechu i wella ein perfformiad yn y meysydd pwysig o'n gwaith.*

Gellir alinio'r rhain â'r saith egwyddor craidd yn fframwaith CIPFA/SOLACE. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn 'Delivering Good Governance in Local Government' (Wales) 2016 sydd wedi'i addasu at ddibenion llywodraeth leol :-




Ffynhonnell: Delivering Good Governance in Local Government: Framework (2016 Edition)

Mae'r Cyngor yn anelu at gyflawni safonau llywodraethu da drwy lynu wrth y saith egwyddor craidd uchod a hefyd wrth yr egwyddorion sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio Sylfaen Côd Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor.




*Ffynhonnell: Delivering Good Governance in Local Government Guidance Notes for Welsh Authorities (2016 Edition)*

Yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, rydym wedi ceisio dangos sut mae'r holl themâu ac egwyddorion allweddol uchod wedi bod yn ganolog i'n holl ymdrechion yn ystod 2019/20. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod datganiad eleni yn cael ei ddrafftio ar adeg pan amharwyd ar strwythurau a systemau llywodraethu arferol o ddydd i ddydd oherwydd ein hymateb wrth fynd i'r afael â phandemig COVID-19.

Roedd yr ymateb cyflym hwn (dros nos) yn ystod y 4edd wythnos o Fawrth, yn cynnwys ffyrdd newydd o weithio wrth ddelio â dyfodol ansicr iawn a wireddwyd trwy'r fframwaith llywodraethu argyfwng a sefydlwyd ac ymrwymiad a diwydrwydd y gweithlu a'i bartneriaid.

Arweiniwyd hyn gan ein Uwch Arweinwyr trwy sefydlu Tîm Ymateb Rheoli Argyfwng a rhai pwerau dirprwyedig a ddirprwywyd i'r Swyddogion perthnasol a'r Aelodau etholedig.

## Sgôp y Cyfrifoldeb

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei weithredu'n unol a'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Hefyd mae dyletswydd ar y Cyngor dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau bod **gwelliant parhaus** o ran y modd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth weithredu'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau iawn ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.


Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a mabwysiadu côd llywodraethu corfforaethol lleol sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government'. Mae'r côd lleol hwn i'w adolygu yn ystod 2020/21.

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio a'r côd ac yn ateb gofynion ymarfer priodol anstatudol sy'n annog cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Hefyd, mae'n diwallu gofynion rheoliad 4(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

## Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n rhoi cyfeiriad i ac sy'n rheoli'r awdurdod a'i weithgareddau, a thrwy'r rheiny mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith honno, ac wedi'i llunio i reoli risg hyd at lefel resymol. Does dim modd iddi gael gwared â phob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion a dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, y gellir ei rhoi o ran effeithiolrwydd. Ceir trosolwg bras o strwythur rheolaeth gwleidyddol CSYM yn y darlun isod –




Mae’r fframwaith llywodraethu wedi bod yn ei lle yn y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019, ac mae’n parhau i fod yn berthnasol hyd at ddyddiad cymeradwyo’r Datganiad Cyfrifon. Nodir yn y ddogfen lle cyflwynwyd trefniadau newydd yn ystod y flwyddyn.

Cafodd y cyfarfodydd cyhoeddus ar gyfer 2 bwyllgor anweithredol eu canslo ddiwedd mis Mawrth oherwydd y cyfnod cloi y pandemig Coronafeirws a cyflwyniad Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 a Deddf Coronafeirws 2020.

Mae’r Arweinydd wedi gweithredu ei phwerau i wneud penderfyniadau gweithredol ers dechrau’r argyfwng.Mae Aelodau eisoes wedi cael eu briffio ar y Ddeddf Coronafeirws a'i goblygiadau o ran rhwymedigaethau statudol y Cyngor. Mewn perthynas â chyfarfodydd Pwyllgor, ni fu'n bosibl cynnal busnes yn ôl yr arfer.

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn lleihau'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chyfarfodydd, tra'n caniatáu i Aelodau fynychu cyfarfodydd o bell ar gyfer unrhyw gyfarfodydd gofynnol. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf ‘o bell’ y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar 20 Mai gan ddefnyddio Microsoft Teams ac mae recordiad o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r Aelodau a'r swyddogion wedi addasu'n gyflym i ddefnyddio’r technoleg newydd a rydym wrthi’n datblygu datrysiadau ar gyfer cyfarfodydd ffrydio byw a gwasanaethau cyfieithu.

## Dadansoddiad o Fframwaith Llywodraethu 2019/20

Disgrifir y fframwaith cyfredol fel y bo’n berthnasol i bob un o’r saith egwyddor Llywodraethu Corfforaethol yn y pynciau cydgysylltiol fel y’u hamlinellir ac sydd ar gael yn:

https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cyngor.aspx#as?folderIds=3099,4000

Mae’r crynodeb a ganlyn yn canolbwyntio ar y gwaith i ddatblygu a chryfhau’r fframwaith ac yn amlinellu meysydd o wendid a nodwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20.

| Egwyddor A | |
|---|---|
| **Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu’r rheol gyfreithiol** | |
| Themâu Allweddol Cysylltiedig: | Proffesiynol a Threfnus |
| Casgliad yr Hunan-asesiad: | **Sicr –** Mae gan y Cyngor Sir brosesau gwneud penderfyniadau clir a thryloyw sy'n ymgorffori gwerthoedd moesegol cryf ac sy'n gyfreithlon. Mae'r codau ymddygiad yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer ymddwyn yn onest. |

**Y modd yr ydym yn gwneud hyn:**

Mae’r chwe thema allweddol a ymgorfforir yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2017-22 yn gosod allan gwerthoedd y Cyngor a chaiff y rhain eu gwreiddio’n gadarn yng ngweithgarwch trawsnewidiol y Cyngor a’i weledigaeth i’r dyfodol ar gyfer eu cyflawni. O’r herwydd, mae’r Chwe Thema Allweddol yn parhau i danategu’r ffordd gorfforaethol o weithio a chaiff pwysigrwydd llywodraethu da ei bwysleisio yn y Cynllun Corfforaethol.

Mae nifer o godau ymddygiad a phrotocolau yn eu lle fel rhan o’r Cyfansoddiad i sicrhau safonau uchel o ymddygiad ac ymarweddiad. Ceir Polisi Atal Twyll a Llygredd yn y

Cyfansoddiad gydag is-gynlluniau yn eu lle. Maent yn cynnwys Côd Ymddygiad i Swyddogion, sy'n statudol. Bellach mae Cyfarwyddyd Lleol wedi'i gyhoeddi a'i anfon at yr holl staff yn ystod 2018/19.

Mae'r Swyddog Monitro yn gweithredu fel y swyddog arweiniol ar gyfer y Pwyllgor Safonau (PS), gyda saith o'i naw aelod wedi'u penodi'n allanol a'r gweddill yn Aelodau Etholedig. Mae'r Pwyllgor yn datblygu ac yn cefnogi annibyniaeth a gwrthrychedd yn hytrach na llywodraethu gwleidyddol ac mae'n cyflawni hyn yn y ffyrdd a ganlyn:

- Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd i'r Cyngor
- Rhaglen Waith yn cael ei chymeradwyo'n flynyddol gan y Cyngor
- Pedwar cyfarfod chwarterol a chymaint o gyfarfodydd arbennig ag sy'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â chyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a cheisiadau am ganiatâd arbennig
- Ymdrin ag unrhyw faterion a gyfeirir dan y Protocol Datrysiad Lleol
- Ymdrin ag unrhyw gais gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am wybodaeth leol
- Hyfforddiant a datblygiad a drefnir gan y PS ac/neu a gynhelir gan y PS.

Mae fforwm y pwyllgor Safonau hefyd yn cynnal sesiynau dysgu blynyddol ac mae Adroddiad ar y Fforwm Pwyllgor Safonau a'r hyn a ddysgwyd o'r Fforwm yn cael eu derbyn gan y Pwyllgor. Nodir enghreifftiau o'r mathau o ddysgu a gyflawnwyd fel rhan o'r fforwm hwn yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn -

- Cyflwyniad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Gwersi gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Adolygiad Bywyd Cyhoeddus o'r Cod Ymddygiad yn Lloegr
- Trafodaeth y Cyd-bwyllgor Safonau ar greu cydbwyllgor safonau rhanbarthol.
- Trafodaeth ynghylch Adroddiadau WAO mewn perthynas â dau gyngor cymunedol o fewn CSYM.
- Adolygu tair cofrestr o ddiddordeb yr holl aelodau etholedig a chyfethol y Cyngor Sir gan adrodd yn ôl yn unigol i'r aelodau hynny ac ar y cyd ar ganfyddiadau ac argymhellion ar gyfer gwella a rhannu arfer dda.
- Cefnogi Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i ddelio â datrysynnau cwynion lleol.

Yn ogystal â'r uchod, ac yn barhad o 2018/19, ceir cydweithio rhwng y ddau dîm rheoli trwy'r cyfarfodydd Penaethiaid ac aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sy'n gweithredu

fel swyddogion cyswllt i Benaethiaid Gwasanaeth i sicrhau cyfathrebu clir ar sut y caiff blaenoriaethau strategol/corfforaethol eu gweithredu yn y Gwasanaethau.

Gyda phenodiad y Prif Weithredwr newydd yn ystod y flwyddyn, mae fforymau strategol pellach wedi'u sefydlu rhwng Uwch Swyddogion a'r Pwyllgor Gwaith i ddarparu cyfeiriad strategol ar nifer o ffrydiau gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd strategol Uwch Dîm Arweinyddiaeth bob pythefnos ynghyd â thrafodaethau Pwyllgor Gwaith strategol yn ôl yr angen.

| Egwyddor B | |
|---|---|
| **Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid** | |
| Themâu Allweddol Cysylltiedig: | Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned |
| Casgliad yr Hunan-asesiad: | **Sicr –** mae'r Cyngor yn bodoli i wasanaethu ei drigolion ac mae'n ddibynnol ar amrywiaeth eang o randdeiliaid i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Mae mecanweithiau ymgysylltu ac ymgynghori ar waith. |

**Y modd yr ydym yn gwneud hyn**:

Cynhelir pob **Pwyllgor Gwaith** a chyfarfodydd y Cyngor yn gyhoeddus (ac eithrio pan fo eitemau eithriedig) a chaiff yr holl bapurau eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae pob adroddiad a gyflwynir i bwyllgor yn cynnwys adroddiad eglurhaol, sy'n rhoi crynodeb o'r adroddiad, yr argymhellion y gofynnir am eu caniatáu a'r rhesymeg dros wneud yr argymhelliad hwnnw, a hynny er mwyn dangos yr ymresymiad am y penderfyniadau a'r dystiolaeth.

Mae **Blaenraglen Waith** gyfun ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgorau Sgriwtini ar gael yn gyhoeddus ac yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae yna amserlenni clir ar gyfer cyflwyno, cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau.

Fel gyda blynyddoedd blaenorol ac yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo weithio'n agos gyda'i bartneriaid allweddol yn y maes gwaith hwn er mwyn osgoi dyblygu ac i ddefnyddio'i adnoddau'n effeithiol.

Ceir tystiolaeth o ymgysylltu da ar lefel gwasanaeth sy'n dangos sut mae'r Cyngor yn rhannu ei benderfyniadau a cheir tystiolaeth o ddiwylliant cynyddol o ymddiriedaeth a dealltwriaeth gyda'i ddinasyddion e.e.

- Ymgynghori ar y Gyllideb
- Moderneiddio Ysgolion - Ardal Llangefni

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i gydnabod mai 'nid da lle gellir gwell' piau hi o ran ehangu'r grŵp o ddinasyddion sy'n mynd ati i ymgysylltu (yn cynnwys grwpiau

anodd eu cyrraedd) ac mae'r broses safonol a symlach ar gyfer ymgysylltu ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wedi dod yn weithreddol.

Defnyddir **model ymgysylltu cymunedol** fel sylfaen ar gyfer gwella agwedd gorfforaethol at ymgysylltiad cymunedol. Ers dechrau ei ddefnyddio, mae'r model hwn wedi'i deilwrio i'w ddefnyddio mewn gwahanol waith ymgysylltu ac ymgynghori. Mae'r model hwn wedi'i gymeradwyo gan y **Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori** diwygiedig dan arweiniad y Dirprwy Brif Weithredwr a chyda aelodaeth o sefydliadau allanol megis Medrwn Môn.

Mae'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori hefyd yn gweithredu ar draws Cynghorau yng nghyswllt yr ymgysylltiad a'r ymgynghoriad ac mae hyn yn lleihau dyblygu, yn sicrhau gweithredu torfol wrth ymgysylltu ac mae'n gwella ein gwybodaeth am ardal fel Cyngor.

Er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i gyfrannu at y nod corfforaethol o '*ganolbwyntio mewn modd rhagorol ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned* (6 Thema Allweddol), sefydlwyd y **Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes** yn Ionawr 2019 gan ddisodli'r Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer. Mae'n gyfrifol am bob agwedd ar Wasanaeth Cwsmer ac yn monitro ein gwelliannau ym mhrofiad cwsmer i'n trigolion gyda'r ffocws yn cael ei roi yn y lle cyntaf yn ystod 2019/20 ar

- Adnabod a gweithredu blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Strategaeth Ddigidol fel yr amlinellwyd gan y Penaethiaid a thrwy hynny ei gwneud hi'n haws i drigolion ymgysylltu â'r Cyngor drwy nifer cynyddol o sianeli digidol

Cytunwyd ar y **Siarter Gwasanaeth Cwsmer** bellach yn 2015 ar ôl ymgynghori â grwpiau o randdeiliaid rheng flaen, swyddogion, Aelodau Etholedig, staff ac undebau llafur. Mae'n parhau i amlinellu ein haddewid i'r cwsmer ynghylch sut y byddwn yn ymdrin â'u ceisiadau ac yn ogystal, yn amlinellu'r disgwyliadau sydd gennym o'n defnyddwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau y ceir dealltwriaeth glir o'r cychwyn cyntaf. Ymhlith y gwerthoedd a gynhwysir yn y Siarter mae, 'rhoi'r cwsmer yn gyntaf' a mabwysiau agwedd o 'fedru gwneud'.  Yn unol â'i bolisi iaith, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaeth ar gael yn newis iaith defnyddiwr y gwasanaeth ac o dan y Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes a nodwyd, mae'r gofyniad i ddiweddaru'r strategaeth yn nod allweddol ar gyfer 2020/21. Bydd angen i'w allbwn ystyried y 'byd newydd' y byddwn yn gweithredu trwyddo o ganlyniad i'r pandemig cyfredol a'i effaith ar weithgaredd cymdeithasol / wyneb yn wyneb.

Mae gweddarlledu cyfarfodydd yn enghraifft gadarnhaol o sut mae Ynys Môn wedi datblygu ei didwylledd a ffocws ar ei gwsmeriaid / ddinasyddion, a hynny trwy weddarlledu cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r Cyngor. Fel hyn mae hi byth ac mae hefyd yn ychwanegu at dryloywder y broses gwneud penderfyniadau ac mae'n dwyn i mewn gynulleidfa lawer ehangach ar gyfer dadleuon. Mae hon yn enghraifft effeithiol o'r rhaglen newid sianel ac ymgyrch barhaus

y Cyngor i roi sylw i adfywiad democrataidd a sicrhau mwy o gyfranogiad gan rhanddeiliaid.

Cyhoeddwyd adroddiadau blynyddol ar eu gwaith gan Sgriwtini yn ogystal â'r Pwyllgorau Safonau ac Archwilio. Ers Mehefin 2014, mae Aelodau Etholedig unigol hefyd wedi bod yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol a thrwy hynny yn pwysleisio atebolrwydd a didwylledd gwaith y Cyngor.

Mae trefniadau'n mynd yn ôl flynyddoedd ar gyfer ymgysylltu â gweithwyr: gydag Undebau Llafur trwy'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Cyd Lleol a chyfarfodydd llai ffurfiol ac wrth gyfathrebu â staff yn gyffredinol trwy e.e. bwletinau staff misol. Ymgynghorwyd â rheolwyr a staff a'u cynnwys yn y broses ar gyfer gwneud penderfyniad ar sawl mater fel rhan o'r agenda ddatblygiadol.

Mae **Polisi Pryderon a Chwynion** yn weithredol ac mae'n rhoi pwyslais ar Ofal Cwsmeriaid, cofnodi'n systemataidd yr holl bryderon, eu datrys yn gynnar a dangos gwersi a ddysgwyd a gweithredu gwelliannau. Mae'r Polisi'n seiliedig ar Bolisi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Cyhoeddir gwybodaeth ystadegol am gwynion fesul gwasanaeth yn fisol ar wefan y Cyngor ac mae hyn yn ffurfio rhan o adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio sydd hefyd yn ymdrin ag unrhyw gwynion yr ymdrinnir â nhw dan y Polisi Chwythu'r Chwiban.

| Egwyddor C | |
|---|---|
| **Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol** | |
| Themâu Allweddol Cysylltiedig: | Yn canolbwyntio ar y cwsmer, y dinesydd a'r Gymuned<br>Wedi ymrwymo i bartneriaeth<br>Cyflawni |
| Casgliad yr Hunan-asesiad: | **Sicr –** mae'r Cyngor Sir yn gweithio gyda chymunedau i gynllunio canlyniadau. Wrth bennu polisïau a strategaethau, mae'r Cyngor Sir yn edrych ar ganlyniadau yn y tymor hir, gan ystyried manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy. |

**Y modd yr ydym yn gwneud hyn**:

Mae Cynllun newydd y Cyngor 2017-2022 (a fabwysiadwyd ym Medi 2017) yn llywio gwaith y Cyngor ac yn rhoi sicrwydd o gyfeiriad ar gyfer yr ardal leol yn ystod 2019/20.

Mae'r cynllun yma yn disgrifio blaenoriaethau'r Cyngor yn gryno ac yn glir ac yn egluro sut mae'r blaenoriaethau'n adlewyrchu barn y cyhoedd ac wedi ei alinio gyda cyfeiriad y cynllun ariannol tymor canol. Mae hwn yn tanlinellu'r adnoddau sy'n ofynnol i wireddu'r cynllun cyfredol. Rhydd y Cynllun Corfforaethol fframwaith sy'n cynorthwyo i lunio cyllideb y gall yr Awdurdod asesu yn ei erbyn a rhoi cyfrif i'r gymuned ar lefel y cynnydd

a wnaed yn erbyn targedau a osodwyd, a'u hysbysu yng nghyswllt meysydd i'w gwella ymhellach. Yn ogystal, caiff y **Strategaeth Ariannol Tymor Canol** ei hadolygu'n flynyddol, yn unol â blaenoriaethau corfforaethol a ddiffinnir yn nhermau'r Dogfen Cylfawni Blynyddol ac sy'n dangos yn gryno ein nodau o ran buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Un maes sydd wedi bod eisiau yw strategaeth newid hinsawdd gorfforaethol i ddarparu cyfeiriad yn y dyfodol ar faterion amgylcheddol. Bydd hyn yn cael ei wireddu yn ystod 2020/21.

Mae pob gwasanaeth hefyd yn llunio **Cynllun Cyflawni Gwasanaeth** blynyddol sy'n dangos yn glir sut maent yn cyfrannu tuag at gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol. Mae pob cynllun gwasanaeth yn cynnwys mesurau i dystio sut y bydd gweithredoedd yn gwneud gwahaniaeth. Fel y dywedwyd, caiff cynlluniau gwasanaeth eu hadolygu'n flynyddol a chânt hefyd eu monitro'n rheolaidd trwy gynhyrchu cerdyn sgorio chwarterol - sy'n edrych ar sut mae gwasanaethau'n cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yn eu cynllun. Adroddir y cerdyn sgorio i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, ac fe'i hystyrir gan y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith a drosglwyddir yn fyw trwy we-ddarlledu.

At hyn, caiff **gwasanaethau eu hadolygu** bob chwe mis - gan edrych yn benodol ar y gyllideb a gwariant ym Mehefin ac ar berfformiad a chanlyniadau rhwng Tachwedd ac Ionawr. Mae aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac aelodau etholedig yn herio perfformiad gwasanaethau'n galed yn y sesiynau adolygu gwasanaeth. Yna, cytunir yn y cyfarfodydd ar weithredoedd i roi sylw i faterion neu wella perfformiad yn erbyn targedau dros y 12 mis nesaf.

Mae partneriaeth a chydweithrediad yn parhau i fod yn hanfodol i'r ffordd y mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni ei uchelgeisiau a'i raglen gorfforaethol. I Gyngor 'bychan' mae'n ffordd bwysig o greu capasiti ac mae'n sylfaenol i'n dull gweithredu o gyflawni blaenoriaethau ar y cyd. Credwn fod llwyddo i weithio mewn partneriaeth yn hanfodol i sicrhau gwasanaethau gwell i'n cwsmeriaid ac i sicrhau bod Ynys Môn yn llwyddiannus. Bydd gwella llesiant ein dinasyddion dan y ddeddfwriaeth newydd yn dibynnu'n fwyfwy arnom yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill.

Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu'n frwd â nifer o bartneriaethau strategol yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Yn ddiweddar, adolygwyd y meini prawf a'r rhesymeg dros fynd i bartneriaeth fel rhan o'r polisi a'r cyfarwyddyd ynghylch partneriaeth ac mae'r rheini'n parhau i fod yn berthnasol.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Môn wedi ymrwymo i bartneriaeth sy'n gweithio'n lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn darparu allbynnau a fydd o les ddinasyddion a'u cymunedau. Mae hyn wedi'i gydnabod fel cryfder mewn adroddiadau archwilio allanol i ni adeiladu arnynt. Mae'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn parhau i gymryd rhan frwd yn holl raglenni Cymru Gyfan a Gogledd Cymru i wella'r modd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu trwy gydweithrediad.

Mae trefniadau llywodraethu yn eu lle trwy **Gydweithredfa Gwella Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru (NWSWIC)** a'r **Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.** Mae gan NWSWIC raglen gynhwysfawr o welliant trwy gydweithrediad yn ei lle sy'n canolbwyntio ar y gofynion dan Ran 9 **Deddf Gwasansaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**. Mae modd tystio ymhellach i ethos y bartneriaeth hon trwy gydweithrediad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr trwy'r Bwrdd Cyflawni Integredig.

Mae'r **Gymraeg** yn ganolog i fywyd Môn ac mae'n rhan o'i threftadaeth ddiwylliannol, doreithog. Er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn strategol ar lefel gymunedol, mae'r Cyngor wedi sefydlu Fforwm Iaith mewn cydweithrediad â'i bartneriaid allweddol. Mae ei rôl yn cynnwys nodi cyfleoedd ar gyfer prosiectau cydweithredol megis Arfor, cynorthwyo i asesu effeithiau prosiectau economaidd graddfa fawr ar y Gymraeg a chraffu gwaith y Cyngor wrth hyrwyddo materion iaith.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu **Strategaeth Iaith Gymraeg** gyda'r nod o gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn ein cymunedau i 60% erbyn 2021. Mae hyn, ynghyd â chwrdd â disgwyliadau y Safonau Iaith Gymraeg yn rhoi fframwaith cadarn i waith partneriaeth y dyfodol er mwyn sefydlu'n gadarn y defnydd a wneir o'r Gymraeg ar draws gwasanaethau a darpariaeth mewn cymunedau.

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn y broses o ddatblygu cynllun gweithredu newid hinsawdd a fydd yn arwain penderfyniadau sy'n ymwneud â newid hinsawdd dros y tymor sydd i ddod. Mae'n cael ei ddatblygu trwy ddull traws-gyngor o dan arweinyddiaeth ein Dirprwy Brif Weithredwr ac mae'n ceisio dysgu o'r buddion hinsawdd a grëir gan lawer yn y gweithlu ac adeiladu arnynt.

| Egwyddor D | |
|---|---|
| **Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu** | |
| Themâu Allweddol Cysylltiedig: | Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig |
| Casgliad yr Hunan-asesiad: | **Sicr –** mae'r Cyngor Sir yn gwneud penderfyniadau ar ymyriadau yn seiliedig ar ei weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau, gan ymgysylltu â chymunedau, rheoleiddwyr ac arbenigedd ymarferol swyddogion gwasanaeth proffesiynol. Mae'r cyfuniad hwn yn arwain at optimeiddio cyflawniad y deilliannau a fwriedir |

**Y modd yr ydym yn gwneud hyn**:

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn **Gyfansoddiad** cydnabyddedig sy'n gosod allan yn glir sut mae'r Cyngor yn gweithredu a sut y gwneir penderfyniadau ac mae angen dilyn gweithdrefnau i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd effeithlon.

Mae'r trefniadau ar gyfer dirprwyo penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith i Aelodau unigol bellach wedi ennill eu plwyf ar draws yr Awdurdod.

Ers nifer o flynyddoedd, mae Aelodau a'r cyhoedd wedi cael y fantais lawn o gael gweld papurau pwyllgor a gwybodaeth ategol.

Aelodau Etholedig sy'n **cymeradwyo Polisi ac yn gwneud penderfyniadau** ac mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd ac eithrio pan drafodir materion eithriedig gan Aelodau Etholedig dan Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r Cyngor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Mae'n cymeradwyo polisïau cyffredinol ac yn gosod y gyllideb yn flynyddol. Mae'r Cyngor yn cytuno ar ffurf Pwyllgorau'r Awdurdod (yn unol â darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 lle bo'n briodol), yn penodi arweinydd y Cyngor (sydd yn ei dro/thro yn penodi Pwyllgor Gwaith y Cyngor) ac yn cynnal yr holl swyddogaethau eraill a neilltuir iddo dan y Cyfansoddiad.

Mae llywodraethu gwleidyddol wedi'i sefydlu'n gadarn yn yr awdurdod ers yr etholiad diwethaf ac mae grŵp arweinyddol traws-bleidiol o 21 aelod etholedig nawr yn arwain yn Cyngor. Gwnaed newidiadau penodol i'r Cyfansoddiad, megis cyflwyno tymor pedair / pum mlynedd ar gyfer Arweinydd y Cyngor ac mae hyn wedi arwain at sefydlogrwydd gwleidyddol.

Mae'r sylfeini hyn wedi creu strwythur sy'n caniatáu ar gyfer llywodraethu gwleidyddol effeithiol. Dengys y dystiolaeth o'r ychydig flynyddoedd diwethaf broses o wneud penderfyniadau sy'n gweithio ac yn effeithiol, gyda pheirianwaith priodol ar gyfer sicrwydd a gwella perfformiad.

Mae'r dull gweithredu'n cynnwys **y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Cynllunio a Thrwyddedu, Sgriwtini, a'r Pwyllgor Safonau**.

Mae gan y ***Cyngor*** gyfrifoldeb am y fframwaith cyllideb a pholisi. Materion i'r Cyngor yw adroddiadau llywodraethu allweddol a'r Cyngor sy'n cytuno ar y gyllideb refeniw a chyfalaf blynyddol.

Y ***Pwyllgor Gwaith*** yw'r corff allweddol i wneud penderfyniadau ac mae'n cynnwys yr Arweinydd (sy'n cymryd y portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol) ac wyth Deilydd Portffolio, sy'n cymryd cyfrifoldeb am y portffolios a ganlyn:

- Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant
- Cynllunio a'r Gwarchod y Cyhoedd
- Trawsnewid Gwasanaethau & Iaith Gymraeg
- Cyllid
- Corfforaethol
- Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff
- Datblygiadau Mawr a Datblygu'r Economi
- Tai a Chefnogi Cymunedau.


***Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu*** yn rhan allweddol o fframwaith llywodraethu'r awdurdod. Mae gan y Pwyllgor ddau aelod lleyg cyfetholedig sy'n ehangu ei brofiad a'i wybodaeth annibynnol. Mae'r rhain wedi'u penodi am gyfnod y Cyngor cyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor a'i swyddogion statudol ar ba mor ddigonol yw'r fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol a chywirdeb yr adrodd ariannol. Wrth oruchwylio gwaith archwilio mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, mae'n gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau fod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle.

Mae'r Pwyllgor yn cynnal hunanasesiad blynyddol o'i berfformiad sy'n llywio'i flaengynllun gwaith.

Mae'r ***Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd*** yn cyfarfod yn chwarterol ac mae'n gyfrifol am adolygu'r gefnogaeth i Aelodau sy'n cynnwys; datblygiad Aelodau, adnoddau staffio, cyfleusterau, a sicrhau ei bod yn ddigonol. Rhoddwyd i Gadeirydd y Cyngor ddisgrifiad swydd penodol, ac mae gan aelodau'r pwyllgor ddisgrifiad swydd ar wahân sy'n gosod allan eu rolau a'u cyfrifoldebau.  Mae'r Cadeirydd hefyd yn gweithredu fel Pencampwr Datblygu Aelodau. Mae Pwyllgorau Sgriwtini'n rhan o'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu. Eu prif swyddogaeth yw dal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliant, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rôl yn y broses o ddatblygu ac adolygu polisïau. Drwy sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd cadarn ac effeithiol mae sgriwtini Aelodau'n gwneud cyfraniad hanfodol bwysig i drefniadau llywodraethu effeithiol.

Mae'r swyddogaeth sgriwtini yn y Cyngor yn parhau i gael ei chyflawni drwy strwythur sy'n cynnwys dau riant bwyllgor a thri phanel:




Canolbwynt gwaith y **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** yw darparu sicrwydd ynghylch:

- perfformiad a chyflawniad yr holl wasanaethau
- sicrhau bod y Cyngor yn llwyddo i gyflawni ei amcanion corfforaethol ac amcanion y gwasanaethau
- cefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus

Prif ffocws y **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** yw sicrhau bod buddiannau dinasyddion yr Ynys yn cael eu hyrwyddo ac y gwneir y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor ac y ceir gwerth ychwanegol o weithio gyda phartneriaid. Mae cylch gorchwyl y pwyllgor yn cynnwys trefniadau rhanbarthol a chenedlaethol ynghyd â threfniadau lleol. Y pwyllgor hwn hefyd yw'r Pwyllgor Trosedd

ac Anhrefn dynodedig fel sy’n ofynnol dan Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 a’r pwyllgor dynodedig hefyd ar gyfer craffu gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd.

Yn ddiweddar, rydym wedi mabwysiadu rhaglen ddatblygu sy’n darparu fframwaith ar blaenoriaethu nifer o themâu allweddol. Dros y 12 mis diwethaf, bu ein ffocws ar:

| Atgyfnerthu ymagwedd “Cyngor gyfan” tuag at Sgriwtini | Gwella’r effaith a gaiff Sgriwtini | Adeiladu capasiti a gallu ar gyfer Sgriwtini effeithiol | Gwella ymgysylltiad cyhoeddus yn ein gwaith Sgriwtini | Llesiant Cenedlaethau’r Cyfodol a Sgriwtini |
|---|---|---|---|---|

Mae Aelodau’n cynrychioli Sgriwtini ar wahanol Fyrddau Mewnol a grwpiau adolygu a phwrpas hyn yw hyrwyddo cynhwysiant, ychwanegu gwerth at y drafodaeth ac adrodd yn ôl i’w Pwyllgorau Sgriwtini ar gynnydd a chodi meysydd sydd angen eu craffu’n ffurfiol efallai. Mae’r ddau Bwyllgor Sgriwtini’n cyflwyno adroddiadau ar eu gweithgareddau i’r Cyngor yn ei gyfarfod blynyddol.

Er mwyn gyrru’r rhaglen newid a chyflawni Cynllun y Cyngor, mae Fframwaith Rheoli Rhaglenni ar waith.

Mae dau **Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol** fel a ganlyn -

1. Bwrdd Rhaglen Llywodraethiant Corfforaethol, a
2. Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau.

Mae’r rhain â throsolwg o nifer o brosiectau blaenoriaeth uchel y mae’r Cyngor wedi ymrwymo i’w cyflawni ac y mae’n gyfrifol am osod cyfeiriad ar eu cyfer.

Mae’r naill Fwrdd Trawsnewid Corfforaethol a’r llall yn cynnwys cynrychiolwyr o’r ddau Bwyllgor Sgriwtini a’r Pwyllgor Gwaith, gan roi cyfle i nodi meysydd lle gall rôl yr Aelodau ychwanegu gwerth un ai at y Byrddau eu hunain neu drwy’r broses Sgriwtini.

Mae’r dull corfforaethol o reoli prosiectau a rhaglenni’n aeddfedu flwyddyn ar ôl blwyddyn yn sgil cryfhau ein trefniadau Llywodraethu. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi arfer da mewn rhai o’n rhaglenni ac mae prosiectau a rhaglenni eraill wedi cael llwyddiant cenedlaethol yn ogystal â chydnabyddiaeth Brydeinig dros yr ychydig o flynyddoedd diwethaf.

Mae enghreifftiau (di-gynhwysfawr) o'r canlyniadau a fwriadwyd a wireddwyd trwy'r fframwaith hwn yn cynnwys –

- Cadarnhau ein safle fel Cyngor sy'n perfformio'n dda yng Nghymru
- Agoriad Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch
- Gwireddu parhaus bod bron i 70% o wastraff cartref yn cael ei ailgylchu bob blwyddyn
- Agoriad Neuadd y Farchnad, Caergybi wedi'i hailwampio gyda llyfrgell newydd y dref

Mae gwaith pellach yn symud yn ei flaen ar draws gwahanol raglenni a phrosiectau ond mae pandemig COVID-19 wedi dod â stop i drafodion o ddydd i ddydd mewn nifer o feysydd oherwydd bod nifer o aelodau staff wedi cael eu hailgyfeirio i brosiectau a rhaglenni a ddatblygwyd i ddelio â'r achosion a sicrhau bod trigolion Ynys Môn a staff y Cyngor yn cael eu hamddiffyn ac yn cael eu cadw mor ddiogel â phosibl tra hefyd yn cael eu cefnogi yn unol â hynny.

Mae'r ffordd y mae'r Cyngor wedi ymateb i sefyllfa argyfwng COVID-19 wedi cael ei gefnogi gan -

- Llywodraethu cadarn ar gyfer ei ymateb brys
- Darpariaeth TG gadarn ac effeithiol sy'n sail i'r trefniadau ymateb brys cyfredol
- Proses effeithiol ar gyfer casglu, dadansoddi a rhannu ffynonellau gwybodaeth lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn galluogi gwneud penderfyniadau lleol gwybodus.
- Ymgysylltu'n effeithiol a chydweithio â strwythurau a threfniadau ymateb brys rhanbarthol er mwyn dysgu am arfer da gan awdurdodau eraill a sefydliadau ymateb brys

Mae'r uchod yn dangos bod gan y Cyngor systemau a strwythurau priodol mewn lle i bennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd i'r eithaf hyd yn oed ar adegau pan fydd yn wynebu sefyllfa frys ryngwladol fel COVID-19. Mae hefyd yn amlinellu sut y bydd llywodraethu mewnol yn cael ei ddefnyddio i lywio, dylanwadu, monitro a gyrru gweithgareddau'r awdurdod ymlaen i sicrhau bod yr Ynys yn adfer o’r argyfwng.

| Egwyddor E | |
|---|---|
| **Datblygu capasiti’r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a’r unigolion ynddo** | |
| Themâu Allweddol Cysylltiedig: | Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl |
| Casgliad yr Hunan-asesiad: | **Sicr** – Mae’r Cyngor Sir â’r strwythurau a’r arweinyddiaeth briodol yn ei lle a phobl a chanddynt y sgiliau a’r cymwysterau cywir i sicrhau ei fod yn gweithredu’n effeithlon ac yn effeithlon er mwyn cyflawni’r canlyniadau a ddeisyfir. Bod polisïau a strategaethau clir yn eu lle i brofi bod ganddo’r capasiti i gyflawni’r hyn sy’n ofynnol ohono ynghyd â’r capasiti gweithredol. |

**Y modd yr ydym yn gwneud hyn**:

Mae’r Cyngor wedi llwyddo i fodloni gofynion **Siarter Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Cefnogi Aelodau** i gydnabod y gwaith yr ydym wedi’i wneud i roi cefnogaeth o safon uchel i Aelodau i’w galluogi i ymgymryd â’u gwahanol rolau, sy’n amrywio o arweinydd cymunedol i’w cyfrifoldebau arbennig yn y Cyngor.

At hyn, mae’r rhan fwyaf o Aelodau wedi cael adolygiadau datblygiad proffesiynol ac mae anghenion hyfforddi wedi’u nodi o’r rhain. Yn ei ddyddiau cynnar ym Môn, gwelir

bod datblygiad o'r fath yn allweddol i alluogi aelodau i fod yn fwy effeithiol yn eu rôl. Mae hyn wedi'i ymestyn ymhellach i gynnwys Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau y mae eu perfformiad a'u hamcanion yn cael eu hadolygu gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau. Caiff hyfforddiant aelodau ei fonitro gan Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor.

Dros y 12 mis diwethaf mae'r Cyngor wedi parhau i ddefnyddio'r sesiynau briffio i aelodau sydd bellach wedi ennill eu plwyf, sef sesiynau briffio ar ddatblygiadau mawr / strategaethau allweddol a chynigion y gyllideb. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol i gynyddu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth ehangach o wahanol gynlluniau cyn cynnal trafnodaethau a chyn craffu ymhellach mewn fforymau cyhoeddus.

Mae Strategaeth Pobl y Cyngor yn parhau i gefnogi gweledigaeth y Cyngor a fframwaith i ni ddatblygu ymhellach y modd yr ydym yn rheoli pobl.

Mae gan y Strategaeth Pobl bum blaenoriaeth allweddol:

- Recriwtio a chadw'r bobl orau (arloesol, uchelgeisiol ac eangfrydig)
- Ysbrydoli rhagoriaeth gwasanaeth (canolbwyntio ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned)
- Creu effeithlonrwydd sefydliadol (proffesiynol a threfnus)
- Ymgysylltu, datblygu a rheoli ein Talent (gwerthfawrogi ein pobl a'u datblygu)
- Datblygu sgiliau a chapasiti ein gweithlu (gwerthfawrogi ein pobl a'u datblygu)

Mae'r **Fforwm Rheolwyr** yn parhau gydag egni diwygiedig ac mae bellach yn cael ei arwain gan y Pennaeth Gwasanaeth Plant mewn cydweithrediad â Swyddogion. Fel rhan o'u gweithgarwch, rhoddwyd i unigolion ar draws yr awdurdod gyfle i weithio ar brosiectau a strategaethau corfforaethol.

Mae'r **seremoni gwobrwyo staff** yn parhau ac mae'n cydnabod, yn dathlu, ac yn hyrwyddo llwyddiannau staff y Cyngor. Bob dydd mae'n staff yn gweithio'n galed i gyflawni gwasanaethau cyhoeddus i bobl Môn, ac mae gwobrwyo staff yn gyfle i arddangos gwaith da a dangos faint yr ydym yn gwerthfawrogi ein pobl. Mae chwe chategori o wobrau sy'n efelychu'r '*Chwe Thema Allweddol'.* Yn ystod 2018 cafodd y seremoni ei hymestyn ymhellach i gynnwys gwobrau cydnabod staff gan gynnwys Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn, Gwobr yr Arweinydd, Gwobr y Pwyllgor Gwaith a Gowbr y Cadeirydd.

Yn ystod 2019 cynhaliwyd arolwg staff ac rydym yn aros i gyhoeddi'r canlyniadau. Gohiriwyd hyn o ganlyniad i ymateb y Cyngor i bandemig y Coronafirws.

Mae gan y Cyngor ***Gynllun Cydraddoldeb* 2020-24** strategol a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith ym Mawrth 2020 sy'n amlygu'n hymrwymiad i gydraddoldeb, wrth ddarparu gwasanaethau ac fel cyflogwr mawr, ac i gael gwared â gwahaniaethu'n annheg ac anghyfreithlon yn ein holl bolisïau, gweithdrefnau ac arferion. Yn ei adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiwn Cydraddoldeb cynhwysir cynnydd ar ei flaenoriaethau

allweddol ac mae'r Cyngor yn aelod allweddol o rwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru.

Mae ymgysylltiad mewnol yn hanfodol i ddatblygu diwylliant 'Tîm Môn' ac mae angen mireinio ac adolygu ymhellach ar ôl y pandemig gan ddefnyddio'r dysgu i ddod hyd yn oed yn fwy effeithiol ac effeithlon gyda'n **Fframwaith Cyfathrebu Mewnol** er mwyn galluogi a sicrhau fod Swyddogion ar bob lefel yn y Cyngor yn cymryd mwy o ran. Mae sylwadau a barn staff ac Aelodau o ran cyfrannu tuag at yr agenda gorfforaethol yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi. Mae'r cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Cyfarfodydd Penaethiaid misol
- Cynhadledd Rheolwyr Chwarterol
- Sesiynau Briffio Aelodau
- Gweithdai Thematig (h.y. y gyllideb)
- Cyfarfodydd Rheoli Gwasanaeth
- Adolygiadau Gwasanaeth Blynyddol
- Cyfarfodydd Tîm
- Goruchwyliaeth Un i Un
- Gwerthuso gweithwyr
- Cynlluniau awgrymiadau staff
- Defnyddio Y Ddolen i gael gwybodaeth gyson am gynlluniau corfforaethol
- Defnyddio Medra Môn fel newyddlen

Er bod cyfathrebu mewnol, corfforaethol wedi gwella'n sylweddol dan arweinyddiaeth yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth diwygiedig o dan y Brif Weithredwr newydd - y teimlad o hyd yw bod hwn yn faes gwaith sy'n gwella o hyd ac sy'n datblygu o dan y cyfleoedd a roddir gan welliannau mewn technolegau. Mae'r cyflwyniad o 'MS Teams' a chyflwyniadau 'youtube' yn enghraifft o hyn ac mae wedi bod yn allweddol yn y ffordd y mae'r Cyngor wedi cynnal ei fusnes yn ystod y pandemig.

Mae'r sesiynau briffio, anffurfiol, rheolaidd i Aelodau (a nodwyd yn gynharach) yn ei gwneud yn bosib cael gwell dealltwriaeth o feysydd gwaith penodol ac yn caniatáu iddynt baratoi ar gyfer sgriwtini a gwneud penderfyniadau gwybodus.

Rydym yn Gyngor cwbl ddwyieithog ac mae cyfran uchel o'n staff a'r rhan fwyaf o'n haelodau yn Gymry Cymraeg iaith gyntaf. O'r herwydd, cynhyrchir yr holl ohebiaeth gorfforaethol yn ddwyieithog, gan roi i staff ac aelodau'r gallu i gyfathrebu yn eu dewis iaith. Cefnogir siaradwyr nad ydynt yn rhugl eu Cymraeg i wella eu sgiliau iaith mewn amgylchedd cynhwysol.

| Egwyddor F | |
|---|---|
| **Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref** | |
| Themâu Allweddol Cysylltiedig: | Yn broffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda |
| Casgliad yr Hunan-asesiad: | **Sicr** – Mae gan y Cyngor system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso cyflawniad effeithiol ac effeithlon ei wasanaethu. Mae rheoli risg a rheolaethau mewnol yn rhannau hanfodol a phwysig o'r system rheoli perfformiad ac maent yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r canlyniadau sydd yng Nghynllun y Cyngor. |

**Y modd yr ydym yn gwneud hyn**:

Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ei le sy'n cychwyn gyda Chynllun y Cyngor ar gyfer y tymor canol (mae'r cynllun cyfredol, fel y dywedwyd uchod, ar gyfer 2017/2022) a Chynllun Cyflawni Blynyddol bob blwyddyn wedyn. Yn y rhain, nodir blaenoriaethau allweddol y Cyngor a'r hyn y mae'n gobeithio ei gyflawni. Mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys adroddiadau ar reoli perfformiad er mwyn nodi a yw'r Cyngor yn cyflawni'r amcanion a gynlluniwyd. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys cardiau sgorio chwarterol, heriau hanner blwyddyn i Wasanaethau ac adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Gwaith ac i Sgriwtini.

Bu'n rhaid gohirio'r Dogfen Gyflawni Blynyddol ar gyfer 20/21 oherwydd pandemig Coronafirws a bydd nawr yn cael ei adrodd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Gellir dweud yr un peth am y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 20/21 na chafodd ei gynhyrchu oherwydd adleoli staff i ymateb i'r pandemig.

Mae'r Fframwaith Perfformiad yn parhau i esblygu a chanolbwyntio ar waith hunanasesu Penaethiaid Gwasanaethau, ac ar feysydd allweddol risg a thrawsnewid. Yn ystod 2019/20, cynhaliwyd cyfres o Adolygiadau Gwasanaeth oedd yn ymwneud ag

(i) Arbedion a Chyllidebau Gwasanaeth (Mehefin-Gorffennaf 2019)

(ii) Perfformiad (Tachwedd 2019 - Ionawr 2020).

Daeth yr Adolygiad Perfformiad i'r casgliad fod tystiolaeth gyffredinol fod y Gwasanaethau'n dangos gwelliant parhaus. Llwyddwyd i gyflawni hyn o ganlyniad i ymrwymiad cyson ac awydd ar ran y Pwyllgor Gwaith ac Aelodau Etholedig, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth i yrru gwelliannau ac amcanion.

Daeth yr adolygiad **Polisi a Fframwaith Rheoli Risg** yn 2017 i'r casgliad, er bod gwaith i'w wneud o hyd i wreiddio rheoli risg yn llawn trwy'r Cyngor, mae cynnydd wedi'i wneud ac mae'n parhau. Mae hyn yn parhau i fod yn wir ar hyn o bryd yn 2020 a gellir dangos tystiolaeth yn y ffordd y mae'r Cyngor Sir wedi cydlynu ei ymdrechion i ddelio â phandemig COVID 19.

Gweithredwyd meddalwedd rheoli risg yn ystod 18/19 a fydd o gymorth i wella effeithiolrwydd y modd y caiff risgiau'r Cyngor ei rheoli drwy wella'r dulliau o gofnodi, asesu, monitro ac adrodd ar risgiau a sefydlu rheoli risg ymhellach ym mhrosesau'r Cyngor. Yn ychwanegol at hyn, mae'r feddalwedd yn darparu cyfleuster i gofnodi'r 'tair llinell sicrwydd' a fydd yn rhoi gwell sicrwydd i'r sawl sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw risgiau i'r Cyngor yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn parhau i adolygu y **Gofrestr Risg Gorfforaethol** ar sail chwarterol. Mae disgwyl i wasanaethau ddiweddaru eu cofrestri risg yn chwarterol gyda risgiau "coch" neu "ambr" yn cael eu huwch-gyfeirio i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth iddyn nhw ystyried eu cynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Yn ystod 2019/2020 cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ddiweddariadau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Ers dechrau'r pandemig, mae'r Tîm Ymateb Rheoli Argyfwng (EMRT) wedi ystyried y risgiau esblygol sy'n gysylltiedig â'r pandemig ac yn ei reoli'n effeithiol i liniaru iechyd parhaus dinasyddion, staff ac aelodau etholedig yn y broses orau o wneud penderfyniadau.

Rhoes y Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyaeth i'r **Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC)** am y cyfnod 2018/19 i 2020/21 ym Medi 2019. Adnabu'r CATC yr arbedion posib yr oedd eu hangen dros y cyfnod tair blynedd gan osod y strategaeth ar gyfer cyllideb 2019/20. Rhoes y Cyngor llawn ei gymeradwyaeth i'r gyllideb ariannol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2020. Roedd y gofyn i wneud toriadau ac arbedion i'r gyllideb yn rhan ganolog o waith gosod y gyllideb. Noda'r cynllun a ddiweddarwyd bod angen parhau i ganolbwyntio ar ostwng y gyllideb a nodi rhagor o arbedion dros y tair blynedd nesaf er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y dyfodol, yn enwedig yng ngoleuni datblygiadau diweddar a gorfod ymdopi â chostau ychwanegol o ganlyniad i'n dull o ddelio â'r pandemig rhyngwladol.

Cynhaliwyd Proses Cynllunio'r Gyllideb o Fehefin 2019 hyd at Mawrth 2020. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori gyda grwpiau statudol, yn cynnwys y Fforwm Ysgolion, Cynghorau Tref a Chymuned, a busnesau, yn ogystal ag â rhanddeiliaid eraill. Rhoddwyd ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith i'r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad wrth iddynt lunio eu cynigion ar gyfer y gyllideb derfynol ac arweiniodd at dynnu'n ôl rai cynigion a diwygio rhai eraill.

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddatblygu a sefydlu'n gadarn strwythurau, systemau, prosesau a threfniadau cefnogol i sicrhau eu bod yn cefnogi'r pwysau sydd ar Awdurdod Lleol yn yr 21ain ganrif. Mae trefniadau ffurfiol yn eu lle i reoli perfformiad, cyllid, rhaglenni a chontractau sy'n cyfrannu at gynnal elfennau allweddol llywodraethu. Mae rhain yn cynnwys -

- **Adroddiadau ariannol chwarterol** (Refeniw a Chyfalaf)

- Mae trefniadau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn dilyn ymarfer proffesiynol a chânt eu hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn.
- Dengys Hunanasesiad Archwilio Mewnol yn erbyn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) fod y gwasanaeth yn cael ei gyflawni i'r safonau gofynnol. Mae'r cynllun gweithredu gan Aseswyr Ansawdd Allanol PSIAS wedi cael ei weithredu'n llwyr.
- Mae'r **strategaeth gaffael** bellach wedi cael ei hymestyn ar draws y Cyngor sy'n allweddol i lwyddiant parhaus yr Awdurdod wrth gaffael cynhyrchion a gwasanaethau. Mae'r tîm Caffael wedi datblygu a sefydlu polisïau newydd, strategaeth rheoli contractau, yn ogystal ag adolygu'r weithdrefn gontractau. Mae hyfforddiant ar y strategaeth a'r rheolau gweithdrefn contractau wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn gyda hynny'n arwain at well cydymffurfiaeth.
- Cadarnhaodd y **Dystysgrif Cydymffurfio Flynyddol** bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yng nghyswllt adrodd ariannol, defnyddio adnoddau, cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad.
- Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â l**lywodraethiant gwybodaeth** yn ystod y flwyddyn. Dan arweinyddiaeth yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO), mae Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol (CIGB) yn parhau i fod mewn bodolaeth. Mae'r Grŵp hwn yn fforwm priodol ar gyfer rhoi sylw i faterion llywodraethiant corfforaethol. Mae'n derbyn adroddiadau ynghylch y modd y mae pob Gwasanaeth yn perfformio o ran meysydd rheoli gwybodaeth allweddol. Mae'n asesu risg ac yn argymell ac yn monitro camau unioni er mwyn lliniaru'r risg i'r asedau gwybodaeth y mae'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol yn berchen arnynt. Gall y CIGB adrodd yn uniongyrchol ar faterion i Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor.

Ym marn y SIRO, mae cryn dystiolaeth ddogfennol sy'n dangos:

- Bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth gyda Llywodraethu Gwybodaeth a diogelu data yn rhesymol effeithiol;
- Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gwrdd â'r heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r ddeddfwriaeth diogelu data newydd ac mae'n gweithredu mewn modd sy'n cydymffurfio;
- Mae'r Cyngor â phrosesau yn eu lle i brofi i'r ICO ei fod yn cydymffurfio ac mae'n cydymffurfio gydag egwyddor atebolrwydd GDPR;
- Mae rheoli data yn parhau i fod yn risg ganolig i'r Cyngor ac mae'n debygol o aros felly oherwydd sensitifrwydd y data personol y mae'n ei brosesu, sy'n amrywio o wasanaeth i wasanaeth

I weld adroddiad blynyddol y SIRO, dilynwch y linc isod: http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s16219/Adroddiad%20SIRO.pdf?LLL=1

| Egwyddor G | |
|---|---|
| **Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio** | |
| Themâu Allweddol Cysylltiedig**:** | Yn broffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda |
| Casgliad yr Hunan-asesiad: | **Sicr** – Mae Aelodau Etholedig y Cyngor a'r Uwch Reolwyr yn atebol am wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau sy'n cael eu cefnogi gan archwiliadau mewnol ac allanol. Mae gweithgareddau'n cael eu hymgymryd â nhw mewn dulliau tryloyw a chlir y gall cydranddeiliaid eu deall ac ymateb iddynt |

**Y modd yr ydym yn gwneud hyn**:

Mae'r holl **raglenni a'r adroddiadau ar gael ar Wefan y Cyngor** oni bai eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am 'ddatganiadau o ddiddordeb' a wneir mewn cyfarfodydd. Cyhoeddir Cofrestr Diddordebau'r Aelodau ar Wefan y Cyngor hefyd.

Fel y nodwyd yn flaenorol yn Adran D, mae dau **Bwyllgor Sgriwtini**; y naill yn ymwneud â gwaith mewnol y Cyngor - *Sgriwtini Corfforaethol*, a'r llall yn ymwneud â phartneriaethau allanol ac effaith y Cyngor ar ei gymunedau - *Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio*. Mae'r ddau bwyllgor hyn wedi galluogi i Aelodau edrych ar y Cyngor, ei rôl a'i effaith mewn modd cyfannol a chorfforaethol.

Mae'r **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** yn gyfrifol am adolygu'r gefnogaeth a roddir i Aelodau sy'n cynnwys; Datblygu aelodau, adnoddau staffio, cyfleusterau, a sicrhau ei bod yn ddigonol. Rhoddwyd i Gadeirydd y Pwyllgor ddisgrifiad swydd penodol, ac mae gan aelodau'r pwyllgor ddisgrifiad swydd ar wahân, sy'n gosod allan rolau a chyfrifoldebau. Y Cadeirydd, hefyd, yw'r Pencampwr Datblygu Aelodau ac mae'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd rhwydwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru lle rhennir arfer gorau.

Mae'r **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried effeithlonrwydd rheolaeth fewnol, gwaith rheoli risg a threfniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'n monitro gwaith archwilwyr ac arolygwyr allanol a mewnol, yn monitro perthynas rhwng archwilwyr a staff ac yn monitro'r ymatebion i argymhellion archwilio ac arolygu.

Mae nifer o Aelodau wedi cael adolygiadau datblygiad proffesiynol ac fe nodwyd anghenion hyfforddi o'r rhain. Bellach, mae hyn wedi'i ymestyn i gynnwys Aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau y caiff eu perfformiad a'u hamcanion eu hadolygu gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Mae'r Cyngor wedi parhau gyda'r arfer o gynnal sesiynau briffio i aelodau'n unig yn fisol ar ddatblygiadau mawr / strategaethau allweddol a chynigion y gyllideb. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol i gynyddu'r gwerthfawrogiad a'r ddealltwriaeth ehangach o wahanol gynlluniau cyn eu trafod a'u craffu ymhellach mewn fforymau cyhoeddus.

Mae gan y Cyngor berthynas wrthrychol a phroffesiynol gyda'i archwilwyr allanol a'i arolygwyr statudol, fel y tystir gan yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol. Gellir gweld yr adroddiad yma - https://www.audit.wales/cy/system/files/publications/1356A2019-20_Isle_of_Anglesey_AIR_Welsh.pdf

Yn ystod 2019/20, parhaodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol i weithredu'r safonau a nodwyd yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) (Mawrth 2017) a'r Nodyn Cymhwysiad Llywodraeth Leol. Mae'r Siarter Archwilio Mewnol yn diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y swyddogaeth archwilio mewnol a arweinir gan y Pennaeth Archwilio a Risg.

Yn ogystal, cydnabuwyd fod gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoli risgiau yn chwarae rôl greiddiol a hanfodol wrth gynnal system gadarn o reolaeth fewnol.

Er mai'r rheolwyr sy'n dal y cyfrifoldeb am adnabod a rheoli risgiau, un o rolau allweddol archwilio mewnol yw darparu sicrwydd fod y broses o reoli'r risgiau hynny wedi cael ei rheoli'n briodol.

Y ffordd orau i weithgarwch archwilio mewnol proffesiynol gyflawni ei ddiben fel congl-faen llywodraethiant yw gosod ei waith yng nghyd-destun fframwaith rheoli risg y sefydliad ei hun.

Mae archwilio mewnol ar-sail-risg yn caniatáu i archwilio mewnol roi sicrwydd i'r 'rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant' fod prosesau rheoli risg yn rheoli risgiau'n effeithiol, mewn perthynas â'r archwaeth risg. Mae hefyd yn anelu ym mhob cam i atgyfnerthu cyfrifoldebau'r rheolwyr a'r aelodau etholedig dros reoli risg.

O ganlyniad, mae'r cynllun Archwilio Mewnol yn newid yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn yn dilyn ymweliadau gan y Pennaeth Archwilio a Risg â gwasanaethau a newidiadau i'r gofrestr risg gorfforaethol.

Bydd yr Uwch Dîm Rheoli, Aelodau a swyddogion o Archwilio Mewnol a Thrawsnewid Corfforaethol yn cyfarfod yn rheolaidd â rheoleiddwyr allanol i drafod y Gofrestr Risg Gorfforaethol, datblygiadau allweddol, canfyddiadau'r holl adroddiadau allanol ac i roi diweddariad ar gynnydd a wneir i weithredu argymhellion.

Ni chafodd pandemic Coronafirws unrhyw effaith ar gwblhau'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2019/20 ac roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn gallu cyhoeddi barn archwilio flynyddol lawn fel yn arferol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi llwyddo i reoli a gwerthuso'i hun yn rheolaidd ac, yn sgil hynny, mae barn rheoleiddwyr wedi bod yn gadarnhaol o ran parodrwydd i gyflawni.

Cafodd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd eu harchwilio'n wreiddiol gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Tachwedd 2016 a nodwyd bod angen gwneud gwelliannau. Yn eu

hadroddiad dilyn i fyny yn ddiweddar (Adroddiad Arolwg Gwasanaethau Plant– Hydref 2018) nodwyd:

- "Llwyddodd y gwasanaethau plant i ddangos eu bod wedi gwneud gwelliannau sylweddol mewn nifer o feysydd allweddol a bod angen gwneud gwaith pellach mewn rhai meysydd eraill.
- Mae morâl y staff yn uchel ac mae awydd ac ymrwymiad ar bob lefel i barhau i weithio'n galed ar y siwrnai i welliant er mwyn darparu gwasanaethau ardderchog ar gyfer plant.
- Mae arweinyddiaeth a llywodraethiant cryf yn y gwasanaethau plant. Roedd modd i aelodau'r cyngor ddangos sut yr oeddynt wedi cyfrannu tuag at y siwrnai i wella'r gwasanaethau plant. Mae uwch swyddogion yn weladwy, ar gael ac yn gyrru'r gwelliannau".

Parhaodd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd â'r gwaith da sydd eisoes wedi'i wneud gan y gwasanaeth a datblygwyd Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol a oedd yn cynnwys y meysydd a nodwyd gan AGC, yn dilyn eu hail archwiliaid, fel rhai yr oedd angen eu datblygu. Mae hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Panel Gwella Plant sy'n cynnwys Swyddogion ac Aelodau Etholedig fel aelodaeth.

Mae Llywodraeth Cymru, wedi barnu bod mwyafrif llethol ysgolion Môn bellach yn perfformio'n effeithiol (ysgolion sydd â graddfa melyn neu wyrdd) gydag 13 o'r ysgolion cynradd hyn yn y categori uchaf (gwyrdd) yn 2019 (o gymharu â 11 yn 2018). Mae modd gweld bod nifer yr ysgolion sydd wedi'u rhoi yn y categori coch (h.y. ysgolion y mae arnynt angen cefnogaeth sylweddol) wedi parhau ar ddim yn ystod 2019.

Mae Fframwaith Estyn ar gyfer arolygu ysgolion yr awdurdod yn asesu safonau addysgu, dysgu a llesiant disgyblion mewn ysgolion unigol. Arolygodd Estyn 6 o ysgolion cynradd yn 2018/19 a dangosodd y canlyniadau nad oedd angen camau dilyn i fyny mewn 5 o'r ysgolion tra bod angen i Estyn adolygu 1 ysgol. Ar hyn o bryd, mae 2 ysgol yn parhau i fod yng nghategorïau dilyn i fyny Estyn, a chaiff yr ysgolion hyn eu monitro gan y Panel Sgriwtini Safonau Addysg.

## Adolygu Effeithiolrwydd

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd wedi ei siapio gan waith rheolwyr o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu wedi ei werthuso trwy gyfuniad o:-

- canlyniadau adolygiadau a monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd o fewn y flwyddyn neu yn ymwneud â'r flwyddyn;
- adolygiad o gynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol;

- adolygu adborth gan Estyn ac AGC a’r panelau sgriwtini cysylltiedig ar y gwaith gwella sy’n gysylltiedig ag Addysg a’r Gwasanaethau Plant;
- cyfres o gyfweliadau gyda swyddogion allweddol;
- trafodaeth gyda, a chael sylwadau gan, grwpiau o swyddogion ac aelodau gan gynnwys yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith.

Yn ogystal, mae adolygiadau a monitro rheolaidd yn cynnwys:-

- gweithgarwch rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol i’r risgiau hynny sy’n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
- Archwilio Mewnol, y mae eu gwaith yn cymryd ystyriaeth o risgiau sydd wedi eu hadnabod, trwy archwiliadau cyson o’n prif systemau, sefydliadau, prosiectau mawr a phrif brosesau llywodraethu gan gynnwys rheoli risg, a hynny’n unol â’r strategaeth archwilio mewnol flynyddol ac yn cynnwys gwaith ‘dilyn-i-fyny’ i sicrhau fod uwch swyddogion yn gweithredu’r argymhellion sydd wedi eu cytuno;
- yr asesiad blynyddol o’r swyddogaeth Archwilio Mewnol gan archwilwyr allanol y Cyngor;
- gwaith Pwyllgorau Sgriwtini a phwyllgorau eraill y Cyngor gan gynnwys ei bwyllgorau Archwilio a Llywodraethu a Safonau,
- barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ynghyd ag asiantaethau adolygu ac arolygwyr eraill,
- monitro cyson gan aelodau ac uwch-reolwyr o welliant a pherfformiad yn erbyn y Cynllun Corfforaethol a’r cynlluniau a’r strategaethau cefnogol.

Cymeradwyir y polisïau allweddol, ac unrhyw ddiwygiadau iddynt gan y Pwyllgor Gwaith, ac fe’u mabwysiadir yn ffurfiol gan y Cyngor Sir fel bo’r angen.

Ni arweiniodd y pandemig coronafirws at unrhyw faterion rheolaeth fewnol na llywodraethu sylweddol yn ystod 2019/20.

## Materion Llywodraethu Sylweddol

Daeth ein hadroddiad Archwilio Mewnol ein hunain ar gyfer 2019/20 i'r casgliad canlynol –

**Nid oes unrhyw faterion sydd â risg neu effaith sylweddol uchel sy'n cyfiawnhau eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

Yn ystod 2019-20, rydym wedi gweld bod uwch reolwyr yn y Cyngor yn gefnogol ac yn ymatebol i'r materion a godwyd gennym. Mae gennym berthynas dda â'r rheolwyr; maent yn rhannu'r meysydd yn agored lle maent yn eu hystyried yn broblemau posibl ac yn ystyried canlyniadau ein gwaith fel cyfle i wneud gwelliannau. Rydym hefyd wedi cael ein comisiynu i wneud gwaith ymgynghorol yn ystod y flwyddyn ar gais y rheolwyr, sy'n rhoi dangosydd cryf bod rheolwyr yn barod i ymgysylltu ag Archwilio Mewnol i sefydlu amgylcheddau risg a rheoli da.

## Materion Llywodraethiant a nodwyd

### Cynnydd mewn perthynas â'r Materion Llywodraethiant a Nodwyd 2018/19

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r Materion Llywodraethiant a nodwyd yn ystod 2018/19 ac yn cynnwys diweddariad ar gynnydd a wnaed yn ystod 2019/20:

| Camau gweithedu a nodwyd i fynd i'r afael â'r gwendidau | Swyddog Arweiniol / Gwasanaeth / Bwrdd | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|
| • Cynyddu'r ddealltwriaeth o Ddiogelu Corfforaethol yn y Gwasanaethau. Dylid gwneud hyn trwy hyfforddiant cyffredinol a lefel uwch fel sy'n briodol. | Bwrdd Diogelu Corfforaethol | Gweithredir hyfforddiant fel y bo'n briodol trwy gydol y flwyddyn trwy'r 'Learning Pool'. I fod yn fodiwl blynyddol rheolaidd yn y blynyddoedd i ddod. |
| • Cychwyn ail-lenwi'r balansau cyffredinol drwy weithredu'r gyllideb newydd y cytunwyd arni yn dilyn y broses o osod y gyllideb<br><br>• Parhau i adolygu'r trefniadau ar gyfer diweddaru, cytuno ar a monitro'r Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol | Swyddog A151 | Mae ffigurau alldro drafft 2019/20 yn dangos tanwariant cyffredinol o £ 250k.<br><br>Mae'r pandemig presennol wedi newid sefyllfa ariannol y Cyngor yn sylweddol a gallai hyn leihau'r balansau yn sylweddol.<br><br>Bydd yn rhaid gwneud gwaith pellach. |
| • Parhau â'r gwaith da sydd eisoes wedi cael ei wneud gan y gwasanaeth a datblygu Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd yn dilyn yr ail archwiliad | Pennaeth Gwasanaeth – Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | Mae'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth wedi bod mewn lle ers Ebrill 2019. Adolygir hwn yn y Panel Gwasanaethau Cymdeithasol yn fisol. |
| • Dylai'r holl Wasanaethau adolygu eu gwariant er mwyn sicrhau fod contractau addas i'r pwrpas yn eu lle | Pob Pennaeth Gwasanaeth | Mae Adnoddau wedi adolygu'r holl wasanaethau allanol ac mae contract mewn lle ar gyfer yr holl wasanaethau |
| • Lleihau i'r eithaf yn y dyfodol ar achosion o ddal cymorthdaliadau'n ôl drwy gytuno ar amserlen gydag archwilwyr allanol ac | Swyddog A151 | Mae'r WAO wedi cymryd drosodd yr archwiliad o'r cymorthdaliadau sy'n ddyledus (17/18 a 18/19). Mae'r gwaith wedi symud ymlaen ac rydym yn agos at gwblhau'r cymhorthdal |

| | | |
|---|---|---|
| uwchgyfeirio materion fel y cytunwyd gan archwilwyr allanol os nad yw'r amserlen yn cael ei pharchu. | | 17/18 a fydd yn rhyddhau tua £6m mewn daliadau cymhorthdal yn ôl |
| • Cytuno ar strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer Gwasanaeth Cwsmer | Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes | Mae cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid wedi'i ddatblygu o dan y Bwrdd ac wedi'i lofnodi gan y Penaethiaid. |
| • Monitro effeithiau Credyd Cynhwysol ac effeitholrwydd unrhyw gamau lliniaru | Pennaeth Gwasanaeth – Tai | Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol ac arweinydd y Cyngor ar gyfer y gwaith hwn yw'r Rheolwr Gwasanaeth, Tai Cymunedol<br><br>Trefnir cyfarfod hwb Credyd Cynhwysol aml-asiantaeth yn rheolaidd - mae angen adolygiad<br><br>Gwasanaethau O'Toole yn parhau i ateb y galw am hawliau lles / Cymorth cyngor i drigolion ledled yr Ynys. Mae pedwar achos wedi cael eu datblygu i sicrhau ein bod yn cefnogi'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd gyda Thrafnidiaeth ac i sicrhau bod dull a arweinir gan y Gymuned mewn lle.<br><br>Mae'r berthynas â'r DWP yn rhagorol.<br><br>Diweddariadau Corfforaethol aml i sicrhau bod staff y Cyngor yn ymwybodol o ble i droi pe bai angen cefnogaeth UC ar gyfer unrhyw breswylydd<br><br>Adolygir cynllun gweithredu ar ôl gweithredu bob yn ail fis ac adroddir ar y cynnydd i Hwb UC |
| • Mae gweithgor traws-adrannol yn cynnwys y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fel pencampwr, wedi cael ei sefydlu i sicrhau cydymffurfiaeth o ran PCI DSS. | Swyddog A151 | Mae'r gweithgor bellach yn cwrdd bob chwarter o dan Gadeiryddiaeth y Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau. Mae'r holl staff wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol a chynhelir yr asesiadau risg priodol i sicrhau cydymffurfiad parhaus. |

# Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym wedi ein cynghori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a bod y trefniadau yn parhau i gael eu hystyried fel rhai sy'n addas i bwrpas yn gyson â'r fframwaith llywodraethu. Mae'r meysydd sydd wedi cael sylw a'r rhai sydd i'w trafod yn benodol trwy weithredu o'r newydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen.

Rydym yn bwriadu cymryd camau priodol i ymdrin â'r gwendidau hyn a'r rhai eraill a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i wella ymhellach ein trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn y flwyddyn sydd i ddod. Fe fyddwn yn monitro gweithrediad y gwelliannau trwy'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

**Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn**

**Arweinydd y Cyngor**
**Dyddiad: Medi 2020**

**Prif Weithredwr**
**Dyddiad: Medi 2020**

# Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon – Cyngor Sir Ynys Mon

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: 20 Hydref 2020

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich cyfrifon. Mae rhai materion y mae angen rhoi gwybod ichi amdanynt cyn eu cymeradwyo.


Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad 4

Effaith Covid-19 ar Archwiliad Eleni 5

Barn Archwilio Arfaethedig 6

Materion Arwyddocaol 6

Argymhellion 8

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau 8

Atodiad 2 – Adroddiad Archwilio Arfaethedig 11

Atodiad 3 – Argymhellion 14

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

## Cyflwyniad

1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2019-20. yn yr adroddiad hwn.

2 Rydym wedi rhannu'r ISA260 ddrafft gyda'r rheolwyr cyn ei gyhoeddi ac mae disgwyl i ni drafod y materion sy'n codi gyda'r A151, y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg a'r Rheolwr Cyllid ar 8 Hydref 2020.

3 Ni all archwilwyr byth roi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai arwain fel arall at gamarwain rhywun sy'n defnyddio'r cyfrifon.

4 Fe bennon ni lefel o £3,700,000 ar gyfer hyn yn archwiliad eleni.

5 Rydym bellach bron â bod wedi cwblhau archwiliad eleni ond mae'r gwaith canlynol yn dal heb ei gwblhau:

- Cwblhau ac adolygu'r Atebolrwydd Pensiwn ar ôl derbyn sicrwydd SCR19 o Archwiliwr y Gronfa Bensiwn yn ogystal â chasgliadau mewn perthynas ag achosion McCloud a Goodwin;
- Rydym yn aros am benderfyniad am y gwahaniaethau a nodwyd rhwng yr adroddiad priswyr ar gyfer diwedd y flwyddyn 31 Mawrth 2020 a glasbrintiau. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw arwydd y byddai'r canlyniad hwn yn newid y ffigurau yn y cyfrifon yn sylweddol, ond gallai arwain at gyflwyno eitem camddatganiad heb ei addasu yn y llythyr cynrychiolaeth a fydd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cyngor ac argymhelliad a fydd yn cael ei gyfleu i'r rheolwyr;
- Cwblhau ein profion gan gynnwys dyledwyr, profion arian parod ar ôl dyddiad;
- Derbyn cadarnhad swyddog monitro cyfreithiol o unrhyw faterion sy'n weddill;
- Derbyn cyfrifon terfynol a'u hadolygu i sicrhau bod rhestr wirio SSCCC ac eithriadau ansawdd archwilio wedi cael sylw;
- Cwblhau ein gweithgareddau adolygu ac adrodd gan gynnwys adolygiadau ansawdd a chlirio sylwadau adolygiad;
- Adolygiad digwyddiadau dilynol i'w ddiweddaru i'r dyddiad arwyddo yn ystyried y datgeliadau sy'n ofynnol yn y datganiadau ariannol;
- Adolygiad o fersiwn derfynol y cyfrifon;
- Derbyn Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i lofnodi.

6 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; bod yn annibynnol arnoch chi; ac, ni pheryglwyd ein

gwrthrychedd mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthnasoedd rhyngom ni a chithau a allai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein tyb ni.

# Effaith Covid-19 ar Archwiliad Eleni

7 Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar bob agwedd ar ein cymdeithas ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith eich bod yn paratoi cyfrifon ac mae'n glod sylweddol i ymrwymiad eich tîm cyfrifon eich bod wedi llwyddo i wneud hynny eleni yn wyneb yr heriau a achosir gan y pandemig hwn. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i broffesiynoldeb y tîm o ran y modd y gwnaethant ein cynorthwyo ni i gwblhau ein harchwiliad dan amgylchiadau mor anodd.

8 Nid yw'n syndod bod y pandemig wedi effeithio ar ein harchwiliad ac rydym yn crynhoi'r prif effeithiau yn **Arddangosyn 1**. Ac eithrio lle'r ydym yn gwneud argymhellion yn benodol, darperir y manylder yn **Arddangosyn 1** er gwybodaeth yn unig i'ch helpu chi i ddeall effaith pandemig Covid-19 ar broses archwilio eleni.

**Arddangosyn 1 – effaith Covid-19 ar archwiliad eleni**

| | |
|---|---|
| **Amserlen** | • Newidiwyd y terfyn amser ar gyfer cwblhau eich cyfrifon gan Llywodraeth Cymru o 15 Mehefin 2020 i 30 Awst 2020, ac y terfyn amser i gyhoeddi'r cyfrifon archwiliedig o 15 Medi 2020 i 30 Tachwedd 2020.<br>• Cawsom y cyfrifon drafft ar 15 Mehefin 2020.<br>• Rydym yn disgwyl i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi ar 23 Hydref 2020. |
| **Llofnodion electronig** | Mae llofnodion electronig yn ddull a ganiateir i ardystio a chymeradwyo datganiadau ariannol a bydd y dull hwn yn cael ei ddefnyddio gan Archwilio Cymru. |
| **Tystiolaeth archwilio** | Nid ydym wedi gallu cynnal ein harchwiliad ar safle Llangefni y Cyngor oherwydd pandemig Covid-19. Fe wnaeth drafodiaethau cynnar gyda'r tîm ddynodi y gellid cynnal yr archwiliad o bell trwy ddefnyddio Sharefile diogel a Microsoft TEAMS. Gan ddefnyddio'r platfform hwn, rydym wedi gallu rhannu sgriniau ac arsylwi aelodau'r tîm yn rhedeg adroddiadau a'u hanfon atom, yn union fel y byddem yn arsylwi ar hyn wrth eistedd wrth ymyl yr unigolyn. Ni fu unrhyw newid i'n dull archwilio arferol. |
| **Arall** | Roedd effaith Covid-19 yn golygu bod angen i ni ffactorio ystyriaethau ychwanegol yn ein hasesiad risg ac roedd angen |

gwaith pellach ar rai meysydd o'n harchwiliad, fel prisiadau eiddo, pensiynau, a'r asesiad busnes gweithredol. Nodwn ei fod hefyd wedi arwain at ansicrwydd perthnasol ynghlwm a'r prisiadau eiddo a gynhyrchwyd gan Brisiwr y Cyngor, yn ogystal a mewn perthynas â gwerth teg asedau'r cynllun pensiwn.

9 Byddwn yn adolygu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu ar gyfer ein proses archwilio o bandemig Covid-19 a pha un a oes arferion arloesol y gallem eu mabwysiadu yn y dyfodol i wella'r broses honno.

# Barn Archwilio Arfaethedig

10 Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn ddiamod ar gyfrifon** eleni unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.

11 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.

12 Mae'r Llythyr Sylwadau'n cynnwys rhai cadarnhadau y mae'n ofynnol inni eu cael gennych chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhad o wybodaeth benodol arall yr ydych chi wedi'i darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.

13 Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

# Materion Arwyddocaol sy'n codi o'r Archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

14 Rydym yn nodi isod y camddatganiadau a ganfuwyd gennym yn y cyfrifon, sydd wedi cael eu trafod gyda'r rheolwyr ond sy'n dal heb eu cywiro. Gofynnwn fod y rhain yn cael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn ichi ddarparu'r rhesymau dros beidio â'u cywiro ar ein cyfer yn ysgrifenedig.

- Er ein bod yn nodi ein bod yn aros i'r gwaith gael ei gwblhau mewn perthynas ag achos Goodwin lle gwnaed her gyfreithiol yn erbyn y Llywodraeth mewn perthynas â buddion pensiwn anghyfartal ar gyfer priod gwrywaidd aelodau benywaidd (mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1988). Cadarnhaodd Tribiwnlys Cyflogaeth yr hawliad yn ddiweddar, a wnaeth arwain at angen cydnabod atebolrwydd ychwanegol yn FY20, fel digwyddiad addasu ar ôl y fantolen, fel cost gwasanaeth yn y gorffennol. Nodwn fod hwn yn faes sydd wedi bod yn datblygu ers i'r cyfrifon gael eu drafftio yn gyntaf, ac mae ein harbenigwyr pensiwn wedi amcangyfrif y

gallai effaith hyn fod tua 0.2% o'r rhwymedigaeth budd diffiniedig (h.y. tua £2m) sydd ddim yn cael ei ystyried yn berthnasol.

### Camddatganiadau a gywirwyd

15 Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Nid oedd y rhain yn berthnasol felly nid ydym yn credu bod angen tynnu eich sylw atynt**.**

### Materion Arwyddocaol eraill sy’n codi o’r Archwiliad

16 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy’n ymwneud â’r cyfrifon ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw faterion arwyddocaol sy’n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn y flwyddyn yma.

## Argymhellion

17 Caiff yr argymhellion sy’n codi o’n harchwiliad eu nodi yn **Atodiad 3**. Mae’r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol i ganfod pa gynnydd a wnaed gyda hwy yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Lle mae unrhyw gamau gweithredu heb eu cymryd, byddwn yn parhau i fonitro’r cynnydd ac yn adrodd wrthych am hynny yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
CAERDYDD
CF11 9LJ

23 Hydref 2020

# Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2019/20

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Mon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol. Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

# Sylwadau rheolwyr

## Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
  - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;

  - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt, yn eich barn chi.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ynys Mon ac yn ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ar y datganiadau ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Mae perthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig wedi'u cyfrifo a'u datgelu yn briodol.

Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n digwydd yn dilyn y dyddiad adrodd y mae angen eu haddasu neu eu datgelu wedi'u haddasu ar gyfer neu eu datgelu.

Yr holl ymgyfreitha gwirioneddol neu bosibl a hysbysir y dylai ei effeithiau gael eu hystyried wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi'u datgelu i'r archwilydd a'u cyfrifo a'u datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid yw gwerth yr asedau sy'n cael eu dal ar hyn o bryd ar gost hanesyddol, ond dylid rhoi cyfrif amdanynt yn ôl eu gwerth cyfredol yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol, yn sylweddol wahanol i'w gwerth cyfredol.

Mae'r atebolrwydd pensiwn, a datgeliadau cysylltiedig o fewn y datganiadau ariannol, yn gyfredol yn dilyn datblygiadau yn achosion cyfreithiol McCloud a Goodwin. Lle nad yw'r atebolrwydd wedi'i ddiweddaru ar gyfer datblygiadau perthnasol, nid yw effaith hyn yn faterol.

# Sylwadau gan y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Sir Ynys Mon ar 8 Medi 2020.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Swyddog A.151<br>Cyngor Sir Ynys Mon | Swyddog neu Aelod sy'n llofnodi ar ran y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu<br>Cyngor Sir Ynys Mon |
| Dyddiad: | Dyddiad: |

# Atodiad 2

## Adroddiad Archwilio Arfaethedig

**Adroddiad yr archwilydd annibynnol o Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ynys Mon**

### Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

**Barn**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol a nodiadau cysylltiedig Cyngor Sir Ynys Mon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Mon yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Mon ar 31 Mawrth 2020 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

**Pwyslais mater – ansicrwydd materol yn ymwneud â phrisiadau eiddo**

Tynnaf sylw at Nodyn 3 at y datganiadau ariannol, sy'n disgrifio cymal ansicrwydd prisiad materol sy'n deillio o amgylchiadau a achoswyd gan y pandemig COVID-19. Nid yw fy marn wedi newid mewn perthynas â'r mater hwn.

**Pwyslais mater - Cronfeydd eiddo'r DU**

Tynnaf sylw at Nodyn 41 at y datganiadau ariannol sy'n disgrifio ansicrwydd perthnasol ynghylch prisiad cronfeydd eiddo'r DU a reolir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd. Nid yw fy marn wedi newid mewn perthynas â'r mater hwn.

**Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu’r cyngor i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Adrodd ar ofynion eraill**

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cyngor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif neu’r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Mon yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 9, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | 24 Heol y Gadeirlan |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| [Dyddiad] | CF11 9LJ |

# Atodiad 3

## Argymhellion

Rydym yn nodi’r holl argymhellion sy’n codi o’n harchwiliad gydag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf ac yn cynnwys unrhyw faterion sy’n dal heb gael sylw yn adroddiad archwilio’r flwyddyn nesaf:

| **Mater yn codi 1 - Canfyddiadau TG** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Fel rhan o'n harchwiliad ariannol gwnaethom benodi arbenigwyr TG i helpu'r tîm archwilio wrth brofi priodoldeb systemau TG y Cyngor sy'n cael effaith uniongyrchol ar gynhyrchu'r datganiadau ariannol. Nododd yr arbenigwyr TG nifer o argymhellion sydd wedi cael eu cyfleu i'r rheolwyr. |
| **Blaenoriaeth** | Isel |
| **Argymhelliad** | Argymhellir bod y rheolwyr yn gweithio gyda'r Rheolwr TG er mwyn sicrhau y caiff yr argymhellion hyn eu rhoi ar waith yn brydlon. |
| **Manteision rhoi’r argymhelliad ar waith** | Gwella ansawdd a chadernid y systemau TG. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Derbyn yn rhannol |
| **Ymateb y rheolwyr** | Mae'r rheolwyr yn gweithio gyda'r adran TGCh i gytuno ar y camau sydd eu hangen. |
| **Dyddiad rhoi ar waith** | 2020/21 |

# Argymhellion yn codi o’n gwaith archwilio ariannol 2018-19

Rydym yn nodi’r holl argymhellion sy’n codi o’n harchwiliad yn 2018-19, gydag ymateb y rheolwyr iddynt. Rydym wedi dilyn rhain i fyny yn archwiliad 2019-20 ac wedi cofnodi’r canlyniadau isod.

| **Mater yn codi 1 - ResourceLink – Paramedrau cyfrinair** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodwyd y gwendidau canlynol gyda pharamedrau ' r cyfrinair ar y rhaglen ResourceLink:<br>-Hyd y cyfrinair lleiaf = 4 nod (arfer dda = 8)<br>-Hanes cyfrinair = heb ei osod (arfer dda = lleiafswm 5 wedi ' i gofio)<br>-Terfyn cyfrinair = heb ei osod (arfer da = uchafswm 90 diwrnod)<br>-Trothwy cloi = 4 (arfer dda = uchafswm 5 ymgais)<br>-Hyd cloi = heb ei osod (arfer dda = 24 awr/ailosod gweinyddwr).<br>Yn gyfanredol mae hyn yn golygu y gall defnyddwyr ddewis cyfrineiriau syml, hawdd eu dyfalu, a fyddai ' n gwrthddweud polisi diogelwch y Cyngor ac yn cynyddu'r risg y gellid cael mynediad i’w cyfrifon yn amhriodol.<br>Nodwyd y gwendidau canlynol gyda pharamedrau ' r cyfrinair ar barth Windows:<br>-Terfyn cyfrinair = 12 mis (arfer dda = uchafswm 90 diwrnod)<br>-Hyd cloi = 30 munud (arfer da = 24 awr/ailosod gweinyddwr)<br>Nodwyd nad yw ' r gosodiadau canlynol yn cael eu newid o ddiofyn ffatri ac nad ydynt yn cael eu gorfodi ar gronfa ddata Oracle sy ' n cefnogi ResourceLink:<br>-Hyd lleiaf |

| | |
|---|---|
| | -Hanes cyfrinair<br>-Cyfrinair yn dod i ben<br>-Cymhlethdod<br>Hefyd, mae ' r cyfnod cloi allan wedi ' i osod i 1 munud, nad yw ' n unol ag arferion da ' r diwydiant.<br>Mae diffyg rheolaethau cyfrinair cryf yn cynyddu bregusrwydd y system tuag at ymosodiadau grym a phartïon diawdurdod yn cael mynediad i ' r systemau. Dylid diogelu cronfeydd data yn arbennig o ystyried eu natur a gallu defnyddwyr i drin y data yn uniongyrchol.<br>Yn ogystal, gyda ' r ddeddfwriaeth GDPR, dylai pob cais sy ' n dal data personol fod â pharamedrau cyfrinair caeth i sicrhau na chollir unrhyw ddata a allai arwain at gosbau ariannol i ' r Cyngor. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Argymhellir bod y paramedrau cyfrinair yn cael eu diwygio i adlewyrchu arfer da. |
| **Manteision rhoi'r argymhelliad ar waith** | Mae gosodiadau paramedrau cyfrinair gwan yn cynyddu ' r risg o ymosodiadau ' r grym yn sylweddol a gallai arwain at unigolion anawdurdodedig yn cael mynediad amhriodol at ddata cyfrinachol. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Mae canllawiau NCSC yn nodi, os yw cyfrineiriau yn rhy hir bod defnyddwyr yn fwy tebygol o'u hysgrifennu i lawr. Bydd 9 Cymeriad yn cynnig mwy o ddiogelwch na'r 7 blaenorol ond mae hefyd yn lleihau'r tebygolrwydd o ddefnyddwyr yn ysgrifennu cyfrineiriau i lawr, sydd yn erbyn ein polisi TG. Mae ein system Atal a Chanfod ymyrraeth yn Mônitro'r rhwydwaith ar gyfer traffig/gweithredoedd a allai fod yn faleisus, sawl ymgais i logio mewn i'r Cyfeirlyfr Actif yw un o'r paramedrau hynny. Mae ein polisi mewngofnodi yn eich cloi allan ar ôl 3 cais aflwyddiannus i fewngofnodi ac yn dilyn hynny rhaid i'r defnyddiwr gysylltu â'r Ddesg Gymorth er mwyn gofyn am gael ei ddatgloi. Nid ydym yn teimlo y |

| | |
|---|---|
| | byddai'n briodol anfon e-bost at ddefnyddwyr bob tro y bydd rhywun yn logio mewn i'w cyfrif yn llwyddiannus er y byddwn yn ymchwilio i hysbysiad o fethu a logio mewn yn llwyddiannus. |
| **Dyddiad rhoi ar waith** | 31 Mawrth 2020 |
| **Dilynol** | Rydym yn falch o nodi bod nifer o'r camau uchod wedi mynd i'r afael, ac mae'r isod yn parhau i alw am sylw:<br><br>Nodwyd y gwendid canlynol gyda'r paramedrau cyfrinair ar y cais SX3:<br><br>Hyd cloi allan = Gwag<br><br>Ail-godwyd yr argymhelliad a'i gyfleu i'r rheolwyr fel rhan o argymhelliad y flwyddyn gyfredol 'Mater yn codi 2 - Canfyddiadau TG'. |

| **Mater yn codi 2 - mynediad amserol sy ' n pydru.** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodwyd mai dim ond ar ôl i un o berchnogion y ceisiadau dderbyn e-bost ' allan o ' r Swyddfa ' o gyfrif e-bost yr ymadawr y dirymwyd mynediad SX3. Ni chyflwynwyd unrhyw gais am docyn nac e-bost i hysbysu gweinyddwyr SX3 o ' r ymadawyr yn ymadael. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir bod mynediad y rhai sy ' n gadael yn cael ei ddiddymu mewn modd amserol |
| **Manteision rhoi'r argymhelliad ar waith** | Mae gosodiadau paramedrau cyfrinair gwan yn cynyddu ' r risg o ymosodiadau ' r grym yn sylweddol |

| | |
|---|---|
| | a gallai arwain at unigolion anawdurdodedig yn cael mynediad amhriodol at ddata cyfrinachol. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Mae gosodiadau paramedrau cyfrinair gwan yn cynyddu ' r risg o ymosodiadau ' r grym yn sylweddol a gallai arwain at unigolion anawdurdodedig yn cael mynediad amhriodol at ddata cyfrinachol. |
| **Dyddiad rhoi ar waith** | 31 Mawrth 2020 |
| **Dilynol** | Ail-godwyd yr argymhelliad a'i gyfleu i'r rheolwyr fel rhan o argymhelliad y flwyddyn gyfredol 'Mater yn codi 2 - Canfyddiadau TG'. |

| **Mater yn codi 3 - Trafodion partïon cysylltiedig** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Mae trafodion partïon cysylltiedig hefo'r un gofynion awdurdodi â thrafodion safonol. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Dylai trafodion partïon cysylltiedig fod â gofynion awdurdodi penodol i ymateb i'r risg gynhenid sy'n bresennol ym mhartïon cysylltiedig. |
| **Manteision rhoi'r argymhelliad ar waith** | Argymhellir y dylai ' r Cyngor adolygu ' r broses awdurdodi ar gyfer trafodion partïon cysylltiedig o ystyried y risg gynhenid sy ' n deillio o natur y math o drafodiad. |

| | |
|---|---|
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Bydd y mater hwn yn ffurfio rhan o broses adolygu diwedd blwyddyn yr adran. |
| **Dyddiad rhoi ar waith** | 31 Mawrth 2020 |
| **Dilynol** | I'w gadarnhau - gwaith i'w gwblhau ar y dyddiad y cyhoeddwyd yr adroddiad hwn. Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei drosglwyddo i flwyddyn archwilio datganiad ariannol 2020/21. |

| **Mater yn codi 4 - rheolaethau cyflogres – prosesu taflenni amser** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodwyd gennym ar hyn o bryd mai swyddogion y gyflogres sy ' n gyfrifol am wirio a mewnbynnu taflenni amser ar y system gyflogres. Ar ddiwedd pob mis bydd un swyddog cyflogres yn gyfrifol am wirio ' r mewnbwn data i ' r system gyflogres (mae'r tri swyddog yn gwneud hyn yn eu tro). Mae hyn yn golygu y bydd yr aelod o staff sy ' n cwblhau ' r gwirio yn gwirio ' r data a fewnbynnwyd ganddo ef ei hun, ac felly nid oes unrhyw ddyletswyddau wedi ' u gwahanu ' n llwyr. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir y dylai ' r Cyngor gyflwyno dyletswyddau wedi ' u gwahanu ' n llwyr mewn perthynas â phrosesu taflenni amser. |
| **Manteision rhoi'r argymhelliad ar waith** | Mae hyn yn lliniaru'r risg y gellir talu arian parod i weithwyr ffug. |

| | |
|---|---|
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Ar hyn o bryd, mae'r tîm cyflogres a'r tîm credydwyr yn mynd drwy ailstrwythuriad. Mae'r ailstrwythuro yn seiliedig ar greu gwytnwch o fewn y tîm yn ogystal â galluogi rhannu dyletswyddau. Mae'r ailstrwythuriad ar y gweill ac fe ddylid ei weithredu yn fuan yn y flwyddyn ariannol nesaf. |
| **Dyddiad rhoi ar waith** | 30 Mehefin 2020 |
| **Dilynol** | Pan adolygwyd hyn ym mis Gorffennaf roedd yr argymhelliad hwn yn parhau i aros am sylw. Fodd bynnag, mae'r Archwiliad Mewnol wedi cyhoeddi adroddiad mewn perthynas â'r mater hwn ac wedi cadarnhau bod diweddaru gwahanu dyletswyddau wedi'u gweithredu, rydym wedi cynnal profion sampl i gadarnhau hyn ond rydym yn aros am dystiolaeth derfynol. Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei drosglwyddo i flwyddyn archwilio datganiad ariannol 2020/21. |

| **Mater yn codi 5 - rheolaethau cyflogres – prosesu taflenni amser** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodwyd y gall aelod o staff y gyflogres greu dechreuwr newydd a diweddaru manylion banc yr unigolyn yn ogystal ag aelodau o ' r adran adnoddau dynol fel rhan o'r broses dechreuwyr newydd. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir nad oes gan aelodau staff y gyflogres y gallu i sefydlu dechreuwyr newydd a diweddaru manylion banc yr unigolyn ac mae'r swyddogaethau hyn wedi'u neilltuo i staff adnoddau dynol. |

| | |
|---|---|
| **Manteision rhoi'r argymhelliad ar waith** | Mae hyn yn lliniaru'r risg y gellir talu arian parod i weithwyr ffug. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Ar hyn o bryd, mae'r tîm cyflogres a'r tîm credydwyr yn mynd drwy ailstrwythuriad. Mae'r ailstrwythuro yn seiliedig ar greu gwytnwch o fewn y tîm yn ogystal â galluogi rhannu dyletswyddau. Mae'r ailstrwythuriad ar y gweill ac fe ddylid ei weithredu yn fuan yn y flwyddyn ariannol nesaf. |
| **Dyddiad rhoi ar waith** | 30 Mehefin 2020 |
| **Dilynol** | Pan adolygwyd hyn ym mis Gorffennaf roedd yr argymhelliad hwn yn parhau i aros am sylw. Fodd bynnag, mae'r Archwiliad Mewnol wedi cyhoeddi adroddiad mewn perthynas â'r mater hwn ac wedi cadarnhau bod diweddaru gwahanu dyletswyddau wedi'u gweithredu, rydym wedi cynnal profion sampl i gadarnhau hyn ond rydym yn aros am dystiolaeth derfynol. Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei drosglwyddo i flwyddyn archwilio datganiad ariannol 2020/21. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales
Gwefan: www.audit.wales

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ADRODDIAD I: | CYNGOR SIR |
| DYDDIAD: | 27 HYDREF 2020 |
| PWNC: | ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2019/20 |
| AELOD PORTFFOLIO: | Y CYNGHORYDD R WILLIAMS |
| SWYDDOG SY'N ARWAIN: | R MARC JONES |
| SWYDDOG CYSWLLT: | JEMMA ROBINSON<br>(EST. 2675) |

**Natur a rheswm dros adrodd.**

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2019/20 (Atodiad 8 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2019/20). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, cafodd yr adroddiad hwn ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio ar 21 Gorffennaf 2020 a'i anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb sylwadau ar 28 Medi 2020. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith anfon yr adroddiad ymlaen i'r Cyngor llawn heb unrhyw sylwadau pellach.

## 1. Rhagarweiniad

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, yn ôl rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu adolygiad rheoli trysorlys blynyddol o weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2019/20. Mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (y Côd) a Chôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf Awdurdodau Lleol (y Côd Darbodus).

Yn ystod 2019/20, y gofynion adrodd sylfaenol oedd y dylai'r Cyngor llawn dderbyn yr adroddiadau canlynol: -

- strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn y flwyddyn (derbyniwyd ar 27 Chwefror 2019);
- adroddiad diweddariad canol blwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 10 Mawrth 2020);
- adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddio yn gosod cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a chraffu ar bolisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn bwysig yn hynny o beth gan ei fod yn darparu manylion y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac yn tynnu sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan yr Aelodau.

Mae'r Cyngor hwn yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofyniad o dan y Côd bod raid i'r Pwyllgor Archwilio graffu ymlaen llaw ar bob un o'r adroddiadau rheoli trysorlys cyn yr adroddir arnynt i'r Cyngor llawn. Rhoddwyd hyfforddiant i Aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod y flwyddyn, ar 7 Tachwedd 2019, er mwyn cefnogi rôl sgriwtini'r Aelodau.

Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y benthycwyd ac nad aethpwyd y tu hwnt i'r terfyn benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig).

At hynny, mae'r adroddiad yn nodi'r canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2019/20: -

- Ffactorau allanol - gan gynnwys adolygiad o'r economi, perfformiad cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn a'r ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit ac effaith Covid 19;
- Ffactorau mewnol - gan gynnwys perfformiad gwariant cyfalaf, yr effaith ar y cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod, archwaeth risg o ran buddsoddiadau, y benthyciadau a gymerwyd gan y Cyngor a'r effaith ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC);
- Y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn 2019/20 - gan gynnwys rheoli dyledion y Cyngor, gweithredu'r polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) newydd, a benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn;
- Rheoli'r Trysorlys - beth yw'r Dangosyddion Darbodus a sut y cânt eu mesur;
- Cymharu'r Dangosyddion Darbodus - Cymharu'r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol gyda'r rhagolygon ar ddechrau'r flwyddyn;
- Edrych ymlaen at 2020/21 a'r tu draw i hynny; a
- Casgliad.

## 2. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Allanol

**2.1 Cyfraddau Llog -** Y Gyfradd Banc ar ddechrau'r flwyddyn ariannol oedd 0.75%, ar ôl iddi godi o 0.50% ym mis Awst 2018. Ni fu newid wedyn tan fis Mawrth 2020, pan oedd yn amlwg iawn bod yr achosion o Coronafeirws yn fygythiad enfawr i economi'r DU. Bu dai doriad brys yn y Gyfradd Banc ym mis Mawrth, y cyntaf i lawr o 0.75% i 0.25% ac yna i lawr i 0.10%. Roedd hyn yn golygu bod cyfraddau llog sefydliadau gwrthbarti ar gyfrifon nodweddiadol yn amrywio o 0.10% i 0.65%.

**2.2 Yr Economi** – Yn y Deyrnas Unedig, mae 2019 wedi bod yn flwyddyn gyfnewidiol iawn gyda thwf economaidd chwarter 1 yn annisgwyl o gryf ar +0.5%, chwarter 2 yn wan ar -0.2%, chwarter 3 yn gwella eto i + 0.5% a chwarter 4 yn wastad ar 0.0%, +1.1% flwyddyn ar flwyddyn. Dechreuodd 2020 gydag arolygon busnes optimistaidd yn tynnu sylw at fwy o dwf ar ôl i'r ansicrwydd gwleidyddol ddod i ben yn sgil canlyniad pendant yr etholiad cyffredinol ym mis Rhagfyr a setlodd y mater Brexit. Fodd bynnag, roedd yr ystadegau Cynnyrch Domestig Gros (GDP) chwarterol ym mis Ionawr yn siomedig gan na fu cynnydd mewn twf ac arhosodd ar 0.0%. Ers hynny, mae'r holl fyd wedi newid o ganlyniad i'r achosion o Coronafeirws. Bellach mae'n edrych yn debygol y bydd cau rhannau cyfan o'r economi yn arwain at gwymp mewn GDP a fydd o leiaf 15% yn chwarter dau. Yr hyn sy'n ansicr, fodd bynnag, yw maint y difrod a fydd yn cael ei wneud i fusnesau erbyn diwedd y cyfnod clo, pa bryd y bydd y cyfnod clo yn dod i ben, a gawn ail don o achosion, pa mor fuan bydd brechlyn yn cael ei greu ac yna pa mor gyflym y gellir ei roi i'r boblogaeth. Mae hyn yn gadael ansicrwydd enfawr ynghylch pa mor gyflym y bydd yr economi yn gwella.

Ar ôl i'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) godi'r Gyfradd Banc o 0.5% i 0.75% ym mis Awst 2018, achosodd yr ansicrwydd oherwydd Brexit i'r MPC eistedd ar ei ddwylo a gwneud dim tan fis Mawrth 2020; erbyn hynny roedd yn gwbl amlwg bod yr achosion o Coronafeirws yn fygythiad enfawr i economi'r DU. Bu dau doriad brys yn y Gyfradd Banc 0.75% ym mis Mawrth, yn gyntaf i 0.25% ac yna i 0.10%. Ynghyd â'r toriadau hyn, gwelwyd mwy o liniaru meintiol (QE), sef, yn y bôn, Banc Lloegr yn prynu giltiau (yn bennaf) werth £200bn. Roedd y Llywodraeth a'r Banc hefyd yn awyddus iawn i atal pobl rhag colli eu swyddi yn ystod y cyfnod clo hwn ac, felly, cyflwynodd y Llywodraeth amrywiol gynlluniau i roi cymhorthdal tuag at gadw swyddi cyflogedig a hunangyflogedig am dri mis tra bod y wlad dan glo. Hefyd, rhoddodd lu o fesurau eraill ar waith i helpu busnesau i gael gafael ar fenthyciadau gan eu banciau (gyda'r Llywodraeth yn darparu gwarantau i'r banciau yn erbyn colledion), i'w cadw i fynd yn ystod y cyfnod clo pan fydd gan rai cwmnïau ychydig iawn o incwm neu ddim o gwbl efallai. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae hyn yn gadael cwestiwn ynghylch a fydd rhai cwmnïau'n solfent, hyd yn oed os byddant yn cymryd benthyciadau o'r fath, ac efallai y bydd rhai hefyd yn dewis cau oherwydd nad oes, ac na fydd, digon o alw eu gwasanaethau.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd hon yn sefyllfa sy'n esblygu'n gyflym, felly, efallai y bydd mesurau pellach i ddod gan y Banc a'r Llywodraeth yn y misoedd nesaf. Bydd y camau i gefnogi swyddi a busnesau a gymerwyd eisoes gan y Llywodraeth yn arwain at gynnydd enfawr yn y diffyg cyllidebol blynyddol yn 2020/21, o 2% i bron i 11%. Mae'r gymhareb dyled i GDP hefyd yn debygol o gynyddu o 80% i oddeutu 105%. Yn y Gyllideb ym mis Mawrth, cyhoeddodd y Llywodraeth hefyd gynnydd mawr mewn gwariant ar isadeiledd; bydd hyn hefyd yn helpu'r economi i wella ar ôl i'r cyfnod clo ddod i ben. Ar yr amod bod yr achosion o Coronafeirws yn dod dan reolaeth yn gymharol gyflym, a bod y cyfnod clo yn cael ei lacio, yna gobeithir y byddai adferiad sydyn, ond un a fyddai'n cymryd cryn amser i adfer yn llawn y momentwm a gollwyd.

Nid yw chwyddiant wedi peri fawr o bryder i'r MPC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan y bu rhwng 1.5 - 2.0% ar y cyfan. Hefyd, ni fydd yn broblem yn y dyfodol agos gan y bydd economi'r byd yn mynd i ddirwasgiad sydd eisoes yn golygu bod gormodedd o olew ar gael ac mae hynny wedi arwain at ostyngiad sydyn yn ei bris. Bydd pwysau ar brisiau eraill i ostwng hefyd ac mae chwyddiant cyflogau hefyd wedi bod yn gostwng dros y chwe mis diwethaf ac mae'r duedd honno'n debygol o barhau yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Er y gallai chwyddiant droi'n negyddol hyd yn oed yn Ardal yr Ewro, nid yw hyn yn debygol yn y DU ar hyn o bryd.

Roedd cyflogaeth wedi bod yn tyfu'n dda trwy'r flwyddyn ddiwethaf ond mae'n amlwg y bydd wedi cael ergyd fawr ym Mawrth - Ebrill 2020. Y newyddion da dros y flwyddyn ddiwethaf yw bod chwyddiant cyflogau wedi bod yn sylweddol uwch na chwyddiant CPI, sy'n golygu bod pŵer gwario gwirioneddol defnyddwyr wedi bod yn cynyddu ac, felly, bydd hynny wedi helpu'r GDP i dyfu. Fodd bynnag, oherwydd na all pobl adael eu cartrefi i siopa am bethau heblaw am fwyd, bydd y sector manwerthu hefyd yn gweld gostyngiad sylweddol yn eu gwerthiant.

**2.3** **Brexit** - Y prif fater yn 2019 oedd y brwydrau dro ar ôl tro yn Nhŷ'r Cyffredin i gytuno ar un ffordd ymlaen i'r DU ynghylch Brexit. Arweiniodd hyn at ymddiswyddiad Teresa May fel arweinydd y Llywodraeth leiafrifol Geidwadol ac ethol Boris Johnson yn arweinydd newydd, ar sail safiad o dynnu'r DU allan o'r UE ar 31 Hydref 2019. Llesteiriwyd yr ymdrech newydd honno i adael yr UE gan Dŷ'r Cyffredin ac, felly, fe alwyd etholiad cyffredinol i'w gynnal ym mis Rhagfyr a setlwyd y mater unwaith ac am byth trwy fuddugoliaeth glir i'r Blaid Geidwadol; roedd hynny wedyn yn golygu y gallai'r DU adael yr UE ar 31 Ionawr 2020. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i adael llawer o ansicrwydd ynghylch a lwyddir i sicrhau cytundeb masnach rhesymol erbyn y dyddiad cau ar ddiwedd 2020. Nid yw'n eglur, ychwaith, a all Coronafeirws effeithio ar y dyddiad cau hwn ond bu'n rhaid canslo ail a thrydedd rownd y trafodaethau eisoes oherwydd y feirws.

## 3. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Mewnol

**3.1** **Gwariant a Chyllid Cyfalaf 2019/20** - Mae'r Cyngor yn mynd i wariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Gellir cyllido'r gweithgareddau hyn naill ai: -

- Ar unwaith trwy adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati), nad yw'n cael unrhyw effaith ar angen y Cyngor I fenthyca; neu

- Trwy fenthyca: os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os penderfynir peidio â defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn arwain at angen i fenthyca.

Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn un o'r dangosyddion darbodus gofynnol. Mae'r tabl isod yn dangos y gwir wariant cyfalaf a sut y cyllidwyd hyn:-

| | Amcangyfrif 2019/20 (£'m) | Gwirioneddol 2019/20 (£'m) |
|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol | 30 | 18 |
| Gwariant Cyfalaf o'r CRT | 14 | 12 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **44** | **30** |
| Cronfa Gyffredinol a gyllidnwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau | 22 | 15 |
| CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau | 4 | 4 |
| Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor | 1 | 1 |
| CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor | 10 | 8 |
| **Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol a gyllidwyd trwy fenthyca** | **7** | **2** |
| **Gwariant cyfalaf o'r CRT a gyllidwyd trwy fenthyca** | **0** | **0** |

Y prif reswm dros y tanwario oedd y tanwariant mawr yn erbyn y prosiectau a restrir isod:-

| | Tanwariant £'m | Sylw |
|---|---|---|
| Safle Aros Dros Dro i Sipsiwn a Theithwyr | 0.524 | Trefniadau tendro heb eu cwblhau yn 2019/20 ond disgwylir iddynt gael eu cwblhau yn Chwarter 1 2020/21. |
| Grantiau cyfleusterau i'r Anabl | 0.491 | Srweinir gan y galw i raddau helaeth ac mae'n rhaid cwrdd â rhai meini prawf i fod yn gymwys i dderbyn grant. Yn benodol, mae'n rhaid cynnal prawf modd i bob darpar gleient a all effeithio'n negyddol ar nifer yr achosion sy'n mynd ymlaen i dderbyn grant. |
| Cynlluniau Ysgolion yr 21ain Ganrif | 4.547 | Mae ymgynghori pellach wedi gohirio cychwyn y cynlluniau a ddewiswyd. Rhagwelir llithriad pellach yn 2020/21. |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1.554 | Bu'n rhaid ail-dendro'r prosiect ac ni ddechreuodd tan Hydref 2019. Daeth y gwaith i stop ym mis Mawrth 2020 oherwydd Covid-19. |
| Porth Twristiaeth | 1.076 | Yn aros am ganiatâd i ddechrau'r prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, sy'n cyfrannu cyllid cyfatebol ar gyfer 2 brosiect. |
| Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd yn Nhraeth Coch | 0.638 | Nid yw dyluniad y prosiect wedi ei gwblhau hyd yma. |
| Caledwedd TG | 0.420 | Eitemau newydd sydd eu hangen yn llai nag a ragwelwyd. |
| Contractau Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 0.970 | Amseriad y trefniadau tendro a dyfarnu'r contractau, nid oedd y gwariant gwirioneddol cymaint â'r disgwyl. |

3.2 **Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau Arian Parod** - mae balansau arian parod y Cyngor yn cynnwys adnoddau refeniw a chyfalaf a chyllid ar gyfer llif arian. Roedd adnoddau arian craidd y Cyngor fel a ganlyn:-

| **Cronfeydd wrth gefn a darpariaethau y gellir eu defnyddio** | Drafft 31-Maw-2020 £'m | Terfynol 31-Maw-2019 £'m |
|---|---|---|
| Cronfa wrth gefn cyffredinol Cronfa'r Cyngor | 7.060 | 5.912 |
| Cronfeydd wrth gefn clustnodedig | 8.760 | 8.728 |
| Cronfa wrth gefn y Gronfa Refeniw Trai (CRT) | 8.597 | 8.387 |
| Cronfeydd wrth gefn ysgolion | 0.197 | 0.631 |
| Derbyniadau cyfalaf wrth gefn | 1.330 | 1.186 |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio** | **25.944** | **24.844** |
| | | |
| **Darpariaethau** | **5.180** | **5.234** |
| | | |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn a'r darpariaethau y gellir eu defnyddio** | **31.124** | **30.078** |

**3.3 Allanoli benthyca–** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r GCC yn deillio o weithgaredd cyfalaf y Cyngor a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2019/20 a gyllidwyd drwy fenthyca, a gwariant cyfalaf a gyllidwyd drwy fenthyca yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei dalu trwy refeniw neu adnoddau eraill. Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido ar gyfer yr angen benthyca hwn. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae'r Gwasanaeth Trysorlys yn trefnu sefyllfa arian parod y Cyngor er mwyn sicrhau bod arian parod digonol ar gael ar gyfer y cynlluniau cyfalaf a'r gofynion llif arian. Gallai hyn gael ei gyllido drwy fenthyca gan gyrff allanol (megis y Llywodraeth, drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu drwy ddefnyddio adnoddau arian parod dros dro o fewn y Cyngor. Ym mis Mawrth 2020, cymerodd y Cyngor fenthyciad tymor byr gyda'r PWLB i gyllido gwariant cyfalaf a gynlluniwyd hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ar 18 Mawrth 2020, cymerodd y Cyngor fenthyg £10m ar gyfradd llog o 2.05% a bydd yn aeddfedu ar 18 Mawrth 2021.

**3.3.1 Benthyca Gros a'r GCC** - Er mwyn sicrhau bod y lefelau benthyca'n ddarbodus dros y tymor canol ac y benthycir at ddibenion cyfalaf yn unig, fe ddylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca er mwyn cefnogi gwariant refeniw.

Mae'r strategaeth fenthyca fewnol bellach wedi bod yn cael ei gweithredu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r benthyca gros o £139.2m ar 31 Mawrth 2020 yn uwch na'r GCC ar 31 Mawrth 2020 ond mae o fewn y GCC a ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn o fynd y tu hwnt i'r GCC wedi digwydd oherwydd y benthyciad o £10m a gymerwyd ym mis Mawrth 2020, ac roedd y pandemig byd-eang yn golygu bod gwariant cyfalaf yn y mis olaf yn is na'r disgwyl, a olygodd bod y benthyca allanol yn uwch na'r GCC. Dim ond ar gyfer y tymor byr fydd hyn gan y bydd lefel y benthyca allanol yn disgyn yn is na'r GCC yn 2020/21 wrth ad-dalu'r benthyciad allanol ac yn sgil gwario cyllid cyfalaf.

| | Gwirioneddol 2019/20 £'m | Ancangyfrif 2020/21 £'m | Amcangyfrif 2021/22 £'m |
|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllid Cyfalaf | 136.9 | 148.0 | 163.3 |

**3.3.2 Benthyca mewnol** - yw pan, dros y tymor canol, y disgwylir i'r cyfraddau buddsoddi barhau i fod yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hyn yn golygu y byddai ystyriaethau gwerth am arian yn dangos y gellid cael gwerth am arian drwy osgoi cymryd benthyciadau allanol newydd a drwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyledion allanol sy'n aeddfedu. Byddai hyn yn sicrhau'r arbedion tymor byr gorau. Y ffigwr benthyca mewnol yw'r gwahaniaeth rhwng y GCC a'r Sefyllfa Benthyca Gros. Fel y gwelir yn y tabl isod, ar ddechrau'r flwyddyn y sefyllfa fenthyca fewnol oedd £6.2m. Trwy gymryd un Benthyciad newydd gan y PWLB, fel y nodwyd ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad hwn, roedd y sefyllfa fenthyca fewnol ar 31 Mawrth 2020 wedi gostwng ac, mewn gwirionedd, roedd y Cyngor wedi gorgyllido'r GCC (fel yr eglurwyd yn 3.3.1 uchod).

| | 31 Mawrth 2019 Gwirioneddol £'m | 31 Mawrth 2020 Gwirioneddol £'m |
|---|---|---|
| Sefyllfa fenthyca gros | 132.5 | 139.2 |
| GCC | 138.7 | 136.9 |
| (Tan) / Gorgyllido'r GCC | (6.2) | 2.3 |

**3.4 Benthyciadau eraill -** Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor gymryd unrhyw fenthyciadau tymor byr eraill. Derbyniwyd benthyciad di-log o £1.878m yn ystod 2019/20 i gyllido gwariant cyfalaf ar brosiectau arbed ynni a bydd yn cael ei ad-dalu mewn rhandaliadau blynyddol.

**3.5 Ad-dalu dyledion** - Aeddfedodd Benthyciad gan y PWLB yn ystod y flwyddyn ar 20 Mai 2019 ac roedd am £5m. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol yn 2010 ar gyfradd llog o 3.52%. Ni chafwyd unrhyw fenthyciadau tymor byr eraill yn ystod y flwyddyn.

**3.6 Buddsoddiadau** – Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod), er y cedwid y gallu i fuddsoddi am gyfnodau hwy. Roedd disgwyl i falansau arian parod fod hyd at £33m, yn amrywio rhwng £11m a £33m. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer llog ar £0.032m ar ôl addasu i adlewyrchu'r cyfraddau uwch ar y buddsoddiadau cyfredol. Fel y digwyddodd, dychwelodd y balansau cyfartalog o £22.4m log o £0.128m ar gyfradd 0.57% ar gyfartaledd. Cyfrannodd buddsoddiadau mewn Awdurdodau Lleol eraill at y cynnydd hwn yn y llog a dderbyniwyd.

Roedd rhai o adneuon y Cyngor mewn cyfrifon adneuo nad oes angen rhoi rhybudd ar gyfer tynnu arian allan ac maent yn talu llog ar gyfraddau sy'n agos i'r gyfradd sylfaenol gyffredinol, £14.208m ar 0.48% ar 31 Mawrth 2020 (31 Mawrth 2019 £14.333m ar 0.53%). Roedd dau fenthyciad i awdurdodau lleol eraill (£3.000m yr un) ar gyfraddau llog o 0.76% a 0.90% (£dim ar 31 Mawrth 2019). Roedd yr holl fuddsoddiadau am lai na blwyddyn.

**3.7 Sefyllfa'r Trysorlys ar 31 Mawrth 2020** - Mae sefyllfa dyledion a buddsoddi'r Cyngor yn cael ei threfnu gan y Gwasanaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer gweithgareddau refeniw a chyfalaf, sicrwydd ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli risgiau o fewn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy adroddiadau i Aelodau a nodir yn y crynodeb, a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2019/20. Nid aethpwyd y tu hwnt i'r terfynau uchaf ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiol yn ystod y flwyddyn. Mae ffigyrau benthyca a buddsoddi'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20 fel a ganlyn:-

| | **31 MAWRTH 2019** | | | **31 MAWRTH 2020** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'m** | **Cyfradd Cyfartalog (%)** | **Aeddfedrwydd Cyfartalog (bl)** | **£'m** | **Cyfradd Cyfartalog (%)** | **Aeddfedrwydd Cyfartalog (bl)** |
| Dyled i'r PWLB | 132.5 | 5.70 | 30.29 | 136.4 | 4.53 | 28.21 |
| Dyledion eraill | | | | 2.8 | 0 | 4.04 |
| **Cyfanswm** | | | | **139.2** | | |
| GCC | 138.7 | | | 136.9 | | |
| Gor / (Tan) fenthyciad | (6.2) | | | 2.3 | | |
| Buddsoddiadau tymor sefydlog (pob un am gyfnod llai na blwyddyn, wedi eu rheoli'n fewnol ar gyfradd sefydlog) | | | | 6.000 | 0.83 | |
| Buddsoddiadau dim rhybudd (pob un ohonynt wedi eu rheoli'n fewnol) | 14.333 | 0.53 | | 14.208 | 0.48 | |
| **Cyfanswm buddsoddiadau** | **14.333** | **0.53** | | **20.208** | **0.58** | |

Dadansoddiad pellach o'r benthyca yn ôl y cyfnod aeddfedu:-

| | **31 MAWRTH 2019** | | **31 MAWRTH 2020** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'m** | **% o'r cyfanswm** | **£'m** | **% o'r cyfanswm** |
| **Cyfanswm benthyca** | **132.5** | **100** | **139.2** | **100** |
| Llai na 12 mis | 5.2 | 3.9 | 14.8 | 10.6 |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 4.6 | 3.5 | 2.6 | 1.9 |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 4.6 | 3.5 | 3.2 | 2.3 |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 4.2 | 3.1 | 6.2 | 4.5 |
| 10 mlynedd a mwy | 113.9 | 86.0 | 112.4 | 80.7 |

Y rheswm dros y cynnydd yn nifer y benthyciadau sy'n llai na 12 mis o gymharu â 31 Mawrth 2019 yw'r benthyciad gan y BBGC a gafwyd yn ystod y flwyddyn, fel y soniwyd ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad hwn.

## 4. Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn 2019/20

**4.1 Aildrefnu dyledion -** Ni chafodd unrhyw ddyledion eu haildrefnu yn ystod y flwyddyn gan fod y gwahaniaeth o 1% ar gyfartaledd rhwng cyfraddau benthyca newydd y PWLB a chyfraddau ad-dalu cynamserol yn golygu nad oedd yn werth aildrefnu.

**4.2 Benthyca cyn bod angen -** Yn ystod y flwyddyn, ni chymerodd y Cyngor fenthyg fwy nag yr oedd ai angen, na chyn bod angen, dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd.

**4.3 Polisi Buddsoddi** – mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cael ei lywodraethu gan ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru, a weithredwyd yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2019. Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi, ac mae'n seiliedig ar statws credyd a ddyfarnwyd gan y tair prif asiantaeth statws credyd ac ar ddata ychwanegol mewn perthynas â'r farchnad (megis rhagolygon ar gyfer cyfraddau, cyfnewidiadau diffyg credyd, prisiau cyfranddaliadau banc ac ati). Roedd y gweithgaredd buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw anawsterau hylifedd. Pan fydd y Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben, yr elfen bwysicaf yw diogelwch y buddsoddiad, wedyn ei hylifedd ac wedyn yr elw. Mae hyn yn ei hanfod yn golygu mai'r brif flaenoriaeth yw diogelwch yr arian, ac yna pa mor hawdd yw cael gafael ar arian parod pe bai'r Cyngor ei angen ac wedyn y llog canrannol y bydd y Cyngor yn ei dderbyn am y buddsoddiad. Y strategaeth ar fuddsoddi arian dros ben fyddai benthyca tymor byr gydag Awdurdodau Lleol eraill i sicrhau'r enillion mwyaf mewn ffordd ddiogel.

**4.4 Y Strategaeth fenthyca a rheoli'r risg cyfradd llog** - Yn ystod 2019 a than fis Mawrth 2020, cynhaliodd y Cyngor sefyllfa o danfenthyca. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr angen benthyca cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn â dyled benthyciadau, gan fod arian parod a oedd yn cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor yn cael ei ddefnyddio fel cam dros dro. Roedd y strategaeth hon yn un ddoeth gan fod enillion o fuddsoddiadau yn isel ac roedd angen ystyried lleihau risg gwrthbartïon wrth fuddsoddi hefyd. Fel y nodwyd ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad hwn, ym mis Mawrth 2020 cymerodd y Cyngor fenthyciad tymor byr gan y PWLB er mwyn cyllido gwariant cyfalaf a gynlluniwyd hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fel y disgrifir yn 3.3, arweiniodd hyn at fynd y tu hwnt i'r GCC ar ddiwedd y flwyddyn, ond dim ond yn y tymor byr fydd hyn wrth i fenthyciad allanol gael ei ad-dalu ac wrth wario cyllid cyfalaf.

**4.5 Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf** – Yn 2018/19, gweithredodd y Cyngor ei bolisi DRI newydd ar ôl gofyn am gyngor gan ei gynghorwyr Trysorlys ac ymgynghori â'r Archwilwyr Allanol. Mae'r polisi newydd yn ddull mwy darbodus o godi ar Refeniw am gostau Cyllido Cyfalaf. Gellir gweld y polisi newydd yn Atodiad 6 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2019/20 a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019.

## 5. Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Dangosyddion Darbodus canlynol wedi eu cynnwys yn Atodiad 11 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Gweler isod esboniad byr o beth yw'r dangosyddion a sut y byddant yn cael eu cyfrifo. Bydd Adran 6 o'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r gwahaniaeth rhwng y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a'r rhai a ragwelwyd ar gyfer 2019/20.

- **Gwariant Cyfalaf – Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf –** Dyma ragolwg o'r Gwariant Cyfalaf rhwng 2019/20 a 2022/23, ac mae'n seiliedig ar Raglen Gyfalaf 2019/20 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2020/21.

- **Angen y Cyngor i Fenthyca (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) -** Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol sy'n weddill sydd heb gael ei dalu amdano eto un ai o refeniw neu adnoddau cyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n cyfateb i angen benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf uwch na hynny, ac na thalwyd amdano'n uniongyrchol drwy adnoddau refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu'r GCC. Nid yw'r GCC yn cynyddu am gyfnod amhenodol, gan fod y ddarpariaeth refeniw isaf (DRI) yn dâl refeniw statudol flynyddol sydd, yn fras, yn lleihau'r angen i fenthyca yn unol â hyd bywyd pob ased ac, felly, codir tâl am yr asedau cyfalaf fel y byddant yn cael eu defnyddio.

- **Doethineb ariannol – Dyledion Gros a'r GCC** – Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw ei ddyledion gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon o unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2019/20 a'r ddwy flwyddyn ariannol ganlynol. Mae hyn yn golygu bod peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca cyfyngedig cynnar ar gyfer y blynyddoedd i ddod ond mae'n sicrhau na fyddir yn benthyca at ddibenion refeniw**.**

- **Dyledion Allanol – Y trothwy awdurdodedig ar gyfer dyledion allanol –** Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn cyfyngu lefel y benthyca i uchafswm penodol. Mae'n uchafswm na fedrir benthyca'n allanol y tu draw iddo ac mae angen i'r uchafswm hwn gael ei osod neu ei adolygu gan y Cyngor llawn. Mae'n adlewyrchu lefel y ddyled allanol, er nad yn ddelfrydol, y gellid ei gynnal yn y tymor byr, ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r cyfyngiad statudol y penderfynir arno o dan Adran 3 (1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli un ai cynlluniau'r holl gynghorau, neu gynlluniau cyngor penodol, er nad yw'r pŵer hwn wedi ei weithredu hyd yma. Mae'r Swyddog Adran 151 yn adrodd fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r dangosydd darbodus yma yn y flwyddyn gyfredol ac nad yw'n rhagweld anawsterau ar gyfer y dyfodol. Mae'r safbwynt hwn yn ystyried yr ymrwymiadau presennol, y cynlluniau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad ar y gyllideb. Mae'r Uchafswm Awdurdodedig yn cael ei osod yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Y terfyn gweithredol -** Dyma'r terfyn na ddisgwylir i ddyledion allanol fod yn uwch nag ef fel arfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai hwn yn ffigwr tebyg i'r GCC, ond gallai fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r dyledion a'r gallu i gyllido tanfenthyca drwy adnoddau arian parod eraill. Mae'n dderbyniol cael cyfnodau pan fo'r sefyllfa wirioneddol naill ai o dan neu uwch ben y terfyn gweithredol ar yr amod nad eir y tu hwn i'r terfyn awdurdodedig. Gosodir y Terfyn Gweithredol yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a chaiff ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Fforddiadwyedd – Y gymhareb rhwng costau cyllido a'r ffrwd refeniw net –** Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r duedd yng nghost cyfalaf (benthyca a chostau rhwymedigaethau hirdymor eraill net o incwm o fuddsoddiadau) yn erbyn y llif refeniw net.

**6. Y Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol o gymharu â'r rhai a ddisgwyliwyd.**

**6.1** Yn ystod 2019/20, cydymffurfiodd y Cyngor â'i ofynion deddfwriaethol a rheoliadol. Mae'r data allweddol ar gyfer y dangosyddion darbodus a'r dangosyddion trysorlys gwirioneddol, sy'n nodi effaith y gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol | 2018/19 Gwirioneddol £'m | 2019/20 Gwreiddiol £'m | 2019/20 Gwirioneddol £'m |
|---|---|---|---|
| **Gwariant cyfalaf**<br>• Dim CRT<br>• CRT<br>• **Cyfanswm** | <br>21.650<br>9.028<br>**30.678** | <br>18.020<br>13.110<br>**31.130** | <br>18.203<br>11.812<br>**30.015** |
| **Cyfanswm Gofyniad Cyllido Cyfalaf:**<br>• Dim-CRT<br>• CRT<br>• **Cyfanswm** | <br>97.847<br>40.815<br>**138.662** | <br>104.103<br>40.998<br>**145.101** | <br>96.903<br>40.001<br>**136.904** |
| **Benthyca Gros** | **132.549** | **124.996** | **139.232** |
| **Dyledion allanol** | **132.549** | **124.996** | **139.232** |
| **Buddsoddiadau**<br>• Hirach na blwyddyn<br>• Llai na blwyddyn<br>• **Cyfanswm** | <br>0<br>14.333<br>**14.333** | <br>0<br>15.000<br>**15.000** | <br>0<br>20.208<br>**20.208** |
| **Terfyn Benthyca Awdurdodedig** | **177.0** | **178.0** | **139.2** |
| **Terfyn Gweithredol** | **164.0** | **173.0** | **139.2** |
| | | | |
| Costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net – Dygwyd Ymlaen | 4.92% | 5.23% | 5.03% |
| Costau cyllido fel cyfran o'r ffrwd refeniw net – CRT | 16.88% | 15.57% | 18.78% |

**6.2** Y Dangosydd Darbodus cyntaf yn y tabl uchod yw'r Gwariant Cyfalaf. Y Gwariant Cyfalaf a ragwelwyd ar adeg cynhyrchu'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2019/20 oedd £31.130m. Fodd bynnag, y gwir wariant oedd £30.015m. Esbonnir y rheswm dros y gwariant is ym mharagraff 3.1 yr adroddiad hwn, ac mae wedi digwydd yn bennaf oherwydd y tanwariant sylweddol ar rai prosiectau cyfalaf fel y disgrifiwyd.

**6.3** Yr ail Ddangosydd Darbodus yn y tabl uchod yw'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf. Ni chaniateir i'r GCC godi am gyfnod amhenodol. Mae rheolaethau statudol wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn cael eu codi ar refeniw dros oes yr ased. Mae angen i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol, y cyfeirir ato fel y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI), er mwyn lleihau'r GCC. Yr hyn ydyw, mewn gwirionedd, ad-daliad o'r angen benthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian parod ar gael er mwyn cwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Gall dyledion allanol hefyd gael eu benthyca neu eu had-dalu ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y GCC. Gellir hefyd lleihau cyfanswm y GCC drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- codi mwy na'r tâl refeniw statudol (DRI) bob blwyddyn drwy'r Ddarpariaeth Refeniw Gwirfoddol.

Y GCC a ragwelwyd ar adeg cynhyrchu'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2019/20 oedd £145.101m. Fodd bynnag, roedd y GCC gwirioneddol yn sylweddol is ar £136.904m. Un o'r rhesymau dros y GCC is oedd y tanwariant yn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a ostyngodd faint o Fenthyca Digefnogaeth yr oedd ei angen yn 2019/20. Rheswm arall oedd y grantiau ychwanegol a gafwyd yn ystod y flwyddyn i'w hychwanegu at ffynonellau cyllid eraill, megis Benthyca â Chefnogaeth. Roedd hyn yn golygu bod angen llai o Fenthyca â Chefnogaeth ac felly'n lleihau'r ffigwr GCC. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd i ddod, bydd y ffynhonnell cyllido hon yn cael ei defnyddio i gyllido'r Gwariant Cyfalaf yn 2020/21 a bydd yn cynyddu'r GCC.

**6.4** Nid aethpwyd y tu hwnt i'r Terfyn Benthyca Awdurdodedig (£178m) na'r Terfyn Gweithredol (£173m) yn ystod y flwyddyn, gyda swm y ddyled Allanol yn cyrraedd £139.2m yn unig ar ei huchaf.

**6.5** Roedd y costau cyllido, fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyffredinol (5.03%), yn agos iawn at y cyfanswm a ragwelwyd (5.23%), gan olygu bod y dangosydd hwn wedi perfformio yn ôl y disgwyl, a hefyd yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Roedd y costau cyllido, fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer yr CRT (18.78%), yn uwch na'r cyfanswm a ragwelwyd (15.57%) oherwydd bod y costau cyllido yn uwch a'r llif refeniw net yn is na'r disgwyl ar adeg cynhyrchu'r dangosydd arfaethedig ar gyfer 2019/20. Gostyngodd y tanwariant ar CRT swm y cyfraniadau Refeniw sydd eu hangen i gyllido'r rhaglen gyfalaf yn 2019/20 o £9.9m i £7.6m.

## 7. Edrych ymlaen at 2020/21 a'r tu draw i hynny

**7.1** Ar 10 Mawrth 2020, cymeradwyodd y Cyngor llawn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21. Roedd y Datganiad ar y Strategaeth yn seiliedig ar y Strategaeth Gyfalaf a rhagwelir y bydd angen i'r Cyngor fenthyg £9.6m ychwanegol yn 2020/21 ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a'r CRT, cyfanswm o £19.2m yn 2021/22, ynghyd â £10.1m ychwanegol yn 2022/23 i gyllido ei Raglen Gyfalaf. Bydd y benthyca ychwanegol hwn yn effeithio ar y Gronfa Gyffredinol a bydd y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) yn codi er mwyn cyllido'r costau cyllido cyfalaf. Yn 2020/21, y rhagwelir y bydd y DRI yn £3.7m ac yn £3.9m, £3.9m yn 2021/220 a £4.4m yn 2022/23.

**7.2** Ni wnaed unrhyw fuddsoddiadau newydd yn y flwyddyn hyd yn hyn.

**7.3** Ar 24 Ebrill 2020, aeddfedodd buddsoddiad o £3.0m gyda Chyngor Metropolitanaidd Stockport ac fe'i had-dalwyd i Gyngor Sir Ynys Môn. Ar 1 Mai 2020, aeddfedodd buddsoddiad o £3.0m gyda Chyngor Dinas Salford ac fe'i had-dalwyd i Gyngor Sir Ynys Môn.

**7.4** Ar 08 Mehefin 2020, ad-dalodd Cyngor Sir Ynys Môn fenthyciad o £3.5m gan y PWLB. Cymerwyd y benthyciad hwn ar 16 Chwefror 1995 ar gyfradd llog o 8.625%.

**7.5** Gellir gweld y rhagolygon diweddaraf ynghylch cyfraddau llog gan Link Assets Services yn y tabl isod.

| **Rhagolygon Cyfraddau Llog** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Banc** | Meh-20 | Medi-20 | Rhag-20 | Maw-21 | Meh-21 | Medi-21 | Rhag-21 | Maw-22 |
| Link | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% |

## 8. Casgliad

Roedd perfformiad Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o fuddsoddiadau risg isel / elw isel a benthycwyd mewn ffordd sy'n lleihau ffioedd llog i'r eithaf.

Mae'r perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y Cyngor yn dangos bod gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd reoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn rhoi'r Cyngor mewn unrhyw berygl ariannol sylweddol o ran benthyca anfforddiadwy neu ormodol.

Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac mae'n cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau mai hon yw'r strategaeth fwyaf priodol wrth symud ymlaen.

**ARGYMHELLION**

Argymhellir bod y Pwyllgor yn:-

- **(i)** Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro nes bod yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2019/20 wedi'i gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r ffigyrau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn;
- **(ii)** Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro ar gyfer 2019/20 yn yr adroddiad hwn;
- **(iii)** Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol ar gyfer 2019/20

**Papurau Cefndir:-**

Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2019/20
Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys 2019/20
Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2019/20
Adroddiad Alldro Cyfalaf 2019/20

**R MARC JONES**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) /**
**SWYDDOG ADRAN 151** **27 HYDREF 2020**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **26 HYDREF 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2019/20** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **CARYS EDWARDS** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **GETHIN MORGAN**<br><br>01248 752111<br><br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|

**1.1** Mae'n ofynnol i'r cyngor lunio a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn - dogfen statudol sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwellianau a'r blaenoriaethau amlinellwyd gan y Cyngor yn eu Amcanion llesiant a'i Gynllun Corfforaethol.

**1.2** Mae'r papur hwn yn amlinellu ein Adroddiad Perfformiad sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2019/20.

**1.3** Mae'r Adroddiad yn edrych ar gynnydd y cyngor yn erbyn ein Dogfen Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2019/20 fel amlinellwyd drwy ein 3 amcan penodol –

- Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl
- Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol

**1.4** Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar yr allbynnau a'r canlyniadau yn erbyn yr hyn y ddywedasom y byddem yn ei gyflawni o dan yr amcanion uchod ac yn nodi meysydd pellach lle mae angen gwella.

| | |
|---|---|
| **1.5** Gofynir i'r Pwyllgor felly :<br><br>• **cytuno ar Adroddiad Perfformiad 2019/20 fel adlewyrchiad o waith yr Awdurdod a dylid ei gyhoeddi erbyn y dyddiad statudol ar ddiwedd mis Hydref.** | |

| **B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
|---|---|---|
| Ydi | | |
| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn rhoi cipolwg ar y gwaith a wnaed gan y Cyngor dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn ogystal â pherfformiad DPA yn erbyn Dogfen Gyflenwi Flynyddol y Cyngor ar gyfer 2019/20 a Chynllun y Cyngor.<br><br>Mae'r 3 amcan, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | effeithiol â newid a datblygiadau tra’n gwarchod ein hamgylchedd naturiol |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol. Os felly, sut:-** | Amh. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Amh. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae’i rhan yn drafftio’r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Ymgynghorwyd â thrigolion Ynys Môn cyn drafftio Cynllun y Cyngor yn 2017 |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae’r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Amh. |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Mnitro (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Dogfen Cyflawni Blynyddol 2019/20<br>Cynllun y Cyngor 2017-22 |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 19/20



## Hydref 2020

# Cynnwys

Rhagair ..... 2
Cyflwyniad ..... 2
Ymateb i'r Pandemig Coronafeirws ..... 3
Dangosyddion Allweddol Coronafeirws ..... 4
Perfformiad 2019/20 ..... 6
Sut rydym yn mesur a dadansoddi ein perfformiad ..... 6
Dangosyddion perfformiad a dadansoddiad ..... 8
Amcan 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir ..... 10
Swyddi a Chyfleoedd Gwaith ..... 10
Addysg a Sgiliau ..... 13
Iechyd a Lles ..... 15
Amcan 2: Cefnogi Oedolion a Theuluoedd Bregus i'w Cadw'n Ddiogel, yn Iach ac Mor Annibynnol â Phosib ..... 20
Cefnogaeth ar gyfer oedolion hŷn a bregus ..... 20
Cefnogaeth i Blant a Theuluoedd ..... 21
Amcan 3: Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol ..... 29
Datblygu a Hyrwyddo ..... 29
Trawsnewid ..... 32
Perfformiad Ariannol 2019/20 ..... 36
Casgliad ..... 38
Gwybodaeth Bellach ..... 39
Atodiad 1 ..... 40

## Rhagair

Dyma fy nhrydydd adroddiad perfformiad blynyddol fel Arweinydd y Cyngor, ac yn wir, ni welwyd yr hyn oedd o'n blaen wrth gynllunio am y flwyddyn. Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol sy'n edrych yn ôl ar ein gwaith yn ystod 2019/20 yn ogystal â rhywfaint o'r gwaith rydym wedi'i wneud mewn ymateb i bandemig Covid-19. Mae'r adroddiad yn dwyn sylw at yr hyn yr ydym wedi, a heb ei gyflawni yn ystod y flwyddyn o gymharu â'r hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud yn ein Dogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2019/20.

Mae'n bwysig nodi ar gychwyn yr adroddiad fy niolchiadau i bawb sy'n sicrhau llwyddiant y Cyngor er mwyn gwasanaethu pobl Ynys Môn. Hoffwn roi clod haeddiannol i bawb sy'n gweithio mor galed wrth i'r awdurdod berfformio ymysg y gorau yng Nghymru yn 2018/2019. Nid maint sy'n creu llwyddiant ond y parodrwydd i weithio er lles y gymdeithas.

Rydym yn falch o weld bod cynllun adnewyddu unedau Llawr y Dref i fod yn gartrefi cysurus wedi'i cwblhau. Rydym wedi newid polisi gosod er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r fflatiau i'r gymuned yn Llangefni. Mewn cydweithrediad gyda'r Gwasanaeth Plant agorwyd dwy fflat hyfforddi i'n pobl ifanc sy'n gadael gofal.

Yn dilyn penderfyniad Rehau I gau'r ffatri yn Amlwch penderfynodd y Pwyllgor Gwaith i gefnogi'r ardal drwy gytuno ar gynllun adfer economaidd gogledd yr ynys. Derbyniwyd £495,000 gan NDA y gwaith hwn.

Agorwyd Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi yn dilyn gwaith atgyweirio sylweddol ar ôl bod yn wag am flynyddoedd. Mae'r adeilad wedi'i achub i fod yn ganolbwynt i'r dref. Ymgartrefodd yn Llyfrgell yn daclus yn yr adeilad newydd gan gynnig gwasanaeth i'r holl genedlaethau ddod at ei gilydd mewn awyrgylch croesawgar.

Roeddwn yn arbennig o falch bod nifer y rhieni maeth wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn oherwydd y newid yn ein cynnig gyda gostyngiad yn nhreth Cyngor, aelodaeth hamdden a thocyn parcio. Mae hyn sicrhau bod plant yr ynys yn gallu byw yma ym Môn.

Wrth i'r argyfwng Cofid-19 gau amdanom fel cymdeithas roedd y Cyngor yn ymateb ac yn addasu yn gyflym iawn er mwyn sicrhau diogelu'r bregus mewn cymdeithas a chefnogi'r anghenus. Rwy'n cydymdeimlo'n ddwys gyda phawb sydd wedi talu'r pris eithaf yn yr argyfwng, mae profedigaeth yn anodd mewn amseroedd arferol ond yn yr argyfwng hwn mae wedi rhoi pwysau dwysach ar deuluoedd a ffrindiau.

Mewn ymateb i'r pandemig, sefydlwyd llinell ffon argyfwng 7 diwrnod yr wythnos er mwyn cefnogi'r gymuned fregus. Cawsom nifer helaeth o ymholiadau yn enwedig gan fusnesau lleol. Hoffwn ddiolch i'r staff i gyd am eu parodrwydd i weithio'r oriau ychwanegol ac am fod yn llais cysurus ochr arall i'r ffon.

Ar gychwyn yr argyfwng daeth y Cyngor, Medrwn Môn a Menter Môn at ei gilydd er mwyn creu cefnogaeth gymunedol. Gwelwyd dros 800 o wirfoddolwyr yn cynnig eu hunan i gefnogi cymunedau Ynys Môn. Diolch I bob un ohonynt am ddiogelu'r anghenus yn ein cymdeithas. Drwy arweiniad Menter Môn gwelwyd cynllun Neges yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau prydau bwyd maethlon i'r bregus yn ein cymdeithas.

Yn olaf, mae amgylchiadau'r flwyddyn o mis Mawrth i Hydref 2020 wedi'i newid pob un ohonom. Gallwn ymfalchïo fel Cyngor o'n staff a'n cymunedau. Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth, wrth gyd-dynnu dangoswn nerth ein hynys fach.

## Cyflwyniad

Ein nod ar gyfer y cyfnod 2017-2022 fel y nodir yn ein Cynllun Cygnor yw –

**"Byddwn yn gweithio tuag at Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus lle gall teuluoedd ffynnu"**

Y thema allweddol sy'n rhedeg trwy'r cynllun yw ein huchelgais i weithio â phobl Ynys Môn, ein cymunedau a'n partneriaid er mwyn sicrhau gwasanaethau o safon uchel a fydd yn gwella ansawdd bywyd i bawb ar yr Ynys.

Ni all ein nod fod yn bwysicach nag yn ystod yr amseroedd ansicr hyn ym mhob un o'n bywydau gyda phandemig coronafirws ledled y byd yn bygwth llawer o'n teulu, ffrindiau, cymdogion, cymunedau, cydweithwyr a'r ffordd yr ydym yn byw ein bywydau. Mae cymaint wedi newid yn ddramatig mewn cyfnod byr ac rydym ni fel Cyngor wedi bod yn gweithio'n galed gyda phartneriaid ac yn ein cymunedau i sicrhau bod trigolion ac ymwelwyr Ynys Môn fel ei gilydd yn aros mor ddiogel ac iach â phosibl.

Felly, byddwn yn dechrau ein hadroddiad mewn ffordd ychydig yn wahanol i'r arfer lle y byddwn yn adrodd rhai o'r penderfyniadau allweddol y mae'r Cyngor wedi cynnal yn ystod y pandemig ac yna symud ymlaen i ddarparu diweddariadau ar y gwaith a wnaed yn ystod 2019/20.

## Ymateb i'r Pandemig Coronafeirws

Adroddwyd am yr achos Covid-19 positif cyntaf yn Ynys Môn ar y 11eg Mawrth 2020. Yn dilyn cyngor Llywodraeth y DU i bawb yn y DU i osgoi pob taith 'an-hanfodol' a chysylltiad ag eraill, fe wnaethom sefydlu Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng (EMRT) yn fewnol ar y 18fed Mawrth 2020.

Yr EMRT sy'n gyfrifol i wneud penderfyniadau ar unrhyw beth sy'n ymwneud â Coronafirws ar Ynys Môn gan gynnwys trafod darparu gwasanaeth allweddol, gweithgareddau newydd, cynllunio'r gweithlu, cyfathrebu, rhannu gwybodaeth ac iechyd a diogelwch. Mae'n cynnwys y Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, Arweinydd y Cyngor a'r Dirprwy Arweinydd, a phersonél allweddol o safbwynt rheoli argyfwng. Roedd yr EMRT yn cyfarfod yn ddyddiol ar ddechrau'r pandemig ac ar adeg ysgrifennu hwn mae wedi cael ei leddfu i gyfarfod wythnosol gan fod nifer yr achosion dyddiol Covid-19 positif wedi gostwng. Cynhaliwyd cyfarfodydd trwy ffyrf rhithwir, gan ddangos gallu'r Cyngor i fod yn ymatebol sy'n addasu i heriau a gofynion sy'n newid.

Daw Cynllunio Argyfwng ar gyfer y pandemig coronafeirws o dan ddeddfwriaeth Argyfyngau Sifil Posib ac mae'n cael ei arwain yn genedlaethol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Ar lefel Gogledd Cymru mae hyn yn cael ei gydlynu a'i arwain gan y Fforwm Cydnerthedd Lleol (lle mae'r sector cyhoeddus yn cydweithio), drwy'r Grŵp Cydlynu Strategol argyfwng. Roedd y'r Cyngor yn gyfrifol am wneud penderfyniadau lleol a rhoi deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol ar waith. Roedd yna rôl fonitro ac adrodd hefyd, drwy'r strwythurau, er mwyn dylanwadu a llywio.

Mae'r Arweinydd wedi gweithredu ei phwerau i wneud penderfyniadau gweithredol ers dechrau'r argyfwng.Mae Aelodau eisoes wedi cael eu briffio ar y Ddeddf Coronafeirws a'i goblygiadau o ran rhwymedigaethau statudol y Cyngor. Mewn perthynas â chyfarfodydd Pwyllgor, ni fu'n bosibl cynnal busnes yn ôl yr arfer. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn lleihau'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chyfarfodydd, tra'n caniatáu i Aelodau fynychu cyfarfodydd o bell ar gyfer unrhyw gyfarfodydd gofynnol. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 'o bell' y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar 20 Mai gan ddefnyddio Microsoft Teams ac mae recordiad o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r

Aelodau a'r swyddogion wedi addasu'n gyflym i ddefnyddio’r technoleg newydd a rydym wrthi’n datblygu datrysiadau ar gyfer cyfarfodydd ffrydio byw a gwasanaethau cyfieithu.

Mae delio gyda’r argyfwng Covid -19 wedi bod yn her sylweddol i’r Cyngor – nid yn unig o ran cynnal gwasanaethau allweddol rheng flaen a chynnal busnes arferol lle bo’n bosib, ond hefyd i sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch yn eu lle i ddiogelu staff yr awdurdod tra’n darparu gwasanaethau.

Yn lleol, rydym wedi blaenoriaethu;

- Cynnal gwasanaethau statudol rheng flaen,
- Gweithredu gwasanaethau newydd mewn ymateb uniongyrchol o’r argyfwng,
- Cynllunio ar gyfer nifer sylweddol o farwolaethau,
- Amddiffyn a diogelu gweithlu’r Cyngor,
- Sicrhau cyflenwad Offer Amddiffyn Personol (PPE) digonol a safonol,
- Amddiffyn a chefnogi plant bregus a phlant ein gweithwyr allweddol yn ein Hybiau Gofal,
- Gweithredu canllawiau cenedlaethol,
- Gweithredu grantiau cenedlaethol, e.e. cymorth busnes, taliadau uniongyrchol am bridal ysgol am ddim,
- Addasu'r gweithlu mewn cyfnod byr o amser a chreu'r amodau ar gyfer gwahanol ffyrdd o weithio gan gynnwys cyflwyno Microsoft Teams a galluogi staff nad oeddent erioed wedi gweithio gartref yn y gorffennol i weithio gartref,
- Dod yn un o’r Siroedd cyntaf i beilotio’r system ‘Profi ac Olrhain’,
- Darparu cyfathrebiadau a rhannu gwybodaeth yn amserol ac yn rheolaidd, yn fewnol ac yn allanol, a
- Cydweithredu’n effeithiol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol; ac
- Ail-ddyrannu dyletswyddau staff er mwyn gweithio ar y tîm Prawf, Olrhain ac Amddiffyn

Rhaid hefyd pwysleisio bod gwaith dydd i ddydd wedi parhau yn ystod cyfnod yr argyfwng ar draws sawl Gwasanaeth, ond bod y dull o weithio wedi cael ei addasu er mwyn cadw’r gweithlu a thrigolion yr Ynys yn ddiogel.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am rywfaint o'r gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod hwn yn Atodiad 1 ar ddiwedd yr adroddiad hwn, yn ogystal â'r diweddariadau a drafodwyd yn y Pwyllgor Gwaith trwy gydol y flwyddyn i ddod sydd ar gael ar ein gwefan.

## Dangosyddion Allweddol Coronafeirws

Y dangosyddion a ddangosir isod yw dim ond rhai o’r materion allweddol a’r heriau y bydd angen eu hystyried fel rhan o’r broses Cynllunio adferiad pandemig Coronafeirws:

### Iechyd a Gofal

- Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, mae achosion coronafirws positif Ynys Môn ymhlith yr isaf yng Nghymru (8 Hydref) gyda 25.7 o achosion fesul poblogaeth 100k dros gyfnod o 7 diwrnod. I roi hyn mewn persbectif, fe wnaethon ni daro uchder o dros 120 o achosion fesul poblogaeth 100k yn ystod yr achosion o ffatri 2Sisters ym mis Mehefin. Llwyddwyd i ostwng y gyfradd yn gyflym ac atal achosion cymunedol oherwydd y gwaith a wnaed gan y rhaglen Tracio ac Olrhain, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, 2Sisters a a ni’n hunain.
- Roedd bron i 800 o unigolion wedi cynnig eu henwau i wirfoddoli gyda Medrwn Môn yn ystod y pandemig, gyda 589 o wirfoddolwyr yn gweithio yn ystod pythefnos cyntaf y cyfnod clo. Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, mae bron i 500 o wirfoddolwyr yn dal i roi

cymorth i tua 650 o bobl yn ein cymunedau gydag amryw dasgau, o siopa i ddanfon meddyginiaeth.
- Mae cynllun Neges wedi danfon mwy na 3000 o brydau i unigolion, cyplau a theuluoedd ers dechrau'r pandemig
- Hefyd mae'r Banciau Bwyd wedi dosbarth dros 400 o becynnau hyd yma, gydag ymateb eithriadol o ran rhoddion gan y cymunedau
- Derbyniodd 3393 o bobl lythyr Gwarchod gan Lywodraeth Cymru, ac ar ôl i'r Cyngor gysylltu â'r unigolion hynny, danfonwyd tua 150 o barseli bwyd i'r rheiny a oedd angen y pecynnau
- Telir cyfanswm o 1551 o daliadau ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim i deuluoedd cymwys ar yr ynys. Mae hyn yn gynnydd ar y 1140 o hawlwyr Prydau Ysgol am Ddim a nodwyd yn PLASC
- Bu cyfartaledd o 105 o blant yn mynychu un o'r Hybiau Gofal Ysgol yn ddyddiol ar anterth y pandemig (Ebrill a Mai) gyda chyfartaledd o 98 aelod staff yn bresennol. Rhwng Mehefin a chanol Gorffennaf, cododd hyn i gyfartaledd o 170 o blant yn mynychu bob dydd, ynghyd â 125 o aelodau staff
- Mynychodd cyfartaledd o 375 o blant yr ysgol ar y diwrnodau cadw mewn cysylltiad

## Ecomoni a'r Gweithlu

- Roedd nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau ddiwedd mis Awst yn 6% o'r gweithlu sydd ar gael, ac mae wedi mwy na dyblu yn ôl cyfartaledd 2019/20 o 2.9%
- Mae tua 7700 o bobl wedi cael eu rhoi ar ffyrlo hyd at ddiwedd Awst, sy'n cyfateb i 24% o boblogaeth gweithlu Ynys Môn
- Hyd at ddiwedd Gorffennaf, gwnaed tua 3000 o hawliadau, gan tua 81% o'r busnesau cymwys hynny, i'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS). Talwyd cyfanswm o £7.6Miliwn gyda thaliad cyfartalog o £2600 yr hawliad
- Mae cyfanswm o 148 o fusnesau, 89 Micro a 59 o fusnesau bach a chanolig, wedi hawlio oddeutu £ 2.6M o'r Gronfa Gwydnwch Economaidd
- Mae'r Cyngor wedi talu cyfanswm o £17.32M mewn Grantiau Llywodraeth Cymru hyd yn hyn i 1732 o fusnesau sy'n gymwys i gael y rhyddhad ardrethi i fusnesau bach ar yr Ynys gyda gwerth ardrethol o £ 12,000 neu lai
- Mae'r Cyngor wedi talu cyfanswm o £4.5M mewn Grantiau Llywodraeth Cymru i 180 o fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch sy'n meddiannu eiddo sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £ 51,000
- The Council has also paid Welsh Government Grants totalling £112,500 to 45 new start-up businesses
- Roedd tua 25% o staff y Cyngor wedi parhau i weithio allan yn y gymuned yn ystod y tôn gyntaf o'r pandemig, gyda thua 43% o aelodau staff yn gweithio oddi cartref ar gyfartaledd.

## Perfformiad 2019/20

Fe wnaethom amlinellu beth fyddem yn ei wneud i gyflawni ein Cynllun Cyngor yn ein Dogfen Gyflawni Flynyddol (DGB) ar gyfer 2018/19. Bydd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn adolygu'r cynnydd a wnaethom gyda'n camau gweithredu mewn perthynas â'n hamcanion a amlinellir yn ein DGB ac yn cymharu ein perfformiad gyda mesurau allweddol.

Fe wnaethom nodi hefyd y byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd a'r nodau ac egwyddorion o ddatblygu cynaliadwy sydd wedi eu hymgorffori yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein hamcanion wedi eu cyfateb i'r rhain fel y gwelir yn nhabl 1 isod.

| Amcanion y Cyngor a'r Cyswllt gyda Nodau Cenedlaethol | Llewyrchus | Gwydn | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau cydlynol | Yr Iaith Gymraeg / | Yn fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl. | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| 3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Tabl 1

## Sut rydym yn mesur a dadansoddi ein perfformiad

**Beth yw Rheoli Perfformiad?**

Mae Rheoli Perfformiad yn broses lle mae'r cyngor a'i staff yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu ein blaenoriaethau corfforaethol trwy amcanion corfforaethol, amcanion y gwasanaethau ac amcanion unigol, o fewn adnoddau a ddyrannir.

**Cynllun y Cyngor**

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi Nodau ac Amcanion strategol y Cyngor ar gyfer y tymor etholiadol. Mae'n hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor ac yn:

- gosod y fframwaith yr ydym yn ei ddefnyddio i gynllunio, gyrru a darparu ein gwasanaethau
- dylanwadu ar y modd y byddwn yn llunio ein cyllideb yn flynyddol, ac yn
- helpu i fonitro cynnydd ac asesu beth y byddwn yn ei gyflawni bob blwyddyn.

**Sut a phryd y caiff ei fonitro?**

Bydd y Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflawni'r drwy wireddu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol (Ebrill – Mawrth). Bydd yn cael ei lunio ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ac yn gosod manwl y Cyngor am 12 mis yn erbyn y Cynllun Corfforaethol. Mae anawsterau yn amlwg wedi bod wrth gwrdd â'r amserlenni hynny yn ystod 20/21 gydag ymddangosiad y pandemig byd-eang. O ganlyniad, bwriad y

Cyngor Sir yw llunio Dogfen Gyflenwi 18 mis yn ystod Hydref 2020 a fydd yn arwain y broses o wneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â chynllunio adferiad am weddill tymor y weinyddiaeth gyfredol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ysgrifennir yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol dros y 12 mis diwethaf

Caiff y Cynllun Corfforaethol ei fonitro drwy amrywiaeth o sianelau sy'n cynnwys:

- Byrddau Rhaglen Trawsnewid Chwarterol;
- Adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarterol; ac
- Adolygiadau Gwasanaeth Blynyddol

Yn dilyn hynny, bydd adroddiadau a gynhyrchir gan ddefnyddio gwybodaeth o'r ffynonellau hyn yn cael eu hystyried gan ein swyddogaeth sgriwtini corfforaethol ac yna'r Pwyllgor Gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl aelodau yn ymwybodol o'r cynnydd yr ydym yn ei wneud yn erbyn ein blaenoriaethau.

**Byrddau Rhaglen Trawsnewid**

Mae'r Byrddau Rhaglen Trawsnewid, a gynhelir bob chwarter, yn cael eu cadeirio gan y Prif Weithredwr a'r Ddirprwy Prif Weithredwr a byddant yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth, Uwch Reolwyr, Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ac Aelodau Sgriwtini.

Mae gan y Byrddau Rhaglen gylch gwaith i fonitro a gyrru cynnydd ar Raglenni a Phrosiectau Newid perthnasol a rhoi hyder i Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr bod buddion a ragwelir ar gyfer y Cyngor a chymunedau yn cael eu gwireddu ac mae sicrhau hyn mewn modd amserol yn allweddol. Mae'r cylch gorchwyl hwn wedi'u hadolygu a'u diweddaru yn ddiweddar i gynnwys croestoriad ehangach o fewnbwn gwleidyddol ynghyd â rolau a chyfrifoldebau clir wedi'u hegluro.

**Adolygiadau Gwasanaeth**

Disgwylir i bob gwasanaeth ymgymryd â dau Adolygiad Gwasanaeth bob blwyddyn a byddant yn cael eu cynnal a'u rheoli'n gorfforaethol:

1. Adolygiad Ariannol o'r Gwasanaeth

   Y broses o ragweld arbedion o fewn gwasanaethau a gwaith trawsnewid y gellir ei ddefnyddio er mwyn cynorthwyo'r broses o osod cyllideb blynyddol y Cyngor.

2. Adolygiad o Berfformiad a Risg y Gwasanaeth

   Gofynnir i'r gwasanaethau gwblhau hunan-asesiad gwasanaeth er mwyn gweld lle mae'r Gwasanaeth mewn perthynas â dangosyddion perfformiad, salwch, llywodraethiant, risg ac yn y blaen. Fe'i defnyddir er mwyn rhoi sicrwydd i'r UDA / Pwyllgor Gwaith bod cyfeiriad y gwasanaeth wedi'i alinio yn unol â chyfeiriad ehangach y Cyngor ac y defnyddir adnoddau mewn modd effeithiol.

**Cerdyn Sgorio Corfforaethol**

Datblygwyd y cerdyn sgorio corfforaethol er mwyn adnabod a hysbysu arweinwyr y Cyngor am y cynnydd yn erbyn dangosyddion sy'n dangos bod gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae'n cynorthwyo i ddarparu sylfaen dystiolaeth drwy'r dangosyddion y gellir drafftio'r adroddiad perfformiad blynyddol ohono. Mae'n portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y'u hamlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ar y cyd rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

Mae adroddiad monitro'r cerdyn sgorio chwarterol yn amlinellu camau gweithredu lliniarol y mae'r UDA wedi eu hadnabod er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei graffu gan y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith lle gellir cael sicrwydd bod perfformiad yn cael ei reoli'n effeithiol ar draws y gwasanaeth.

## Dangosyddion perfformiad a dadansoddiad

Mae'r cyngor yn monitro ei berfformiad trwy'r cerdyn sgorio corfforaethol, mae'r dangosyddion o fewn y cerdyn sgorio'n adrodd ar ddangosyddion cenedlaethol a lleol.


Caiff Dangosyddion Cenedlaethol, sy'n cael eu hadnabod fel Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM) eu cyhoeddi ac yn draddodiadol maent wedi ei ddefnyddio i gymharu bob Awdurdod Lleol yn erbyn yr un dangosyddion. Yn anffodus, oherwydd y Pandemig Coronafirws cyfredol, ni fydd y gymhariaeth genedlaethol ar gyfer eleni yn cael ei chynnal ac felly bydd y dadansoddiad o ddangosyddion eleni yn seiliedig ar ein perfformiad ein hunain yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Nodwyd gennym yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2018/19 y llynedd y byddem yn anelu at wella ein perfformiad yn 2019/20 drwy fonitro'r holl ddangosyddion PAM drwy'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol, gyda'r mwyafrif ohonynt yn chwarterol, a gweddill y dangosyddion yn flynyddol, fel y gellid canfod gwelliannau a'u cyflawni'n gynt yn y flwyddyn. Cytunwyd gennym hefyd, am y tro cyntaf, i ddefnyddio'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol i fonitro ein perfformiad yn erbyn ein hamcanion fel Cyngor.

Mae'r newid hwn wedi sicrhau mai amcanion y Cyngor yw canolbwynt ein hadroddiadau ar berfformiad, yn hytrach na dim ond statws CAMG (RAYG) (gweler y diffiniad isod). Mae'r broses hon yn rhoi asesiad rheolaidd o'n perfformiad i'n Uwch Reolwyr, ein Haelodau Etholedig a'r cyhoedd, a gellir ei ddefnyddio i gychwyn camau unioni / lliniaru.

Dengys y siart gylch isod (siart 1), yn ystod 2019/20, bod 58% o'n dangosyddion naill ai wedi gwella neu fod perfformiad wedi'i gynnal, ac y bu gostyngiad ym mherfformiad 22% ohonynt, o gymharu â pherfformiad 2018/19.

Mae 9% o'r dangosyddion yn ddangosyddion newydd ar gyfer y flwyddyn, ac felly nid oes ganddynt ddata perfformiad ar gyfer 2018/19 i gymharu ag ef. Ni ellir cymharu 11% o'r dangosyddion oherwydd newidiadau i'r dull o gyfrifo'r dangosydd perfformiad neu oherwydd nad oedd canlyniad ar gael, gan nad oedd y dangosydd perfformiad wedi'i gyhoeddi.




Siart 1


Dylid nodi hefyd bod 66% o'r dangosyddion wedi perfformio'n uwch na'u targedau am y flwyddyn, roedd 17% o fewn lefelau goddefiant y targed (Melyn ar y Cerdyn Sgorio), roedd 13% yn is na'r targed (Ambr neu Goch ar y Cerdyn Sgorio) ac ni fu modd casglu'r 4% oedd yn weddill am y rhesymau a drafodwyd eisoes.   Gellid dadlau bod hyn yn adlewyrchiad cadarnhaol o sut y rheolwyd perfformiad yn ystod 19/20 ond gellir casglu mwy o fanylion a thrafodaeth o'r penodau canlynol o'r adroddiad hwn.

**Sut ydym yn cyflwyno ein perfformiad:**

Mae'r siart isod yn egluro sut ydym yn cyflwyno ein tueddiadau perfformio o fewn y cerdyn sgorio a thrwy'r ddogfen hon. Cyflwynir y cynnydd mewn perthynas ag amcanion yn ystod 2017/18 fel testun mewn siart ac mae cod lliw i gynrychioli statws y cynnydd, y cyfeirir ato fel statws CAMG (RAYG):

Coch = 10% neu fwy yn is na'r targed
Ambr = rhwng 5% a 10% o'r targed
Melyn = o fewn 5% i'r targed
Gwyrdd = o fewn y targed

Cyflwynir y statws CAMG (RAYG) gyda'r Dangosyddion Perfformiad perthnasol ar ddiwedd pob adran. Dangosir y Dangosyddion Perfformiad fel yr enghraifft isod, sy'n cynnwys statws CAMG (RAYG) lleol ein chwartel perfformiad PAM cenedlaethol a'u tueddiadau fesul blwyddyn.



## Amcan 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir

### Swyddi a Chyfleoedd Gwaith

*Yr hyn rydym wedi'i wneud*

Rydym wedi parhau i sicrhau bod prosiectau sydd i'w cyflawni ym Môn drwy Fargen Twf Gogledd Cymru yn dal i fod yn flaenoriaeth o fewn y rhanbarth. Hefyd mae gwaith datblygu ar Cais Twf Gogledd Cymru i hybu twf economaidd ar lefel leol a rhanbarthol, drwy gynorthwyo Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, wedi gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn.

Mae'r rhanbarth Gogledd Cymru wedi llwyddo mewn egwyddor i ddiogelu cyllid sylweddol drwy'r Fargen Twf (£240m) i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau Porth Caergybi, Aráe Lanw Morlais, Cysylltedd Digidol a'r Ganolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear.  Gallai'r Ynys hefyd elwa'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol o'r Rhaglenni Bargen Twf eraill. Y nod yw cytuno ar y Fargen Twf derfynol gyda Llywodraeth y DU a Chymru cyn diwedd blwyddyn ariannol 2020/21

Yn ystod y flwyddyn, paratowyd Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn gennym i gefnogi adfywio economaidd yng Ngogledd Ynys Môn. Mae'r cynllun hwn yn bwysig o ganlyniad i atal prosiect Wylfa Newydd, ynghyd â chau ffatri blastigau Rehau, ac effeithiau'r gostyngiadau mewn lefelau staffio a gweithgareddau yng Ngorsaf Bŵer wreiddiol Wylfa fel y mae'r gwaith datgomisiynu'n mynd yn ei flaen. Mabwysiadwyd y Cynllun yn ffurfiol gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2019.

Yn Rhagfyr 2019, cymeradwyodd yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) gais grant gan y Cyngor am £495,000 o'i Gronfeydd Economaidd-Gymdeithasol, i'w wario dros gyfnod o 3 blynedd i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun.

Diogelwyd £38,000 yn rhagor o gyllid hefyd gan Gynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles yng Nghymru Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion ar gyfer prosiectau amgylcheddol yng Ngogledd Ynys Môn.

Ar ôl bod yn wag am bron i 20 mlynedd, agorodd Neuadd y Farchnad Caergybi ei giatiau ffrynt eiconig unwaith eto ar Fedi 2il 2019. A hwnnw bellach yn gartref i Lyfrgell Caergybi, canolfan hanes leol, fforwm cymunedol, ynghyd ag ystafelloedd cyfarfod gyda lle i'w osod ar y llawr cyntaf at ddibenion masnachol a swyddfeydd, mae'r adeilad unwaith eto'n galon canol tref a bywyd cymunedol Caergybi.

Fe gafodd Neuadd y Farchnad Caergybi ei hadnewyddu er mwyn ei defnyddio unwaith eto gyda chyllid o tua £4m gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF), Llywodraeth Cymru, a chronfeydd grantiau'r Undeb Ewropeaidd.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Neuadd y Farchnad yn yr astudiaeth achos ar ddiwedd yr adran hon o'r adroddiad.

Mae cyllid NLHF o £1.5m wedi'i ddiogelu hefyd ar gyfer cam pellach ym Menter Treftadaeth Treflun Caergybi (THI) i wella adeiladau hanesyddol sy'n wag, neu sydd wedi mynd â'u pen iddynt yng nghanol tref Caergybi.

Diogelwyd £3.25m arall gan y Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Adfywio Wedi'i Dargedu (TRI) ar gyfer y prosiect Eiddo Gweigion yng Ngogledd Orllewin Cymru a arweinir gan y Cyngor, sydd nid yn unig yn darparu arian cyfatebol ar gyfer Cam 2 o THI Caergybi ond hefyd yn helpu i ariannu Grantiau i Brynwyr am y Tro Cyntaf ac i Landlordiaid ar gyfer Cartrefi Gweigion ym Môn a Gogledd Gwynedd.

Diogelwyd cyllid TRI hefyd i ariannu astudiaethau gyda golwg ar lywio'r gwaith o ailddatblygu safleoedd yr ysgolion sydd wedi cau yng Nghaergybi.

Fel rhan o Brosiect Isadeiledd Strategol Caergybi, mae gwaith ar fynd bellach i adeiladu 10 uned fusnes newydd i  gefnogi busnesau'r ynys yn Penrhos, Caergybi.

Penodwyd Wynne Construction i ailddatblygu hen safle'r hofrenfa yn unedau busnes. Bydd y datblygiad hwn yn darparu 30,000 troedfedd sgwâr o le ar gyfer swyddfeydd, busnesau diwydiannol ysgafn a storfeydd i hybu twf busnes a chefnogi'r sector ynni carbon isel. Lleolir mannau gwefru cerbydau trydan ar y safle hefyd.

Llwyddodd swyddogion Datblygu Economaidd Ynys Môn i ymgeisio am £2.3m o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) trwy Lywodraeth Cymru, ac am y tro cyntaf i Ynys Môn, cytunwyd ar fenter arloesol ar y cyd, sy'n werth £1.6m, gyda Llywodraeth Cymru.

Mae'r prosiect yn rhan o gynlluniau ehangach i ddatblygu Parth Menter Ynys Môn a Rhaglen Ynys Ynni. Bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau a'r unedau'n barod i fusnesau'n ddiweddarach yn 2020.

Dywedodd deilydd portffolio datblygu economaidd a phrosiectau mawr Cyngor Sir Ynys Môn, y Cyng. Carwyn Jones: "Mae nifer sylweddol o brosiectau ynni carbon isel yn cael eu datblygu ar hyn o bryd yn y sector preifat ym Môn, gan gynnwys cynllun ynni'r llanw cyffrous Morlais.

"Rydym yn gweithio i sicrhau bod yr isadeiledd angenrheidiol yn ei le i sicrhau bod yr ynys yn manteisio ar y cyfleoedd hyn i fusnesau."

Dywedodd Gweinidog yr Economi, Ken Skates:

"Mae'r fenter ar y cyd a gytunwyd gennym yn brawf pellach o'n cefnogaeth i'r sector pwysig iawn hwn ac i ranbarth sy'n prysur ddod yn wirioneddol flaenllaw ar lefel fyd-eang fel canolfan ragoriaeth ym maes ynni carbon isel."

"Bydd hefyd yn cyfrannu tuag at greu'r math o ffyniant cynhwysol a chynaliadwy yng Ngogledd Cymru yr ydym yn gweithio'n galed i'w yrru yn ei flaen trwy ein Cynllun Gweithredu Economaidd."

Mae Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn yn ymdrech ar y cyd rhwng amryw randdeiliaid o fewn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth, gan roi Ynys Môn ar flaen y gad o ran ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ym maes ynni carbon isel, ac yn sgil hynny'n dod â'r posibilrwydd o fuddion economaidd anferth.

Gweledigaeth Ynys Ynni yw creu cyfle unwaith mewn oes i greu swyddi, twf economaidd a ffyniant trwy elwa ar llawer o brosiectau gweddnewidiol ar Ynys Môn.

Mae Rhaglen Ynys Ynni'n cydweithredu â sawlranddeiliaid allweddol i:

- Ddenu a dadrisgio buddsoddiad strategol mawr
- Dylanwadu ar ddatblygwyr posib
- Hybu datblygiad pobl a chymunedau cystadleuol
- Hybu datblygiad busnesau cystadleuol
- Hybu datblygiad isadeiledd cystadleuol
- Gwireddu'r buddiannau y gall prosiectau mawr eu cyflawni a lliniaru effeithiau andwyol
- Gwneud y gorau o fuddion etifeddol hirdymor

Byddwn yn parhau i ddefnyddio Rhaglen Ynys Ynni i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, ynghyd â buddsoddwyr mawr posib ym maes ynni, i hyrwyddo cyfleoedd a dylanwadu ar fuddsoddiadau posib.

Rydym yn parhau i ddylanwadu ar yr holl brosesau caniatâd mewn perthynas â datblygiadau mawr ac yn ymateb iddynt, gan sicrhau ein bod yn elwa ar gyfleoedd a bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu canfod a'u lliniaru'n gyfatebol. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ymateb i'r datblygiadau a'r prosiectau a ganlyn:

- Safle Niwclear Wylfa Newydd
- Aráe Lanw Morlais
- Fferm Solar Traffwll
- Datblygiad Marina Caergybi
- Datblygiad Glannau Caergybi
- Prosiectau Atal Llifogydd

Er bod pob un o'r uchod yn gadarnhaol hy mae'n dangos y meysydd sydd wedi'u symud ymlaen. Mae'n werth nodi hefyd bod economi Ynys Môn sydd eisoes yn fregus wedi cael ei tharo'n arbennig o galed gan ddechrau'r pandemig Covid-19. Erbyn diwedd mis Mai 2020, roedd effeithiau anghymesur o ddifrifol ar rai sectorau, yn enwedig twristiaeth a lletygarwch (prif sector economaidd yr ynys), ac ar bobl ifanc, heb os wedi dod â chaledi difrifol i lawer o fusnesau ac wedi effeithio ar lawer o unigolion a'u teuluoedd.

Roedd twristiaeth, lletygarwch a'i gadwyn gyflenwi gysylltiedig wedi colli tua 40% o'r incwm potensial blynyddol a wneir yn gyffredinol dros gyfnod gwyliau'r Pasg. Cafodd bron i chwarter gweithwyr Ynys Môn (6,400 o unigolion neu 24.6%) eu ffyrlo erbyn 31 Mai (gan gynyddu i 7,700 erbyn 31 Gorffennaf), ac roedd tua 2,700 o unigolion hunangyflogedig yn ddibynnol ar gefnogaeth y llywodraeth trwy gynllun hunangyflogedig SEISS. Roedd y niferoedd sy'n derbyn 'buddion allan o waith' Credyd Cynhwysol (CC) wedi dyblu (o 1,335 ym mis Mawrth 2020 i 2,615 ym mis Mai), cynnydd yn y gyfradd o 3.3% i 6.3% (cynyddodd hyn i 6,275 o unigolion, neu 6.6% erbyn 31ain. Gorffennaf). Cafodd pobl ifanc eu taro'n arbennig o galed gyda 11.7% o bobl ifanc 18-24 oed yn hawlio CC 'budd-daliadau allan o waith' erbyn 31 Gorffennaf o'i gymharu â 6.6% o'r boblogaeth waith yn ei chyfanrwydd.

O ganlyniad, mae'r Cyngor wrthi'n llunio cynllun adfer, sy'n anelu at:

(i) sefydlu fframwaith y cytunwyd arno ac ystod o gamau gweithredu a mentrau y gellir eu gweithredu'n rhagweithiol, ar y cyd ac mewn partneriaeth ag eraill, i fynd i'r afael ag adferiad economaidd ôl-Covid-19 a'r materion sy'n wynebu busnesau lleol ar Ynys Môn ers hynny. dyfodiad y pandemig; a hefyd

(ii) yn ychwanegol at osod y sylfeini i hwyluso 'adferiad', dechrau ailstrwythuro'r economi leol i geisio sicrhau mwy o wytnwch a thwf posibl yn y dyfodol, mae 'chwaer gynllun' sy'n mynd i'r afael â materion penodol sy'n wynebu'r sector twristiaeth a lletygarwch a'r rheolaeth a mae datblygiad Ynys Môn fel cyrchfan i ymwelwyr hefyd yn cael ei gynhyrchu.

Fodd bynnag, o ystyried natur y cynllun datblygol hwn a'r gofynion adnoddau tebygol i'w weithredu, ni all y Cyngor, ynddo'i hun, ysgogi adferiad. Gydag adnoddau a gallu cyfyngedig, mae partneriaeth a chydweithio yn hanfodol. Bydd ymgysylltu'n genedlaethol a hefyd yn rhanbarthol trwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn allweddol. Yn lleol, bydd gan sefydliadau fel Menter Môn, Medrwn Môn a Môn CF rolau hanfodol i'w chwarae yn ogystal â Chynghorau tref a chymuned. Bydd

ymgysylltu a chydweithio effeithiol ac ystyrlon gyda'r sector preifat a'i gyrff cynrychioliadol (megis Ffederasiwn Busnesau Bach, Cymdeithas Twristiaeth Ynys Môn a Siambrau Masnach), hefyd yn hanfodol wrth ddiffinio a chyflawni'r ymyriadau â blaenoriaeth sydd eu hangen i gynnal cyflogaeth, cefnogaeth busnesau a gyrru adferiad economaidd ôl-Covid-19.

---

## Addysg a Sgiliau

### *Yr hyn rydym wedi'i wneud*

1. Cynhaliwyd agoriad swyddogol Ysgol Santes Dwynwen yn Niwbwrch ar 29ain Ebrill 2019. Mae'r ysgol yn cymryd lle pedair ysgol, sef Ysgol Bodorgan, Ysgol Dwyran, Ysgol Llangaffo ac Ysgol Niwbwrch.

   Mae'r ysgol £5m newydd yn rhoi lle i ddisgyblion a fydd yn manteisio ar y cyfleusterau a'r adnoddau diweddaraf sy'n cynnwys ystafelloedd dosbarth modern â digonedd o offer, ynghyd â mannau awyr agored addas ar gyfer chwarae a dysgu. Ariannwyd y prosiect yn rhannol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif.

   I weld fideo sy'n dangos rhai o'r prosiectau a gyflawnwyd drwy'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, cliciwch ar y ddolen isod:

   https://www.anglesey.gov.uk/en/Residents/Schools-and-learning/Modernising-Anglesey-Schools/Creating-schools-for-the-21st-century.aspx

   Datblygwyd darpariaeth gofal plant newydd ar sawl un o safleoedd ysgolion yr ynys yn defnyddio cyllid gan Raglen Cyfalaf Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru. Mae dau gaban o'r radd flaenaf wedi'u hadeiladu eisoes yn Ysgol Morswyn, Caergybi ac yn Ysgol Pencarnisiog. Bydd y rhain yn cynnig darpariaeth gofal plant drwy gydol y dydd, yn ogystal â gofal yn ystod gwyliau'r ysgol.

   Hefyd mae Gofal Rhosfair, sef darparwr gofal plant newydd yn Ysgol Santes Dwynwen, wedi cychwyn clwb ar ôl ysgol ar y safle.

2. Ar 20 Ionawr 2020, cytunodd Pwyllgor Gwaith Ynys Môn i ymgynghori ar ddyfodol darpariaeth gofal plant yn ardal Llangefni.

   Rhoddodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith awdurdod i swyddogion gynnal ymgynghoriad statudol ar gynigion a allai weld £16m yn cael ei buddsoddi mewn addysg yn ardal Llangefni.

   Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol o chwe wythnos, o 6 Chwefror i 20 Mawrth 2020, ar y cynigion a ganlyn:

- Adleoli ac adeiladu Ysgol Corn Hir newydd, gwerth £10 miliwn, ar safle gwahanol, i gymryd disgyblion o Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.
- Cynyddu capasiti Ysgol y Graig trwy godi estyniad gwerth £6m i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.

   Mae gwaith, a ataliwyd yn rhannol oherwydd effeithiau'r pandemig, ar fynd bellach i ddadansoddi'r holl ymatebion o'r cyfnod ymgynghori a choladu crynodeb o'r ymatebion mewn adroddiad ymgynghori i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith gyn gynted ag y bo'n rhesymol bosib.

Eglurodd y Deilydd Portffolio Addysg, y Cynghorydd Meirion Jones, "Nod ein rhaglen foderneiddio yw creu'r amgylchedd addysgol orau bosib i athrawon, staff, a darparu'r addysg orau bosib ar gyfer dyfodol ein plant."

Ers i Raglen Foderneiddio Ysgolion Ynys Môn ddechrau yn 2012, mae'r Cyngor Sir wedi buddsoddi tua £22m mewn addysg ar yr ynys, gydag ysgolion cynradd 21ain ganrif wedi'u hadeiladu a'u hagor yng Nghaergybi, Llanfaethlu a Niwbwrch. Mae cyllid ar gael ar hyn o bryd i adeiladu rhagor o ysgolion newydd sy'n addas i'r 21ain ganrif.

3. Ni ddatblygwyd y ffordd ymlaen o ran darpariaeth addysgol yn ardaloedd Seiriol ac Amlwch yn ôl y disgwyl yn ystod 2019/20 ond maent yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gyda'r bwriad o symud ymlaen ymhellach yn 2020/21. Bydd mwy o wybodaeth ar gael maes o law yn dibynnu ar y pandemig coronafirws cyfredol.

4. Aethom ati i barhau â'r gwaith o weithredu ein strategaeth i ddatblygu'r Gymraeg o fewn ein hysgolion drwy gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu hasesu gan athrawon trwy gyfrwng y Gymraeg.

   Mae'r strategaeth wedi gweld cynnydd o 16% o ddisgyblion yn cael eu haddysgu a'u hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ers 2015, pryd cafwyd 71.4% yn cael eu hasesu yn 2015 hyd at 87.5% a gafodd eu hasesu yn 2019.

   Yng Nghyfnod Allweddol 2, cafwyd cynnydd o 16.8% dros bedair blynedd. Cafwyd rhywfaint o gynnydd hefyd yng Nghyfnod Allweddol 3, ond cynnydd bach iawn iawn oedd hwnnw.

   Yng Nghyfnod Allweddol 4, astudiodd 65% o ddisgyblion y Gymraeg fel iaith gyntaf, gyda 10% yn astudio'r Gymraeg fel ail iaith.

   Bydd prif sylw'r Cynllun Strategol ar gyfer 2020/21 ar yr ysgolion uwchradd.

5. Cynhaliwyd Denu Talent Môn yn llwyddiannus unwaith eto yn haf 2019, pryd cyflogwyd 9 o bobl ifanc dros gyfnod o 12 wythnos mewn lleoliadau gwaith ledled gwasanaethau'r Cyngor.

   Darparodd y cynllun gyfle i bobl ifanc ennill sgiliau newydd a hyder, a chael dealltwriaeth o'r ystod amrywiol o yrfaoedd sydd ar gael drwy weithio ym maes llywodraeth leol. Yn dilyn y cynllun, llwyddodd 2 o bobl ifanc i gael cyflogaeth gyda'r Cyngor eleni, gyda'r gweddill yn mynd ymlaen i addysg bellach.

   Credwn fod hyn yn enghraifft dda o sut y gellir meithrin talent er mwyn cyfrannu tuag at Gyngor, Sir a Gwlad ffyniannus.

6. Rydym wedi llwyddo i benodi swyddog arweiniol ar gyfer lles, sy'n cydlynu gwaith y Gwasanaethau Addysg a Phlant a Theuluoedd, ynghyd â gwella'r modd y mae grantiau Iechyd Meddwl yn cael eu hintegreiddio ar gyfer plant a phobl ifanc, sydd wedi ein galluogi i gydlynu ein darpariaeth o ran hybu lles disgyblion, yn enwedig y rheiny sy'n agored i niwed.

   Rhoddir gwell sylw bellach i gryfhau ein prosesau ar gyfer canfod a chefnogi ein disgyblion sydd fwyaf agored i niwed trwy gydweithrediad cryfach ag adrannau eraill, yn enwedig y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Mae'r cydweithrediad yn gryfach hefyd rhyngom ag amryw asiantaethau eraill, sy'n cynnig mwy o gymorth i ysgolion er mwyn darparu gwasanaethau sy'n hyrwyddo lles disgyblion.

## Iechyd a Lles

### *Yr hyn rydym wedi'i wneud*

1. Rydym wedi ymrwymo i weithio er mwyn cynyddu'r cyfraniad a wneir gan ein preswylwyr, gyda phwyslais ar bobl ifanc, ym maes chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Rhan annatod o hyn fu'r gwaith a wnaed i foderneiddio ein hystafelloedd ffitrwydd a'r ddarpariaeth 3G ar yr ynys.

   O ganlyniad i ddatblygu ein cyfleusterau a'u hyrwyddo a'u marchnata'n effeithiol, cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr aelodau sy'n talu drwy Ddebyd Uniongyrchol dros y 12 mis diwethaf. Rydym hefyd wedi datblygu Pecyn Aelodaeth Corfforaethol, y mae 30 o gwmnïau lleol eisoes wedi manteisio arno.

2. Roedd y digwyddiad Nofio Diogel / SwimSafe, a gefnogir gan Nofio Cymru a'r RNLI, yn dysgu plant ym mhle mae'n ddiogel i nofio, sut i arnofio, a beth i'w wneud os ydynt hwy, neu rywun arall, yn mynd i drafferthion. Trefnwyd y sesiynau Nofio Diogel llwyddiannus ym Mae Trearddur gan dîm Môn Actif a thîm Cyrchfannau'r Cyngor Sir ym Mehefin 2019.

   Dywedodd y deilydd portffolio hamdden, Carwyn Jones, "Mae gan Ynys Môn arfordir anhygoel, 140 milltir o hyd, felly mae'n hanfodol bwysig fod ein plant yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelwch dŵr."

   Ychwanegodd, "Roedd y sesiynau SwimSafe yn ymarferol ac yn hwyliog – ond hefyd yn hynod o ddefnyddiol er mwyn addysgu ein plant am beryglon dŵr. Roedd yn wych gweld y bartneriaeth hon ar waith yn Nhrearddur, gyda'r nod gyffredin o bwysleisio pwysigrwydd diogelwch dŵr."

   Roedd gwirfoddolwyr yr RNLI wrth law hefyd i roi sgwrs addysgiadol am bwysigrwydd diogelwch dŵr. Cafodd y plant daith o amgylch gorsaf bad achub Trearddur.

   Yn ogystal, derbyniodd y plant wersi syrffio hwyliog gan Ysgol Syrffio Gecko – ochr yn ochr â thîm o wirfoddolwyr o Achub Bywyd o'r Môr Cymru a gynhaliodd sesiwn achub bywyd. Roedd plant o chwe ysgol gynradd ar yr ynys wedi mynychu'r sesiynau.

3. Dros y flwyddyn, drwy weithio gyda pherchnogion a phartneriaid eraill, rhoddwyd cymorth gennym i ddod â 104 o dai yn ôl i ddefnydd, yn ogystal â chreu 7 cartref newydd fel cartrefi ar gyfer unigolion, cyplau a theuluoedd. Roedd yn 29 yn fwy o dai nag y rhagwelwyd yn wreiddiol eu cwblhau yn ystod 2019/20 ac ariannwyd y gwaith hwn o Bremiwm Treth y Cyngor ac mae'n sicrhau bod pobl leol yn gallu cael gafael ar dai addas yn eu cymunedau lleol.

   Mae'r canlyniad hwn yn ychwanegol i'r 87 o gartrefi a grëwyd yn 2018/19, a'r 75 a grëwyd yn 2017/18. Daw hyn i gyfanswm o 273 o gartrefi a ddatblygwyd ers cychwyn Cynllun y Cyngor 2017-2022, cartrefi nad ydynt mwyach yn wag neu'n anniogel, ac sydd ar gael i'w defnyddio o fewn ein cymunedau.

   Dyma'r Wardiau Etholiadol lle daethpwyd ag eiddo yn ôl i ddefnydd:

   Aethwy - 6
   Bro Aberffraw - 1
   Bro Rhosyr - 5
   Caergybi - 25
   Canolbarth Môn - 15

Llifon – 10
Lligwy - 2
Seiriol - 9
Talybolion - 5
Twrcelyn - 18
Ynys Gybi – 8

7 o dai newydd
Canolbarth Mon - 2
Llifon - 1
Seiriol - 2
Twrcelyn – 2

---

**Astudiaeth Achos – Neuadd y Farchnad**

Bu adeilad Neuadd y Farchnad, sydd wedi'i restru'n Radd II, yn wag am dros 20 mlynedd ac roedd mewn cyflwr mwy a mwy peryglus. Wedi'i adeiladu ym 1855 fel adeilad dinesig cyntaf Caergybi, nid oedd yn hir cyn iddo ddod yn ganolbwynt bywyd cymunedol ar draws Caergybi a Gogledd Ynys Môn, yn gwasanaethu fel y brif farchnad ar gyfer ardal gefnwlad eang. Fel yr oedd patrymau siopa yn newid yn sgil dyfodiad yr archfarchnadoedd mawr a siopa ar-lein, yn raddol, diflannodd pwrpas gwreiddiol yr adeilad. A hwnnw'n wag, dirywiodd ei gyflwr yn sylweddol o 2000 ymlaen.

Mewn ymateb i bryderon y gymuned am ddyfodol a chyflwr yr adeilad, cychwynnodd y Cyngor drafodaethau yn 2010 i archwilio pa opsiynau oedd ar gael o ran ei ddefnydd, a fyddai yn y diwedd yn sicrhau adeilad cynaliadwy y byddai ei ddefnydd yn parchu cymeriad hanesyddol yr adeilad ynghyd â'i bensaernïaeth drawiadol, wrth barhau i fod yn berthnasol i'r gymuned leol. Ar ôl methu dod i delerau o ran newid perchnogaeth er mwyn diogelu'r adeilad, cymerodd y Cyngor gamau uniongyrchol, gan gynnwys pryniant gorfodol.

Yn dilyn diogelu cymorth yn ffurf grant sylweddol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Cymru, bu modd i'r Cyngor roi prosiect cynhwysfawr ar waith i atgyweirio a gwella'r adeilad er mwyn ei ailddefnyddio, gyda'r gwaith yn cychwyn ar y safle yn 2017. Roedd y prosiect yn cynnwys gwneud addasiadau sylweddol, ac er ei fod wedi newid cynllun mewnol y brif neuadd o fewn yr adeilad, roedd yn cadw'r ymdeimlad o le ynghyd â rhannau helaeth o'i adeiladwaith hanesyddol.

Ailagorwyd adeilad Neuadd y Farchnad ar 2il Medi 2019, ar ôl bod yn wag am ugain mlynedd a chael ei adael i fynd â'i ben iddo. Ar ôl i'r Cyngor ymyrryd yn uniongyrchol trwy Orchymyn Pryniant Gorfodol yn 2015, bu modd iddo ddiogelu trosglwyddiad yr adeilad i berchnogaeth y Cyngor. Cychwynnwyd prif waith y contract yn 2017, ac fe'i cwblhawyd mewn dwy ran ar wahân ar 18fed Gorffennaf 2019, oedd yn caniatáu gwaith dilynol i gwblhau'r Llyfrgell a'r ystafelloedd cyfarfod.

Mae'r llyfrgell newydd yn olau ac yn fodern, ond hefyd yn cadw nodweddion gwreiddiol yr adeilad rhestredig a'i naws hanesyddol unigryw. Mae'r llyfrgell yn ymfalchïo yn ei hamryw adnoddau newydd, o bwyntiau gwefru ffôn a thabled, gorsafoedd hunanwasanaeth, lle gall defnyddwyr fenthyg a dychwelyd llyfrau'r llyfrgell eu hunain yn rhwydd. Ceir man penodol ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau, ynghyd â chanolfan hanes lleol, sy'n canolbwyntio'n arbennig ar orffennol Ynys Môn.

Yng nghalon y llyfrgell mae yna le pwrpasol, cyffrous ar gyfer digwyddiadau, a bydd amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau yn cael eu cynnal yma. Gall ymwelwyr i'r llyfrgell hefyd fanteisio ar y

lle cymdeithasol, hyblyg hwn i gwrdd â ffrindiau, cymryd rhan mewn grwpiau darllen neu dim ond mwynhau sgwrs.

Mae gan y llyfrgell hefyd doiled ‘Changing Places’, sy’n diwallu anghenion pobl a chanddynt anableddau dysgu a/neu gorfforol dwys. Neuadd y Farchnad Caergybi yw’r unig adeiladu cyhoeddus ar yr ynys sy’n darparu cyfleusterau o’r fath, a hynny cyn i hyn ddod yn ofyniad gorfodol ym mhob adeilad cyhoeddus newydd.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Yr Arglwydd Ellis-Thomas, “Rydym yn falch iawn o fod wedi bod yn rhan o’r prosiect cyffrous hwn, ac mae wedi bod yn bleser gweithio ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn i sicrhau bywyd newydd i Neuadd y Farchnad Caergybi.”

“Yn dilyn buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, rwyf wedi gweld enghreifftiau rhagorol lle mae Llyfrgelloedd wedi cael eu lleoli ar y cyd â gwasanaethau cyhoeddus eraill a chyfleusterau diwylliannol, sy’n helpu i greu gwell teimlad o ysbryd cymunedol, ac rwy’n siŵr y bydd yr un peth yn wir am Lyfrgell Caergybi.”

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid, y Cynghorydd Meirion Jones, “Bydd y llyfrgell newydd yn darparu adnodd gwych i’r gymuned yng nghanol Caergybi. Mae’r llyfrgell newydd yn fodern â digon o le ynddi, ac mae ganddi ystod eang o gyfleusterau, ac mae’n rhan o’r adeilad ffantastig hwn sydd newydd gael ei adnewyddu, sef Neuadd y Farchnad. Rwy’n credu’n gryf y bydd y trigolion lleol yn falch iawn o’r cyfleuster newydd sbon yma - bydd yn adnodd dysgu hynod o werthfawr i Gaergybi a’r gymuned ehangach ar Ynys Môn.”

Yn ddiweddar, enillodd y prosiect Wobr Treftadaeth Effaith Gymdeithasol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig RICS (Royal Institute of Chartered Surveyors) yng Nghymru ac mae bellach wedi cyrraedd rhestr fer gwobrau'r DU i'w cyhoeddi yn ddiweddarach yn y blynyddoedd. Credai'r beirniaid fod “adfywio Neuadd Farchnad Caergybi nid yn unig wedi gwarchod adeilad pwysig yng Nghaergybi, ond mae hefyd wedi darparu cyfleuster cymdeithasol mawr ei angen gydag ystod amrywiol o weithgareddau. Mae ailfodelu'r adeilad mewn ffordd sydd hefyd yn cadw ac yn cyflwyno nodweddion hanesyddol yr adeilad yn drawiadol. Yn ogystal, mae'r dull o ymdrin ag effeithlonrwydd ynni a lliniaru rhai o effeithiau newid yn yr hinsawdd yn synhwyrol ac mae'n rhywbeth y dylai eraill ei ddilyn. Mae'r cyfuniad o'r priodoleddau hyn a nodweddion eraill yn gwneud hwn yn enillydd teilwng.”

Roedd y prosiect hefyd ar restr fer Gwobrau Rhagoriaeth Cynllunio 2020 y RTPI (Royal Town Planning Institute), yn y categori Rhagoriaeth mewn Cynllunio ar gyfer Treftadaeth a Diwylliant.

**Dangosyddion Perfformiad a Dadansoddiad**

| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | CAMG | Tuedd | Canlyniad | Targed | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | Gwyrdd / Green | ↑ | 94.9% | 94.6% | 94.6% |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | Ambr / Amber | ↓ | 93.9% | 94.4% | 94.4% |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | Gwyrdd / Green | ↓ | 2% | 3% | 1.10% |
| 4) Sgôr ‘Cap 9’ cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 (blynyddol) (Ch3) | Melyn / Yellow | n/a | 345.4 | 349 | 349.1 |
| 5) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch4) | Gwyrdd / Green | ↓ | 87.50% | - | 88.30% |

| Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir | CAMG | Tuedd | Canlyniad | Targed | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| 6) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch4) | Gwyrdd / Green | ➔ | 65.01% | - | 65% |
| 7) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch3) | Gwyrdd / Green | n/a | 75% | 75% | 82% |
| 8) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Ambr / Amber | ↓ | 530k | 553k | 553k |
| 9) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | ➔ | 98% | 95% | 98% |
| 10) Canran y busnesau risg uchel oedd yn agored i ymchwiliadau wedi'u trefnu a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd | Gwyrdd / Green | n/a | 92% | 90% | - |
| 11) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↑ | 75% | 50% | 70% |
| 12) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↑ | 84% | 80% | 83% |
| 13) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 104 | 75 | 78 |
| 14) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | n/a | 7 | 4 | 9 |
| 15) Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd (blynyddol) (Ch4) | Gwyrdd / Green | n/a | 124 | - | 53 |
| 16) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | Gwyrdd / Green | ➔ | 100% | 100% | 100% |
| 17) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Coch / Red | ↓ | 16.44 | 12 | 13.63 |
| 18) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) | | n/a | | - | - |

Mae pob un o'r dangosyddion a adnabuwyd ar gyfer Amcan 1 wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn o gymharu â'u targedau, ac eithrio 2 ddangosydd a oedd o fewn 5% o'r targedau a osodwyd ar eu cyfer am y flwyddyn. Roedd 6 o'r dangosyddion wedi gwella, neu mae'r perfformiad sy'n gysylltiedig â hwy wedi'i gynnal o hynny yn 2018/19, tra bo 3 o'r dangosyddion cymaradwy wedi dirywio o gymharu â 2018/19.

Nid oes gan un dangosydd unrhyw ddata ar gyfer 2018/19 felly ni ellir ei gymharu â blynyddoedd blaenorol, tra na ellir cymharu dau ddangosydd oherwydd newidiadau i'r modd y mae'r dangosyddion yn cael eu mesur, fodd bynnag, mae'r ddau wedi perfformio'n dda o gymharu â'u targedau.

Yn anffodus, nid oedd modd casglu 2 o'r dangosyddion eleni oherwydd canslo'r dangosyddion cymharydd cenedlaethol (Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus).

Roedd presenoldeb yn ein hysgolion wedi dangos gwelliant o ran y ddarpariaeth gynradd, sy'n cynnal ein safle yn y Chwartel Uchaf ar lefel genedlaethol. Gwelwyd dirywiad bach yn y ddarpariaeth uwchradd, fodd bynnag, mae ein perfformiad cyffredinol ar lefel genedlaethol wedi gwella, gan y bu mwy o ddirywiad o ran presenoldeb mewn awdurdodau eraill dros y flwyddyn. Mae hyn wedi ein rhoi ni yn y Chwartel Canolrif Uchaf (7fed – 11eg yn genedlaethol) eleni o gymharu â'r Chwartel Canolrif Isaf yn 2018/19.

Mae ein prosiect Cartrefi Gwag unwaith eto wedi sicrhau ein bod wedi llwyddo i gael 104 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, ynghyd â 7 cartref newydd arall sydd ar gael i'n preswylwyr gael gwella eu

cyfleoedd o fewn cymunedau lleol. Mae ein dyletswyddau landlord o gwblhau atgyweiriadau i gartrefi o fewn nifer penodol o ddyddiau wedi dirywio, bydd hon yn her wrth symud ymlaen i 2020/21 gyda'r trefniadau gweithio diwygiedig gofynnol o ganlyniad i'r pandemig. Bydd angen ystyried rheoli hyn yn ddiogel.

Yn anffodus, gwelsom ostyngiad yn y niferoedd sy'n defnyddio ein Canolfannau Hamdden dros y flwyddyn, o gymharu â 2018/19. Gan edrych yn ôl i flynyddoedd eraill, credwn fod ein perfformiad yn 2018/19 yn eithriadol o dda, ac yn anffodus, roedd y targedau a osodwyd gennym ar gyfer 2019/20 yn seiliedig ar y ffigurau hyn. Fodd bynnag, rydym yn cymharu'n ffafriol â blynyddoedd blaenorol, gan mai eleni y cafwyd y lefel bresenoldeb uchaf ond un ers monitro'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol, ynghyd â 22k o ymweliadau'n uwch na pherfformiad 2017/18 a 66k yn uwch na 2016/17. Gyda chau ein cyfleusterau o ganlyniad i'r pandemig, bydd cyrraedd targedau blynyddoedd blaenorol yn agos at amhosibl eleni ac felly bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i berthnasedd y dangosydd hwn ar gyfer 2020/21 gan fod Canolfannau Hamdden ar hyn o bryd yn agored i aelodau yn unig.

## Amcan 2: Cefnogi Oedolion a Theuluoedd Bregus i'w Cadw'n Ddiogel, yn Iach ac Mor Annibynnol â Phosib

### Cefnogaeth ar gyfer oedolion hŷn a bregus

*Yr hyn rydym wedi'i wneud*

1. Mae'r cynnydd o ran cynllunio ar gyfer datblygu llety Gofal Ychwanegol yn ardal de'r ynys wedi'i atal oherwydd diffyg argaeledd safle addas. Oherywdd hyn, dros yr ychydig fisoedd nesaf, ac yn dibynnu ar unrhyw oblygiadau yn sgil y Coronafeirws, bydd cynllun gweithredu diwygiedig yn cael ei ystyried a'i ddatblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i adolygu'r ddarpariaeth yn ehangach fel y gellir datblygu ail ddarpariaeth Gofal Ychwanegol.

2. Mae'r rhaglen Cysylltu Bywydau / 'Shared Lives' yn darparu cymorth i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Mae'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ar gyfer unigolion a chanddynt anghenion cymedrol, ac yn edrych yn benodol i gynnig darpariaeth seibiant a darpariaeth gofal seibiant byr. Rydym wrthi'n gweithio gyda 3 galluogwr sy'n mynd trwy amryw gamau'r broses gofrestru ar hyn o bryd. Ymgymerwyd ag adolygiadau o bob eiddo ac mae galluogwyr wrthi'n cwblhau rhaglen hyfforddi. Rhagwelwn y byddant mewn sefyllfa i gefnogi unigolion yn yr hydref.

3. Yn ystod y flwyddyn, aethom ati ymhellach i ddatblygu rhaglen wythnosol o weithgareddau grŵp i bobl â phroblemau iechyd meddwl, gyda'r sylw ar adferiad, lles, gweithgaredd corfforol a lleihau ynysigrwydd cymdeithasol. Rhedir rhan o'r rhaglen ar y cyd â sefydliadau trydydd sector, wardeiniaid parc natur y Cyngor a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

   Nodwedd allweddol yw cyd-gynhyrchu gyda phobl sydd â phrofiad o fyw gyda phroblemau eu hunain. ynghyd â defnyddio adnoddau lleol ar draws yr ynys.

4. Roedd yr Hybiau Cymunedol wedi parhau i dyfu yn ystod 2019/20 ac mae dros 1,100 o unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hyb cymunedol ar draws yr ynys.

   Sefydlwyd Cynghrair Hybiau Cymunedol gennym sy'n dod â'r hybiau ynghyd i gyfuno adnoddau a rhannu arfer dda. Mae'r model presgripsiynu cymdeithasol, drwy'r Cydlynwyr Asedau Lleol, yn parhau i gefnogi pobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig ac yn eu gysylltu â gweithgareddau'r hybiau cymunedol.

   Datblygiad diweddar yw'r meddalwedd "Elemental" newydd y gall Meddygon Teulu ei ddefnyddio i atgyfeirio unigolion yn uniongyrchol i'r gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol.

   Aethom ati hefyd i ddechrau gwaith ar ddatblygu rhaglen hybiau cymunedol rhithwir trwy ddatblygu gwefan ac "ap" cysylltiedig, gyda gweithgareddau, gwybodaeth a chyngor. Bydd y gwaith hwn yn parhau i mewn i 2020/21 ac efallai y bydd yn chwarae rhan hanfodol yn ein rhyngweithiadau cymdeithasol sy'n newid yn barhaus o ganlyniad i'r pandemig hwn.

   Bu ennyn cefnogaeth gwirfoddolwyr cymunedol i gynnal cyswllt a rhoi cymorth i'r rhai mwyaf ynysig yn gymdeithasol yn y gymuned yn dra llwyddiannus yn ystod pandemig y Coronafeirws.

   Mae cynllun gweithredu i ehangu nifer y cynlluniau 'Tro Da' ar draws yr ynys yn cael ei yrru yn ei flaen gan Medrwn Môn i gefnogi a datblygu cymunedau mwy gwydn.

5. Aethpwyd ati yn ystod y flwyddyn i sefydlu tri Thîm Adnoddau Cymunedol (TAC/CRT), sy'n dod â staff ynghyd o Iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn bod yn agosach at y gymuned y maen nhw'n ei gwasanaethu, a leolir yn Amlwch, Ysbyty Penrhos Stanley a Llanfairpwll. Mae'r holl staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'u penodi i'w TAC dynodedig yn y tair ardal.

   Mae llety, isadeiledd TG a pholisïau a gweithdrefnau gweithredol yn cael eu hadnewyddu ym mhob ardal.

   Mae cynlluniau i drosglwyddo staff i safleoedd dynodedig wedi'u hatal bellach o ganlyniad i effaith y pandemig coronafeirws, fodd bynnag, bwriadwn ddod i gytundeb gyda phartneriaid ynghylch TAC rhithwir dros dro tan y byddwn yn symud i'r safleoedd dynodedig fel rhan o'n cynllun adfer.

6. Cynhaliwyd proses ymgynghori lawn ac agored gyda rhanddeiliaid ynghylch y Strategaeth Cyfleoedd Dydd. Ymgysylltwyd â llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a darparwyr, gyda chymorth eiriolaeth lle bo angen.

   Cyfrannwyd canlyniadau'r ymgysylltiad hwn i'r Arfarniad o Opsiynau Cyfleoedd Dydd yn Rhagfyr 2019, a chytunwyd ar raglen ymgynghori gan y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2020-21.

   O ganlyniad i effaith y pandemig Coronafeirws, mae'r gwaith o ran gyrru'r cynllun hwn yn ei flaen wedi'i 'oedi' am y tro, fodd bynnag, mae'r modd y gellir gyrru'r agenda allweddol hon yn ei blaen dan ystyriaeth gyda'r bwriad o sefydlu model gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn y dyfodol.

## Cefnogaeth i Blant a Theuluoedd

### *Yr hyn rydym wedi'i wneud*

1. Yn ystod 2019/20, er budd teuluoedd i'r dyfodol, dechreuwyd y gwaith gennym ar adeiladu 25 eiddo newydd ar yr ynys fel rhan o raglen i gynyddu'r stoc tai o 3,800 i 5,000 o dai yn y 30 mlynedd nesaf. Dyma'r stoc tai cyngor newydd cyntaf i ni eu hadeiladu ers degawdau ac yn adeiladu ar y llwyddiant a welsom wrth ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd dros y blynyddoedd. Gwariwyd cyfanswm o £ 5.6M yn 2019/20 ar gaffael eiddo presennol, hen stoc tai cyngor yn bennaf, a datblygu'r eiddo newydd.

   Trwy gydweithrediad â Creu Menter, sef is-gwmni i Cartrefi Conwy, aethom ati i ddylunio eiddo â ffrâm goed. Bydd yr adeiladau'n defnyddio inswleiddiad perfformiad uchel i atal drafftiau'n llwyr yn y cartrefi hyn, gan leihau'r gwres sy'n cael ei golli i greu cartref sy'n cael ychydig iawn iawn o effaith ar yr amgylchedd.

   Ymgymerwyd â gwaith ar adeiladu'r datblygiad o bedwar byngalo ag un ystafell wely ar gyfer pobl hŷn yn nhref Caergybi ym mis Awst. Mae cynllun Maes yr Ysgol y drws nesaf i stad tai Morawelon, a bydd yn cynnig opsiwn i denantiaid sydd eisiau symud i gartref llai o faint, gan felly ryddhau cartrefi y mae eu mawr angen i deuluoedd.

   Dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth, Julie James: "Darparwyd dros £480,000 o gyllid y Rhaglen Tai Arloesol gennym i Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y fenter ffantastig hon, sy'n creu cartrefi carbon niwtral i'r dyfodol a hefyd yn galluogi pobl ifanc i ddysgu sgiliau newydd ar gyfer cyflogaeth.

"Mae'n ticio pob bocs y gallwch feddwl amdano, ac yn sicr o fod y ffordd ymlaen ar gyfer tai yng Nghymru, gyda'r cyngor lleol yn gweithio mewn partneriaeth gyda landlord tai cymdeithasol cofrestredig a'r gymuned leol."

2. Mae'r gwaith o hyrwyddo Teulu Môn wedi parhau yn ystod y flwyddyn ac mae Teulu Môn wedi mynychu 10 digwyddiad i gyd yn 2019/2020. Roeddynt yn cynnwys diwrnodau hwyl, nosweithiau rhieni a digwyddiadau diwrnodau agored. Cymerodd Teulu Môn ran yn y digwyddiad Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yng Ngorffennaf 2019, ac roedd y digwyddiad hwn yn dathlu'r gwaith a gwblhawyd mewn partneriaeth â'r holl asiantaethau a'r gymuned ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Arweiniodd y gwaith hwn at atgyfeiriadau sy'n dangos ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ynghyd ag effeithiau trawma ar unigolion a theuluoedd.

   Derbyniwyd cyfanswm o 3956 o atgyfeiriadau gan Teulu Môn yn 2019/20. Roedd hyn yn ostyngiad o 363 (8.4%) o gymharu â'r cyfanswm o 4319 a dderbyniwyd yn 2018/19. Ystyrir y cafwyd y gostyngiad hwn o ganlyniad i dderbyn llai o atgyfeiriadau gan Heddlu Gogledd Cymru, fel y maent yn gweithredu Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, y strategaeth ACE a'r Hyb Cymorth Cynnar, ynghyd â Teulu Môn.

   Diogelwyd cyllid gennym i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen un drws ffrynt. Cyfarfod amlasiantaethol yw'r "Un Drws Ffrynt" a fydd yn trafod achosion o gam-drin domestig ar y cyfle cyntaf bosib, gan fynd i'r afael ag achosion cyn i'r risg gynyddu. Ariennir y gwaith hwn gan Y Swyddfa Gartref ac fe'n cynorthwyir gan 'Safe Lives' i ddatblygu ymateb Ynys Môn i Gam-drin Domestig.

   Fe gafodd ap newydd o'r new NEWid ei ddatblygu a'i lansio yn ystod y flwyddyn. Mae'r ap yn ein galluogi ni wneud gwaith rhithwir gyda phlant a theuluoedd, mewn modd sy'n hyrwyddo cyd-gynhyrchu.

   Mae Gweithredu Dros Blant wedi ymestyn eu gwasanaeth i ragor o blant mewn ymdrech i gynyddu capasiti i ymateb i anghenion emosiynol plant a phobl ifanc sy'n agored i'r gwasanaeth. Diogelwyd arian ychwanegol ar gyfer rhaglen iechyd meddwl, sef "Rhaglen y Felan" ("The Blues Project") sydd i'w darparu ym mhob ysgol uwchradd ar yr ynys. Darperir cyrsiau rhithwir yn y lle cyntaf, ac yna mewn ysgolion o Fedi 2020 ymlaen, gan gadw at y canllawiau o ran cadw pellter cymdeithasol.

   Roedd Gweithredu Dros Blant wedi parhau i roi cymorth i ofalwyr ifanc Ynys Môn drwy gwblhau asesiadau a darparu cymorth i'r grŵp hwn o blant. Yn 2019/20 derbyniodd cyfanswm o 117 o blant wasanaeth gan Gweithredu Dros Blant.

3. Aethom ati i barhau i sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn eu lle i ddiogelu plant a phobl ifanc yr ynys.

   Cwblhawyd cyfanswm o 807 o Asesiadau Gofal a Chymorth yn 2019/20.

   Ceir enghreifftiau ardderchog o asesiadau a welir mewn archwiliadau a gwblhawyd yn 2019/20. Roedd yr archwiliadau'n rhoi tystiolaeth o ran yr unigolyn a'r sylw a roddir iddo ynghyd ag anghenion cyfunol grŵp o siblingiaid. Roedd yr archwiliadau hefyd yn amlygu rhai newidiadau a allai wella'r gwasanaeth. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn ein helpu i adeiladu ar y gwasanaeth a ddarperir gennym i'n cleientiaid i'r dyfodol.

Mae'r model Cryfder ar y Cyd ('Strength Together') ddull rhyng-gynhyrchiol o gyflawni gwaith gyda rhieni mewn modd gwahanol, sy'n canolbwyntio ar gryfder a chanlyniadau. Mae'n newid sut y mae gweithwyr cymdeithasol yn cyd-gynhyrchu cynlluniau gofal/amddiffyn gyda theuluoedd, sut mae gweithwyr cymdeithasol yn llunio cynlluniau diogelwch a sut mae gweithwyr cymdeithasol yn ffurfio cynlluniau diogelwch gyda theuluoedd.

Ceir enghreifftiau o ymyrraeth effeithiol i leihau risg a hybu lles. Ceir enghreifftiau o achosion o blant ifanc y mae eu hachosion wedi'u huwchgyfeirio'n gyflym pan fo pryderon neu fethiant i greu unrhyw newid, sy'n golygu bod y plant bellach yn ffynnu yn eu lleoliadau. Dengys data perfformiad y bu lefel yr ailgofrestriadau yn ystod y flwyddyn yn isel: a'r amser cyfartalog y mae enw plentyn ar y gofrestr Amddiffyn Plant yw 224 diwrnod, o gymharu â'r targed o 270 diwrnod, sy'n dda.

4. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn bartner yng Ngwasanaethau Mabwysiadu Gogledd Cymru (NWAS) a chymerodd ran yn y gwaith i gynyddu nifer y rhieni sy'n mabwysiadu a recriwtiwyd ledled Gogledd Cymru yn ystod 2019/20. Ceir niferoedd cynyddol o blant yng ngofal awdurdodau lleol nad ydynt yn gallu dychwelyd i'w teuluoedd genedigol. Mae ar y plant hyn bellach angen teuluoedd parhaol a chariadus, sy'n gallu darparu sefydlogrwydd a'r cyfle iddynt ffynnu a chyflawni eu potensial yn llawn.

   Mae nifer yr ymholiadau ynghylch mabwysiadu wedi lleihau ers COVID-19, gyda 12 Ymholiad Cychwynnol yn cael eu derbyn ar draws Gogledd Cymru yn Ebrill 2020, o gymharu â 21 yn 2019/20. Nid yw'r gostyngiad mewn ymholiadau'n unigryw i NWAS, ac mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o'r sefyllfa a'r effaith a gaiff Covid-19.

   Mae ymgyrchoedd marchnata a recriwtio oedd wedi'u cynllunio, fyddai'n targedu gwyliau bwyd, yr Eisteddfod, Sioe Amaethyddol Ynys Môn ac ati, wedi'u canslo o ganlyniad i Covid-19. Mae gweithgareddau marchnata a recriwtio yn cael eu cyflenwi o bell trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Twitter, ynghyd â datblygu Podlediadau gyda chymorth 'Cowshed'.

   Mae Panelau rhithwir yn fodd newydd o gynnal panelau, gyda Phanel Gwynedd ac Ynys Môn yn cynnal panel rhithwir ym mis Ebrill a Mai 2020. Roedd llawer i'w ddysgu am y modd hwn o weithio, ac er eu bod wedi cymryd mwy o amser i'w cwblhau, maent wedi gweithio'n dda. Mae'r gwersi a ddysgwyd wedi cael rhannu, ac yn cael eu rhannu â chadeiryddion y panelau eraill, ynghyd ag ymgynghorwyr y panel ar draws y gwasanaeth.

   Mae gweithwyr cymdeithasol yn ymroddedig iawn i symud plant ymlaen i'w lleoliadau mabwysiadu, lle mae'n ddiogel i wneud hynny, a thrwy eu hymroddiad a gwaith caled maent yn sicrhau nad oes unrhyw oedi pellach i'r plentyn, lle gellir osgoi hyn.

5. Nodau craidd y Tîm Teuluoedd Gwydn yw Atal, Dychwelyd, Lleihau ac Adolygu; Atal plant rhag Derbyn Gofal pan nad oes angen (ymyrraeth 'trothwy gofal'), dychwelyd plant adref yn ystod yr 8 wythnos gyntaf o ofal, a gweithio gyda theuluoedd a nodwyd ar gyfer ailuno eu plant o ofal, lleihau natur y llety/gofal a fynnir o ran Plant sy'n Derbyn Gofal (e.e. o ofal preswyl i ofal maeth, i'r teulu, ymlaen tuag at ddiddymu'r gofal) ynghyd ag adolygu dychwelyd plant yn ddiogel o ofal hirdymor.

Yn aml, bu gan y teuluoedd y bu'r tîm yn gweithio gyda hwy dros y flwyddyn ddiwethaf broblemau o ran esgeulustod, plant wedi'u dieithrio oddi wrth eu rhieni neu wrthdaro rhwng rhieni, amodau gwael yn y cartref, cam-drin corfforol, cam-drin domestig, defnyddio sylweddau niweidiol, iechyd meddwl gwael, problemau o ran perthnasau, lefelau uchel o wrthdaro rhwng rhieni-plant (yn enwedig lle mae plant yn eu harddegau o fewn y cartref), trawma cymhleth a achosir gan ddigwyddiadau bywyd niweidiol (a brofir gan blant, ac yn hanesyddol o ganlyniad i ddigwyddiadau bywyd trawmatig y rhieni eu hunain sy'n effeithio eu sgiliau/dull rhiantu).

Yn ystod y flwyddyn, bu plant a theuluoedd yn cymryd rhan mewn ymyrraeth ddwys ac yn rhan o achosion penodol, Cynadleddau Grŵp Teulu, Rhaglenni Rhiantu a Hyfforddiant Therapiwtig.

Mae'r tîm hefyd wedi cyflenwi hyfforddiant therapiwtig mewnol i weithwyr cymdeithasol, gweithwyr cefnogi, gofalwyr maeth, staff diogelu allweddol yn yr Adran Addysg, ynghyd â gweithwyr Teuluoedd yn Gyntaf. Cynigiwyd cyrsiau hyfforddi ar wahân ar destunau oedd yn mynd i'r afael ag ymlyniad (ffurfio, trawma ac adfer), Gwaith Stori Bywyd sy'n Ystyriol o Drawma, Gwydnwch (asesu ac ymyrraeth), ynghyd ag Asesu Gallu Rhieni i Newid.

6. Yn ystod 2019/20, roedd yr Awdurdod wedi recriwtio 7 Gofalwr Maeth ychwanegol oedd yn cynnig 13 o leoliadau maeth newydd i blant a phobl ifanc Ynys Môn.

   Mae'r cynnydd o ran y pecyn gofal maeth wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y gofalwyr maeth, ac mae dewis llawer ehangach o leoliadau ar gael gennym i blant Ynys Môn erbyn hyn.

7. Rydym wedi llwyddo i gofrestru ein Cartref Clyd cyntaf gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ystod 2019/20. Ar hyn o bryd, rydym yn recriwtio ar gyfer y swyddi a byddwn yn rhoi cynlluniau hyfforddi manwl ar waith ar gyfer pob aelod staff fel bod modd agor yn ystod 2020/21.

   Mae gennym eiddo un ystafell wely arall sy'n mynd trwy ei broses gofrestru, ac mae trydydd eiddo'n cael ei adnewyddu cyn gwneud cais am gofrestru.

   Diogelwyd cyllid i ddarparu un eiddo a fydd yn darparu gofal i bobl ifanc anabl a chanddynt anghenion cymhleth, i'w galluogi i aros yn yr ardal leol yn hytrach na gorfod symud i leoliadau preswyl arbenigol y mae bob un ohonynt y tu allan i'r sir.

8. Agorwyd "fflat hyfforddi" yn Llangefni yn Ionawr 2020 i ddarparu lleoliad canolog a chartrefol i rai sy'n gadael gofal er mwyn rhoi cyfle iddynt gael y profiad o fyw'n annibynnol, ynghyd â dysgu a datblygu eu sgiliau er mwyn gallu byw'n annibynnol yn y dyfodol. Mae hyn yn ffurfio rhan o'u cynlluniau llwybr.

   Ers iddo agor, mae 8 o bobl ifanc wedi aros yn y fflat am gyfnodau byr cyn dychwelyd i'w gofalwyr maeth.

   Bu'r adborth a dderbyniwyd gennym ar gyfer y bobl ifanc yn gadarnhaol iawn, a dyma rai o'r sylwadau a dderbyniwyd:

   "fflat lyfli, wedi mwynhau'r annibyniaeth"
   "wedi mwynhau coginio i mi fy hun ac edrych am beth i'w brynu"
   "ia, lle grêt''
   "lle handi i ddysgu am goginio a chyllidebu a ballu"

Mae'r datblygiadau hyn yn allweddol i sicrhau bod ein pobl ifanc agored i niwed yn cael yr addysg a'r cyfleoedd priodol sydd ar gael iddynt ac yn eu galluogi i ddatblygu ac aeddfedu mewn amgylchedd diogel ac iach gyda'r rhwydwaith angenrheidiol o gefnogaeth. Gellir dangos hyn o'r astudiaeth achos ganlynol -

**Astudiaeth Achos 1 –**

Roedd merch yn ei harddegau ar goll o'i chartref ac roedd y mater yn nwylo'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Dechreuodd y Gweithiwr Perthnasau Iach weithio gyda'r ferch i fynd i'r afael â'r materion oedd wrth wraidd ei hymddygiad dinistriol ac amhriodol.

Trwy ganfod y materion hyn, bu modd i'r Gweithiwr Perthnasau Iach ganfod camau, a gweithgareddau fyddai'n galluogi'r ferch i ganfod patrymau ymddygiadol a materion nad oeddynt yn iach. Ymhlith y gwaith a gyflawnwyd, gweithiwyd â grŵp o gyfoedion yn yr ysgol gan edrych ar faterion o ran cydsyniad a 'sextio'.

Gwnaed gwaith i fynd i'r afael â materion o ran perthnasau teuluol trwy fynychu cymorth cyfryngu i wella perthnasau a darparu bywyd cartref cefnogol. Atgyfeirwyd yr unigolyn hefyd at raglen 'Escape' a 'Parallel Lines' a fyddai'n hybu ymwybyddiaeth, yn gwella hunan-barch, gan alluogi'r ferch i ffurfio perthnasau iach a diogel a lleihau achosion o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant.

Y prif nod ac amcan o ran y canlyniad ar gyfer yr unigolyn dan sylw oedd canfod beth oedd natur perthynas iach, deall beth oedd ystyr cydsynio, gan olygu y byddai ganddi ddealltwriaeth o ganlyniadau ymddygiad amhriodol ynghyd â beth oedd treisio ac ymosod yn rhywiol.

Roedd y ferch yn gallu gweld ac adnabod y gwahaniaeth rhwng perthynas iach ac un amhriodol.

Fe'i galluogwyd i gadw ei hun yn ddiogel, i'w gwneud yn fwy gwydn yn erbyn patrymau perthnasau negyddol yn y dyfodol trwy'r modd yr oedd yr ymyrraeth gynnar hon wedi'i grymuso.

Dywedodd y ferch ei bod wir wedi mwynhau'r gwaith grŵp ac yn teimlo y dylai pawb gael sesiwn gwaith grŵp gyda chyfoedion, gan y teimlodd fod hyn yn rhan annatod o'i dealltwriaeth o beth oedd perthynas iach, beth oedd cydsyniad yn ei olygu a beth oedd ymddygiad priodol.

**Astudiaeth Achos 2 –**

Cyfeiriwyd Bob at y Cydlynydd Asedau Lleol (LAC) gan ffrind.

Cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf yn ei gartref. Yn ystod ein sgwrs, siaradodd am ei wraig, a sut yr oedd wedi gofalu amdani hyd nes y bu farw. Dywedodd ei fod yn unig iawn, heb unrhyw un i droi ato, ac nid oedd ganddo unrhyw ffrindiau neu aelodau teulu'n byw yn lleol, roeddynt yn byw mewn rhannau eraill o'r DU.

Ers symud i mewn pum mlynedd yn ôl, roedd o a'i wraig wedi profi ymddygiad gwrthgymdeithasol gan y plant lleol, byddent yn taflu ceir at ei gar, yn cerdded allan o flaen y car, yn canu cloch y drws, yn rhoi eu dwylo trwy'r ffenestri i geisio gafael mewn pethau, digwyddodd hyn yn arbennig pan oedd ei wraig yn ei gwely'n sâl. Profodd Bob hefyd gam-drin geiriol pan aeth i siarad hefo'r rhieni am ymddygiad eu plant tuag ato ef a'i wraig. Rhoddwyd gwybod i'r Heddlu a'r landlordiaid am yr ymddygiad gwrthgymdeithasol hwn.

Ym Mawrth 2018, roedd Bob yn dechrau mynegi a hoelio sylw ar drawma'r misoedd blaenorol, colli ei wraig, dioddef trosedd a chael ei wneud yn gyfranogwr mewn asesiad iechyd meddwl nad oedd yn

ei groesawu. Gyda'n gilydd, aethom ati i flaenoriaethu sut yr oedd Bob eisiau rheoli a delio gyda'r hyn a ystyriodd yn ddigwyddiadau trawmatig.

Aethom i gysylltiad â'i feddyg teulu oedd wedi sicrhau bod Bob yn gwybod pa feddyginiaeth yr oedd i fod i'w chymryd, a chefnogwyd Bob gennym i fynychu sesiynau cwnsela CRUSE i rai mewn profedigaeth, dros gyfnod o 6 wythnos. Cynigiwyd cymorth a chyngor gyda materion ariannol i Bob hefyd.

Yn Ebrill 2018, cyflwynwyd Bob gennym i'r prosiect Sied Dynion/'Men's Shed'. Trobwynt i Bob oedd pan gafodd ei gyfeillio â ffrind, oedd hefyd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Byddai'r ddau'n cyfarfod yn y sied y rhan fwyaf o ddyddiau, i wneud pa waith bynnag oedd ei angen, hel sbwriel, codi gwelyau uchel a chreu bwrdd adar oedd yn golygu gwaith cymhleth.

Yn weddol fuan ar ôl hynny, cyflwynwyd Bob i wirfoddolwyr a chleientiaid y clwb cinio lleol. Fe gyflwynwyd Bob hefyd i ddyn lleol oedd yn gallu helpu i osod system ddiogelwch cartref, oedd yn sicrhau y byddai ei gartref yn cael ei fonitro gan Deledu Cylch Cyfyng 24 awr y dydd.

O fewn tri mis, mynychodd Bob ddau grŵp cymunedol – Clwb Cinio a'r Sied Dynion. Mae o wrthi bellach yn datblygu hen sgiliau gyda dynion eraill ac yn helpu eraill i ddysgu.

Naw mis yn ddiweddarach, mae gorbryder Bob wedi lleihau'n sylweddol, ac nid oes arno angen y cyswllt dwys gyda'r LAC mwyach. Fodd bynnag, rydym yn cadw mewn cysylltiad yn wythnosol trwy'r Sied Dynion a'r Clwb Cinio.

Mynychodd Bob gwrs TG i ddysgu sut i ddefnyddio Skype a Facebook a sut i siopa ar y rhyngrwyd, ac mae bellach mewn cysylltiad â'i deulu yn Japan a Swydd Efrog.

Rhoddodd Bob ei ganiatâd i ni adrodd ei stori, fel y dywedodd - "gorau yn y byd po fwyaf o bobl sy'n gwybod beth fues i drwyddo". "Efallai y gwnaiff pobl dreulio mwy o amser wedyn yn gwrando ac yn deall beth mae pobl yn mynd trwyddo pan maen nhw'n teimlo mor ynysig ac unig ar ôl colli rhywun agos". "Heb gymorth y LAC, dydw i wir ddim yn gwybod yn lle byddwn i heddiw".

**Dangosyddion Perfformiad a Dadansoddiad**

| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | CAMG | Tuedd | Canlyniad | Targed | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| 19) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | Coch / Red | ↑ | 6.88 | 3 | 7.78 |
| 20) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 91.30% | 90% | 90.91% |
| 21) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 50% | 35% | 30.87% |
| 22) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 63.08% | 62% | 62.84% |
| 23) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↑ | 17.57 | 19 | 17.35 |
| 24) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 98.00% | 93% | 93.30% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 25) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Melyn / Yellow | ↓ | 89.62% | 90% | 86.17% |
| 26) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↑ | 8.39% | 2.50% | 9.52% |
| 27) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | Melyn / Yellow | ↓ | 12.75% | 10% | 16.96% |
| 28) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 224 | 270 | 241 |
| 29) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | → | 98.88% | 95% | 98% |
| 30) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | → | 86.30% | 90% | 86.17% |
| 31) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 74.91% | 60% | 55.10% |
| 32) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | N/A | 77.91% | 60% | - |
| 33) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | ↓ | 159.58 | 170 | 161.9 |
| 34) Penderfyniad wedi ei wneud ar Achosion Digartrefedd o fewn 56 diwrnod (blynyddol) | | N/A | | - | - |
| 35) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Melyn / Yellow | ↑ | 21.9 | 21 | - |
| 36) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Coch / Red | ↑ | 1.42% | 1.15% | 1.30% |

Mae'r dangosyddion yn yr amcan hwn wedi perfformio'n gymharol dda yn erbyn eu targedau am y flwyddyn, ac eithrio 2 ddangosydd a oedd yn goch. Roedd 62.5% o'r dangosyddion uwchlaw'r targed, roedd 25% o'r dangosyddion o fewn 5% o'u targedau ac roedd yr 12.5% oedd yn weddill yn goch yn erbyn eu targedau.

Mae'r dangosyddion o fewn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd (dangosyddion 25 - 30) oll wedi perfformio'n dda yn erbyn eu targedau am y flwyddyn, ac maent uwchlaw'r targed neu o fewn 5% i'r targed. Mae'r gwaith da yn y gwasanaeth yn parhau wedi'r arolwg cadarnhaol gan yr AGC yn 2018.

Roedd y ddau ddangosydd a oedd yn goch yn erbyn eu targedau yn dod o'r Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Tai. Tra bo'r perfformiad yn siomedig yn y ddau ddangosydd yma, rydym wedi bod yn rheoli'r perfformiad trwy gydol y flwyddyn fel rhan o'r adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio.

O ran cyfradd y bobl a gedwir yn yr Ysbyty wrth ddisgwyl am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+, gwelwyd gwelliant ar berfformiad 2018/19, fodd bynnag, roedd yn is na'r targed heriol a osodwyd ddechrau'r flwyddyn. Daeth ein heriau o ran perfformiad yng nghyswllt ail-alluogi yn gliriach ers i ni weithredu ein cytundebau gofal cartref yn ôl ardaloedd. At ei gilydd, mae'r cytundebau hynny'n rhoi cymorth i ryddhau pobl yn gyflym pan fo ganddynt becynnau sefydledig yn eu lle. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau i sicrhau ein bod yn rhoi darpariaeth ail-alluogi i bawb sy'n newydd i'r gwasanaethau, rydym bellach yn ei chael yn anodd i sicrhau capasiti digonol. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn anelu i sicrhau bod y rheiny sy'n cael darpariaeth ail-alluogi wir angen hynny, ac rydym yn diwygio'r meini prawf cymhwyster, ac yn sicrhau bod ein gwasanaeth yn gweithio i symud unigolion pan fo'r cyfnod ail-alluogi'n dod i ben, a hynny ar yr adeg iawn.

Mae capasiti i roi cymorth i unigolion EMI (henoed bregus eu meddwl) yn y sector preswyl a nyrsio wedi cyfrannu at y darlun cyffredinol hwn hefyd.

Byddwn yn parhau i gryfhau ein partneriaeth â BIPBC er mwyn hwyluso camau i ryddhau unigolion yn rhwydd o bob ysbyty, gyda sylw arbennig ar ein Hysbytai Cymunedol. Hefyd, byddwn yn adolygu ein prosesau mewnol drwy gael cyfarfodydd wythnosol gyda'n darparwr ail-alluogi, i sicrhau bod unigolion yn cael eu rhyddhau o bob ysbyty mewn modd amserol. Bydd gweithredu Timau Adnoddau Cymunedol yn llawn yn diogelu mewnbwn gan aelodau tîm amlddisgyblaethol ynghyd â phroses fonitro symlach, a bydd yn defnyddio adnoddau yn fwy gofalus. Yn ogystal, mae tendro'r ddarpariaeth ofal cartref wedi diogelu ymateb cadarn ac amserol tuag at ryddhau unigolion o'r ysbyty, ac o ran unigolion sy'n symud allan o ddarpariaeth ail-alluogi sydd angen gofal a chymorth parhaus.

Roedd yr ail ddangosydd, sef canran y rhent a gollwyd o ganlyniad i eiddo gwag, yn uniongyrchol gysylltiedig â nifer gyfartalog y diwrnodau calendr ar gyfer gosod unedau llety sydd ar gael i'w gosod, oedd wedi dechrau'r flwyddyn yn is na'r targed cyn gwella fel yr aeth y flwyddyn yn ei blaen. Fe gafodd perfformiad gwael y dangosydd hwnnw yn Chwarter 1 effaith ar y dangosydd hwn, ac ni fu'n bosib adfachu cymaint ag y gobeithiwyd. Gan edrych ymlaen, byddwn yn parhau i weithredu proses syml newydd a ganfuwyd yn ystod y flwyddyn i wella perfformiad y dangosydd hwn ar gyfer y flwyddyn nesaf, er bydd effaith y pandemig presennol yn effeithio'r dangosydd hwn.

Er bod y gwaith a wnaed a'r perfformiad yn dda yn ystod y flwyddyn, mae'n deg dweud y bydd heriau llawer mwy i'n gwasanaethau a'r sector yn ystod 2020/21. Disgwyliwn alw uwch am ein gwasanaethau oedolion hŷn yn enwedig dros gyfnod y gaeaf, oherwydd y cynnydd mewn salwch ac anafiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd, yn ogystal ag ymateb i unrhyw achosion o coronafeirws.

Roedd recriwtio a chadw staff yn bryder arbennig yn ystod y don coronafeirws gyntaf ac mae heriau o hyd i recriwtio staff i'r sector gofal yn bennaf oherwydd ofn ac effaith coronafeirws. Gallai hyn ar ben y cynnydd yn y galw a ddisgwylir yn ystod y gaeaf roi pwysau ar sector gofal sydd eisoes yn fregus.

Rydym yn debygol o weld cynnydd yn lefel y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen yn y gymuned am ddau brif reswm. Y cyntaf ddim yn gysylltiedig â choronafeirws, fel cleifion yn cael eu rhyddhau'n gyflymach o'r ysbyty ag anghenion cymorth uwch, ac unigolion sydd ag ôl-groniad mewn salwch nad yw'n gysylltiedig ag coronafeirws, fel cyflyrau cronig a methu â diagnosio salwch difrifol. Mae'r ail yn gysylltiedig â choronafeirws lle gall rhai sydd eisoes wedi gwella o goronafeirws dal hefo effeithiau tymor hir ar eu hiechyd.

Disgwyliwn wrth i ysgolion ddechrau gweld dosbarthiadau'n hunan-ynysu, y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar weithio gyda rhai o'n plant a'n teuluoedd mwyaf bregus. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ddilyn dulliau amgen ar gyfer sicrhau diogelwch a lles ein plant a'n teuluoedd sydd mwyaf bregus.

Mae lefel yr atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ac yn enwedig o ran cam-drin ddomestig, a gallai ail don weld mwy o niwed a mwy o atgyfeiriadau. Heb os, bydd hyn yn arwain at yr angen am fwy o adnoddau a chefnogaeth i'r unigolion hynny.

Yr hyn sy'n amlwg fodd bynnag yw bod gennym y staff gyda'r offer a'r galluoedd i berfformio ac ymateb i'r her, yn ogystal â'r gefnogaeth sy'n ofynnol iddynt barhau i weithio'n dda yn yr amseroedd heriol hyn.

## Amcan 3: Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol

### Datblygu a Hyrwyddo

*Yr hyn rydym wedi'i wneud*

1. Buom yn gweithio tuag at gynyddu nifer y twristiaid sy'n ymweld â'r ynys yn ystod 2019-20 trwy ymdrechu i gynyddu ein presenoldeb digidol. Mae gennym bellach 27,000 o ddilynwyr ar draws y sianelau cyfryngau cymdeithasol.

   Yn ystod 2019, canolbwyntiwyd ein hymgyrch ar 'Flwyddyn Darganfod' Cymru gyfan, a llwyddwyd i gael 300,000 o ymwelwyr unigryw yn ymweld â gwefan Croeso Môn.

   Bydd 2020 yn canolbwyntio ar y 'Flwyddyn Awyr Agored' a rhoesom gymorth i Croeso Cymru hyrwyddo hyn cyn y cyfnod clo.

   Yn ystod cyfnod y pandemig o Fawrth i Fehefin, hoeliwyd ein hymdrechion ar sicrhau bod ymwelwyr yn gwybod bod Ynys Môn ar gau i dwristiaeth ac y byddem yn eu croesawu'n ôl unwaith y byddai'n ddiogel i wneud hynny. Rydym wedi ailgychwyn ein neges o ran hyrwyddo twristiaeth Ynys Môn gyda'r thema 'Ailddarganfod Ynys Môn yn Ddiogel'. Bydd yr ymgyrch hon yn canolbwyntio ar y negeseuon a ganlyn:

   - Os yw rhywle'n edrych yn brysur, dewch yn ôl pan fydd yn dawelach ac yn fwy diogel;
   - Parchwch eraill ar yr arfordir, mewn siopau ac yn ein cymunedau;
   - Arhoswch ar y llwybrau troed a'r llwybrau ceffylau;
   - Defnyddiwch feysydd a mannau parcio yn hytrach na thir preifat;
   - Parchwch y tywydd a'r llanw – paratowch yn drylwyr;
   - Ymchwiliwch, cysylltwch ac archebwch gyfleusterau a busnesau ymlaen llaw;
   - Ewch â'ch sbwriel adref; a
   - Diogelwch eich hun, preswylwyr ac ymwelwyr eraill – dilynwch y canllawiau bob amser.

2. Penodwyd ymgynghorwyr i ymgymryd ag adolygiad o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRhC) cyfredol cyn dechrau paratoi'r Cynllun Rheol Cyrchfan newydd ar gyfer y cyfnod 2020-2024. Roedd y gwaith hwn i fod i gael ei gwblhau ym Mawrth 2020, fodd bynnag, mae'r pandemig presennol wedi gohirio'r darn pwysig hwn o waith.

3. Croesawyd 36 o Longau Mordeithio i Borthladd Caergybi yn ystod 2019, gyda chyfanswm o 21,699 o deithwyr. Ni fu modd i ddwy long ddocio oherwydd y tywydd garw ar y diwrnod.

   Roedd digwyddiadau a gynhaliwyd yn 2019 i gefnogi dyfodiad y llongau mordeithio yn cynnwys agor Eglwys Cybi Sant yng Nghaergybi, gyda pherfformiadau gan gôr lleol yn yr Eglwys. Crëwyd arwyddion newydd ar y palmentydd i helpu i hyrwyddo gweithgareddau yng nghanol y dref a chorau (rhoddwyd baneri i'r Eglwys), a rhoddwyd cardiau post, io-ios a beiros i'r teithwyr fel rhywbeth i gofio'r ymweliad.

   Darparwyd mapiau o Gaergybi a chynlluniau lleoliad i deithwyr, yn ogystal â phamffledi gwybodaeth i dwristiaid, naill ai ar fyrddau'r llongau neu ar y lanfa. Rydym hefyd yn cefnogi'r gweithgaredd yng nghyswllt Trên Bach Caergybi sy'n teithio trwy Gaergybi.

4. Amcan arall yr ydym wedi bod yn gweithio tuag ato yn ystod y flwyddyn oedd parhau i weithio tuag at gyfradd ailgylchu o 70% neu fwy ar gyfer yr holl wastraff cartref erbyn 2025. Cymerwyd camau yn ystod y flwyddyn ac rydym wedi bod yn gweithio gyda phedwar awdurdod lleol arall yn sefydlu ffatri ailgylchu gwastraff newydd, Parc Adfer.

   Dechreuodd Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC) ar gyfnod newydd yn ystod 2019/20 gan y daeth cyfleuster trin gwastraff Parc Adfer yn weithredol. Dechreuwyd y gwaith o anfon gwastraff o'r 5 awdurdod sy'n bartneriaid ar 27 Awst 2019, fel y dechreuodd y cyfnod comisiynu, a daeth y safle'n llawn weithredol ar 20 Rhagfyr 2019.

   Pan gyrhaeddwyd y targed o 70% yn 2017/2018 roedd yn gyflawniad ffantastig, o ystyried mai'r targed ar gyfer y ganran hon oedd 2025. Fodd bynnag, yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, mae'r ffigur wedi gostwng i bwynt lle mae bellach o dan 70% (2019-2020 = 67.23%).

   Y prif reswm dros y cwymp oedd ein bod wedi newid ein contractwyr gwaredu gwastraff i Parc Adfer. Yn hanesyddol, byddai deunydd yn mynd trwy broses o'r enw Sortio Gwastraff Ymlaen Llaw/ 'Up-front Waste Sorting'. Roedd hyn yn cynnwys achub unrhyw ddeunydd o'r bin du neu wastraff canolfan ailgylchu oedd yn ailgylchadwy cyn anfon gweddill y gwastraff i'w losgi. Yn dilyn y broses hon, anfonwyd y gwastraff i Andusia yn Sweden i'w losgi. Dangosodd dadansoddiad o beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol bod gennym tua 140 tunnell o wastraff bin du oedd wedi'i achub ar gyfer ei ailgylchu cyn anfon y gweddill i'w losgi bob mis (hyd at 1,500 tunnell y flwyddyn). Ar gyfartaledd, roedd 11.15% o wastraff bin du yn cael ei achub bob mis ar gyfer ei ailgylchu.

   Nid yw Parc Adfer yn gweithredu proses sortio gwastraff ymlaen llaw, sydd mewn gwirionedd yn golygu bod llai yn cael ei ailgylchu'n gyffredinol. Fodd bynnag, mae faint o ludw a metelau sy'n cael eu hadfer ar waelod y llosgwr yn uwch ar gyfartaledd ar ôl prosesu. Mae popeth sy'n mynd trwy Parc Adfer bellach yn cael ei anfon i'w losgi, sydd yna'n cael ei droi'n ynni i roi tanwydd i hyd at 30,000 o gartrefi yng Ngogledd Cymru bob blwyddyn, ac yn helpu gyda'r datgarboneiddio.

   Ymdrechwn unwaith eto i gynyddu ein lefelau ailgylchu dros y blynyddoedd i ddod, er y rhagwelir, o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws presennol, y bydd yn eithriadol o anodd i gynnal y perfformiad uchel a gyflawnwyd yn hanesyddol, ac er y datblygir cynlluniau i sicrhau ein bod yn cyflawni'r targed statudol o 70% erbyn 2024/25.

5. Fe gafodd rhaglen o waith i leihau'r defnydd o ynni yn ein hadeiladau, sydd â lefel uchel o ddefnydd, ei chreu a'i chyflwyno i Salix Finance am gyllid i gefnogi cronfa gyfalaf o £250,000.

   Diogelwyd £2.1m mewn cyllid ar gyfer y prosiect a dechreuodd y rhaglen waith yn Hydref 2019, gyda'r gwaith i fod i gael ei gwblhau ym Medi 2020.

   Fe gafodd y gwaith ei atal ym mis Mawrth o ganlyniad i'r Coronafeirws ac fe ailddechreuodd y gwaith ym Mehefin 2020. Disgwylir erbyn hyn y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn Tachwedd 2020.

   Mae astudiaeth ddichonoldeb cam 2 ar waith ar hyn o bryd gyda golwg ar gyflwyno cais pellach am gyllid yn Hydref 2020.

6. Ar gyfer 2019-20, aethom ati i weithio gydag eraill i helpu i baratoi a datblygu'r arlwy fwyaf priodol ar gyfer Gemau'r Ynys yn 2025. Yn y flwyddyn rydym wedi cefnogi gwaith Pwyllgor Gemau Ynysoedd Ynys Môn, roedd hyn yn cynnwys cwrdd â Chymdeithasau Gemau'r Ynys '

Cynrychiolwyr. Rhoddwyd cefnogaeth hefyd i dwrnament pêl-droed llwyddiannus Gemau'r Ynys, a gynhaliwyd ar Ynys Môn yn ystod Haf 2019.

7. Cwblhawyd cynlluniau lliniaru llifogydd ym Miwmares, Pentraeth a Llansadwrn yn ystod y flwyddyn. Gwariwyd cyfanswm o £2.8M o'r gyllideb gyfalaf ar y prosiectau yn 2019/20.

   Dyfarnwyd arian grant gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn i gynnal gwaith dylunio a datblygu Cynlluniau Lliniaru Llifogydd yn y Fali, Porthaethwy a Llanfairpwll. Mae gwaith Dylunio a Datblygu yn parhau ar gyfer y Cynlluniau Arfordirol yn Nhraeth Coch a Brynsiencyn i fynd i'r afael â risgiau llifogydd arfordirol o ganlyniad i newid hinsawdd.

8. Roeddem wedi parhau i sefyll yn erbyn 'sbwriel o'r awyr' yn ystod y flwyddyn, fel yr oedd llawer o sbwriel ar ffurf balŵns a llusernau awyr yn difetha ein llwybr arfordirol trawiadol. Bu 'Cyfeillion Llwybr Arfordir Ynys Môn' (CLlAYM) yn brysur unwaith eto eleni yn glanhau gweddillion balŵns a llusernau awyr ar y Llwybr Arfordir ac o'i gwmpas.

   Fel y Deilydd Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu'r Economi, mae'r Cynghorydd Carwyn Jones yn gyfrifol am weithgareddau Twristiaeth, Cefn Gwlad ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) y Cyngor.

   Dywedodd y Cyng. Jones, "Gwyddom y gall llusernau awyr a balŵns fod yn rhan boblogaidd o ddathliadau, ond mae 'sbwriel o'r awyr' yn broblem go iawn. Rydym yn annog y cyhoedd a busnesau i feddwl ddwywaith cyn rhyddhau balŵns a llusernau i'r awyr.

   Unwaith mae'r balŵns a'r llusernau'n cyrraedd y ddaear, maent yn creu risg difrifol a pheryglus i fywyd gwyllt ac anifeiliaid. Mae balŵns yn enwedig yn cael eu camgymryd am fwyd gan lawer o rywogaethau bywyd gwyllt. Yn anffodus, unwaith mae balŵns wedi cael eu bwyta, gallant rwystro systemau treulio a gwneud i anifeiliaid lwgu. Gall anifeiliaid fynd yn sownd yn y llinynnau ar falŵns hefyd, a chael eu trapio."

   "Mae ein hynys yn gartref i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) fwyaf yng Nghymru, felly mae'n hanfodol ein bod yn ei chadw'n lân ac yn rhydd o sbwriel."

   Ychwanegodd y Deilydd Portffolio Eiddo a Rheoli Gwastraff, y Cynghorydd Bob Parry,

   "Cyn gynted ag y mae'r balŵns a'r llusernau hyn yn cyrraedd y ddaear, maent yn creu bygythiad sylweddol i'r amgylchedd a bywyd gwyllt. Rydym eisiau codi ymwybyddiaeth ymhellach o'r broblem sbwriel hon."

   "Mae Ynys Môn y lle hardd, a rhaid i ni i gyd weithio gyda'n gilydd i gynnal ei henw da fel ynys naturiol a glân."

   Mae tîm Cefn Gwlad ac AHNE Ynys Môn hefyd yn annog busnesau i ailystyried defnyddio balŵns yn eu digwyddiadau, ac i ystyried eu heffaith hirdymor bosib ar yr amgylchedd a bywyd gwyllt.

   Helpodd peiriannau bagiau gwastraff cŵn newydd i fynd i'r afael â baeddu cŵn a'i leihau mewn cymunedau ledled Ynys Môn yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae llawer o bentrefi lleol wedi elwa o'r peiriannau bagiau gwastraff cŵn, gyda Chynghorau Tref a Chymuned yn sylwi ar gwymp sylweddol mewn baeddu cŵn. Hyd yn hyn mae'r fenter ar y cyd, rhwng Cyngor Ynys Môn, Adnoddau Naturiol Cymru, a sawl Cyngor Tref a Chymuned, wedi gweld 25 o ddosbarthwyr bagiau gwastraff cŵn yn frith o amgylch yr Ynys ac mae naw arall ar y ffordd.

## Trawsnewid

*Yr hyn rydym wedi'i wneud*

1. Buom yn gweithio mewn Partneriaeth â Medrwn Môn i ddiogelu £116,000 gan Menter Môn a 'Y Gymdeithas', yr elusen annibynnol sydd newydd ei sefydlu sy'n cymryd drosodd o'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, i ariannu dau Swyddog Cynllunio Lle rhan amser, ynghyd â chronfa allweddol i bob ward wneud cais iddi am gostau i'w helpu i gyflawni eu blaenoriaethau ar ôl cwblhau'r gwaith Mapio Asedau yn eu hardaloedd.

   Fe gwblhawyd y gwaith mapio a sefydlwyd Cynghrair yn ward Twrcelyn. Sefydlwyd tair blaenoriaeth ynghyd ag is-grwpiau i weithio ar bob blaenoriaeth.

   Fe gwblhawyd y gwaith mapio yn ward Aethwy, ac mae'r staff yn y broses o sefydlu Cynghrair yn yr ardal honno.

   Mae'r gwaith mapio bron yn gyflawn yn wardiau Llifon a'r Canolbarth, a chynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol yn y ddwy ward gyda'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr er mwyn rhoi hwb i'r gwaith.

   Rhosyr oedd yr olaf o'r ardaloedd i'w mapio, ac mae amserlenni ar gyfer casglu'r wybodaeth mewn gweithgareddau a chyfarfodydd yn y gymuned yn cael eu llunio er mwyn eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

2. Mabwysiadwyd y Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 gan y Cyngor Sir ar 27 Medi, 2016. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut y bwriedir mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach o fewn yr ardal ac yn gosod targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw. Mae'r weledigaeth wedi'i osod erbyn Cyfrifiad 2021 i weld cynnydd yn y nifer sy'n siarad Cymraeg a bod y ganran yn codi i o leiaf 60.1% fel ag yr ydoedd yn 2001.

   I gyflawni un o feysydd blaenoriaeth Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu dull graddol bwriadus o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth y Cyngor. Er mwyn gweithio tuag at y nod hwn, mae gwaith ar droed i weithio'n ddwys gyda gwasanaethau yn eu tro i sicrhau bod y gefnogaeth angenrheidiol mewn lle i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig.

   Bellach, yn ystod pedwaredd blwyddyn y cynllun, mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n ddwys gyda'r Gwasanaeth Tai, Hamdden a Gwarchod y Cyhoedd. Gobeithir y bydd y gwaith o ddarparu cefnogaeth ddwys yn cychwyn yn fuan gyda gwasanaeth newydd. Fel rhan o'r cynllun gweithredu, mae amrediad o hyfforddiant wedi'i ddarparu i gefnogi ac ysgogi staff megis ymwybyddiaeth iaith, cyrsiau sgiliau, cwrs ar dechnoleg iaith a chwrs ar sut i gynnal a chadeirio cyfarfodydd dwyieithog. Mae Pencampwyr Iaith y gwasanaethau'n rhagweithiol gyda'r gwaith o gefnogi ac ysgogi cydweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae rhai newidiadau staffio wedi bod gyda'r Pencampwyr ac mae hyn yn fuddiol i gael syniadau newydd ar gyfer hybu ac annog y defnydd o'r Gymraeg ar lefel ymarferol. Rhwng y 3 gwasanaeth ceir 31 o bencampwyr (5 yn Gwarchod y Cyhoedd, 8 yn Tai ac 18 yn Hamdden).

   Mae mwy o wybodaeth ar gael yn ein Hadroddiad Blynyddol ar Safonau Iaith Cymru sydd ar gael ar ein gwefan.

   Defnyddir cyllid Arfor gan Lywodraeth Cymru i ariannu datblygiad busnesau a'r Gymraeg ar ffurf grantiau i fusnesau ym Môn. Yn ystod 2019/20, cymeradwywyd cyfanswm o 14 grant ar

gyfer y Gymraeg mewn busnes, ynghyd â 11 o grantiau datblygu busnes. Dyfarnir rhagor o grantiau Arfor yn 2020/21.

3. Yn ein Dogfen Gyflawni Flynyddol gwnaethom nodi ein bod yn mynd i ddechrau'r broses o ail-dendro ein gwasanaethau casglu rheoli gwastraff. Ym Mehefin 2019, rhoddodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor awdurdod ffurfiol i swyddogion gychwyn proses gaffael i ddyfarnu cytundeb newydd ar gyfer Gwasanaethau Casglu Gwastraff a Glanhau ar Ynys Môn o 1af Ebrill 2021, am gyfnod cychwynnol o 8 mlynedd. Cynhelir y broses gaffael yn ystod y chwater gynta o 2020/21.

   Yng Ngorffennaf 2020, cyhoeddwyd bod y cytundeb casglu gwastraff a glanhau hirdymor newydd wedi'i ddyfarnu i Biffa.

   Bydd y cytundeb wyth mlynedd, gydag opsiwn i'w ymestyn, yn dechrau ar Ebrill 1af 2021. Mae'r cytundeb newydd yn werth £40m dros y cyfnod wyth mlynedd cychwynnol.

4. Mae'r gwasanaeth prydau ysgol a ddarperir gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) wedi'i allanoli ers blynyddoedd lawer, ac roedd hi'n amcan yn 2019/20 i brofi'r farchnad unwaith eto yn ystod y flwyddyn.

   O ganlyniad i doriadau cyllideb a moderneiddio ysgolion, archwiliodd yr Awdurdod wahanol syniadau o ran y modd gorau o gyflenwi'r gwasanaeth, gan ystyried costau ac ansawdd.

   Yn dilyn gwerthusiad o opsiynau yng Ngorffennaf 2019, cytunwyd y dylem barhau i allanoli ein gwasanaeth prydau ysgol i gontractwr arbenigol, yn hytrach na darparu'r gwasanaeth yn fewnol.

   O ganlyniad i'r pandemig presennol, ac oherwydd y bu rhaid i ni ddyfarnu'r cytundeb ym Mehefin 2020 er mwyn i'r contractwr gael 3 mis i sefydlu cyn i'r cytundeb newydd ddod yn weithredol, roedd hyn bron yn amhosib oherwydd yr amgylchiadau anhysbys. Penderfynwyd gennym felly i ohirio'r broses gaffael a rhoi estyniad am flwyddyn arall i'r contractwr presennol, a fydd yn dod i ben ar 31ain Gorffennaf 2021.

   Byddwn yn ailystyried caffael ar gyfer y cytundeb hwn unwaith y mae sefyllfa'r coronafeirws wedi gwella digon i'n caniatáu ni i gwblhau'r cytundeb hwn yn y modd mwyaf diogel bosib.

5. Cytunwyd yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol i baratoi rhaglen buddsoddi cyfalaf tymor hir i wella hyblygrwydd a apêl y Canolfannau Hamdden y Cyngor Sir. Mewn ymateb i hyn, fe gafodd Darpariaeth Hamdden sy'n Datblygu ar gyfer y Cynllun Cenedlaethau'r Dyfodol ei pharatoi a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ym Mawrth 2020.

   Y blaenoriaethau ar gyfer 2019/20 oedd cwblhau'r gwaith moderneiddio yn ystafelloedd ffitrwydd Plas Arthur, ynghyd â datblygu cae bach 3G newydd yng Nghanolfan Hamdden David Hughes. Cefnogwyd y ddau brosiect gan y cyllid grant o'r gronfa gydweithredu a'r gronfa Lle i Chwaraeon. Mae'r cae 3G wedi'i gwblhau erbyn hyn, ac mae moderneiddio ystafell ffitrwydd Plas Arthur hefyd wedi gorffen ar ôl cael ei ohirio gan Covid-19. Gwariwyd cyfanswm o £ 103k o'r gyllideb gyfalaf ar y ddau brosiect yn ystod y flwyddyn.

   Bu gwaith cadarnhaol yn parhau yn ystod y flwyddyn o ran gwelliannau effeithiolrwydd ynni o fewn ein cyfleusterau hamdden.

6. Gwnaethom gynllunio yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol i symud yn agosach tuag at wireddu ein hagenda ddigidol yn gyntaf yn 2019/20. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed llawer o waith

gennym ar ddatblygu ein dulliau digidol o gyfathrebu â'n cwsmeriaid. Datblygwyd llawer o ffurflenni ar-lein i gymryd lle ein rhai papur sy'n rhoi mynediad i'n cwsmeriaid i'n gwasanaethau 24/7.

O ran bob cais am fynediad i ysgolion, bellach mae'n rhaid cwblhau'r prosesau derbyn trwy ddefnyddio'r ffurflenni ar-lein ar ein gwefan. Mae gwneud hyn wedi arbed llawer o oriau gwaith, ac wedi gwneud y broses yn fwy diogel na'r ffurflenni papur a ddefnyddiwyd yn flaenorol.

Daeth sianelau digidol yn fwy a mwy pwysig yn ystod y cyfnod clo fel y mae'r Cyngor wedi darparu mwy o wasanaethau ar-lein, ac mae hwn yn faes y byddwn yn parhau i'w ddatblygu i mewn i unrhyw gyfnod adfer a ymgymerir gennym. Mae'r datblygiadau o ran gallu talu am lawer o wasanaethau ar-lein wedi arwain at gasgliad gwell o daliadau gan breswylwyr ac yn osgoi'r llwyth gwaith gweinyddol trwm o orfod anfon bil ac yna mynd ar ôl y ddyled.

Enghraifft o sut yr ydym wedi manteisio ar ddulliau digidol fyddai ailagor ein cyfleusterau ailgylchu a'n llyfrgelloedd. Rhaid i ddefnyddwyr y canolfannau ailgylchu archebu slot ar-lein i ddechrau, i gael mynediad i'r safle, ac fe'u hysbysir am y gweithdrefnau cyn ymweld â'r safle. Gellir dweud yr un peth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd, lle mae rhai llyfrgelloedd ar agor ar sail clicio a chasglu yn unig. Efallai na fyddai modd i'r cyfleusterau hyn agor heb y dulliau digidol a weithredwyd mewn ymateb uniongyrchol i'r pandemig.

---

**Astudiaeth Achos 4**

Mae Canolfan O'Toole yn dal i ddarparu eu holl gyngor a chymorth arferol ynghylch budd-daliadau, gyda cheisiadau'n cael eu gwneud dros y ffôn a chynghorwyr yn gweithio o adref. Maent yn derbyn llawer o alwadau am gymorth gyda banciau bwyd, Neges, ymholiadau ynghylch tai a rhent, ynghyd â cheisiadau am gymorth, a gall sgwrs gychwynnol arwain at wneud sawl math o atgyfeiriad.

Ffoniodd Mr X o Loegr Ganolfan O'Toole gan ei fod yn pryderu am ei fam, Mrs Y, sy'n byw ar ei phen ei hun ar Ynys Môn. Mae hi yn ei 60'au, a hithau wedi dioddef dwy strôc a gwaedlif ar yr ymennydd yn y 12 mis diwethaf, ac mae'n dioddef nam gwybyddol ers hynny, ac roedd Mr X yn poeni am ei diffyg ymwybyddiaeth o beryglon. Roedd mam Mrs Y, Mrs Z, sy'n byw mewn ardal arall ym Môn yn ei 80'au ac mae ganddi broblemau iechyd ond fel arfer yn mynd â Mrs Y i siopa. Mae hi bellach yn gorfod gwarchod ei hun ac yn methu helpu ei merch. Mae perthynas arall fel arfer yn paratoi prydau i Mrs Y eu cynhesu, ond mae honno'n gorfod gwarchod ei hun yn ofalus iawn, ac yn hunanynysu oherwydd ei phartner paraplegig sydd â chyflyrau iechyd cymhleth ac felly'n methu helpu.

Yn dilyn galwad Mr X, cynhaliodd un o'n Cynghorwyr wiriad llawn o fudd-daliadau a gwnaeth hawliadau perthnasol i Mrs Y dros y ffôn. Daeth i'r amlwg o'r sgyrsiau gyda Mrs Y ei bod yn byw mewn cartref anaddas a bod ganddi lawer o anghenion o ran cymorth, felly fe'i hatgyfeiriwyd at y gwasanaeth Cymorth Tai a ffoniodd Mrs Y, a chwblhawyd ffurflen i'w chyflwyno i'w SPOA. Neilltuwyd Swyddog Cymorth Tai ar ei chyfer o ganlyniad i hynny. Atgyfeiriodd y Ganolfan Mrs Y i gael bwyd wedi'i ddanfon iddi'n rheolaidd gan y gwasanaeth Neges, ac roedd yn hapus iawn i'w dderbyn.

Cysylltwyd â Mrs Z hefyd, nain Mr X, i gynnal gwiriad budd-daliadau llawn dros y ffôn. Trwy wneud hyn, bu modd i ni ganfod bod ei hiechyd wedi dirywio'n sylweddol a bod ei hanghenion o ran gofal wedi cynyddu, felly bu modd i ni ei helpu i gwblhau cais am gael adolygu ei Lwfans Gweini, ddylai gael ei godi bellach i gyfradd uwch. Roedd problemau cynyddol Mr Z o ran symudedd wedi creu

problemau eraill, ac ar ôl trafod anawsterau Mrs Z a'r angen am gymorth ychwanegol, atgyfeiriwyd Mrs Z i'r Gwasanaeth Cymorth Tai hefyd, a gwblhaodd gais gyda hi.

Roedd Mr X yn falch ei fod wedi ein ffonio, ac mae'n hapus iawn gyda'r canlyniadau ar gyfer ei Fam a'i Nain.

**Dangosyddion Perfformiad a Dadansoddiad**

| Amcan 3: Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol | CAMG | Tuedd | Canlyniad | Targed | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| 37) Canran y strydoedd sy'n lân | Melyn / Yellow | Down | 93.79% | 95% | 95.60% |
| 38) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Melyn / Yellow | Up | 67.26% | 70% | 69.86% |
| 39) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | Up | 0.96 | 1 | 0.2 |
| 40) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | Down | 206.17kg | 240kg | 240kg |
| 41) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Gwyrdd / Green | Up | 90% | 90% | 80% |
| 42) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Gwyrdd / Green | Same | 78% | 65% | 74% |
| 43) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Melyn / Yellow | Up | 74% | 80% | - |
| 44) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Ambr / Amber | Down | 4% | 3% | 2.90% |
| 45) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | Same | 3.80% | 4% | 3.80% |
| 46) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | Up | 8.20% | 9% | 8.70% |

Yn debyg i'r 2 amcan cyntaf, mae'r dangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig â'r amcan wedi perfformio'n dda yn erbyn y targedau. Roedd 60% o'r dangosyddion uwchlaw'r targed am y flwyddyn, roedd 30% o fewn 5% o'r targed ac roedd y 10% oedd yn weddill yn Oren yn erbyn y targed.

Gwariwyd cyfanswm o £1.9M o'r gyllideb gyfalaf ar adnewyddu ffyrdd yn ystod 2019/20. Rydym yn hapus i adrodd bod ein ffyrdd B a C unwaith eto wedi cwrdd â'r targedau ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, rydym yn gweld dirywiad yng nghyflwr ein ffyrdd A o 2.9% yn 2018/19 i 4% eleni. Mae'r canlyniad hwn yn dal i berfformio'n dda o'i gymharu â chyrchfannau eraill ledled Cymru ond mae'r gostyngiad mewn cyllido atgyweiriadau ar fai yn rhannol yma. Yn ystod 2020/21 byddwn yn canolbwyntio ar wella a buddsoddi yn nhalaith ein ffyrdd A i wella'r rhan hon o'n cyrchfan.

Nid oedd ein dangosydd ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio wedi cyrraedd yr un lefelau ailgylchu ag yn 2017/18 a 2018/19. Rhan o'r rheswm am hyn oedd oherwydd problemau cychwynnol ym Mharc Adfer, sydd eisioes wedi ei drafod yn yr adroddiad. Golyga hyn nad ydym mwyach ar flaen targed Llywodraeth Cymru o ailgylchu 70% o'n gwastraff erbyn 2025. Fodd bynnag, byddwn yn ymdrechu i wella ein perfformiad os yn bosib yn ystod 2020/21.

## Perfformiad Ariannol 2019/20

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb byr o berfformiad ariannol y Cyngor dros 2019/20. Am y sefyllfa ariannol fanwl ar gyfer y flwyddyn edrychwch ar Ddatganiad Cyfrifon 2019/20 sydd ar gael ar ein gwefan.

**Y Gyllideb Refeniw**

Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, mae gofyn i'r Cyngor osod cyllideb ar gyfer ei wariant dydd i ddydd. Gelwir y gyllideb hon y Gyllideb Refeniw a dyma'r swm o arian y mae'r Cyngor ei angen i ddarparu ei wasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan gymryd i ystyriaeth grantiau mae'n eu derbyn gan y Llywodraeth.

Yn ystod 2019/20, gosodwyd cyllideb refeniw y Cyngor ar £135.2 million (£130.9m in 2018/19).

Mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllidebau ac yn mesur ei berfformiad ariannol trwy gyfrif rheoli, mae hyn yn caniatáu i ni dracio gwariant yn erbyn gweithgareddau a gynlluniwyd dros y flwyddyn.

Yn 2019/20, fe wnaeth y Cyfrif Refeniw wario £134.7 million, sef tanwariant o £308 mil yn erbyn y gwariant a gynlluniwyd o £135.2 miliwn. Yn ystod yr un cyfnod, trwy trawsnewid gwasanaethau a ffyrdd gwell o weithio, fe wnaeth y cyngor gynhyrchu gwerth £2.12million o arbedion.

Mae'r tabl isod yn adlweyrchu'r gyllideb ar gyfer 2019/20 a'r incwm a gwariant gwirioeddol yn ei herbyn:

| Services | Annual Budget £'000 | Outturn £'000 | Variance £'000 |
|---|---|---|---|
| Lifelong Learning | 50,916 | 50,673 | -243 |
| Adult Services | 25,205 | 26,290 | 1,085 |
| Children's Services | 10,274 | 10,430 | 156 |
| Housing | 1,220 | 1,143 | -77 |
| Highways, Waste, Property | 14,662 | 14,305 | -357 |
| Regulation | 3,926 | 3,809 | -117 |
| Transformation | 4,516 | 4,205 | -311 |
| Resources | 3,050 | 2,880 | -170 |
| Council Business & Corporate Finance | 21,438 | 20,956 | -274 |
| **Total Council Fund** | **135,207** | **134,691** | **-308** |

**Gwariant Cyfalaf**

Mae'r rhaglen gyfalaf yn cefnogi amcan ehangach y Cyngor i ddarparu gwasanaethau ac i gefnogi twf economaidd. Mae gwariant cyfalaf fel arfer yn cael ei weld fel gwariant "unwaith ac am byth" ac mae'n arwain at adeiladu neu wella ein hasedau, er enghraifft ein eiddo.

Yn 2019/20, fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo Rhaglen Gyfalaf o £17.282 miliwn ar gyfer gwasanaethau heblaw tai, ac fe gymeradwyodd Raglen Gyfalaf o £13.110m ar gyfer y CRT (Cyfrif Refeniw Tai). Yn ychwanegol, cafodd ymrwymiadau cyfalaf gwerth £3.065m eu dwyn ymlaen o 2018/19.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, ychwanegwyd gwerth £10.450 miliwn yn rhagor o Gynlluniau i'r rhaglen, gyda'r rhain yn cael eu hariannu'n bennaf gan Grantiau Cyfalaf ychwanegol. Daw hyn â'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2019/20 i £43.907 miliwn.

Llwyddodd y rhaglen i sicrhau cyfradd gyflawni o 68.36% a disgwylir y bydd y cynlluniau sy'n weddill yn cael eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae rhai o'r prosiectau a gwblhawyd yn cynnwys gwariant o £ 5.6m ar gaffael eiddo presennol a datblygu eiddo newydd ar gyfer ein stoc dai, £ 1.85m wedi'i wario ar ail-wynebu priffyrdd a £ 240k arall ar Ysgol Santes Dwynwen. Gwariwyd £ 76k hefyd ar gae 3G newydd David Hughes, gwariwyd £ 27k ar Ystafell Ffitrwydd Plas Arthur a gwariwyd £ 1.9M ar Unedau Diwydiannol Penrhos. Gwariwyd £ 2.8M arall ar waith lliniaru llifogydd ym Meaumaris a Phentraeth a gwariwyd £ 690k ar adnewyddu Neuadd y Farchnad.

Arweiniodd hyn at gyfanswm gwariant o £30.015 miliwn, ychwanegwyd £19.345 miliwn i werth asedau.

**Financial Impact of Covid-19**

Mae effaith y pandemig wedi cael dylanwad uniongyrchol ar gyllid y Cyngor ond bydd hefyd yn cael effaith am gyfnod sylweddol yn y dyfodol. Yn y tymor byr, mae'r Cyngor wedi dioddef cost ychwanegol o ddelio â'r pandemig (£52k ym Mawrth a £279k yn Ebrill). Mae'r costau hyn yn cynnwys costau TG ychwanegol er mwyn galluogi pobl i weithio o adref, prynu PPE ychwanegol, lletya pobl digartref, darparu cymorth cymunedol, sefydlu'r Canolfannau Gofal mewn Ysgolion, talu teuluoedd yn lle prydau ysgol am ddim, costau glanhau uwch. Bydd y pethau hyn yn cael eu talu amdanynt gan Lywodraeth Cymru ond disgwylir y bydd y costau yn parhau i gynyddu ym Mai a Mehefin gyda'r Cyngor yn gwneud taliadau ychwanegol i gartrefi preswyl a chartrefi nyrsio preifat ac o ganlyniad i'r nifer cynyddol o blant sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn lle prydau ysgol am ddim.

Mae cau gwasanaethau wedi lleihau lefel incwm y Cyngor gyda £360k wedi ei golli ym mis Ebrill a disgwylir y bydd hyn yn codi i tua £400k y mis yn ystod misoedd yr haf. Mae'r prif ffynonellau incwm a gollwyd yn cynnwys ffioedd canolfannau hamdden, incwm prydau ysgol, incwm meysydd parcio, ffioedd cynllunio ac ati. Yn ogystal, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith beidio â chodi rhent ar ddeiliaid Unedau Diwydiannol ac Eiddo Amrywiol ac i beidio â chodi ffioedd angori am y 3 mis cyntaf o'r flwyddyn ariannol. Wrth i'r argyfwng barhau mae lefel yr incwm sy'n cael ei golli yn parhau i godi ac os na fydd gwasanaethau yn mynd yn ôl i'r arfer yn ystod 2020/21 bydd yr incwm a gollwyd yn filiynau o bunnoedd. Er bod lefel yr incwm sy'n cael ei golli gan y Cyngor yn sylweddol, nid yw mor uchel ag yn rhai Cynghorau eraill yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y bydd yr incwm a gollwyd yn cael effaith sylweddol ar Gynghorau Cymru ac maent wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol er nad ydynt eto wedi cytuno sut y bydd y cyllid hwnnw'n cael ei ddosbarthu rhwng y 22 awdurdod.

Mae cau gwasanaethau wedi golygu gostyngiad yng ngwariant yr awdurdod ar gyfer mis Ebrill ac amcangyfrifwyd bod yr arbediad hwn tua £100k. Y prif feysydd lle'r oedd gwariant wedi lleihau oedd o ran costau fflyd a thalu costau teithio, taliadau is i'r prif gontractwyr (prydau ysgol, gweithredwyr bysiau, cynnal a chadw ffyrdd) costau ynni llai mewn canolfannau hamdden a chostau gweinyddol is mewn swyddfeydd (papur, llungopïo ac ati).

Gan edrych ychydig ymhellach ymlaen, mae'r pandemig yn amlwg wedi cael effaith ar yr economi a bydd yn achosi mwy o ddiweithdra. Wrth i nifer y bobl di-waith gynyddu, bydd y Cyngor yn derbyn mwy o geisiadau drwy'r Cynllun Gostyngiad yn y Dreth Gyngor. Mae'r gyllideb bresennol yn £6m ac

er bod cyfran fawr o hwn wedi'i ariannu drwy'r RSG bydd unrhyw gynnydd yn disgyn ar y Cyngor i'w ariannu oni bai fod Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae'r cynnydd yn nifer yr hawliadau yn isel gyda chynnydd o ddim ond 0.7% mewn achosion rhwng 31 Mawrth 2020 a 8 Mai 2020. Fodd bynnag, mae hwn yn debygol o gynyddu'n sylweddol unwaith y bydd y cynllun furlough yn dod i ben a phan fydd yn rhaid i fusnesau benderfynu a ddylid parhau i gyflogi staff ynteu eu diswyddo.

Further information on the Financial Performance of 2020/21 will be available in next years' report, or alternatively in the Quarterly Monitoring Reports which are discussed by the Executive throughout the year.

Bydd rhagor o wybodaeth am Berfformiad Ariannol 2020/21 ar gael yn adroddiad blwyddyn nesaf, neu fel arall yn yr Adroddiadau Monitro Chwarterol a drafodir gan y Pwyllgor Gwaith trwy gydol y flwyddyn.

## Casgliad

Ar y cyfan, mae ein perfformiad ar gyfer 2019/20 wedi bod yn bositif ac mae'n galonogol ein bod yn parhau i wella ein gwasanaethau yn gyffredinol, fel y dangosir trwy'r adroddiad, yn ogystal â chwblhau rhywfaint o waith pwysig yn ystod y flwyddyn. Ym mis olaf y flwyddyn ariannol, dechreuwyd y cyfnod mwyaf heriol oll gyda phandemig byd-eang yn ein harwain i gyd i ddyfroedd heb eu llywio. Mae'r ymateb o safbwynt lleol wedi bod yn wych gyda chymunedau'n dod at ei gilydd a gwirfoddolwyr yn helpu ei gilydd ar hyd a lled yr Ynys.

Fel rhan o'r ymateb i'r argyfwng, mae'r Cyngor wedi addasu a newid ei ddulliau er mwyn amddiffyn y gweithlu, ymateb yn effeithiol, parhau i ddarparu gwasanaethau (a chyflwyno gweithgareddau newydd). Rhagwelir y bydd cyfyngiadau mewn lle am beth amser a bydd rhaid ail-ddylunio gwasanaethau a lleoliadau gwaith er mwyn glynu at ofynion ymbellhau cymdeithasol a sicrhau diogelwch pawb. Er enghraifft, bydd cynnull mewn person wrth gadw at ofynion cadw pellter yn her newydd.

Er gwaetha'r heriau hyn, mae yna gyfleoedd hefyd i sicrhau y bydd y 'normal nesaf' yn gwella perfformiad, y gwasanaethau a ddarperir a llesiant gweithwyr. Bydd casglu ac ymgorffori'r dysgu sy'n deillio o'r argyfwng yn bwysig. Cydiwyd mewn cyfleoedd i fabwysiadu rhith-dechnolegau newydd, gan ddod yn fwy cydnerth a chynnal gwasanaethau hanfodol. Mae'n bwysig fod y Cyngor cyfan yn derbyn newidiadau a datblygiadau pellach.

O ganlyniad i'r pandemig ac ansicrwydd yr hyn sydd i ddod i'r dyfodol, rydym wedi gohirio rhyddhau ein Dogfen Gyflenwi Flynyddol ar gyfer 2020/21. Byddwn yn gweithio ar baratoi'r ddogfen dros ail hanner eleni lle cynigir y cytunir ar gynllun cyflawni 18 mis.

## Gwybodaeth Bellach

Am ragor o wybodaeth ar unrhyw elfen o'r ddogfen hon neu os oes gennych sylwadau, cysylltwch â:

Adnoddau Dynol a Thrawsnewid

Cyngor Sir Ynys Môn

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni, Ynys Môn

LL77 7TW

Ffôn - 01248 752111

E-bost:–

CarysEdwards@ynysmon.gov.uk

GethinMorgan@ynysmon.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg a gall fod ar gael ar ddisg neu mewn Braille. Mae hefyd ar gael ar wefan y Cyngor ynghyd â Chynllun y Cyngor ar gyfer 2017-22:

http://www.anglesey.gov.uk/councilplan

Mae gwybodaeth bellach ar gael hefyd fel a ganlyn: polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddwyd gan y Cyngor, a gellir eu gweld yn: www.anglesey.gov.uk

Mae adroddiadau Archwilio ac Arolygon a gynhyrchwyd gan Rheoleiddwyr y Cyngor ar gael o'u gwefannau unigol, fel a ganlyn:

• Swyddfa Archwilio Cymru: www.sac.cymru

• Arolygiaeth Gofal Cymru: https://arolygiaethgofal.cymru

• Estyn: www.estyn.cymru

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, neu os hoffech gael gafael ar ddogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, cysylltwch â'r Cyngor trwy'r manylion cyswllt a welir ar frig y dudalen os gwelwch yn dda.

## Atodiad 1

Rhestrir isod rai o'r gweithgareddau y mae Gwasanaethau'r Cyngor yn ymgymryd â nhw dros y Pandemig Coronafirws.

- **Adnoddau** - Gwnaed taliadau grant i 1,518 o fusnesau ar yr Ynys a oedd yn werth cyfanswm o £17.7m; prosesu Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim gyda chyfartaledd wythnosol o 1,489 o blant ac yn werth £29,035 ; darparu pecynnau bwyd ar gyfer nifer fach o blant; parhau â'r gwaith arferol ar ffurf taliadau treth gyngor ac ati; monitro sefyllfa ariannol a balansau'r Cyngor yn barhaus.
- **Addysg** – sefydlu canolfannau gofal ar gyfer plant gweithwyr allweddol a phlant bregus; darparu a danfon pecynnau cinio i blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim; darparu addysg o bell gan ddefnyddio amrywiaeth o lwyfannau digidol; cydweithio a'r Timau ADY a Chynhwysiant a'r Gwasanaethau Plant i gadw mewn cyswllt rheolaidd â phlant bregus; cynllunio ar gyfer ailagor ysgolion; sicrhau pwyslais parhaus ar les plant a phobl ifanc a lles cyffredinol y gweithlu.
- **Tai** – cefnogi unigolion bregus yn y gymuned trwy fanciau bwyd, darparu gwasanaeth siopa a phresgripsiwn ar gyfer unigolion sy'n cysgodi; cefnogi pobl ddigartref, cynnal diogelwch cymunedol, ailddechrau gwaith cynnal a chadw brys ar dai yn unol â chanllawiau cenedlaethol.
- **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** –Blaenoriaethu'r gwasanaethau gwastraff pwysicaf mewn ymgynghoriad â Biffa; cynllunio ar gyfer ailagor Canolfannua Ailgylchu Penhesgyn a Gwalchmai a'i weithredu; ailddechrau gwaith cynnal a chadw hanfodol ar briffyrdd, cau meysydd parcio arfordirol, llwybrau arfordirol, parciau a thraethau.
- **Busnes y Cyngor** - creu Llyfrgell o Ganllawiau a Rheoliadau Covid-19; creu strategaeth cyfarfodydd Pwyllgor; darparu canllawiau ar gyfarfodydd o bell, cofnodi a thracio gweithredoedd o gyfarfodydd dyddiol y Tîm Rheoli Ymateb i Argyfyngau a chyfarfodydd brys eraill.
- **Adnoddau Dynol a Thrawsnewid** – gwaith rhagweithiol yn cynhyrchu datganiadau i'r wasg yn rheolaidd, gwneud y defnydd mwyaf o gyfryngau cymdeithasol y Cyngor i drosglwyddo negeseuon allweddol a rhannu gwybodaeth ar Môn FM; casglu data staff yn ddyddiol i bwrpas cynllunio'r gweithlu ac adleoli staff i sicrhau parhad gwasanaethau rheng flaen; casglu data ar agweddau ar Covid-19 a datblygu dangosfwrdd at y diben; hwyluso a chefnogi staff y Cyngor i weithio o bell; datblygu system archebu ar-lein ar gyfer mynediad i Ganolfan Ailgylchu Penhesgyn; diweddaru hen gliniaduron y Cyngor i helpu plant nad oes ganddynt fynediad at offer TG gyda'u gwaith ysgol.
- **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**– ymgysylltu â busnesau lleol i gynnig cefnogaeth ac arweiniad mewn perthynas â'r materion a'r heriau a wynebir; cefnogi busnesau sydd ar gau; gweithio i sicrhau cydnabyddiaeth i Borthladd Caergybi ac i geisio pecyn cymorth priodol gan y Llywodraeth; cydweithredu â'r Bwrdd Iechyd a'r Ysbyty Maes; cymryd rhan mewn ymdrechion lleol a rhanbarthol i sefydlu tîm olrhain cyswllt; cynyddu capasiti'r Gwasanaeth Cofrestryddion; sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau a rheoliadau newydd yn sgil y Ddeddf Coronafeirws; monitro achosion mewn cartrefi preswyl a darparu hyfforddiant ar reoli heintiau; cyfrannu at ddatblygu cynllun rhanbarthol ar gyfer trefniadau ynghylch marwolaethau ychwanegol.
- **Gwasanaethau Cymdeithasol**– delio â heriau sicrhau a chynnal lefelau digonol o Gyfarpar Diogelu Personol; profi; lliniaru'r risg o fethu â staffio cartrefi gofal yn ddigonol; olrhain ac ymateb i lythyrau cysgodi; cefnogi teuluoedd bregus; parhau i gyflawni'r holl ddyletswyddau statudol a dangosyddion perfformiad a data.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor LLawn |
| **Dyddiad:** | 27 Hydref 2020 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2019/20 |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros-dro & Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.<br>Iola Richardson, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Dros-dro |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Swyddog Cyswllt:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Fon Roberts, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol (Dros dro)<br><br>Emma Edwards<br>01248 751887<br>Emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl Aelodau |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Pwrpas yr adroddiad:**

Derbyn a gwneud sylwadau ar yr adroddiad drafft terfynol a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Statudol. Pwrpas yr adroddiad yw hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer perfformiad a'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf o ran darparu Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Sir Ynys Môn, er heriau COVID-19. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r ffocws ar gyfer gwelliant am y flwyddyn nesaf.

Nodwch os gwelwch yn dda y bydd yr adroddiad terfynol, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae'r templed ar gyfer yr adroddiad yn cael ei ddylunio gan ein Dylunydd Graffig a'n Swyddog Marchnata Digidol.

**Amserlen**

Roedd yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 22 Medi 2020 ac mae'r adroddiad terfynol yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Gwaith ar y 28 Medi 2020 ac yna gyda'r Cyngor Llawn ar dyddiad yw gytuno yn Mis Hydref 2020. Mae y dyddiadau yn hwyrach eleni oherwydd her pandemic COVID-19. Ymhellach, bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**<u>Argymelliadau</u>**

| |
|---|
| a) Gwahoddir aelodau i mabwysiadu yr Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr, Cyngor Sir Ynys Môn ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2019-20 |

| **B - Pa opsiynau eraill yr oeddech chi'n eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis y dewis hwn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| **C - Pam mae hyn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gafwyd cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith bod yr adroddiad yn adlewyrchiad cywir o effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2019/20 ar y 28 Medi 2020. |

| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Fe ddaru hyn gael ei gymeradwyo gan yr UDA ar y 7 Gorffennaf 2020. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Fel yr uchod. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Fel yr uchod. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Craffu** | Cafodd yr Adroddiad ei ystyried a’I cadarnhau gan Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 22 Medi 2020. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anrhefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A- Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2019/20 |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

CC-016749-LB / 229501

Ynys Môn

THE ISLE OF

Anglesey

# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR AR EFFEITHIOLRWYDD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2019-20

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

@cyngormon

# Cynnwys


Cyflwyniad y Cyfarwyddwr a'i Grynodeb o'r Perfformiad 3

Y Sefyllfa Ddiweddaraf ynghylch COVID-19 4

Sut mae pobl yn Llunio ein Gwasanaethau? 5

**Safon Ansawdd 1 -** Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y dymuna pobl eu cyflawni 8

**Safon Ansawdd 2 -** Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo lles emosiynol ac iechyd corfforol a meddyliol pobl 14

**Safon Ansawdd 3 -** Gwarchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed 21

**Safon Ansawdd 4 -** Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas 23

**Safon Ansawdd 5 -** Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthynas ddomestig, deuluol a phersonol iach 29

**Safon Ansawdd 6 -** Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gael lles economaidd gwell, bywyd cymdeithasol ac i fyw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u gofynion. 32

Ein gweithlu a sut y Cefnogwn eu Rolau Proffesiynol 36

Ein hadnoddau Ariannol a Sut y Cynlluniwn am y Dyfodol 40

Gweithio mewn Partneriaeth, ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu a'n Hatebolrwydd 41








Rhydd y ddogfen hon grynodeb o'n hunanasesiad blynyddol. Credwn ei bod yn amlinellu rhai o'n cyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â thynnu sylw at yr heriau y mae angen rhoi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn i ddod.

Croesawn unrhyw sylw ar fformat a chynnwys yr adroddiad hwn er mwyn cynorthwyo ein taith gwella.


## EIN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2019-20




Cyfanswm Cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol yw
**£37,599,160**



Cyllideb y Gwasanaethau Oedolion yw
**£26,449,150**



Cyllideb y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yw
**£11,150,010**



Cyfanswm y cyllid grant
***£2,979,587***



Rydym yn cyflogi
**592** o bobl




Mae **476 (83%)** o'n gweithwyr yn siarad Cymraeg (L3 neu uwch)

## PWY YDYM WEDI'U HELPU A'U CEFNOGI

**4,486** cysylltiad ag Oedolion

**3,956** cysylltiad â Phlant a'u Teuluoedd

Mae **2,245** o oedolion yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth

Mae **1,752** o oedolion yn derbyn Cynllun Gofal a Chymorth

Mae **188** o blant yn derbyn Cynllun Gofal a Chymorth

Mae **194** o blant unigol yn derbyn Gofal


Mae **199** o blant unigol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (72 yw cyfartaledd nifer y plant ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn)

**550** o ofalwyr wedi'u hasesu yn ystod y flwyddyn

**245** o ddefnyddwyr System Gwybodaeth Gofal Cyfathrebu Cymru (yr WCCIS)

**116** o Ofalwyr Ifanc yn cael Cefnogaeth Gweithredu dros Blant

**52** o Ofalwyr Maeth



# Cyflwyniad y Cyfarwyddwr a'i Grynodeb o'r Perfformiad

Rwy'n falch o gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol cyntaf yn fy rôl fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i Gyngor Sir Ynys Môn. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweld newid sylweddol yn Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor, yn dilyn ymddeoliad ein Prif Weithredwr, Dr Gwynne Jones, y caiff ei ymroddiad a'i gefnogaeth i gynorthwyo i wella ei gwasanaethau cymdeithasol ei gydnabod yn eang.

Hoffwn gyflwyno Mrs Annwen Morgan yn ffurfiol fel Prif Weithredwr newydd y Cyngor a Dylan Williams fel Dirprwy Brif Weithredwr. Mae modd cael rhagor o wybodaeth am y strwythur diwygiedig dan ein diweddariad "Gweithio mewn Partneriaeth, ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu a'n Hatebolrwydd."



Hoffwn ddiolch i Alwyn Rhys Jones, a arweiniodd y gwaith a grybwyllir yn yr adroddiad hwn fel Cyfarwyddwr Statudol Cyngor Sir Ynys Môn. Penodwyd Alwyn yn ddiweddar i rôl Cyfarwyddwyr Statudol yn Wrecsam a dymunwn y gorau iddo yn ei rôl newydd.

Rydym wedi cychwyn ar siwrnai i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn mabwysiadu Strategaeth Cyfleoedd Diwrnod Anableddau Dysgu radical, newydd. Golyga hyn ymgynghori ar ddull newydd a chyffrous o'r ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau ar hyn o bryd, ac rydym wedi'n cyffroi i allu rhannu ein gweledigaeth ynglŷn â moderneiddio'r ddarpariaeth hanfodol hon.

Gyda'n partneriaid yn y maes iechyd a'r trydydd sector, rydym wedi gwneud cynnydd wrth sefydlu Timau Gofal Cymunedol mewn tair ardal yn Ynys Môn. Er nad yw'r prosiect wedi'i gyflawni'n llawn eto, oherwydd heriau wrth sicrhau eiddo priodol a materion technegol a logistaidd, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo dros y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Wrth i ni ymdrechu i ddarparu gofal cymdeithasol o ansawdd da i drigolion Ynys Môn, mae'n parhau i fod yn her gyda phwysau cyllideb ariannol, gynyddol, parhaus a phoblogaeth sy'n heneiddio. Fodd bynnag, gyda gwaith caled parhaus ac ymroddiad ein gweithlu, cynllunio busnes clir a phrosiectau dyfeisgar a medrus, rwy'n hyderus y gallwn ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl.



**Fôn Roberts**
Cyfarwyddwr Dros
Dro'r Gwasanaethau
Cymdeithasol a Phennaeth
y Gwasanaethau Plant
a Theuluoedd

# Pandemig Coronafeirws-19 (COVID-19)

Mae pandemig COVID-19 ledled y byd wedi cael effaith ar y ffordd yr ydym yn gweithio ers diwedd mis Chwefror 2020, gyda chynlluniau Rheoli Parhad Busnes a Chorfforaethol ar waith yn dilyn arweiniad cenedlaethol ac, oherwydd effaith COVID-19 ganol mis Mawrth 2020:

- Defnyddiwyd pwerau a chyllidebau stad o argyfwng
- Parhaodd Tîm Rheoli Ymateb i Argyfyngau, wrth reoli busnes yn ôl yr arfer a  pharatoi ar gyfer cam llacio'r cyfyngiadau symud a'r cam adfer
- Paratowyd Adroddiadau Dyddiol ac Wythnosol ar y Sefyllfa yn crynhoi penderfyniadau, materion a risgiau allweddol
- Bu cyfathrebu dyddiol yn fewnol gyda'r Aelodau a'r staff ac yn allanol trwy wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol
- Adolygwyd cofrestr risg ffurfiol COVID-19 a'i diweddaru bob wythnos



Defnyddiwyd pwerau dirprwyedig brys oedd yn ei gwneud yn bosib i'r Cyngor wneud penderfyniadau hanfodol. Arweiniodd hyn at fwyafrif Staff y Cyngor yn gweithio o gartref lle bo hynny'n bosibl, cau adeilad ein Cyngor i ymwelwyr, cau ein canolfannau dydd anabledd dysgu, gwahardd ymwelwyr nad oedd yn hanfodol rhag mynd i gartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio a gost-yngiad yn ein gwasanaethau.

Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud rydym wedi:

- Parhau i gyflawni ein holl ddyletswyddau statudol
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Darparwyr a chydweithwyr yn Nhîm Cydnerthu Gogledd Cymru, yn ogystal â llawer o rai eraill.
- Sefydlu storfa PPE Covid-19 i reoli PPE a ddanfonir gan Lywodraeth Cymru ac a reolir o fewn adnoddau'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Sefydlu'r broses cyfeirio profion COVID gyda staff y Cyngor yn ei reoli saith niwrnod yr wythnos.
- Datblygu a defnyddio arferion gwaith arloesol i addasu i'r cyfnod pandemig er mwyn hwyluso cyswllt, asesiadau, adolygiadau, gan sicrhau y cyflawnir ein dyletswyddau diogelu.
- Parhau i gydymffurfio ag achosion Llys a Chynllunio Gofal.
- Parhau i recriwtio Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol.



# Sut mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?

Yr agenda Lles yw canolbwynt ein holl waith - rhoi'r unigolyn yn ganolog i bopeth a wnawn gan weithio gyda theuluoedd, cymunedau a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau gwell canlyniadau i bawb.

Yn y ddogfen hon, byddwn yn adrodd yn erbyn pedair egwyddor y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant - lles, pobl (llais a rheolaeth), partneriaeth, ac integreiddio ac atal.

Er gwaethaf yr heriau ariannol cynyddol a wynebwyd, rydym wedi parhau i wneud cynnydd yn 2019-20 mewn sawl maes.



Ein blaenoriaeth allweddol i Oedolion yw hyrwyddo annibyniaeth ac atal angen sy'n cynyddu. I'n Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ein blaenoriaeth yw sicrhau bod ein plant sy'n derbyn gofal yn cael y gefnogaeth a'r cyfleoedd gorau posibl.

> *Mae atal yn sefyll yn gadarn ar agenda Gwasanaethau Oedolion Ynys Môn. Mae yna lawer o enghreifftiau cadarnhaol o ymarferwyr yn darparu ac yn trefnu gofal a chefnogaeth i bobl yn eu cymunedau, i'w hatal rhag cyrraedd argyfwng.*
> - Arolygiaeth Gofal Cymru

Rydym yn parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd ag Arolygiaeth Gofal Cymru trwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod ein rheolyddion yn hyderus gyda'n taith gwella barhaus. Rhydd ein cyfarfod Blynyddol y cyfle i drafod ein cynlluniau a chynnig tystiolaeth o gerrig milltir perfformiad. Wrth weithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi gallu cofrestru ein cartrefi plant newydd yn Ynys Môn yn gyflym ac yn effeithlon, er gwaethaf heriau COVID-19.

Creodd y Gwasanaethau Cymdeithasol Gynllun Gweithredu mewn ymateb i **Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol Dilynol 2019-2020** Llywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdod Lleol wedi gwneud gwaith mewn perthynas â recriwtio staff dwyieithog, gan godi ymwybyddiaeth o'r angen i wneud y Cynnig Gweithredol trwy gyfrwng y Gymraeg trwy gynadleddau staff a sesiynau sefydlu staff, cynorthwyo staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a gwella sut mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cofnodi'r Cynnig Gweithredol. Rhennir arfer da trwy Fforwm Mwy na Geiriau Gogledd Cymru.

**Yn ystod y flwyddyn, mae ein gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi bod yn cymryd rhan mewn arbrawf - "Prosiect ymarfer" gyda Phrifysgol Bangor sy'n darparu methodoleg i newid ymddygiad ieithyddol staff trwy deilwra ymyraethau a chefnogaeth yn gost-effeithiol ac mewn ffordd nad yw'n gymhleth. Y nod yn y pen draw fydd creu pecyn cymorth i sefydliadau yng Nghymru i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.**




### ASTUDIAETH ACHOS:

Rydym yn falch o Sian Morgan, Gweithiwr Cymorth yn y Tîm Teuluoedd Gwydn a anrhydeddwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol am ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae Sian yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ers bron i 15 mlynedd ac mae gan ei chydweithwyr a'i chyfoedion barch mawr tuag ati. Derbyniodd Sian y wobr 'Gofalu yn Gymraeg' gyda balchder yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst ar y 7fed o Awst, 2019.

>>



Yn y seremoni roedd Mark Drakeford, y Prif Weinidog ac Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg. Roedd Sian yn un o chwe pherson yn y rownd derfynol a ymgeisiodd am y wobr, ac fe'i dewiswyd fel enillydd trwy bleidlais gyhoeddus - lle cafodd mwy na 850 o bobl dweud eu dweud .

Nod y wobr yw cydnabod a dathlu gweithwyr gofal yn y maes gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a phlentyndod sy'n rhoi gofal rhagorol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Sian yn rhoi gofal a chefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg i sicrhau bod y bobl y mae'n gofalu amdanynt yn teimlo'n gyffyrddus, eu bod yn cael clust ac yn gallu cyfathrebu yn eu mamiaith.



Enwebwyd Sian am y wobr gan ei rheolwr, Dawn Hutchinson, a ddywedodd, "Mae Sian wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl y mae'n rhoi cymorth iddynt ar Ynys Môn. Trwy gyfathrebu â phobl yn eu hiaith gyntaf a defnyddio'r dafodiaith leol, mae Sian wedi helpu teuluoedd i deimlo bod pobl yn eu deall a'u gwneud i deimlo'n llai ynysig."

Dywedodd Arweinydd y Cyngor a deiliad portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Llinos Medi, "Rydym yn hynod falch o Sian a'i hymrwymiad i ddarparu lefel mor uchel o ofal. Mae darparu gwasanaethau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ac, ar Ynys Môn, rydym yn falch iawn o weld ein hiaith yn cael effaith mor gadarnhaol ar fywydau trigolion lleol."

Ychwanegodd, "Mae Sian wedi dangos y gall siarad Cymraeg, yn ei rôl fel gweithiwr cymdeithasol, wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau'r plant a'r teuluoedd ifanc sy'n derbyn ei gofal a'i chefnogaeth."

Cofnododd y Gwasanaethau Cymdeithasol 199 o **sylwadau cadarnhaol** a dderbyniwyd am eu gwasanaethau yn 2019/20. Hefyd, cofnododd y Gwasanaeth **65 o sylwadau / pryderon negyddol, 37 o gwynion Cam 1 a saith o gwynion Cam 2.** Rhoddir ystyriaeth i unrhyw gamau sydd eu hangen i weithredu'r hyn a ddysgwyd o gwynion, ac adroddir ar adborth ar wasanaethau a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nod y **Gronfa Gofal Integredig (CGI)** yw gyrru a galluogi'r gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol gydweithio a gweithio'n integredig. Y bwriad yw helpu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu a phrofi dulliau a modelau darparu gwasanaeth newydd fydd yn cefnogi egwyddorion sylfaenol integreiddio ac atal. Rhaid i feysydd blaenoriaeth integreiddio a phob rhaglen CGI ranbarthol roi sylw cymesur iddynt, yn unol â'u hasesiadau poblogaeth rhanbarthol a chynlluniau ardal i bobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, gan gynnwys dementia; Pobl ag anableddau dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; a Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.

Trwy'r holl adroddiad hwn byddwch yn sylwi y cyfeirir at y gwahanol brosiectau ac arbrofion y mae Ynys Môn yn gweithio arnynt ar gyfer y grwpiau blaenoriaeth hyn, gyda'r nod o ddod o hyd i fodelau a dulliau darparu gwasanaeth integredig newydd fydd yn:

- galluogi pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth ac aros gartref, gan osgoi gorfod mynd i'r ysbyty heb fod rhaid ac oedi cyn eu gadael;
- galluogi teuluoedd i gwrdd ag anghenion eu plant a'u helpu i aros gyda'i gilydd;
- cefnogi gofalwyr yn eu rôl ofalu a'u galluogi i gynnal eu lles eu hunain;
- cefnogi gwaith datblygu gwasanaethau gofal a chymorth integredig ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth ac awtistiaeth;
- cynnig cymorth cynnar ac atal anghenion rhag cynyddu; a
- hybu iechyd a lles emosiynol yn ogystal ag atal iechyd meddwl gwael.

## GWAITH PARATOI BIL PLANT (DIDDYMU AMDDIFFYNIAD COSB RESYMOL) (CYMRU)

Pwrpas y Bil yw diddymu amddiffyniad cyfraith gwlad rhag cosb resymol fel nad yw bellach ar gael yng Nghymru i rieni na'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis fel amddiffyniad i ymosod ar blentyn neu ei guro.

Ar hyn o bryd, mae'r amddiffyniad yn berthnasol mewn perthynas â'r gyfraith droseddol a'r gyfraith sifil. Dan y gyfraith droseddol, mae'n berthnasol mewn perthynas â throseddau cyfraith gwlad o ymosod a churo; a than gyfraith sifil, mewn perthynas â chamwedd tresmasu yn erbyn y person.

Bwriad y Bil yw cefnogi hawliau plant trwy wahardd defnyddio cosb gorforol, trwy wneud i ffwrdd â'r amddiffyniad hwn. Effaith arfaethedig y Bil, ynghyd â chael ymgyrch codi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i rieni, yw sicrhau gostyngiad pellach yn y defnydd a wneir o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru a'r goddefgarwch a ddangosir ati.

Mae'n debygol y bydd y Bil yn dod yn weithredol yn 2022. Isod mae dolen i gyflwyniad byr Llywodraeth Cymru i'r bil: https://youtu.be/iK4O-Cd6Q8I

Yn ein Hadroddiad 2018/19, bu i ni sôn am ein llwyddiant wrth dendro am ein model newydd o Ofal a Chymorth Cartref ar draws yr Ynys. Rydym yn falch o gael dweud y bu i'r **tîm trawsnewid Gofal cartref ennill y wobr Rhoi Pobl yn Gyntaf / Personoli yn rhagbrawf Cymru o'r Great British Care Awards 2019,** a hynny ar yr 8fed o Dachwedd 2019.



## ASTUDIAETH ACHOS:




Cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol ledled y Deyrnas Unedig yw'r Great British Care Awards ac maent yn ddathliad o ragoriaeth ar draws y sector gofal. Pwrpas y gwobrau yw talu teyrnged i'r unigolion neu'r timau hynny sydd wedi dangos rhagoriaeth anhygoel yn eu maes gwaith.

Wrth ailfodelu'r gwasanaeth Gofal Cartref, cyflwynwyd contract sy'n gwella darpariaeth gwasanaethau, ansawdd a dewis i unigolion y mae angen cefnogaeth arnynt, trwy gael un darparwr ym mhob bro o'r Ynys (tair bro i gyd). Mae'r trawsnewidiad hwn wedi sicrhau bod pobl y mae angen cymorth arnynt gartref, neu yn dilyn cyfnod ganddynt yn yr ysbyty, yn derbyn y gofal hwnnw'n gyflym waeth lle maent yn byw ym Môn. Fel hyn, hefyd, mae modd i unigolion aros mor annibynnol â phosib yn eu cartrefi eu hunain.

# Safon Ansawdd 1

**Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu deilliannau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni**

## OEDOLION

**Tîm Adnoddau Cymunedol –** Mae pob un o'n tri safle, y mae ein timau dynodedig yn eu rhannu, wedi cael diweddaru ei TGCh i fod yn gydnaws fel bod modd i ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol weithio'n integredig.

Rhagwelir y bydd y timau cymunedol hyn yn dod yn weithredol ddiwedd Ebrill 2020 gyda'r holl staff amlddisgyblaethol ar yr un safle. Mae cynrychiolaeth darparwyr gofal y trydydd sector a gofal cartref yn rhan annatod o nod y Tîm er mwyn mireinio'r mynediad at ddarpariaeth leol.



Gyda chyllid o'r adolygiad Seneddol, bu modd datblygu tîm trawsnewid i yrru'r agenda drawsnewid hwn ymlaen ar draws yr ardal gyda thri swyddog trawsnewid wedi'u dynodi ar gyfer Ynys Môn.

Mae cyfres o hyfforddiant meithrin tîm 'Sylfaenol' wedi'i gynnal ar gyfer yr holl staff ar draws y gymuned iechyd a hwyluswyd hwn gan arweinyddion Trawsnewid Ynys Môn. Y nod oedd deall a rhoi sylw i unrhyw faterion lleol yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Caiff strategaeth gyfathrebu ei datblygu i sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r agenda integreiddio ac i godi ymwybyddiaeth o sut i gael yr hyfforddiant hwn yn lleol yn y tair ardal ddynodedig.

### Timau Adnodd Cymunedol (TAC) - Y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Ynys Môn


Byddir yn cwrdd â'r maes blaenoriaeth ar gyfer integreiddio trwy ddatblygu swyddfeydd timau mewn tri lleoliad strategol ar Ynys Môn. Timau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol integredig cwbl weithredol yw Timau Adnoddau Cymunedol fydd yn cyflwyno cydlyniant di-dor o iechyd a gofal cymdeithasol. Fel hyn, bydd modd sicrhau cyngor ac ymyrraeth ar yr amser cywir ac yn y lle iawn gan y gweithiwr proffesiynol iawn i helpu i gefnogi unigolion i fyw eu bywyd fel y maen nhw'n dymuno ei fyw. Bydd y Timau hyn yn gweithredu dan fodel gweithio integredig sy'n golygu bod â pherthynas waith agos rhwng gofal sylfaenol a chymunedol a chysylltiadau cryf â gofal eilaidd. Bydd Iechyd Meddwl Pobl Hŷn hefyd yn rhan o'r tîm craidd. Bydd y trydydd sector ac, yn benodol, rolau penodol Cydlynu Asedau Lleol, yn darparu gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol cadarn a chysylltiadau cryfach yn ein cymunedau. Byddant yn gwneud hyn wrth fabwysiadu dull seiliedig ar asedau o ddatblygu cymunedol a chefnogi unigolion, er mwyn cyd-gynhyrchu atebion cymunedol i faterion sy'n cael effaith ar eu bywydau.

Mae angen cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig i addasu / ymestyn swyddfeydd presennol y Bwrdd Iechyd / Llywodraeth Leol mewn tri lleoliad strategol ar draws Ynys Môn i ddarparu lle gweithio integredig addas i staff y Timau hyn.

>>

>>

Ar y 1af o Ionawr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chôd Ymarfer (Eiriolaeth) Rhan 10. Mae copi i'w weld yn https://gov.wales/advocacy-services-code-practice Mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am sicrhau y caiff y Côd Ymarfer newydd ei ddefnyddio'n feunyddiol, ac rydym yn gweithio i sicrhau bod hyn yn digwydd yn Ynys Môn.




Amlinella'r Côd Ymarfer diwygiedig nifer o fanteision - dylid ystyried eiriolaeth fel elfen gynhenid o Ddeddf (Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru)) 2014 i sicrhau bod gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar bobl a'u lles. Mae eiriolaeth yn helpu pobl i ddeall sut gallant gael eu cynnwys, sut gallant gyfrannu a chymryd rhan a, phryd bynnag y bo hynny'n bosibl, arwain neu gyfarwyddo'r broses.

Trwy eiriolaeth, mae pobl yn bartneriaid gweithredol yn y prosesau gofal a chymorth allweddol sy'n nodi ac yn sicrhau atebion trwy wasanaethau ataliol; gwybodaeth, cyngor a chymorth; asesiad; gofal a chymorth a chynllunio gofal; adolygu a diogelu.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal adolygiad o'r dogfennau asesu er mwyn sicrhau y caiff yr angen am Eiriolaeth ei nodi a'i gofnodi'n glir ar bob cam o'r ymyraethau. Mae staff gofal cymdeithasol wedi cael hyfforddiant gloywi i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau gwasanaeth ac i godi ymwybyddiaeth ynghylch pryd y dylid defnyddio darpariaeth Eiriolaeth annibynnol. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu gwahodd gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru i gyfarfodydd tîm i rannu natur y gwaith dan sylw, i rannu profiadau dysgu ac atgyfnerthu llwybrau cyfeirio.



## ASTUDIAETH ACHOS:





*O'r chwith i'r dde: Arweinydd Cyngor Ynys Môn, y Cynghorydd Llinos Medi; Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Ynys Môn, Alwyn Rhys Jones; Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething; Cadeirydd Cynghrair Pobl Seiriol, Dr Steve MacVicar; Cadeirydd Canolfan Biwmares, Alwyn Rowlands; a Phrif Weithredwr Cyngor Ynys Môn, Dr Gwynne Jones.*

Ymwelodd Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Vaughan Gething, ag Ynys Môn ar y 6ed o Fehefin, 2019 a dysgodd sut mae Cynghrair Pobl Seiriol yn cynnwys preswylwyr wrth wneud penderfyniadau a helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Ymwelodd Mr Gething â Beaumaris lle llofnododd cynrychiolwyr o Gynghrair Pobl Seiriol, Canolfan Biwmares a Chyngor Sir Ynys Môn Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd - y cyntaf i'r Ynys - i gynorthwyo gwaith cydweithredu pellach a chynaliadwy.

Bydd y ddogfen yn arwain Cynghrair Pobl Seiriol wrth iddi archwilio ffyrdd y gall y gymuned ysgwyddo cyfrifoldebau mwy lleol a chomisiynu ei gwasanaethau ei hun. Mae hefyd yn nodi amcanion ac egwyddorion allweddol cydweithredu; yn ogystal â strwythurau llywodraethu a rolau a chyfrifoldebau priodol.

Gyda chefnogaeth Medrwn Môn a Chyngor Ynys Môn, cadeirir Cynghrair Pobl Seiriol gan y meddyg teulu lleol sydd wedi ymddeol, y Dr Steve MacVicar.

Dywedodd Dr MacVicar, *"Mae hwn yn ddiwrnod pwysig i ward Seiriol a'i holl drigolion. Bydd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn chwarae rhan bwysig o ran Cydweithrediad parhaus rhwng partneriaid, wrth i ni geisio chwarae ein rhan i wella iechyd, lles a ffyniant yr ardal leol yn y dyfodol."*

Ychwanegodd, *"Rwy'n ddiolchgar i Medrwn Môn a'r Cyngor Sir am eu cefnogaeth i ddatblygu'r bartneriaeth arloesol hon; ac i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, am ymuno â ni yma heddiw."*

Sefydlwyd prosiect **Creu Cymunedau Seiriol** yn gyntaf dair blynedd yn ôl ac roedd yn ymgysylltu â'r gymuned leol, y cynghorau tref a chymuned lleol a'i gynghorwyr sir lleol.

Cefnogir y prosiect hwn gan **Medrwn Môn,** sy'n gweithio gyda grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol a Chyngor Ynys Môn. Mae Cynghrair Pobl Seiriol eisoes wedi archwilio ffyrdd o ddatblygu darpariaeth gofal cymdeithasol a gallai nawr weithio i ddatblygu meysydd blaenoriaeth eraill, megis tai fforddiadwy, creu swyddi a thrafnidiaeth.

Ychwanegodd Arweinydd Cyngor Ynys Môn a deilydd portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Llinos Medi, *"Mae llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn tanlinellu ymrwymiad yr holl bartneriaid i barhau i weithio gyda'i gilydd. Mae hefyd yn adlewyrchu nod y Cyngor Sir o gwrdd ag egwyddorion arweiniol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015."*

## Strategaeth Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu –

Ymgysylltwyd ynghylch y strategaeth yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2019, a bu i ni ymgysylltu'n helaeth â'r bobl hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaeth dydd ar hyn o bryd. Ymhlith enghreifftiau o'r gweithgareddau a gynhaliwyd mae:

- Copïau o'r strategaeth gyda holiaduron adborth a anfonwyd at holl ddefnyddwyr cyfredol gwasanaethau dydd a'u teuluoedd (gan gynnwys fersiynau hawdd eu darllen o'r holl ddogfennau)
- Pedwar cyfarfod Grŵp Ffocws ar wahân ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth wedi'u hwyluso gan y Gwasanaethau Eiriolaeth sy'n annibynnol ar y Cyngor
- Cyfarfodydd un i un a gynhaliwyd gyda'r holl ddarparwyr ac, ar ôl hynny, roedd pob darparwr yn rhannu gwybodaeth â'u staff a wa hoddwyd hefyd i roi sylwadau ar y strategaeth.



Yr hyn a ddywedodd ymatebwyr wrthym am y strategaeth:

- Cytunodd 96% o'r ymatebwyr fod y strategaeth yn edrych ar y meysydd cywir ac yn cwmpasu'r hyn sy'n bwysig i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd.
- Dywedodd y rhan fwyaf o bobl yr hoffent gael mwy o gyfleoedd i fod gyda'u ffrindiau yn gwneud gwahaniaeth yn eu cymuned leol.

## PLANT A THEULUOEDD

Rydym wedi sefydlu prosiect gyda Voices from Care ynghylch sefydlu grŵp cyfranogi i blant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc ym Môn.
Mae tair elfen i'r prosiect:

- Datblygu grŵp Cyfranogi,
- Ymgyrch leol dan arweiniad Pobl Ifanc,
- Cefnogaeth Rhieni Corfforaethol

Asiantaeth wirfoddol Cymru Gyfan yw **Voices From Care Cymru** sy'n gweithio gyda phlant mewn gofal ar hyrwyddo eu hawliau a gwella'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer. Rydym wedi cytuno i sefydlu dull wedi'i dargedu wrth sefydlu grŵp cyfranogi misol i blant a phobl ifanc rhwng 14-22 oed. Pwrpas y grŵp cyfranogi yw cefnogi Cyngor Ynys Môn i ddatblygu ei Strategaeth 'Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal' a darparu platfform sy'n cefnogi gwaith creu perthynas rhwng plant, pobl ifanc a'u rhieni corfforaethol yn Ynys Môn. Bydd y grŵp yn datblygu ei hunaniaeth ei hun ac yn cyd-gynhyrchu ystod o ddeunydd hyrwyddo a marchnata. Bydd hefyd yn datblygu cyfres o adnoddau ac ymgyrchoedd lleol, sy'n unigryw i Ynys Môn.

Fel sefydliad, mae Voices From Care Cymru wedi penodi gweithiwr prosiect fydd wedi'i leoli gyda'n staff Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a bydd yn cynnig cyngor a chefnogaeth fel 'ffrind beirniadol' ar gyfranogi a rhiantu corfforaethol. Mae'r prosiect hwn yn ganlyniad uniongyrchol i gyllid ar y cyd gan wasanaethau yn yr Awdurdod Lleol - Plant a Theuluoedd, Gwasanaethau Tai ac Addysg - gyda'r nod o wrando ar leisiau plant mewn gofal a fydd yn llunio gwasanaethau fydd yn cryfhau ein cyfrifoldebau rhiantu corfforaethol tuag atynt

Hwb cymorth Cynnar:

Mae ein Hwb Iechyd Cynnar wedi'i ffurfio mewn ymateb i'r gwaith a gwblhawyd yn y **"Rhaglen Gweithredu Cynnar Gyda'n Gilydd"** ar yr ymateb **amlasiantaethol i brofiadau niweidiol** yn ystod plentyndod a gofynion deddfwriaethol a rheoliadol eraill. Ei nod yw darparu gwasanaethau cost-effeithiol o ansawdd gwell, sy'n sicrhau canlyniadau da i bawb yn Ynys Môn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â:

- Gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) i sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth berthnasol cymaint â phosibl yn eu cymunedau er mwyn meithrin lles a gwytnwch.
- Ymateb parhaus Cyngor Sir Ynys Môn i bedwar o 12 o argymhellion Arolwg o Wasanaethau Plant Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2015). Mae'r rhain yn ymwneud â sicrhau bod ymyrraeth gynnar, fwy integredig ar gael i blant a theuluoedd trwy waith partneriaeth agosach a rhannu gwybodaeth yn well.
- O 2014/15 ymlaen, mae Cynlluniau'r Heddlu a Throsedd wedi gosod amcanion clir ynghylch lleihau troseddau mynych, gan gynnwys yn benodol ar gyfer trais domestig. Ar ben hynny, mae Cynlluniau'r Heddlu a Throsedd yn cydnabod, er mwyn lleihau trais domestig a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, er enghraifft, bod y rhain yn 'cyffwrdd ac yn ymwneud â chyfrifoldebau asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelwch ac iechyd y cyhoedd, ac mai mewn partneriaeth â'r asiantaethau eraill yn unig y gellir cyflwyno ymateb effeithiol. Wrth i waith canolbwyntio ar y troseddau hyn barhau I gael ei fireinio, bydd pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth hefyd yn parhau i dyfu'.
- Sylw newydd ar sut y gall cylch adfyd plentyndod garcharu cenedlaethau olynol o deuluoedd gydag iechyd gwael, canlyniadau cyfleon bywyd gwael ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (pob un ar gost uchel i wasanaethau cyhoeddus) trwy gydnabyddiaeth gynyddol o'r astudiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015). Cafodd y gwaith canolbwyntio ar atal a lliniaru effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yng nghenedlaethau'r dyfodol ysgogiad ychwanegol, hefyd, trwy ddyletswyddau statudol newydd sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

BLAENORIAETHAU 2020-21:

- Cyflawni ein hagenda integreiddio gyda phartneriaid iechyd a'r Trydydd sector a symud staff amlddisgyblaethol i dri safle dynodedig ar yr ynys.
- Cwblhau gwaith aildendro a gweithredu'r Gwasanaeth Byw â Chefnogaeth newydd.
- Ymgynghori ynghylch ein Strategaeth Cyfleoedd Diwrnod Anableddau Dysgu newydd a'i mabwysiadu a'i gweithredu.
- Cytuno ar gyllideb gyfun gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer gwasanaethau Anabledd Dysgu.
- Parhau â gwelliannau'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth

## SA1 – PA WAHANIAETH WNAETHOM NI?

Prif gyflawniadau

- Roedd **63.08%** o bobl yn byw'n annibynnol gartref ar ôl cael eu hailalluogi
- Profodd **55** o bobl oedi yn yr ysbyty wrth aros am Ofal Cymdeithasol
- Mae **89.62%** o asesiadau Plant yn cael eu cwblhau cyn pen **42** diwrnod
- **98.88%** o Benderfyniadau ein Rheolwyr Gwasanaethau Plant wedi'u cwblhau o fewn 24 awr







## BETH MAE EIN POBL YN EI DDWEUD?

*"Mae fy ngwr a minnau'n hynod werthfawrogol o'r help a'r gefnogaeth a roddwyd i ni gan ein Darparwr Gofal pan gefais fy rhuthro i'r ysbyty yn ddiweddar. Rhoddodd y gofalwyr oedd wrth law amser ychwanegol i'm gwr ac fe wnaethant i gyd sicrhau ei fod yn derbyn gofal da yn fy absenoldeb. Maen nhw'n bobl eithriadol."*

*"Cynhadledd gadarnhaol iawn heddiw a diolch am gydweithredu cystal gyda mi… mae hi cymaint yn well i deuluoedd pan fydd Gweithiwr Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol mor rhagweithiol a hawdd mynd ato ag ydych chi."*

*"Hoffem ddiolch o galon i chi fel teulu. Rydych chi wedi bod yn gefn anhygoel i ni i gyd fel teulu ac yn bennaf i [blentyn]. Rydych chi wedi gwneud cymaint o wahaniaeth yn ein bywydau ac rydych chi wedi bod yno bob amser. Hebddoch chi, ni fyddai [plentyn] wedi cael llais pan oedd angen help arno. Nid ydych erioed wedi ei siomi. Byddaf yn ddiolchgar iawn i chi am byth. Rydych chi'n berson mor anhygoel ac rydyn ni wedi bod mor ffodus i gael eich holl gefnogaeth a'ch help. Byddaf bob amser yn cofio'r hyn yr ydych wedi'i wneud. Mae'r byd yn gymaint gwell gyda phobl fel chi ynddo."*

# Safon Ansawdd 2

**Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobL**

## OEDOLION

Tudalen 262

Mae'r model Rhagnodi Cymdeithasol ar Ynys Môn yn cynnwys gwasanaeth **Cyswllt Cymunedol Môn** a'r **model Cydlynu Asedau Lleol.** Darperir y gwasanaethau o fewn Medrwn Môn fel y corff gwirfoddol cyffredinol. Pwynt Mynediad Sengl y Trydydd Sector yw Linc Gymunedol sy'n rhoi mynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth wedi'u teilwra i anghenion lefel isel unigolyn sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn eu cymuned eu hunain. Bydd Cyswllt Cymunedol Môn yn cynorthwyo i gynnal a hyrwyddo annibyniaeth a lles pobl trwy ei gwneud yn bosib i'r unigolyn wneud dewisiadau gwybodus o'r wybodaeth a gynigir, neu drwy ei gyfeirio at Gydlynydd Asedau Lleol.

Dull cymunedol yw prosiect Cydlynydd Asedau Lleol sy'n annog oedolion a'u teuluoedd i arwain gwaith datblygu eu systemau cymorth eu hunain wrth ganolbwyntio ar eu cryfderau a'u galluoedd. Model ataliol ydyw yn y bôn, ond mae bellach yn fuddiol, hefyd, i'r rhai a allai eisoes fod yn derbyn gwasanaethau statudol. Mae Cydlynwyr Asedau Lleol yn gweithio gydag unigolion a grwpiau i ddatblygu a defnyddio rhwydweithiau lleol i hyrwyddo atebion lleol i anghenion lleol.

### Linc a LAC (Cydlynu Asedau Lleol)

Mae cynyddu gwerth cymdeithasol, hyrwyddo annibyniaeth a chyd-gynhyrchu wrth wraidd ein strategaeth ataliol i bobl hŷn. Mae Linc Gymunedol Môn yn rhoi Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i'n preswylwyr. Yn ystod chwe mis cyntaf eleni mae Linc Môn wedi derbyn 647 o ymholiadau lle rhoddwyd Gwybodaeth / Cyngor i unigolion trwy eu cyfeirio at gyfleoedd / gwasanaethau cymunedol a / neu eu cyfeirio at y gwasanaeth Cydlynydd Asedau Lleol am Gymorth. Cyfeiriwyd 273 at y gwasanaeth Cydlynu Asedau Lleol yn ystod y naw mis.

### DYFYNIADAU:

*"Rwyf nawr yn mynd i grwpiau unwaith eto. Rwy'n rhoi colur ymlaen ac yn teimlo fel fi."*

*"Rwy'n cael gweld B eto, rydyn ni wedi bod yn ffrindiau ers dros 35 mlynedd. Dim ond ar y ffôn yr oeddwn yn siarad â hi, ond rwy'n ei gweld bob dydd Mawrth yn y bore coffi."*

*"Dywedodd Mr C, "Heb gefnogaeth prosiect Linc, ni fyddwn erioed wedi ymuno â grwp cymunedol. Mae wedi newid fy mywyd gan fod gen i bobl i siarad â nhw rwan, sydd wedi bod yn yr un sefyllfa â mi yn gofalu am anwylyn"*

Partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn, Medrwn Môn a Menter Môn yw'r **Rhaglen Llunio Lle ar Ynys Môn** i gyflawni'r weledigaeth gorfforaethol i *'ddatblygu a chryfhau ein hymgysylltiad â dinasyddion Ynys Môn a'n hymwneud ym mhrosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd y Cyngor'*.

Mae'r Rhaglen yn ceisio gweithio ar lefel ward ar draws yr Ynys gyda Chynghorau Tref a Chymuned i greu mapiau asedau cynhwysfawr o'u hardaloedd. Mae'r mapiau hyn yn nodi tair lefel o asedau, bylchau a blaenoriaethau ym mhob ward, ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Gwneir hyn trwy ddefnyddio'r Model Creu Cymunedau a grëwyd gan Medrwn Môn, ac a gymeradwywyd gan y Cyd-Fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori, i sicrhau bod cymaint o bobl yn ein cymunedau yn cymryd rhan mewn gwaith datblygu a dylunio gwasanaethau prawf yn y dyfodol sy'n mynd i'r afael ag anghenion a nodwyd.

Trwy gydol yr amser, caiff hyn ei lywio gan Raglen Waith a Chalendr Ymgynghori'r Cyngor Sir er mwyn osgoi dyblygu ac i sicrhau y caiff sgyrsiau eu llywio gan Bolisïau lleol a Chenedlaethol.



Dechreuodd y Rhaglen Llunio Lleoedd yn 2018 gyda mapio asedau o fewn pum Ward Etholiadol.

- Twrcelyn
- Llifon
- Aethwy
- Bro Rhosyr
- Canolbarth Môn

Cynhelir tri chyfarfod ym mhob un o'r wardiau a gwahoddir cynrychiolwyr o bob un o'r Cynghorau Tref a Chymuned, preswylwyr â diddordeb, grwpiau lleol ac ati i ddysgu mwy am y Rhaglen ac i ddatblygu'r sgiliau i ddefnyddio'r offer mapio eu hunain. Mae hyn yn sicrhau bod perchnogaeth a chyfranogiad lleol.

Ar ôl cwblhau'r gwaith mapio, sefydlir strwythurau tebyg i'r Gynghrair, cytunir ar dair blaenoriaeth allweddol a chrëir cynllun gweithredu i ddatblygu atebion amgen a chreadigol i roi sylw i'r blaenoriaethau a'r bylchau y maent wedi'u nodi. Caiff y gwaith hwn ei hwyluso gan Medrwn Môn ac mae Cyngor Ynys Môn wedi ymrwymo i sicrhau bod swyddogion ac adrannau yn y Cyngor yn cyfrannu at drafodaethau a chefnogaeth fel rhan o'r broses hon. Mae hon yn broses sydd wedi gweithio'n effeithiol yn ne'r Ynys, lle mae Cynghrair Seiriol, bellach, yn comisiynu ei gwasanaethau cymunedol ei hun mewn partneriaeth â Chyngor Ynys Môn.

| | | |
|---|---|---|
| **Asedau** | Gallai asedau fod yn unrhyw beth y mae'r preswylwyr yn ei werthfawrogi a'i ddefnyddio mewn cymuned ddaearyddol benodol - o adeiladau a mannau gwyrdd i sgiliau a gwybodaeth am breswylwyr, i wasanaethau penodol (llyfrgelloedd, trafnidiaeth ac ati). | Gall sgyrsiau edrych ar sut caiff asedau eu defnyddio, gan bwy, pryd ac ati. Gellir eu trafod o ran sut y gellid, o bosibl, eu defnyddio'n fwy effeithiol mewn cymuned. |
| **Bylchau a Meysydd Gwasanaeth** | Noda sgyrsiau sut y gall gweithio mewn grwpiau cymunedol partneriaeth, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus neu breifat, roi sylw i fylchau mewn gwasanaethau a gweithgareddau. Defnyddir y term 'meysydd gwasanaeth' i ddisgrifio'r cysylltiadau rhwng un neu fwy o wasanaethau sydd eu hangen i weithio gyda'i gilydd h.y. y trydydd sector, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd i sicrhau bod gweithgareddau mewn Hybiau Cymunedol yn helpu i leihau'r effaith ar wasanaethau iechyd rheng flaen trwy gefnogi gweithgaredd cymunedol ac ailgyfeirio gwasanaeth cymunedol fel fferyllwyr cymunedol ac ati | Lle'r oedd sgyrsiau'n nodi arfer da wrth weithio ar y cyd, oedd eisoes yn digwydd yn eu cymunedau, aethom i edrych ar sut gellid rhannu hyn a gwneud yr un fath. Lle nodwyd bylchau, bu i ni ofyn i gymunedau gynnig atebion posibl i'r bylchau hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| **Blaenoriaethau neu atebion** | Roedd sgyrsiau bob amser yn edrych ar sut gellir edrych ar flaenoriaethau ac atebion ar ddull cymunedol cyfan - gan annog cymunedau i edrych ar y cysylltiad rhwng gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol ac annog gweithio ar y cyd yn hytrach nag atebion cyflym, unigol h.y. rhannu adeiladau cymunedol, lleoedd ac adnoddau i osgoi dyblygu, cystadlu am gyllid | Ceisia tystiolaeth nodi tebygrwydd ar draws yr wyth maes er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector gyda golwg gyffredinol ar fylchau a blaenoriaethau, yn ogystal â gwybodaeth ardal-benodol. |

## GWAITH HYD YN HYN:

- **Twrcelyn** – gwaith mapio asedau wedi'i gwblhau. Sefydlwyd y Gynghrair a nodi tair blaenoriaeth. Dau gyfarfod Cynghrair wedi'u cynnal ac yn awr yn edrych i ddefnyddio'r cyllid hadau sydd ar gael
- **Aethwy**- gwaith mapio Porthaethwy wedi'i gwblhau. Bydd gwaith mapio Llanfair PG a Phenmynydd yn cael ei gwblhau ym mis Ionawr. Dau brosiect mawr eisoes wedi'u nodi ac yn cael eu hwyluso gan Medrwn Môn (ceisiadau cyllid cyfalaf ar gyfer Neuadd Goffa Llanfair PG a Hen Ysgol, Penmynydd)
- **Canolbarth-** gwaith mapio Llangefni wedi'i gwblhau, ardaloedd anghysbell i'w cwblhau mis Ionawr / Canol mis Chwefror)
- Bydd gwaith mapio dwys **Bro Rhosyr** a **Llifon** yn dechrau ym mis Chwefror, digwyddiadau mapio bychain cychwynnol a Chynghorau Cymuned wedi'u cynnal. Mae gwaith a blaenoriaethau ymgysylltu ieuenctid Llais Ni wedi'u cwblhau (tasg a gorffen) gyda Chlwb Ieuenctid Llanfaelog.
- Dau Swyddog Cymunedol yn eu swydd ers dechrau mis Ionawr - 18.5 awr yr wythnos, yn gweithio gyda staff ym Medrwn Môn i wneud cysylltiadau yn y gymuned (gan gynnwys chwe Chydlynydd Asedau Lleol), cynnal y gwaith mapio a hwyluso cyfarfodydd gyda Chynghorau Cymuned.
- Wedi sicrhau uned arddangos symudol i'w defnyddio i ymgysylltu â phobl yn yr ardaloedd mwy gwledig lle nad oes ased cymunedol. Ail rownd o bum ward i'w ddechrau ym mis Ebrill 2020.

Wrth gyflawni'r **Strategaeth Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru,** mae Tîm Gweithredu Lleol y Gorllewin wedi blaenoriaethu dull ataliol yn seiliedig ar y fethodoleg 'Medraf'. Mae hyn yn hyrwyddo gwaith defnyddio gwirfoddolwyr sydd, yn dilyn rhaglen recriwtio, dethol a hyfforddi trwyadl yn rhoi cefnogaeth i unigolion sy'n profi trallod meddwl. Rhoddir cefnogaeth fel a ganlyn:

- **Gofal 'medraf' nad yw wedi'i drefnu** – wrth weithio mewn partneriaeth â'r adran achosion brys yn Ysbyty Gwynedd, rhoddir cefnogaeth i unigolion rhwng 6pm ac 1am bob dydd mewn cyfleuster pwrpasol. Gall hyn gynnwys pobl sy'n aros am asesiad gan y tîm cyswllt seiciatryddol, pobl sy'n aros am asesiad ar gyfer anghenion meddygol a phobl sy'n profi trallod meddwl ac sydd angen cefnogaeth ar unwaith.
- **Hyb Cymunedol 'medraf' -** mewn partneriaeth â Chyngor ar Bopeth Ynys Môn, mae gwirfoddolwyr yn bresennol mewn canolfannau yng Nghaergybi, Llangefni ac Amlwch i gynnig cefnogaeth i unigolion sy'n dod yno gydag ystod o faterion cymdeithasol ac emosiynol.
- **Gofal sylfaenol 'medraf' -** bydd gwirfoddolwyr ar gael mewn meddygfeydd i roi cefnogaeth i bobl sy'n arddangos trallod meddwl.

Canolbwynt gwaith prosiect 'medraf' yw sicrhau bod pobl yn cael cefnogaeth, gwybodaeth, cyngor a chymorth amserol a phriodol er mwyn atal eu trallod meddwl rhag gwaethygu a'r angen am gefnogaeth statudol ddwysach.

**Gwiriadau iechyd i bobl ag anableddau dysgu -** mae hon yn ffrwd waith a nodwyd yn strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru ac mae Ynys Môn wedi bod yn arwain ar gryfhau gweithio mewn partneriaeth â meddygfeydd er mwyn sicrhau y caiff pobl gefnogaeth i gael gwiriad iechyd blynyddol. Cydnabyddir bod gan bobl ag anableddau dysgu broblemau iechyd mwy cymhleth na'r boblogaeth gyffredinol a, hefyd, eu bod yn llai tebygol o gymryd rhan mewn sgrinio iechyd arferol.

Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu **Gardd Gymunedol yn Ysbyty Cefni.** Gyda chefnogaeth Cyllid Gofal Integredig, caiff y llecyn canolog yn Ysbyty Cefni ei ailfodelu i'w wneud yn **gyfeillgar i bobl sydd â dementia** ac yn hawdd mynd iddo. Ar hyn o bryd, nid oes modd i'r grŵp cleifion, ei ddefnyddio oherwydd y lloriau a dyluniad. Fel hyn, byddai modd i'r ward ganiatáu i rywun fynd i ofod awyr agored diogel heb orfod eu rhwystro. Bydd gan y llwybr o'r ward ddyluniad 'anfeidredd', sy'n annog pobl i gerdded yn ystyrlon yn hytrach na cherdded yn ôl ac ymlaen. Bydd gwelyau plannu wedi'u codi yn cael eu gosod fel bod modd i gleifion wneud dipyn o arddio. Mae seddi wedi'u gosod i roi lle tawel i gleifion a pherthnasau



## ASTUDIAETH ACHOS:



Trefnodd staff a defnyddwyr gwasanaeth Canolfan Adnoddau Gors Felen ddigwyddiad i godi arian tuag at grwpiau cymdeithasol ar yr ynys sy'n cefnogi pobl y mae Clefyd Alzheimer a Dementia wedi cael effaith arnynt.

Trefnodd y ganolfan, sy'n cynnig cyfleoedd dydd i oedolion ag anableddau dysgu, ddiwrnod lle gallai staff a defnyddwyr gwasanaeth wisgo eu pyjamas a chodi arian er budd dau grŵp cymdeithasol lleol sy'n cefnogi pobl sydd â'r clefyd Alzheimer neu Ddementia.

**Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru (Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd)** oedd un o'r grwpiau a dderbyniodd gyllid. Maent yn cynnig gwasanaethau seibiant i ofalwyr di-dâl ledled yr Ynys a grwpiau galw heibio i bobl â phroblemau cof a'u gofalwyr. **Clwb Memory Lane** (yn Niwbwrch) oedd yr ail grŵp. Grŵp cymorth yw hwn a sefydlwyd gan wirfoddolwyr sy'n cwrdd bob mis i gynnal gweithgareddau a rhoi cyfeillgarwch i'r rhai y mae'r clefyd Alzheimer / Dementia yn cael effaith arnynt neu'r rheini ar draws yr ynys sy'n teimlo'n unig ac ar wahân.

Dywedodd Annwen Owen, Rheolwr Canolfan Adnoddau Gors Felen, "Fe drefnon ni'r diwrnod pyjamas yn y ganolfan er mwyn codi arian i glefyd Alzheimer a Dementia ac i godi ymwybyddiaeth ohonynt."

"Roedd yn wych gweld cymaint o'n defnyddwyr gwasanaeth a'n staff yn troi allan yn eu hoff ddillad nos i gefnogi achos mor bwysig. Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr a chodwyd cyfanswm o £630. Mae'r ddau grŵp yn chwarae rhan hanfodol yn y gymuned leol, gan gynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n dioddef o glefyd Alzheimer neu Ddementia a'u ffrindiau a'u teuluoedd."

> *"Partneriaethau, integreiddio a chydgynhyrchu – gwelsom fod gwasanaethau gweithredol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd yn bennaf i gynorthwyo pobl i aros gartref cyhyd ag y mae modd. Mae'r cyfathrebu'n dda rhwng ymarferwyr a chaiff gwasanaethau eu cymysgu á'u cymhathu'n greadigol i gwrdd ag anghenion pobl."*
> Arolygiaeth Gofal Cymru

## PLANT A THEULUOEDD

Mae ein gwasanaeth Plant a Theuluoedd ar y cyd â Medrwn Môn wedi datblygu dwy swydd **Cydlynydd Teuluoedd a Chymunedau** newydd. Mae hwn yn ddatblygiad newydd cyffrous sy'n anelu at feithrin gwytnwch unigolion, teulu a chymunedau trwy eu llywio'n gymdeithasol ac effeithiol i mewn i wasanaethau o fewn cymunedau a allai atal plant a'u teuluoedd rhag bod angen defnyddio gwasanaethau statudol prif ffrwd, yn debyg i'n Swyddogion LAC yn ein Gwasanaethau Oedolion, y sonnir amdanynt uchod.

Gyda chreu'r swyddi, ein nod yw gwella cyfranogiad plant a theuluoedd a allai elwa o ymyrraeth gynnar ym mywyd y gymuned trwy ddatblygu a chydlynu systemau cymorth a gwybodaeth wedi'u creu ar fodel yr Hyb Cymunedol.

Bydd y cydlynwyr yn ceisio datblygu cyfleoedd a rhwydweithiau i blant a theuluoedd gyflawni eu potensial a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn dioddef unrhyw brofiadau niweidiol plentyndod y gallent fod wedi'u dioddef yn y gorffennol neu'n lliniaru'r profiadau hyn. Gwneir hyn trwy greu'r cyfle iddynt weithio i greu eu datrysiadau eu hunain trwy gysylltu â gwasanaethau ac eraill yn eu cymunedau ac annog ffyrdd newydd o weithio gyda'r trydydd sector a statudol.

### Datblygu Cymunedau a Meithrin Tîm

- Ychwanegu at yr ymarfer mapio asedau diweddar a chael dealltwriaeth glir o adnoddau, bylchau a chyfleoedd lleol
- Datblygu cryfderau cymunedol a nodwyd a chynnal a datblygu rhagor o gyfraniadau ac ymwneud dinasyddion i greu gwasanaethau cynhwysol
- Defnyddio dulliau newydd i dargedu anghenion nad ydynt wedi'u bodloni a'r rhai sydd wedi ymddieithrio o'u cymunedau ar hyn o bryd
- Galluogi cydweithredu effeithiol rhwng y sectorau cymunedol, statudol a gwirfoddol trwy ddatblygu seiliedig ar asedau a gwreiddio arferion gwaith traws-sector
- Hyrwyddo a hwyluso diwylliant ac arfer gwahanol ynghylch sut y caiff penderfyniadau am wasanaethau'r dyfodol eu gwneud - sicrhau bod y gymuned leol yn cymryd rhan yn y gwaith cynllunio a threfnu gwasanaethau sy'n rhoi gwell gwerth cymdeithasol, sy'n atebol i ddefnyddwyr lleol ac y caiff eu canlyniadau eu gyrru gan y gymuned

### Cydlynu

- Datblygu a sefydlu modelau gweithio newydd i adlewyrchu gofynion newydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Datblygu a sefydlu'r theori a'r dull ymarferol o gyd-gynhyrchu yn y model Creu Cymunedau a chreu cymunedau mwy cynhwysol a chefnogol trwy ddatblygu partneriaethau rhwng cymunedau a sefydliadau yn y sector Statudol a Gwirfoddol.
- Cyfrannu at ddatblygiadau strategol fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, y rhaglen atal ar gyfer plant a theuluoedd yn bennaf. Sefydlu systemau cymorth yn y gymuned ar gyfer yr ardal darged benodol honno yn y Rhaglen.
- Meithrin a chynnal perthynas waith effeithiol gyda phlant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau
- Cyflwyno a sefydlu modelau ymyrraeth ataliol, amgen, sy'n annog ac yn dwyn unigolion i mewn i feithrin rhwydweithiau cryfach a gwytnach, sy'n cefnogi'r rhai sy'n fregus o ran profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
- Cefnogi mynediad at wybodaeth gywir, amserol a pherthnasol a chynorthwyo unigolion a'u teuluoedd i gael mynediad at wybodaeth mewn sawl ffordd a hyrwyddo hunaneiriolaeth

>>

>>

- Hyrwyddo dulliau sy'n seiliedig ar asedau i annog plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddefnyddio eu rhwydweithiau personol a lleol i ddatblygu atebion ymarferol i ddiwallu eu hanghenion a'r canlyniadau a ddymunir
- Meithrin partneriaethau a pherthynas waith effeithiol gyda gwasanaethau cymunedol a statudol, gan gynnwys meddygon teulu, yr heddlu, sefydliadau cymunedol, iechyd, gofal cymdeithasol oedolion a gwasanaethau plant a theuluoedd.
- Trefnu a chynnal cofnodion gweinyddol / rhannu data o fewn protocolau'r sefydliad (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru).
- Cyfeirio unigolion a theuluoedd at brosesau cymorth perthnasol
- Mynd i gyfarfodydd "hyb cymorth cynnar" yn wythnosol a chymryd rhan ynddynt.

**Prosiect Arbrawf "Un Drws Ffrynt"**

Mae dadansoddiad o'n ffigurau wedi nodi bod camdriniaeth ddomestig yn nodwedd mewn 73% o'r cyfeiriadau a dderbyniwyd i'r gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn Ynys Môn. Mae hon yn ganran uchel a chamdriniaeth ddomestig yw nodwedd fwyaf cyffredin ailgyfeiriadau'r gwasanaeth.

Nod y prosiect fydd gwella proses nodi anghenion teulu unigol pan dderbynnir cyfeiriadau camdriniaeth ddomestig yn y gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Rhagwelir y byddem yn edrych yn amlasiantaethol ar y cyfeiriadau hynny ac yn dod i benderfyniad mewn cyfarfod "un drws ffrynt" ar y camau gorau i'w cymryd e.e. pwy fydd orau am gynnig a chyflwyno ymyraethau.

Yn ail, bydd y prosiect yn edrych ar ein hymateb i ddarparu gwasanaethau ar hyd ystod y risg (uchel, canolig, isel).

Yn olaf, rydym yn y broses o ehangu briff y Tîm Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd i weithio nid yn unig gyda theuluoedd lle mae cyffuriau a / neu alcohol yn nodwedd, ond hefyd i weithio gyda phlant ac, wedi hynny, ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig a thramgwyddwyr camdriniaeth ddomestig. Mae'r tair elfen, h.y cyffuriau, alcohol a chamdriniaeth ddomestig fel arfer yn 'driawd gwenwynig' mewn teuluoedd. Bydd y Tîm Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, ynghyd â staff yn yr Adran a'n partneriaid, yn cael hyfforddiant arbenigol gan Safe Lives yn ystod y misoedd i ddod.

Nod y **Rhaglen Y 1000 Diwrnod Cyntaf** yw ychwanegu at y dystiolaeth orau sydd ar gael ar gyfer gwella canlyniadau a lleihau anghydraddoldebau yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf - yn ystod beichiogrwydd ac i ail ben-blwydd plentyn a lledaenu'r dystiolaeth hon. Trwy ofyn i rieni beth sy'n bwysig iddynt yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf, gallwn gael gwybodaeth werthfawr am welliannau y gellir eu gwneud i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.

Er bod gwasanaethau'n anelu at sicrhau bod rhieni'n medru cael at wybodaeth a chymorth sy'n effeithiol ac yn ddiogel, dim ond un rhan o brofiad defnyddiwr gwasanaeth o'r gofal y mae'n ei dderbyn yw hwn. Mae'r ffordd y ceir at wasanaethau, y ffordd y caiff anghenion cymorth pobl eu hasesu a sut y rheolir cyfeiriadau rhwng gwahanol gydrannau o'r system Y 1000 diwrnod cyntaf, i gyd yn chwarae rhan bwysig ym mhrofiad cyffredinol defnyddwyr gwasanaeth o'r gofal a dderbyniant.

Mae Awdurdodau Lleol Ynys Mon a Gwynedd ochr yn ochr â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi penderfynu creu **tîm amlddisgyblaethol Peripatetig** sy'n gweithio gyda phobl ifanc / plant a'u teuluoedd rhwng 0-25 oed ar ffiniau gofal, sydd mewn perygl o fynd i ofal heb ymyrraeth ac unigolion sydd eisoes mewn gofal y mae'n briodol iddynt ddychwelyd adref. Bydd Ynys Môn yn arwain ar y prosiect hwn ar ôl sicrhau grant o £3 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

## BLAENORIAETHAU 2020-21

- Un Drws Ffrynt - gwreiddio hyn er mwyn rhoi'r gefnogaeth gywir i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig
- Agenda Atal - gwella hyn trwy barhau i ddatblygu Hyb Cymorth Cynnar
- Cydlynwyr Asedau Lleol Plant

## SA2 – PA WAHANIAETH WNAETHOM NI?

Prif gyflawniadau

- Roedd angen gofal preswyl ar **523** o oedolion ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn (o gymharu â **518** yn 2018/19 a **573** 2017/18).
- Roedd **316** o oedolion mewn gofal preswyl ar yr 31ain o Fawrth, 2019 (o gymharu â **375** ar 31/03/18, a **366** yn 31/03/17).
- Mae gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i **100%** o Blant sy'n Derbyn Gofal.



## BETH MAE EIN POBL YN EI DDWEUD?

*"Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr (gofal cartref) yn rhagorol ac yn fy nhrin â pharch ac urddas. Rwy'n mwynhau gweld Iona, yn arbennig, yn dod gan fod ei natur siriol a hapus yn bywiogi fy niwrnod, yn enwedig pan rydw i'n teimlo'n isel. Pan fydd hi'n cerdded i mewn i'r ystafell, mae hi'n gwneud i mi chwerthin ac yn codi fy nghalon."oldeb. Maen nhw'n bobl eithriadol."*

*"Hoffwn ddweud diolch am gadeirio cyfarfod cadarnhaol arall! Dwi wir yn teimlo bod gan y bechgyn dîm gwych bellach yn eu cefnogi! Hir y parhao! "*

*"Mae'r gwaith (y mae'r gweithiwr Teuluoedd Gwydn yn ei gwblhau gyda'r teulu) yn amhrisiadwy o ran asesiadau pellach a'r posibilrwydd o adsefydlu'r [plentyn] i ofal ei rieni. Dywedodd y Gwarchodwr fod y teulu hwn yn cael pob cyfle posib a roddir iddynt i wneud newidiadau a dod o hyd i ysgogwyr mewnol ac mae hyn, i raddau helaeth, oherwydd gwaith Sian."*

# Safon Ansawdd 3

**Gwarchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.**

## TREFNIADAU DIOGELU CORFFORAETHOL

Mae "diogelu" yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i bawb yn y Cyngor.
Mae'r Awdurdod Lleol wedi:

### Prif gyflawniadau

- Sicrhau bod Prosesau, Gweithdrefnau a Systemau Perthnasol ar waith sy'n adlewyrchu deddfwriaeth, canllawiau a disgwyliadau statudol cyfredol ac arfer gorau a dderbynnir, fel bod swyddogion yn glir beth sy'n rhaid ei wneud neu y gellir ei wneud mewn amgylchiadau penodol ac sy'n diffinio terfynau disgresiwn proffesiynol.
- Lansio Canllawiau Arfer Da i Weithredwyr Trafnidiaeth Ysgol gyda'r nod o sicrhau diogelwch disgyblion a gyrwy



## GWASANAETHAU OEDOLION

### Prif gyflawniadau

- Lansio'r Polisi a'r Weithdrefn Diogelu dros dro a darparu hyfforddiant diogelu uwch i ymarferwyr a rheolwyr
- Lansio'r Polisi Galluedd Meddyliol a darparu hyfforddiant i ymarferwyr a rheolwyr
- Ychwanegu at gyflawniadau blaenorol ein Tîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid er mwyn rheoli'r galw cynyddol am asesiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a phrosesau gwell i asesu'n gyflym ac yn effeithiol.
- Monitro gwasanaethau yr ydym yn eu comisiynu yn agos o ran ansawdd y gofal yr oeddent yn ei ddarparu trwy ofal cartref, byw â chymorth a chartrefi gofal tymor hir.
- Dengys gwerthusiadau o ymarfer y gall y dinesydd fod yn hyderus
  - Bod gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n agos â gweithwyr proffesiynol eraill i gadw oedolion sydd mewn perygl yn ddiogel
  - Y bydd gweithwyr cymdeithasol yn ymateb yn amserol os oes pryderon am eu diogelwch.
  - Y bydd gweithwyr cymdeithasol yn ceisio eu gorau i sicrhau bod y dinesydd yn ganolog i'w brofiad diogelu.

## GWASANAETHAU PLANT

### Prif Gyflawniadau

- Gweithredu dull newydd o amddiffyn plant - Cryfder ar y Cyd, sydd â'r nod o weithio gyda'r teulu i sicrhau newidiadau i gadw plentyn yn ddiogel.
- Gweithio'n galed i sicrhau bod plant â phrofiad gofal wrth wraidd eu proses adolygu.
- Gwneud gwahaniaeth i deuluoedd – Treulia plant y cafodd eu henwau eu rhoi ar gofrestr amddiffyn plant (242 diwrnod) ar gyfataledd ar y gofrestr honno cyn i'r risg gael ei lleihau a bod eu henwau'n cael eu tynnu oddi ar y gofrestr. Mae nifer y plant hynny y mae eu henwau, wedi hynny, yn cael eu rhoi ar y gofrestr eto, o fewn 12 mis, yn isel: sy'n awgrymu ein bod yn llwyddo i gynorthwyo teuluoedd i greu a chynnal newidiadau sy'n lleihau'r risg i'w plant.

## BLAENORIAETHAU AR GYFER 2019/20

- Gweithio i Weithdrefnau Diogelu newydd Cymru Gyfan
- Parhau i roi'r unigolyn wrth galon yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Paratoi ar gyfer dyfodiad y Safonau Gwarchod Rhyddid.

### SA3 – PA WAHANIAETH WNAETHOM NI?

#### Prif gyflawniadau

- Cwblhawyd **91.30%** o ymholiadau Amddiffyn Oedolion o fewn saith diwrnod
- Cwblhawyd **259** o asesiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn ystod y flwyddyn
- Roedd **5.69%** o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi'u cofrestru o'r blaen
- **224** diwrnod (ar gyfartaledd) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn
- Cynhaliwyd **94.27%** o'r holl Adolygiadau Amddiffyn Plant ar amser.
- Mae gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i **100%** o Blant sy'n Derbyn Gofal
- Mae gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i **100%** o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.



# Safon Ansawdd 4

**Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas**

## OEDOLION

Ymyrraeth bwrpasol oedd **Prosiect OPUS** a ddyluniwyd i gefnogi unigolion sydd dros 25 oed, sy'n ddi-waith yn y tymor hir neu'n economaidd anweithgar ag oedd â nifer o rwystrau rhag dod yn gyflogedig. Daeth y prosiect i fodolaeth ar y 1af o Ionawr, 2016 a daeth i ben ar y 31ain o Awst, 2019. Ariannwyd prosiect OPUS gan Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru sy'n rhan o Lywodraeth Cymru ac sy'n rheoli gwaith cyflwyno prosiectau Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru.



Yn ystod y prosiect, cafodd yr unigolion gyfle i fynd am amryw hyfforddiant achrededig fel Lantra Strimmer & Ride on Mowers, Codi a Thrin, Diogelwch Bwyd ac ati. Fel hyn, roedd modd i'r unigolion fod yn rhan o ystod ehangach o weithgareddau yn y Canolfannau Dydd. Bydd hyn yn fudd parhaus a bydd yn fodd i gleientiaid y Gwasanaethau Cymdeithasol gael dewis o raglen fwy diddorol ac amrywiol. Hefyd, datblygodd mentoriaid dwrnamaint pêl-droed blynyddol, lle byddai holl ddefnyddwyr y ganolfan ddydd yn dod at ei gilydd i gystadlu. Yn ogystal â'r hyfforddiant achrededig a'r pêl-droed, prynodd OPUS gamerâu, offer crefft ac offer pysgota fel bod yr unigolion yn cael mwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a chael mwy o ymwneud â phobl eraill.

Er bod canlyniadau'r prosiect yn is na'r targed a broffiliwyd, perfformiodd Ynys Môn yn dda iawn o'i gymharu â siroedd eraill Gogledd Cymru. Er na chafodd y prosiect niferoedd uchel o bobl i mewn i gyflogaeth, rhoddodd gyfleoedd hyfforddi a chymwysterau i'r rheini heb sgiliau neu oedd â sgiliau isel. Cafodd y canlyniadau meddal, megis datblygu sgiliau cymdeithasol a rhyngweithio, magu hyder a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol effaith ar fywydau pobl na chawsant eu cyfleu, mewn gwirionedd, oherwydd nad ydynt yn allbynnau economaidd.

Gyda chefnogaeth y Gronfa Gofal Integredig, nod y prosiect Trafnidiaeth Gymunedol, a reolir gan Medrwn Mon, yw mynd i'r afael â theimladau pobl hŷn o ran arwahanrwydd a gwella'u rhwydweithiau cymdeithasol yn gyfannol trwy roi'r cyfle iddynt ddefnyddio gwasanaeth cyfeillio a chyfeillion gwirfoddol, gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol a chyfleoedd gwirfoddoli yn Ynys Môn. Gwneir hyn trwy ddatblygu rhwydwaith o wasanaethau **Cyfeillio** a **Chynllun Tro Da newydd** yn ogystal ag ychwanegu at ddarpariaethau presennol y Cynllun Troi Da a'u cefnogi, gan ddwyn i mewn gefnogaeth partneriaid fel y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol.

**Taliadau Uniongyrchol Ynys Môn -** Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i gynnig Taliadau Uniongyrchol fel yr opsiwn gorau i ddefnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd reoli eu pecyn gofal, a byw'r bywyd hyblyg y maent yn dymuno'i arwain. Mae gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol Ynys Môn wedi tyfu'n sylweddol dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf o 162 i 210 (106 yn 2018/19) sy'n dangos cynnydd o 77.14%

- Cyfanswm gwariant Taliadau Uniongyrchol - **£1,422,000**
- Cost gwasanaeth trwy ragamcan gwasanaeth wedi'i gomisiynu - **£2,717,102**
- Arbedion gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol o'i gymharu â gwasanaeth a gomisiynwyd - **£629,203**

**Hanesion am Lwyddiannau Taliadau Uniongyrchol -** Dros y deuddeg mis diwethaf, mae'r awdurdod lleol wedi parhau i weithio gyda nifer o bartneriaid:

**Leonard Cheshire Disability (LCD) -** Wrth edrych i mewn i ymarferoldeb ffurfio cwmnïau cydweithredol mawr, agor cyfrifon banc cydweithredol ac amlinellu pwy fyddai'n cyflogi'r staff a fyddai'n rhoi'r gefnogaeth, daethant ar draws nifer o rwystrau. O'r herwydd, bu iddynt ailbrisio opsiynau a gwneud newidiadau perthnasol i ostwng y rhwystrau neu gael gwared â nhw e.e. byddai cynorthwywyr personol sy'n gweithio ar y prosiect yn gweithio ar sail hunangyflogedig gyda chefnogaeth LCD, a byddai cyfrifon banc y cwmni cydweithredol hefyd yn cael eu rheoli gan LCD. Maent hefyd wedi cynnwys y syniad o weithio gyda busnes lleol yn yr ardal i greu cyfleoedd gwirfoddoli a gwaith i ddefnyddwyr gwasanaeth, rhywbeth yr ydym yn awyddus iawn i'w ddatblygu yma ar Ynys Môn. Ein gobaith yw symud ymlaen dros y flwyddyn ariannol nesaf.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda LCD gyda golwg ar i Ynys Môn dreialu Porth Gwefan diwygiedig LCD. Mae porth y wefan wedi'i brofi ac mae'n barod i fynd. Mae LCD wedi gwneud ychydig o newidiadau i'r prosiect i gynorthwyo gwelliant, er enghraifft mae'n rhaid i Gynorthwywyr Personol fod yn hunangyflogedig i gymryd y cyfrifoldeb oddi ar gleientiaid Taliadau Uniongyrchol i gyflogi staff cydweithredol. Yn anffodus, mae COVID-19 wedi atal unrhyw gynnydd pellach, ond bydd yn mynd yn fyw cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny.

**Cyfuno Taliadau Uniongyrchol:** Mae pedwar o'n defnyddwyr gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect LCD a phwyllgor Mencap Môn, unwaith eto eleni, wedi bod yn bancio rhai o'u horiau Taliadau Uniongyrchol a'u hadnoddau personol i gael seibiant. Byddant yn defnyddio'r arian a gynilwyd i fynd ar daith eu breuddwydion i Florida, UDA ym mis Chwefror 2020 am wythnos i ymweld â Universal Studios gyda chymorth dau o'u cynorthwywyr personol Taliadau Uniongyrchol. Mae'r unigolion hyn wedi cynilo eu holl hawl seibiant trwy gydol y flwyddyn er mwyn gwireddu eu breuddwyd.

Mae holl ddefnyddwyr y gwasanaeth yn byw gartref gyda'u teulu. Bydd y gwyliau hefyd yn fodd i aelodau eu teulu gael seibiant bloc.

Sefydlwyd Hyb **Mencap Môn** dros bedair blynedd yn ôl gan grŵp o rieni oedd â meibion neu ferched ag anabledd dysgu. Mae gan y grŵp dros 300 o aelodau ar yr Ynys. Mae'r Hyb hefyd yn rhoi cyfleoedd i weithwyr cymdeithasol-fyfyrwyr a nyrsys-fyfyrwyr gysylltu a chael profiad o wahanol anableddau dysgu, yn ogystal â chynnig cyfleoedd gwirfoddoli.

Mae gan Hyb Mencap Môn yn Llangefni leoliad gwych ar y Stryd Fawr sy'n annog gwir amgylchedd sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan fod yn fodd i'r rhai a ddaw yno brofi ymdeimlad o gael eu cynnwys yn gymdeithasol a'r cyfle i lunio a gyrru'r Hyb mewn ffordd y maen nhw a'r ymddiriedolwyr yn ei ddymuno. Mae Mencap wedi rhwydweithio a meithrin yn llwyddiannus gysylltiadau / partneriaethau cryf gyda nifer enfawr o sefydliadau lleol, gan sicrhau ein bod yn parhau i fod wrth galon y gymuned ac yn darparu'r gwasanaethau, gweithgareddau, prosiectau a gwybodaeth briodol i'n holl aelodau.

Bydd grant y Gronfa Gofal Integredig yn fodd i Mencap Môn brynu'r eiddo fel cam un, gan sicrhau bod yr hwb yn parhau i fod yn adnodd cymunedol hanfodol i nifer fawr yr aelodau sy'n defnyddio'r adeilad yn wythnosol, ac yn parhau gyda'r HYB Taliadau Uniongyrchol yng Ngogledd Cymru.

Rydym yn edrych ymlaen at barhau a chryfhau ein perthynas â Mencap Môn.

Rydym yn gweithio gyda **Chymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru** i ddarparu Cwmni Cydweithredol i roi mwy o opsiynau yn y gymuned i gynorthwyo unigolion â'u hanghenion gofal a chymorth a mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd ymysg pobl hŷn. Y canlyniad yn y tymor hir yw cyflwyno ystod o opsiynau cymunedol ar gyfer gofal a chymorth. Bydd datblygu gweithwyr a chwmnïau cydweithredol defnyddwyr yn ei gwneud yn bosib i unigolion dderbyn gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, profi dewis go iawn a defnyddio'u buddion ariannol naill ai trwy daliadau uniongyrchol neu asedau personol i'w llawn botensial. Gall defnyddwyr gyfuno'u cyllid i ymgymryd â chyfleoedd / gweithgareddau tebyg ac, felly, leihau costau a, chyda chysylltiadau agos â chwmnïau cydweithredol y gweithwyr, bydd defnyddwyr yn medru defnyddio cynorthwywyr personol.



Cefnogwyd y **Cynlluniau Trac** ac **Adtrac** gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru ac maent wedi'u lleoli gyda Gwasanaethau Ieuenctid Ynys Môn. Mae Trac yn cefnogi pobl ifanc 11-16 oed i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu potensial llawn. Mae Adtrac yn darparu gwasanaeth mentora pwrpasol i helpu pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed i fynd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae'r ddau brosiect yn brosiectau ledled Gogledd Cymru, gyda chefnogaeth y chwe Awdurdod Lleol, ac mae'r ddau brosiect yn rhoi cyfleoedd hyfforddi ychwanegol, cefnogaeth therapiwtig neu iechyd meddwl a mentora i baratoi ar gyfer gwirfoddoli, profiad gwaith wedi'i deilwra neu gyflogaeth. Mae'r ddau brosiect yn gweithio gydag ystod o Bartneriaethau, ond, yn bennaf, gyda Gyrfaoedd Cymru, ac mae AdTrac, hefyd, yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Grŵp Llandrillo Menai.

Ddiwedd mis Ionawr 2020:

O'r 584 o unigolion 11-16 oed sydd naill ai wedi'u cefnogi neu sy'n cael eu cefnogi gan TRAC ar hyn o bryd:

- Roedd 112 o'r cleientiaid oedd wedi gadael mewn llai o risg o beidio â bod mewn addysg, mewn hyfforddiant neu fod heb waith. Ar hyn o bryd, mae 298 o ddysgwyr byw lle nad yw'r risg lai sydd ganddynt o beidio â bod mewn addysg, mewn hyfforddiant neu fod heb waith, yn hysbys nes eu bod yn cwblhau'r rhaglen.
- 50 wedi mynd ar brofiad gwaith wedi'i deilwra, gyda chyflogwyr yn cynnal ymweliadau ychwanegol ag ysgolion i ddisgyblion nad ydynt yn cael eu hystyried yn barod ar gyfer y gweithle.
- Mae 36 wedi symud ymlaen i gwrs lefel uwch amser llawn yn y coleg.
- Ers 2018 mae 155 wedi gwrthod ymgysylltu â'r prosiect.
- Mae 88 wedi cwblhau dyfarniadau i lefel 1 neu uwch yn y meysydd a ganlyn: Iechyd a Diogelwch yn y gweithle, Cymorth Cyntaf, Dringo, Gofal Plant, sgiliau Cyflogadwyedd, Meddwl Canlyniadol, Sgiliau Diogelwch Adeiladu, unedau Cymru Agored mewn ystod o feysydd pwnc e.e. ffyrdd o fyw iach.
- Mae cyrsiau heb eu hachredu yn cynnwys: - Tymhorau ar gyfer Twf, Profedigaeth a Cholled, FFRINDIAU (gwytnwch), Coginio, gweithgareddau awyr agored, Gwobr Amgylcheddol John Muir, Garddio.
- Mae 148 wedi cael ymyrraeth therapiwtig

O'r 164 o unigolion 16-24 oed sydd wedi cael cefnogaeth gan ADTRAC neu sy'n cael eu cefnogi ganddo ar hyn o bryd:

- Mae 19 wedi symud i gyflogaeth
- Mae 48 wedi cael hyfforddiant a / neu gymwysterau pellach
- Mae 10 wedi symud ymlaen i gwrs addysg llawn amser yn y Coleg neu'r Brifysgol
- Mae 12 wedi treulio amser yn gwirfoddoli (5) neu mewn profiad gwaith (7)
- Mae 48 wedi bod yn mynd i'r Hyb Lles

Canlyniadau cadarnhaol sy'n eu symud yn agosach at gyflogadwyedd ac yn cael eu mesur yn ystod taith yr unigolyn ar ADTRAC…

- Cyflawnwyd rhan o gymhwyster gan ddau
- Cyflawnwyd hyfforddiant / cymwysterau heb eu hachredu gan chwech
- Cyflawnodd 25 fwy nag un cymhwyster
- Dangosodd 26 welliant yn eu lles meddyliol wrth iddynt adael, o'i gymharu â phan bu iddynt ddechrau
- Dangosodd 25 welliant yn eu sgiliau cyflogadwyedd wrth iddynt adael, o'i gymharu â phan bu iddynt ddechrau (Work star)

Gwrthododd 53 ymgysylltu *(fodd bynnag, mae hwn yn gymysgedd o'r rhai a wrthododd ymgysylltu mewn gwirionedd, y rhai a godwyd gan Gymunedau'n Gyntaf Môn neu C4W gan eu bod yn byw mewn ardal Côd Post Cymunedau'n Gyntaf, a'r rhai a ddatgysylltodd ar ôl ymgysylltu i ddechrau heb sicrhau canlyniad).*



## PLANT A THEULUOEDD

**Cronfa Dydd Dewi Sant -** pwrpas y gronfa yw cefnogi pobl ifanc sydd mewn gofal awdurdod lleol neu sydd wedi bod yno i gael at gyfleoedd a fydd yn eu harwain tuag at fywydau annibynnol a llwyddiannus. Aiff hwn yn uniongyrchol i ofalu am bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a gellir defnyddio'r arian fel ffordd o hyrwyddo annibyniaeth, datblygiad a dilyniant. Mae'r arian wedi'i wario ar addysg; cyflogaeth; iechyd a lles; tai a chael cyngor a chefnogaeth barhaus. Yn lleol, mae llawer o'n pobl ifanc wedi defnyddio'r arian ar wersi gyrru ac ar ffioedd cyrsiau. Derbyniodd yr awdurdod lleol oddeutu £40,000 yn ychwanegol ar gyfer 2019-2020.

**Pan Fydda i'n Barod** – Mae 'Pan fydda i'n Barod' wedi hen ennill ei blwyf a chaiff ei argymell yn gryf yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gyda phump  o bobl ifanc ar hyn o bryd yn aros gyda'u gofalwyr maeth ar ôl iddynt droi'n 18 oed. Mae gan y cynllun 'Pan fydda i'n Barod' dri amcan craidd:

- Rhoi sefydlogrwydd a pharhad i bobl ifanc sy'n gadael gofal maeth wrth iddynt baratoi ar gyfer annibyniaeth.
- Gwella cyfleoedd bywyd ein plant 'sy'n Derbyn Gofal'.
- Sicrhau y gall plant 'sy'n Derbyn Gofal' a'r rhai sy'n Gadael Gofal arfer eu llais a chael rheolaeth dros y penderfyniadau sy'n cael effaith ar eu bywydau.

Nod yr amcanion hyn yw gwella cyfleoedd bywyd plant 'sy'n Derbyn Gofal' trwy gynyddu eu cyfleoedd i gael eu cynnwys yn gymdeithasol a rhoi'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer annibyniaeth gan gynnwys rheoli tenantiaeth, rheoli arian a dod o hyd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

>>

>>

Nodau craidd y **Tîm Teuluoedd Gwydn** yw Atal, Dychwelyd, Lleihau ac Adolygu; Atal plant rhag 'derbyn gofal' pan fo'n ddiangen (ymyrraeth 'ar ffiniau gofal'), **Dychwelyd** plant adref yn ystod wyth wythnos gyntaf y gofal, a gweithio gyda theuluoedd a nodwyd i'w plant gael mynd yn ôl i'w gofal, **Lleihau** natur llety sy'n rhoi gofal / gofal sy'n ofynnol, (e.e. o ofal preswyl i ofal maeth i'r teulu i ddirymu), ac **Adolygu** achosion o ddychwelyd yn ddiogel blant sydd mewn gofal tymor hir yn ddiogel.

Mae'r Tîm, sydd wedi'i gydnabod am ei ddull arloesol ac ymchwil mewn ymarfer, wedi'i sefydlu ers mis Hydref 2017, a chyhoeddwyd adroddiad dwy flynedd gan Arweinydd yr Ymarfer ym mis Hydref 2019 yn tynnu sylw at y ffaith bod 57 o deuluoedd a 123 o blant wedi'u cefnogi yn ystod y cyfnod hwn.

Er mwyn gweithio tuag at y nodau craidd hyn, sef Atal, Dychwelyd, Lleihau, ac Adolygu a'u cyrraedd, mae'r Tîm, sef grŵp o weithwyr amlddisgyblaethol medrus iawn, yn ymyrryd â theuluoedd sy'n arddangos lefel uchel o angen sy'n peri i'w plant fod mewn perygl o gael eu Derbyn i Ofal, neu sydd wedi peri i'w plant fod mewn perygl o gael eu Derbyn i Ofal yn ddiweddar, neu sy'n atal eu plant rhag cael mynd yn ôl i'w gofal. Cyflawnir hyn trwy ganolbwyntio'n systematig a pharhaus a ledled y gweithlu ar ddarparu arfer wedi'i gyfoethogi gan dystiolaeth.

**Tîm IMPACT -** mae ein tîm, a ariennir gan brosiect y Gronfa Gofal Integredig, yn gweithio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn cefnogi Therapi Cyfathrebu Awtistiaeth Cyn-ysgol (PACT) a Cherddoriaeth Ryngweithiol neu Therapi Rhyngweithio Cerddorol. Therapïau seiliedig ar dystiolaeth yw'r rhain, gyda'r ddau wedi'u cynllunio i wella "symptomau" craidd awtistiaeth trwy geisio adfer prosesau datblygu naturiol. Gweithia rhieni a therapyddion gyda'i gilydd fel partneriaid gan ddefnyddio adborth fideo i ddehongli patrymau cyfathrebu sy'n aml yn ddryslyd, a dod o hyd i ffyrdd o ymateb fydd yn helpu'r plentyn i ryngweithio a datblygu ffyrdd cliriach i gyfathrebu.





Mae PACT yn gosod rhieni wrth galon gwaith helpu eu plentyn, gan anelu at eu hailsgilio gyda dealltwriaeth o'r hyn y mae eu plentyn yn ei gyfathrebu, i'w grymuso ar sut i ymateb, a gwella eu morâl a'u hyder. Mae gweithio gyda rhieni, hefyd, yn fodd o wneud newidiadau buddiol wrth ryngweithio ym mywyd beunyddiol y plentyn, y cyd-destun y dysgir sgiliau cymdeithasol cynnar ynddo fel arfer.

### BLAENORIAETHAU AR GYFER 2020/21:

- Cynyddu nifer y bobl hŷn sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol i hwyluso iddynt gomisiynu gwasanaethau eu hunain, rhywbeth sy'n hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol a lles.
- Hyrwyddo'r defnyddio a wneir o dechnoleg gwybodaeth mewn Hybiau Cymunedol.
- Cynllunio Blaenoriaethau'r Gweithlu mewn Gwasanaethau Oedolion

### SA4 – PA WAHANIAETH WNAETHOM NI?

**Prif gyflawniadau**

- **99.03%** o Oedolion yn derbyn eu gwasanaeth yn eu dewis iaith
- **52** o Ofalwyr Maeth Ynys Môn

## BETH MAE EIN POBL YN EI DDWEUD?

*"Roedd ymateb y gwasanaethau cymdeithasol yr oeddech chi'n rhan ohono yn galonogol iawn, ac rydyn ni'n dau'n hapus gyda'r canlyniad. Nid wyf yn ffan mawr o fiwrocratiaeth, ond mae'r system asesu cartref a thaliadau uniongyrchol yn ffordd syml ac ymarferol o ymdrin â phroblem ymarferol. Dim ffurflenni hir, dim amseroedd aros hir; mae modd eu haddasu ac maent yn bragmatig. Rwy'n ddiolchgar i chi am ei gwneud mor hawdd i ni."*

*"Os nad oes angen yr help ar [defnyddiwr gwasanaeth] mwyach, byddwn yn rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol. Dyna nodwedd wych arall o'ch system; gall addasu i'n hanghenion cyfnewidiol a blaenoriaethau eraill."*

*"Er mwyn i bawb gael gwybod, mae ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cwrdd â'n hanghenion yn berffaith ac rydym yn hapus iawn gyda'r canlyniad."*

*"Fe wnaeth Gweithiwr Tîm o amgylch y Teulu wirioneddol fy helpu. Roedd hi'n gefnogol ac yn deall ac nid oedd yn fy marnu fel mam. Fe gododd fy hyder fel person."*

*"Rwy'n siwr bod eich e-bost wedi helpu - rwy'n ddiolchgar iawn am bopeth rydych chi wedi'i wneud i ni. Mae hi (Defnyddiwr gwasanaeth) wedi cael gwyliau haf gwych gyda'r taliadau uniongyrchol ac wedi gwneud yr hyn yr oedd hi eisiau ei wneud!! Diolch am yr holl help!! "*

*"Mae (defnyddiwr gwasanaeth) yn llawer mwy hyderus, di-flewyn-ar-dafod. Mae ganddo nodau i'w cyrraedd ac mae'n gyffrous yn eu cylch, diolch i weithiwr y Tîm o amgylch y Teulu"*



# Safon Ansawdd 5

**Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthynas ddomestig, deuluol a phersonol iach**

## OEDOLION

Nod **Prosiect y Gweithiwr Cymorth Dementia,** a ariennir trwy grant y Gronfa Gofal Integredig, yw darparu gwasanaethau cymorth Cymunedol i bobl hŷn ac oedolion iau sy'n arddangos problemau cymedrol i ddifrifol sy'n gysylltiedig â'r cof neu sydd â diagnosis o ddementia. Bydd y Gweithwyr Cymorth Dementia yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i wella gwaith adnabod unigolion a theuluoedd o fewn bröydd daearyddol dynodedig i roi cyngor a chefnogaeth amserol i lywio a chael mynediad at wasanaethau priodol. Bydd y Gweithwyr Cymorth Dementia yn gweithio'n agos gyda'r Cydlynydd Asedau Lleol i nodi atebion yn y gymuned i wella canlyniadau lles yr unigolyn sy'n byw gyda dementia a'i ofalwr. Byddant yn cefnogi gwaith datblygu gweithgareddau cymunedol o fewn hybiau lleol ac yn cefnogi Cynghreiriau Dementia lleol i roi blaenoriaethau lleol ar waith.

Nod **Prosiect y Gronfa Gofal Cartref,** a ariennir trwy grant y Gronfa Gofal Integredig, yw darparu gwasanaethau cymorth cymunedol sydd wedi'u hanelu'n bennaf at gefnogi gofalwyr unigolion sy'n byw gyda dementia ac sy'n arddangos nam gwybyddol cymedrol i ddifrifol. Ers i ni drawsnewid gwasanaethau gofal cartref yn Ynys Môn yn ddiweddar, mae'r arian hwn ar gael i bob darparwr gofal cartref, ym mhob un o'r tair bro gwasanaeth cymunedol dynodedig a chaiff ei reoli o fewn ein trefniadau comisiynu gwasanaeth.

**Rôl Ymgynghorol Alzheimer -** gyda chefnogaeth y Gymdeithas Alzheimer, drwy grant y Gronfa Gofal Integredig, mae'r gwasanaeth yn cynnig llwybr cymorth gyda chynghorwyr hyfforddedig fydd yn gyswllt dibynadwy, sicr â phopeth y gall Cymdeithas Alzheimer ei gynnig i rywun y mae dementia wedi cael effaith arno. Mae'r gwasanaeth yn cynnig Swyddog Ymgysylltu a Chyswllt rhan-amser i sefydlu cysylltiadau â meddygon teulu sy'n gweithio ledled Ynys Môn gyda'r nod o adeiladu ar y cysylltiadau a sefydlwyd eisoes gan y gwasanaeth **Dementia RED.** Mae gan y gwasanaeth bwyntiau gwybodaeth misol sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr mewn rhai meddygfeydd ar draws yr ynys.

Bydd **Swyddog Cymorth Gofalwyr** amser llawn, a ariennir gan grant y Gronfa Gofal Integredig mewn partneriaeth â Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, ac sy'n gweithio o Ysbyty Gwynedd, yn cefnogi gofalwyr di-dâl cleifion ar wardiau clinigol. Mae ein swyddog yn ymweld â wardiau i adnabod gofalwyr a rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth pan fo angen. Y swydd fydd cefnogi gofalwyr yn ystod yr amser anodd. Dyma pryd bydd gofalwyr yn sylweddoli eu bod yn ofalwr neu'n sylweddoli y byddant yn ofalwr pan fydd eu hanwylyd yn dychwelyd adref. Nid yw mwyafrif y gofalwyr yn gwybod beth sydd ar gael iddynt, ac mae'r Swyddog yn achub ar y cyfle i esbonio proses gadael yr ysbyty, beth sydd i'w ddisgwyl pan fyddant yn mynd adref, eu tywys a rhoi pethau ar waith ac rydym yn cefnogi'r gofalwr yn emosiynol. Pan fydd y claf gartref, bydd y gofalwr wedyn yn derbyn cefnogaeth gan ein Swyddogion Cyswllt Gofalwyr a **Swyddogion Cynnal a Datblygu** yn y gymuned.

**Hybiau Cymunedol.** Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cyfleoedd yn y gymuned gan osgoi ymyrraeth statudol yn gyfan gwbl. Mae'r model Hyb Cymunedol ar yr ynys yn datblygu'n dda. Rydym wedi sefydlu Cynghrair Hyb Cymunedol ac erbyn hyn mae gennym 10 hyb gweithredol ar draws yr ynys. Ar hyn o bryd, mae dros 1000 o bobl / wythnos yn mynd i'r gweithgareddau hyb. Bydd rhagor o waith, yn cynnwys gweithio gyda mwy o hybiau cymunedol a chynyddu'r dewis o gyfleoedd i bobl hŷn yn nalgylchoedd amrywiol y Tîm Adnoddau Cymunedol.

## PLANT A THEULUOEDD

Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyllid ledled Cymru i annog dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau i blant a theuluoedd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y gwasanaeth yn rhoi cefnogaeth ymatebol a dwys sy'n ceisio meithrin gwytnwch teuluol gyda'r pwrpas o gadw teuluoedd gyda'i gilydd a dod â nhw ynghyd.

Mae partneriaeth Gogledd-orllewin Cymru yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol plant a theuluoedd Gwynedd ac Ynys Môn. At hyn, bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn darparu tîm peripatetig o weithwyr proffesiynol, amlddisgyblaethol a phrofiadol, yn gweithio ar yr un safle, fydd yn cydweithio i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i barhau i fyw gartref yn hytrach na mynd i mewn i'r system ofal. Bydd hyn yn cynnwys asesiad dwys a chadarn a chefnogaeth therapiwtig uniongyrchol i nifer fach o blant a'u teuluoedd.

Bydd y tîm newydd yn gweithio ar yr un safle ar draws Gwynedd ac Ynys Môn ac yn gwneud gwaith gyda phlant a theuluoedd mewn ystod o leoliadau, gan gynnwys y tu allan i'r rhanbarth. Mae gwaith recriwtio yn digwydd ar hyn o bryd (dros dro tan fis Mawrth 2021 oherwydd Cyllid y Gronfa Gofal Integredig).



## BLAENORIAETHAU AR GYFER 2020-21:

- Datblygu ystod o opsiynau seibiant hyblyg ar gyfer Gofalwyr unigolion sydd â Dementia
- Cefnogi gwaith darparu ystod o wasanaethau ataliol sy'n gysylltiedig ag iechyd, a hynny mewn hybiau Cymunedol.
- Llunio'r farchnad mewn perthynas â gofal Oedolion Hŷn

## SA5 – PA WAHANIAETH WNAETHOM NI?

### Prif gyflawniadau

- **98%** o oedolion sy'n ofalwyr y cynigiwyd iddynt asesiad neu adolygiad o'u hanghenion trwy eu hawl eu hunain
- Nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaeth tylluanod y nos yn ystod y flwyddyn - cyfanswm o **346** (Galw Gofal **254,** WAST **57**, Cynlluniwyd **35**)
- Nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaeth ailalluogi yn ystod y flwyddyn - **362**
- **8.76%** yn dychwelyd adref (Plentyn ar goll)
- Derbyniwyd **246** o gyfeiriadau Tîm o amgylch y Teulu

## BETH MAE EIN POBL YN EI DDWEUD?

*"Rwy'n ddiolchgar iawn am eu holl gymorth (Gofal Cartref), eu hamynedd, caredigrwydd, pryder a'u ffordd gymwynasgar. Mae pawb bob amser wedi fy nhrin â pharch ac fy annog. Rwyf angen y gwmnïaeth sy'n dod gyda'r gofal. Diolch."*

*"A allech roi gwybod i'ch tîm Gofal Cymdeithasol i Oedolion mai hwn yw'r ateb cliriaf a gefais hyd yma a hefyd yr un sydd fwyaf cefnogol o ran grymuso personol a'r egwyddorion dewis a rheolaeth sy'n sail i Fyw'n Annibynnol. Byddwn yn eich annog i rannu'r arfer da hwn ar bob cyfle! "*

*"Rhoddodd Gweithiwr y Tîm o amgylch y Teulu fwy o hyder i mi, rhoi hwb iddi hi. Sylwodd ar fy mhroblemau personol a helpodd fi i gael cymorth. Helpodd y teulu i gyfathrebu gyda'i gilydd a dod ymlaen yn well. Mae hi wedi ein cynorthwyo'n aruthrol ac wedi ein helpu ni i gyd ymdopi'n well gydag offer dysgu newydd i ni i gyd weithio gyda nhw ac rydyn ni'n dysgu gweithio gyda'n gilydd. Mae'r Tîm o amgylch y Teulu wedi bod yn help hanfodol i ni i gyd fel teulu a hoffem ddiolch i chi i gyd. "*

*"Diolch yn ddiffuant i chi, (Gweithiwr Cymdeithasol) am eich caredigrwydd, eich dealltwriaeth a'ch empathi yr ydych wedi'i ddangos yn ystod yr amser y buoch yn gweithio gyda ni a sicrhau'r pecyn cymorth gorau i ni. Ni fyddwn byth yn eich anghofio. Rydych chi'n anhygoel. "*

*"Roedd y drafodaeth yn fuddiol iawn i [rhiant] a chynhaliwyd y cyfarfod mewn ffordd ddealladwy fel bod modd i [rhiant] gymryd rhan lawn."*



# Safon Ansawdd 6

**Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gael lles economaidd gwell, bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u hanghenion.**

## OEDOLION

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i gynllunio ar gyfer **cyfleuster Gofal Ychwanegol** newydd yn **Ardal Seiriol**, er bod sicrhau eiddo addas wedi parhau i fod yn her barhaus gan arwain at gynnydd araf. Mae'r cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r prosiect ac yn parhau i edrych ar opsiynau.



Mae **Gwasanaeth Tylluanod y Nos** yn ei gwneud yn bosib i weithwyr Gofal Cymdeithasol gefnogi pobl yr aseswyd bod ganddynt anghenion gofal yn ystod y nos rhwng 10pm ac 8am, saith noson yr wythnos. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys ymweliadau â chartref pobl i gael gofal wedi'i gynllunio neu i ymateb i sefyllfaoedd o argyfwng e.e. syrthio neu rwydweithiau gofalwyr anffurfiol yn torri. Mae Tylluanod y Nos yn ymateb i bobl sydd wedi syrthio ond heb eu hanafu ac mae hyn yn rhyddhau staff Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i ymdrin ag argyfyngau sy'n peryglu bywyd. Nod Tylluanod y Nos yw ymateb o fewn oddeutu 30 munud. Roedd y data cyfredol am y naw mis cyntaf yn nodi yr aethpwyd allan i 59 o alwadau oedd wedi'u cynllunio gyda 231 o alwadau brys eraill. Yn ogystal, ymatebodd gwasanaeth Tylluanod y Nos i 42 achos o syrthio nad oedd yn argyfwng, gan olygu nad oedd rhaid i'r gwasanaeth ambiwlans gael ei alw allan.

**Prosiect Llawr y dref -** gan ddefnyddio arian y Gronfa Gofal Integredig, mae'r tîm anabledd dysgu wedi gweithio mewn partneriaeth ag adran Dai'r Cyngor a'r darparwr mewnol, Gofal Môn, i ddatblygu dwy uned dai lle gall unigolion ag anableddau dysgu gael asesiad cynhwysfawr o'u galluoedd a chefnogaeth briodol i ddatblygu sgiliau ar gyfer byw'n annibynnol.

Hyd yma, mae dau berson wedi elwa ar y gwasanaeth hwn ac ar hyn o bryd cânt eu cefnogi i ganfod llety addas i symud ymlaen iddo. Datblygwyd y prosiect hwn i sicrhau bod pobl yn derbyn y gefnogaeth gywir yn unol â'u hanghenion unigol a bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol iddynt allu byw'n llwyddiannus yn y gymuned.

## Y GWASANAETH PLANT A THEULUOEDD

Er mwyn hyrwyddo dadsefydliadoli a lleihau gorwariant sylweddol a chaniatáu i'r plant a'r bobl ifanc sy'n dod o Ynys Môn barhau i dderbyn gofal ar yr Ynys, mae angen ystod o ddarpariaeth gofal amgen. Ar hyn o bryd, mae nifer o blant sy'n byw "y tu allan i'r Sir" yn annhebygol o gael eu hailintegreiddio neu eu lleoli gyda theulu, ffrindiau, teuluoedd maeth neu fabwysiadol yn y dyfodol rhagweladwy. Er mwyn sicrhau nad yw'r plant hyn yn cael eu 'gadael ar ôl', ac i wneud arbedion sylweddol, mae angen datblygu gwasanaethau gofal preswyl amgen.

Mae **Cartrefi Clyd Môn** yn golygu dim mwy na dau o blant yn byw gyda'i gilydd mewn amgylchedd 'cartrefol' ac yn gweithredu mewn ffordd debyg i blant gartref h.y. mynd allan i'r ysgol, byw yn y gymuned, cael cymdogion a ffrindiau ac ati. Bydd y tai wedi'u gwasgaru ledled y gymuned fel bod modd i'r plant preswyl ymdoddi'n haws i'r gymuned.

Bydd tîm bach o weithwyr gofal preswyl yn staffio pob cartref, gan sicrhau parhad gofal i'r plant preswyl. Ar hyn o bryd, mae dau eiddo Cartrefi Clyd yn cael eu cofrestru gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'r bwriad yw cael agor y ddau ohonynt erbyn y 1af o Ebrill 2020, wedi'u hariannu gyda chymorth grant refeniw'r Gronfa Gofal Integredig.

**Mae'r prosiect Helpu Allan –** Cynnal Gofalwyr yn rhoi cefnogaeth ataliol i oedi / osgoi achosion lle mae anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwaethygu yn y dyfodol a lleihau'r angen am wasanaethau statudol yn y dyfodol. Gyda chyllid o grant Gronfa Gofal Integredig, ei nodau yw:

- Gwella iechyd emosiynol, lles meddyliol a gwytnwch plant a theuluoedd.
- Hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd.
- Cefnogi pobl ifanc sydd ag anghenion gofal a chymorth wrth drosglwyddo i wasanaethau oedolion.

Bydd gan y prosiect system 'talebau' fydd yn cefnogi pobl i ddefnyddio cyfnodau o wyliau byr am y gorau trwy ddarparu ystod o gyfleoedd am gyfnod cyfyngedig. Mae hyn yn cynnwys:

- Grantiau ar gyfer gofalwyr / teuluoedd. Hyd at £400 tuag at gost gweithgareddau chwaraeon a hamdden fydd yn rhoi seibiant i bawb ac yn datblygu sgiliau a phrofiadau. Gall hyn gynnwys gwyliau, aelodaeth clwb, cefnogaeth a thrafnidiaeth i fynd i weithgareddau cymdeithasol.
- Cefnogaeth ychwanegol i deuluoedd eu cyflwyno a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd a mynd i grwpiau cymdeithasol arbenigol neu integredig fel Cylch Teulu, Creu Gwên ac ati.
- Gwyliau Gyda'n Gilydd. Hyd at £150 tuag at gost diwrnod allan, teithiau wedi'u cynllunio, gwyliau dros nos i'r teulu.

Yn dilyn lansio'r **Cynnig Craidd**, mae gwaith recriwtio Gofalwyr Maeth wedi cynyddu. Rydym wedi gweld ffigurau'n mwy na dyblu o ran Gofalwyr Maeth yn cael eu cymeradwyo. Yn yr un cyfnod amser yn ystod 2018 a 2019 (y ddau chwarter cyntaf) mae nifer Aelwydydd Gofalwyr Maeth a gymeradwywyd yn y Panel Maethu a'r Panel Sefydlogrwydd wedi codi o dri yn 2018 i wyth yn 2019 (Adroddiad y Panel Rhiantu Corfforaethol, Rhagfyr 2019). Rydym yn rhagweld y bydd nifer yr asesiadau'n cynyddu eto yn yr un cyfnod amser yn 2020.

## ASTUDIAETH ACHOS:






**Cafodd Pythefnos Gofal Maeth** (13-26 Mai 2019) ei ddathlu a'i hyrwyddo gan Staff, gofalwyr maeth a ffrindiau trwy gerdded 130 milltir o amgylch Llwybr Arfordir Ynys Môn. Wrth fwynhau'r arfordir hardd, llwyddodd y tîm, hefyd, i godi cyfanswm o £1,478.34 (oedd yn cynnwys y gystadleuaeth Bake Off a raffl) i Gymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn wrth hefyd hyrwyddo cyfleoedd maethu.

Yn ystod 2019, mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Tai wedi gweithio gyda'i gilydd i sefydlu **Fflat hyfforddi** i gefnogi pobl ifanc 16-19 oed sydd / a fydd yn gadael gofal i weld a allant fyw'n annibynnol. Bydd y person ifanc yn byw ar ei ben ei hun yn y fflat am hyd at 28 diwrnod. Caiff gefnogaeth gyda meithrin sgiliau a gwella hyder i allu byw'n annibynnol yn y dyfodol.

Caiff lleoliad maeth / lleoliad preswyl presennol y person ifanc ei gadw ar agor yn ystod y cyfnod. Byddai'r cyfnod asesu cyffredinol am hyd at 28 diwrnod. Yn agos at ddiwedd y cyfnod penodol, bydd yr Ymgynghorydd Personol, Gweithiwr Cymdeithasol, Gweithiwr Cymorth ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sydd wedi rhoi cymorth ychwanegol yn cynnal asesiad.

## GWASANAETHAU TAI

### Grant Cefnogi Pobl / Cymorth Tai


Mae **Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl,** oedd wedi bod yn rhan o'r agenda ataliol ers ei sefydlu yn 2003, bellach yn rhan o'r **Grant Cymorth Tai**. Nid yw rhaniad Môn o'r Grant Cymorth Tai wedi newid ac mae wedi parhau ar £2,643,866 y flwyddyn y pedair blynedd ariannol ddiwethaf. Rhaglen grant ymyrraeth gynnar bwysig yw'r Grant Cymorth Tai, sy'n atal pobl rhag dod yn ddigartref. Mae'n sefydlogi eu sefyllfa dai, a gall helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gynnal. Mae'n cefnogi pobl fregus i roi sylw i'r problemau, sydd weithiau'n niferus, megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Mae'n helpu rhai o bobl fwyaf bregus Cymru i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain, boed yn berchennog y tŷ, yn rhentu'n breifat neu drwy dai cymdeithasol neu mewn prosiectau tai â chymorth dynodedig.



Yn ystod 2019/20, derbyniwyd y niferoedd a ganlyn o gyfeiriadau trwy Bwynt Mynediad Sengl Cefnogi Pobl.

| | |
|---|---|
| **Chwarter 1 Ebrill – Mehefin 2019** | 213 |
| **Chwarter 2 Gorffennaf - Medi 2019** | 205 |
| **Chwarter 3 Hydref-Rhagfyr 2019** | 230 |
| **Cyfanswm** | 648 |

Tynna'r graff isod sylw at anghenion cymorth defnyddwyr gwasanaeth sy'n arddangos anghenion cymorth tai. Cofnodwyd cyfanswm o 1356 o anghenion o 648 o gyfeiriadau ar gyfer tri o chwarteri adrodd llawn. Felly, mae'n amlwg bod gan fwyafrif y bobl sydd ar fin dod i mewn am gymorth a / neu bobl sydd ag anghenion yn seiliedig ar lety, anghenion lluosog, fel y dangosir isod:




Mae'r galw am gefnogaeth a llety wedi cynyddu o ganlyniad i faterion economaidd-gymdeithasol, ar adeg pan mae elfen ariannu Cefnogi Pobl y Grant Cymorth Tai yn profi'r cyfnod mwyaf ansicr ac ansefydlog ers ei sefydlu yn 2003. Gallai'r tebygolrwydd o ostyngiadau sylweddol ar draws llawer o awdurdodau yng Nghymru, o ganlyniad uniongyrchol i'r fformiwla ailddosbarthu arfaethedig a diwygiedig, gael effaith sylweddol iawn ar ein gallu ariannol i gynnal y ddarpariaeth gyfredol, ar adeg lle mae'n ymddangos bod y galw'n fwy na'r cyflenwad. Mae effaith gostyngiadau o'r fath ar ddarpariaeth statudol yn debygol o roi rhagor o bwysau ar wasanaethau statudol fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a'r System Cyfiawnder Troseddol, ac ni ddylid synied yn rhy isel am y gwasanaethau hyn na'u hanwybyddu.

## BLAENORIAETHAU 2020-21:

- Gwerthuso opsiynau am lety gofal Ychwanegol yng ngogledd yr Ynys
- Cartrefi Clyd – agor un eiddo arall yn ystod 20/21
- Cynyddu nifer y Gofalwyr Maeth

## SA6 – PA WAHANIAETH WNAETHOM NI?

Prif gyflawniadau

- Llwyddodd **99.03%** o oedolion i drafod eu problemau yn ystod eu hasesiad / hailasesiad yn eu dewis iaith
- Roedd **44%** o'r rhai oedd yn Gadael Gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ddwy flynedd ar ôl gadael gofal





## BETH MAE EIN POBL YN EI DDWEUD?

*"Bob amser yn gymwynasgar, tîm (Gofal Cartref) yn dosturiol yn eu gwaith i sicrhau bod fy rhieni yn ddiogel"*

*"Gwerthfawrogi'r holl garedigrwydd ac arbenigedd a dderbyniwyd gennych. Roedd [defnyddiwr gwasanaeth] wir yn gwerthfawrogi'r amser a gymerwyd i egluro a thrafod ei hanghenion, a gwnaethoch hi'n bosibl iddi barhau yn ein cartref tan y diwedd un. Diolch."*

*"Fe wnaethoch chi nid yn unig ofalu am [defnyddiwr gwasanaeth] gyda chymaint o dynerwch, gofal a chariad, fe ddaethoch o hyd i'r amser i'w theulu a dangos empathi tuag atynt. Roeddem i gyd yn colli'ch caredigrwydd a'ch gofal. Mae'n deyrnged wych i chi i gyd fod eich holl breswylwyr yn hapus, yn derbyn gofal da ac yn fodlon a hawdd gweld pam."*

# SUT YDYM YN GWNEUD YR HYN A WNAWN

## A) Ein Gweithlu, a sut ydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

> *"Mewn perthynas â'r Ddeddf, strategaeth gweithlu sy'n cefnogi dealltwriaeth a'r gallu i weithredu'r newidiadau, rolau newydd (e.e. mewn partneriaethau ffurfiol ac ar gyfer gwasanaethau CSYM), gofynion dysgu a datblygu".*



Mae Uned **Datblygu'r Gweithlu** yn parhau i weinyddu grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP) i roi cyfleoedd hyfforddi a datblygu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol ehangach yn Ynys Môn. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wrth gynllunio cyfleoedd datblygu i'r gweithlu ac achubir ar bob cyfle i weithio mewn partneriaeth â'n Hawdurdodau Lleol cyfagos, y GIG ac Asiantaethau eraill er mwyn cyflawni'r cynllun.

Nodir isod y meysydd blaenoriaeth allweddol a gefnogir:

- Parhau i weithredu'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) gan gynnwys:
- Cefnogi'r gweithlu gofal cartref i baratoi ar gyfer cofrestru a chefnogi gwybodaeth / Rolau unigolion cyfrifol.
- Cefnogi gwaith hyfforddi, datblygu a chymhwyso rheolwyr gofal cymdeithasol: gan gynnwys y Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol; Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm; a'r rhai sydd angen cofrestru fel rheolwyr
- cefnogi datblygiad parhaus dulliau o ymarfer gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant cymhwyso gwaith cymdeithasol a hyfforddiant ôl-gymhwyso yng Nghymru
- cefnogi gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen i ddatblygu eu sgiliau yn gyffredinol mewn perthynas â gofal cymdeithasol, a chefnogi cyflwyno'r fframwaith sefydlu diwygiedig
- galluogi'r gweithlu i fodloni gofynion rheoliadol ar gyfer cymhwyso a / neu gofrestru gan ddefnyddio canllawiau sydd ar gael yn y Fframwaith Cymwysterau
- darparu dysgu a datblygu fel bod modd i'r gweithlu weithio'n effeithiol ochr yn ochr â gofalwyr a chyflawni dyheadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i ofalwyr, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o ofalwyr ac arfer da mewn asesiadau anghenion gofalwyr. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n darparu'r adnoddau cenedlaethol a ganlyn i gefnogi'r amcanion hyn:
- modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth gofalwyr
- pecyn cymorth i ymarferwyr sy'n cynnal asesiad o anghenion gofalwyr

Er mwyn cwrdd â gofynion y grant SCDWPP, enghreifftiau o'r math o gynlluniau a drefnwyd yn unol â'r amcan o gefnogi'r gweithlu oedd; Ymyrraeth AIM 3 / AIM Dan 12 / AIM - oherwydd diweddariadau i'r modelau a'r arweiniad; Cofnodi ac Adrodd, Defodau'r Llys a Darparu'r Dystiolaeth Orau, sesiynau ymwybyddiaeth fel OCD / Celcio, Hunanladdiad a hyfforddiant mwy penodol fel Cefnogi Cleientiaid ag Anhwylderau Personoliaeth a Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Datblygwyd a threfnwyd rhaglen lawn ar gyfer Gofalwyr Maeth, yn unol â'r anghenion hyfforddi a nodwyd.

Yn ogystal, hyrwyddwyd a threfnwyd nifer o sesiynau Rhanbarthol a Lleol gan yr Uned Datblygu'r Gweithlu er mwyn rhoi gwybodaeth gyfoes i sicrhau y caiff Rheolwyr wybod am ofynion y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol ac, yn sgil hyn, bod y Staff hefyd yn cael cefnogaeth i sicrhau eu bod yn gallu cwrdd â'r gofynion.

Yn ogystal, nodwyd nifer o feysydd datblygu â blaenoriaeth a'u cynnwys yn y cynllun datblygu i hyrwyddo a chefnogi cofrestriad y gweithlu gofal cartref. Nodir enghreifftiau o'r rhain isod:

- Wedi cefnogi rheolwyr y gweithlu i baratoi i gofrestru eu gweithlu gyda Gofal Cymdeithasol Cymru trwy ddarparu Gweithdai Cofrestru a chymorth un i un gan y tîm datblygu. O ganlyniad i'r cymorth hwn, cofrestrodd 80% o'r gweithlu cartref gyda Gofal cymdeithasol Cymru erbyn Rhagfyr 2019.
- Gweithiodd Canolfan Anterth mewn partneriaeth â Choleg Menai, gan gynnig y Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol, gan ei gwneud yn bosib i 20 dysgwr ennill y Cymhwyster gofynnol i gofrestru fel gweithiwr Gofal Cymdeithasol.
- Bu i ni gynnal pedwar gweithdy Egwyddorion a Gwerthoedd y Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (Uned 1) lle daeth 80 o ddysgwyr i sesiynau cefnogi. Cwblhaodd 60 o'r dysgwyr yr uned ar-lein, Egwyddorion a Gwerthoedd a'i gwnaeth yn bosib iddynt gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac maent bellach yn parhau i gwblhau'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan.
- Bu i ni barhau i gefnogi gweithwyr Gofal Cymdeithasol rheng flaen iddynt ddatblygu eu sgiliau cyffredinol mewn perthynas â gofal cymdeithasol a chefnogi gwaith cyflwyno'r Fframwaith Sefydlu diwygiedig trwy drefnu gweithdai Sefydlu. Cynigiai'r rhain sesiynau gwybodaeth sylfaenol i gefnogi dysgu a datblygu a gwaith cwblhau'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan o fewn yr arweiniad chwe mis.
- Cefnogodd ein cynllun hyfforddi feysydd datblygu â blaenoriaeth, gan gynnwys meysydd arbenigol hyfforddiant i gefnogi gwaith cofrestru staff gofal cartref a chwrdd â gofynion rheoleiddio am gymwysterau.

| Teitl y Cwrs | Cwrs | Niferoedd oedd yno |
|---|---|---|
| Dementia | Sesiwn codi ymwybyddiaeth i staff ar draws y sector gofal, gwirfoddolwyr a theuluoedd | 80 |
| Trefnwyd yr holl hyfforddiant yn unol â'r Cynllun Gweithredu Dementia a Fframwaith Gwaith Da yn ogystal â chwrdd â gofynion Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan / Cymwysterau Craidd | Colli synhwyrau | 40 |
| | Diwedd Oes/Gofal Lliniarol / Chwe Cham Diwedd Oes | 45 |
| | Dementia ac Anabledd Dysgu | 25 |
| | Cyfathrebu a gofal person-ganolog wrth ymdrin ag ymddygiad y gellir ei weld yn un heriol | 25 |
| Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau | Cyflwyniad i'r hyn yw canlyni-adau a sut mae hyn yn trosi o bapur i ymarfer yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymde-ithasol a Llesiant (Cymru). | 75 |
| | Deall y dull a ddefnyddir gyda chanlyniadau a sut caiff canlyni-adau eu rhoi mewn cynlluniau ac arferion gofal a chymorth. | |
| Cwrs sefydlu | Cefnogi gweithredu Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan - Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru | 80 |

| Teitl y Cwrs | Cwrs | Niferoedd oedd yno |
|---|---|---|
| Cymwysterau Gofal | Oedolion L2 | 120 |
| | Oedolion / Plant a Phobl ifanc L3 | 4 |
| | Gwobr Ymarferwyr Uwch L5 | 4 |
| Gweithlu Rheoledig | Sesiynau codi ymwybyddiaeth o sut i gofrestru gofalwyr cartref erbyn 2020 ac wedi hynny. Gweithdai cofrestru Gofal Cartref yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a rhe-oleiddio'r gweithlu o fewn yr arweiniad a roddwyd o ran amser. | 80 |



Bu i ni barhau gyda'n Partneriaeth â Phrifysgol Bangor a dau Awdurdod Lleol arall i gefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol. Rhoddodd yr Awdurdod gyfleoedd hyfforddeiaeth, astudio am gymwysterau MA / BA trwy Brifysgol Bangor neu drwy Brifysgol Agored Cymru gyda'r nod o sicrhau bod pob myfyriwr yn cael gwaith yn yr Awdurdod.

Buom yn gweithio ochr yn ochr â Phrifysgol Bangor ac Awdurdodau eraill ledled Gogledd Cymru i ddatblygu Rhaglen Addysgwyr Ymarfer Gogledd Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd gennym bum gweithiwr cymdeithasol cymwys a phrofiadol yn gweithio i gael y Dyfarniad.

Penodwyd gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn llwyddiannus. Roedd y tri yn fyfyrwyr o Brifysgol Bangor - cefnogwyd un ohonynt trwy ein cynllun hyfforddeion.

Bu i ni barhau i gefnogi ymarferwyr newydd gymhwyso trwy eu Tair Blynedd Gyntaf yn Ymarfer, sy'n cynnwys y Rhaglen Gyfuno, Porth Agored, gydag un aelod o staff yn cwblhau'r rhaglen hon yn llwyddiannus yn ystod 2019-20.

Mae rhagor o wybodaeth am gyflawniadau gwaith cymdeithasol ôl-gymhwyso i'w gweld isod: -

| Rhaglen | Nifer a Gyflawnwyd yn 2019-20 |
|---|---|
| Dyfarniad Dysgu Ymarfer | 1 |
| Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm | 2 |

Yn ogystal â'r uchod, bu i ni barhau i gefnogi ein staff nad oedd ganddynt gymwysterau i gymryd modiwlau a rhaglenni fel lefel 4 trwy Brifysgol Agored Cymru.

## SGILIAU GYDA'R GYMRAEG

Mae'r Awdurdod yn hynod gefnogol o staff sy'n defnyddio'r cyfleoedd a roddir iddynt i ddatblygu eu sgiliau iaith ac sy'n cefnogi'r agenda, "Mwy na Geiriau". Caiff staff eu hannog i fynd ar ystod o gyrsiau/sesiynau hyfforddi i roi sylw i'w hanghenion unigol /codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd sgiliau dwyieithrwydd. Gweler y tabl isod am fanylion:

| Cwrs | Nifer staff y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yno |
|---|---|
| Cymraeg i ddysgwyr (Sesiynau wythnosol) | 4 |
| Nant Gwrtheyrn | 4 |

## HYFFORDDIANT DIOGELU

Rhoddwyd mwy o bwyslais ar sicrhau bod staff ar draws yr holl wasanaethau'n cael hyfforddiant Diogelu perthnasol. Mae rhaglen gynlluniedig o gyrsiau Diogelu Sylfaenol a Chyffredinol wedi'u cynnwys yn y cynllun Datblygu Blynyddol sydd ar gael i'r holl staff gofal (Awdurdod Lleol / Sector Preifat / Gwirfoddol). Yn ogystal, trefnir cyrsiau penodol i sicrhau bod y gweithlu'n cael rhagor o sgiliau mewn meysydd arbenigol, gweler y manylion isod:

| Maes Pwnc Diogelu | Niferoedd oedd yno |
|---|---|
| Diogelu i Weithwyr Proffesiynol | 23 |
| Diogelu Cyffredinol (Diwrnod llawn) | 99 |
| Diogelu Sylfaenol (hanner diwrnod) | 8 |
| Beth? Pwy? Sut? Cofnodi a Rhoi gwybod am Hyfforddiant | 48 |
| Hyfforddiant Archwilio ar y Cyd | 6 |

Mae'r rhan fwyaf o staff yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant wedi cael hyfforddiant ar y Gweithdrefnau Diogelu newydd.

### E-Ddysgu

Yn ystod 2019/2020 gwnaed gwaith pellach i ddatblygu darpariaeth E-Ddysgu fel dull cyfunol o Ddysgu. Cyflwynwyd platfform **Y Gronfa Ddysgu** ym mis Hydref 2019 ac mae'r dull hwn o ddysgu yn cynnal amrywiaeth o raglenni; yn eu plith - hyrwyddo a chefnogi lles staff. Caiff staff eu hannog i gymryd rhan fel rhan o'u Datblygiad Personol a Phroffesiynol eu hunain. Mae ar gael trwy'r holl ddyfeisiau digidol.

Rhydd y tabl isod drosolwg o rai o'r modiwlau y mae staff Gofal Cymdeithasol yn eu cymryd:

| Modiwl | Nifer sydd wedi'u cwblhau |
|---|---|
| Trais yn erbyn Merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol | 413 |
| Caethwasiaeth Fodern | 230 |
| GDPR | 216 |
| Ymwybyddiaeth seibr | 182 |
| Atal | 157 |

Wrth allu defnyddio'r modiwlau E-ddysgu, mae'r Awdurdod wedi gallu cryfhau sgiliau a gwybodaeth y gweithlu Taliadau Uniongyrchol (Y Prosiect 'Eich Bywyd yn eich Dwylo'). Bu'n fodd i'r grŵp hwn gofrestru ar fodiwlau E-ddysgu, datblygu gwell dealltwriaeth o'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n dylanwadu ar eu gwaith; a, thrwy hyn, ei gwneud yn bosib iddynt rymuso'r unigolion y maent yn eu cefnogi i ffynnu wrth wneud dewisiadau ac i reoli eu bywydau.

# B) Ein Hadnoddau Ariannol a Sut ydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Mae cynllunio ariannol yn parhau i fod yn her ddifrifol i'r Cyngor dan bwysau ariannol parhaus ac estynedig, er bod y setliad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 yn well na'r hyn oedd wedi'i ddisgwyl i ddechrau, gyda Chyllid Allanol gyda'i gilydd yn £101m am y flwyddyn. Roedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos gorwariant o £1,293k i'r Gwasanaethau Cymdeithasol am 2019/20.

Gorwariodd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd £155k. Mae'r gostyngiad sylweddol yn y gorwariant o'i gymharu â 2018-19 yn ganlyniad uniongyrchol i'r £1.39m ychwanegol a ychwanegwyd at gyllideb 2019-20 i gydnabod y pwysau ariannol o fewn y gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n ddiflino i gynnal lefel y Plant sy'n Derbyn Gofal. Fodd bynnag, ar 31-03-2020, roedd gennym 161 o Blant sy'n Derbyn Gofal dan ein gofal, o'i gymharu â 149 ar 31-03-2019. Er gwaethaf ymdrechion gorau'r gwasanaeth, dengys hyn bod y galw wedi cynyddu gan 12 o blant dros gyfnod o 12 mis. Rydym yn disgwyl agor y trydydd Cartref i grwpiau Bychain ar unwaith, fydd yn arwain at ostyngiad mewn costau mewn Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir a Lleoliadau nad ydynt yn rhai safonol.

Gorwariodd Gwasanaethau Oedolion £1,138k yn 2019/20, yn bennaf oherwydd (i) pwysau ffïoedd a achosir gan godiadau mewn Cyflog Byw Cenedlaethol, (ii) cynnydd yn y galw am Wasanaethau a iii) Tanariannu hanesyddol. Rydym wedi neilltuo cyllideb ychwanegol o £980k i'r Gwasanaethau Oedolion yn 2020-21 er mwyn rhoi sylw i'r mater o danariannu, gyda'r nod o gydbwyso'r gyllideb yn 2020-21. Mae grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd gan Lywodraeth Cymru, hefyd, wedi cynyddu o £670k yn 2019-20 i £894k yn 2020-21.

Er gwaethaf mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2020-21, mae'r ddau Wasanaeth yn cydnabod nad yw'r mesurau llymder drosodd ac maent yn parhau i drawsnewid gwasanaethau a rheoli'r galw.

Mae gan y Cyngor brosesau gosod cyllideb a chynllunio ariannol effeithiol sydd wedi'u rheoli'n dda, ac mae aelodau etholedig yn chwarae rhan lawn yn y rhaglen gylchol o gynllunio, a chraffu gwaith pennu a monitro cyllidebau.

Mae amcangyfrif newidiadau i'r dyfodol yn heriol, oherwydd nad oes gwybodaeth gywir am setliadau'r dyfodol i lywodraeth leol ond rhagwelodd ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig, i ddechrau, y gallai fod gofyn gwneud hyd at £6.72m o doriadau ychwanegol dros y tair blynedd nesaf o 2020/21 i 2022/23. Er bod y setliad yn well na'r disgwyl yn 2020-21, bydd y rhagolygon economaidd presennol yn edrych ychydig yn wahanol mewn blynyddoedd i ddod yn dilyn Covid19.

Amlinella'r tabl isod gyfrifon ariannol ein Gwasanaethau Cymdeithasol am 2019/20:

| | Cyllideb £ | Gwirioneddol £ | Gwahaniaeth £ |
|---|---|---|---|
| **GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD** | 10,268,480 | 10,268,480 | 155,141 |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | |
| POBL HŶN | 7,495,890 | 8,606,214 | 1,110,324 |
| ANABLEDDAU CORFFOROL | 1,924,900 | 2,030,856 | 105,956 |
| ANABLEDDAU DYSGU | 6,324,050 | 6,987,173 | 663,123 |
| IECHYD MEDDWL | 1,979,370 | 2,240,336 | 260,966 |
| GWASANAETHAU CYMORTH | 1,272,450 | 1,144,045 | (128,405) |
| **UNED DDARPARU** (GOFAL MÔN/ GWASANAETHAU ERAILL) | 6,027,430 | 5,153,302 | (874,128) |
| **CYFANSWM** | **35,292,570** | **36,585,547** | **1,292,977** |

# C) Gweithio mewn Partneriaeth, ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu a'n Hatebolrwydd

Mae llywodraethu gwleidyddol o fewn y Cyngor wedi parhau i fod yn gadarn. Mae hyn wedi caniatáu cefnogaeth glir a chyson i'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd a gwaith craffu mesuredig ar gynnydd.

Y **Pwyllgor Gwaith** yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ac mae'n cynnwys yr Arweinydd ac wyth Deiliad Portffolio. Mae'r Arweinydd yn parhau i fod yn Ddeiliad Portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae wedi parhau i oruchwylio ein gwelliannau yn wleidyddol. Gwelir yr effeithiolrwydd cynyddol hwn wrth wneud penderfyniadau anodd fel Rhaglen Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn (er enghraifft adeiladu Tai Gofal Ychwanegol yn Llangefni, sydd wedi'i gwblhau ac sydd bellach â rhestr aros). Mae gwaith edrych am ragor o ddarpariaeth Gofal Ychwanegol yn parhau ac mae neilltuo adnoddau ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i gynorthwyo i reoli'r galw wedi peri i arferion gwaith sefydlog wreiddio.

Tudalen 289

**Gweithio mewn Partneriaeth**

Mae'r Panel Aelodau Etholedig a sefydlwyd ar ôl etholiadau Mai 2017 i graffu, herio a chefnogi'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, yn parhau â'i waith ac wedi gweld gwelliannau. Mae'r agenda bellach wedi troi'n **Banel Gwasanaethau Cymdeithasol** ac mae'n goruchwylio agenda gofal cymdeithasol Plant ac Oedolion. Daw aelodaeth y panel o bob rhan o'r grwpiau gwleidyddol, ac mae'n parhau i roi'r cyfle i'r Aelodau wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gwaith a wneir gan yr adran, gan arwain at graffu gwell.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth yn lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cydnabuwyd hyn fel cryfder mewn adroddiadau arolygu allanol yn y gorffennol ac mae'n parhau i fod yn faes i ni adeiladu arno. Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Oedolion yn parhau i chwarae rhan weithredol yn agendâu Cymru Gyfan a Gogledd Cymru i wella'r modd y darperir gwasanaethau cymdeithasol trwy ddull cydweithredol.

Mae trefniadau llywodraethu'n parhau i fod ar waith trwy **Gwmni Cydweithredol Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru** a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r Cwmni Cydweithredol wedi sefydlu rhaglen gynhwysfawr o welliannau trwy gydweithredu, sy'n canolbwyntio ar y gofynion dan Ran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gellir gweld rhagor o dystiolaeth o ethos y bartneriaeth hon trwy gydweithrediad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr trwy'r Bwrdd Cyflenwi Integredig. Pwrpas y Bwrdd Cyflenwi yw sicrhau y caiff anghenion iechyd a gofal pobl Ynys Môn eu gwasanaethu'n well trwy integreiddio gwasanaethau iechyd a'r awdurdodau lleol yn well. Model Môn yw cangen weithredol y Bwrdd Cyflenwi, gyda chyfrifoldeb am gyflawni'r Rhaglen Waith fanwl.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu'r Gronfa Gofal Integredig ar Ynys Môn. Ymhlith y meysydd a dargedir yn benodol mae gwasanaethau ar gyfer oedolion hŷn, pobl ifanc a phlant ag anghenion cymhleth a **System Gwybodaeth Gofal Cyfathrebu Cymru (WCCIS).** Gwariwyd arian y Gronfa Gofal Integredig ar ddatblygu Garreglwyd fel cartref arbenigol sy'n cefnogi pobl hŷn sy'n byw gyda dementia, gwasanaethau Gofal Uwch a Thylluanod y Nos Môn o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Mae disgwyliadau Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn parhau i wreiddio ei arferion gwaith ymhlith gwasanaethau ac mae'r **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** sefydledig yn goruchwylio ac yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i greu dyfodol gwell i bobl Cymru.

Rydym yn parhau i ddatblygu gwaith ymgynghori a gweithio agos mewn partneriaeth gyda'r Trydydd Sector trwy'r **Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol,** sy'n cyfarfod bob chwarter. Rydym yn cydnabod rôl y Trydydd Sector yn lleol fel partner strategol ac wedi datblygu trefniadau llywodraethu priodol i gefnogi hyn e.e. rôl Medrwn Môn ar Grŵp Gweithredol Model Môn, Bwrdd OPUS (prosiect a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd) a'r Bwrdd Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae'r grŵp partneriaeth trydydd sector sydd wedi hen ennill ei blwyf yn aeddfedu ac yn parhau i gael y dasg o gyflawni yn erbyn amcanion y Cyngor a sicrhau y cedwir at dechnegau ymgysylltu ac ymgynghori priodol o ran datblygu strategaethau a gwaith trawsnewid ar draws y gwahanol sefydliadau.

**Perfformiad**

Mae fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor wedi'i wreiddio yn ei drefniadau llywodraethu blynyddol. Mae'r fframwaith hwn wedi'i fabwysiadu i sicrhau bod meddylfryd o welliant parhaus wedi'i wreiddio yng ngwaith y Cyngor, ac y gallai ei waith monitro nodi materion cyn tanberfformio, rhywbeth a fyddai'n cael effaith ar ddarparu gwasanaeth i'r dinesydd. Gwneir hyn bob chwarter trwy gerdyn sgorio corfforaethol a gwaith dau fwrdd rhaglen trawsnewid corfforaethol.


Mae'r arferion hyn yn parhau i weld gwelliannau mewn nifer o ddangosyddion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol, gyda llwyddiant arbennig i'w weld ym mherfformiad dangosyddion sy'n gysylltiedig â'r gofal a ddarperir i Oedolion. Mae dangosyddion perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd hefyd wedi gwella a chyda pharhad yng ngwaith canolbwyntio'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol diwygiedig, rhagwelir y bydd rhagor o welliannau o ran perfformiad a chysondeb ymarfer oedd yn flaenoriaethau ar gyfer 2019-20. Y cafeat a allai, yn amlwg, gael effaith ar gyfeiriad hyn oll yw effaith Covid-19 ymhlith ein cymunedau. Er mwyn lliniaru hyn, mae strwythurau a systemau brys wedi'u mabwysiadu ac yn cael eu harwain gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.



Mae gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth newydd a diwygiedig a benodwyd yn ystod y flwyddyn Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Weithredwr newydd ac mae'n cynnwys yr unigolion a ganlyn –

- Y Prif Weithredwr
- Y Dirprwy Brif Weithredwr
- Y Cyfarwyddwr Cyllid a Swyddog Adran 151
- Y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc

# Cyngor Sir ynys Môn
## Strwythyr yr Uwch Dîm Rheoli / Pennaethiaid Gwasanaeth




Tudalen 291

Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HB

Cysylltwch â ni ar:
Ffôn: 01248 751887
E-bost: EmmaEdwards@ynysmon.gov.uk